# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Ionawr 2021

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.TV**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.30-10.00)**

Penderfynodd y Pwyllgor ar 11 Ionawr 2021 i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 17.42.

## 1 Briffio technegol ar y rheoliadau dyletswydd economaidd-gymdeithasol sydd ar ddod

10.00-10.30 (Tudalennau 1 - 9)

Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cymunedau, Llywodraeth Cymru

Shane Williams, Adran Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru

Jodie Woodward, Tîm Cyfreithwyr Tai, Cydraddoldeb ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

**CLA(5)-02-21 – Papur briffio gan Lywodraeth Cymru**

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10.30

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

10.30-10.35 (Tudalen 10)

**CLA(5)-02-21 – Papur 1** – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**3.1 SL(5)712 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020**

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10.35-10.40

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**4.1 SL(5)695 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020**

(Tudalennau 11 - 52)

**CLA(5)-02-21 – Papur 2** – Adroddiad

**CLA(5)-02-21 – Papur 3** – Rheoliadau

**CLA(5)-02-21 – Papur 4** – Memorandwm Esboniadol

**4.2 SL(5)700 – Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 53 - 74)

**CLA(5)-02-21 – Papur 5** – Adroddiad

**CLA(5)-02-21 – Papur 6** – Rheoliadau

**CLA(5)-02-21 – Papur 7** – Memorandwm Esboniadol

**4.3 SL(5)701 – Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 75 - 103)

**CLA(5)-02-21 – Papur 8** – Adroddiad

**CLA(5)-02-21 – Papur 9** – Gorchymyn

**CLA(5)-02-21 – Papur 10** – Memorandwm Esboniadol

4.4 **SL(5)716 – Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

(Tudalennau 104 – 115)

**CLA(5)-02-21 – Papur 11** – Adroddiad

**CLA(5)-02-21 – Papur 12** – Rheoliadau

**CLA(5)-02-21 – Papur 13** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-02-21 – Papur 14** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 5 Ionawr 2021

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

4.5 **SL(5)714 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 116 – 135)

**CLA(5)-02-21 – Papur 15** – Adroddiad

**CLA(5)-02-21 – Papur 16** – Rheoliadau

**CLA(5)-02-21 – Papur 17** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-02-21 – Papur 18** – Llythyr gan Weinidog Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 23 Rhagfyr 2020

4.6 **SL(5)718 – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

(Tudalennau 136 – 156)

**CLA(5)-02-21 – Papur 19** – Adroddiad

**CLA(5)-02-21 – Papur 20** – Rheoliadau

**CLA(5)-02-21 – Papur 21** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-01-21 – Papur 22** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 6 Ionawr 2021

**CLA(5)-01-21 – Papur 23** – Datganiad ysgrifenedig, 8 Ionawr 2021

4.7 **SL(5)719 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 157 – 180)

**CLA(5)-02-21 – Papur 24** – Adroddiad

**CLA(5)-02-21 – Papur 25** – Rheoliadau

**CLA(5)-02-21 – Papur 26** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-01-21 – Papur 27** – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Ionawr 2021

**CLA(5)-01-21 – Papur 28** – Datganiad ysgrifenedig, 7 Ionawr 2021

### 4.8 SL(5)720 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021

(Tudalennau 181 - 197)

**CLA(5)-01-21 – Papur 29** – Adroddiad

**CLA(5)-01-21 – Papur 30** – Gorchymyn

**CLA(5)-01-21 – Papur 31** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-01-21 – Papur 32** –Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 7 Ionawr 2021

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

10.40-10.45

### 5.1 SL(5)691 – Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020

(Tudalennau 198 - 200)

**CLA(5)-01-21 – Papur 33** – Adroddiad

**CLA(5)-01-21 – Papur 34** – Ymateb Llywodraeth Cymru

### 5.2 SL(5)692 – Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020

(Tudalennau 201 - 203)

**CLA(5)-01-21 – Papur 35** – Adroddiad

**CLA(5)-01-21 – Papur 36** – Ymateb Llywodraeth Cymru

### 5.3 SL(5)708 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020

(Tudalennau 204 - 208)

**CLA(5)-02-21 – Papur 37** – Adroddiad

**CLA(5)-02-21 – Papur 38** – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7

10.45-10.50

**6.1 SL(5)704 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020**

(Tudalennau 209 – 241)

**CLA(5)-02-21 – Papur 39** – Adroddiad

**CLA(5)-02-21 – Papur 40** – Cod Ymarfer

**CLA(5)-02-21 – Papur 41** – Memorandwm Esboniadol

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

10.50-10.55

**7.1 WS-30C(5)211 – Rheoliadau'r Fframwaith ar gyfer Llif Rhydd Data Nad Ydynt yn Ddata Personol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2021**

(Tudalennau 242 – 247)

**CLA(5)-02-21 – Papur 42** – Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-02-21 – Papur 43** – Sylwebaeth

**7.2 WS-30C(5)212 – Rheoliadau Cludo Gwastraff Rhyngwladol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021**

(Tudalennau 248 – 252)

**CLA(5)-02-21 – Papur 44** – Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-02-21 – Papur 45** – Sylwebaeth

**7.3 WS-30C(5)213 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020**

(Tudalennau 253 – 260)

**CLA(5)-02-21 – Papur 46** – Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-02-21 – Papur 47** – Sylwebaeth

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach

10.55-11.00 (Tudalennau 261 - 271)

**CLA(5)-02-21 – Papur 48** – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

**CLA(5)-02-21 – Papur 49** – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 11 Ionawr 2021

**CLA(5)-02-21 – Papur 50** – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 13 Ionawr 2021

## 9 Papurau i'w nodi

11.00-11.05

### 9.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Addysg: Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

(Tudalennau 272 - 309)

**CLA(5)-02-21 – Papur 51** – Llythyr gan y Gweinidog Addysg, 11 Ionawr 2021

**CLA(5)-02-21 – Papur 52** – Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2021

**CLA(5)-02-21 – Papur 53** – Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Ionawr 2021

### 9.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

(Tudalennau 310 - 312)

**CLA(5)-02-21 – Papur 54** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 13 Ionawr 2021

**CLA(5)-02-21 – Papur 55** – Llythyr at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 21 Rhagfyr 2020

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11.05

## 11 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 - y wybodaeth ddiweddaraf

11.05-11.10 (Tudalen 313)

**CLA(5)-02-21 – Papur 56** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, 8 Ionawr 2021

## 12 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020

11.10-11.25 (Tudalennau 314 - 323)

**CLA(5)-02-21 – Papur 57** – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**CLA(5)-02-21 – Papur 58** – Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## Dyddiad y cyfarfod nesaf - 25 Ionawr 2021

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

## Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
## 18 Ionawr 2021

## SL(5)712 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Diwygiodd Rheoliadau 2020 Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005, o dan amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws, er mwyn caniatáu— (a) panelau apêl a chanddynt ddau aelod, a (b) i banelau apêl gynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig. Mae Rheoliad 2(2) yn nodi y bydd Rheoliadau 2020 yn peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021. Prif effaith rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yw diwygio'r dyddiad 31 Ionawr 2021 yn Rheoliadau 2020 i 30 Medi 2021. Golyga hyn fod y diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2020 yn parhau i gael effaith tan 30 Medi 2021.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
**Fe'u gwnaed ar:** 18 Rhagfyr 2020
**Fe'u gosodwyd ar:** 22 Rhagfyr 2020
**Yn dod i rym ar:** 30 Ionawr 2021

# SL(5)695 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio:

- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006,
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, a
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016.

Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi mewn perthynas â:

- mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu sy'n cael ei fwydo iddynt (gweler Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 2) 2005/1971);
- mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd (gweler Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 2) 2008/1792); a
- mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd (gweler Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 5) 2010/2690).

Mae'r Rheoliadau'n caniatáu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliadau Gweithredu a Dirprwyedig yr Undeb Ewropeaidd ("deddfwriaeth drydyddol yr UE") ymhellach a wneir o dan Reoliad (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso ("y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol").

Galluogwyd gweithredu a gorfodi'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol a deddfwriaeth drydyddol yr UE a gyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd erbyn mis Tachwedd 2019 drwy Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 ("Rheoliadau 2019"). Roedd y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2019 hefyd yn cynnwys pecyn o ddeddfwriaeth drydyddol yr UE (Rheoliadau Gweithredu a Dirprwyedig), a wnaed o dan y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol. Nodwyd ar y pryd na fyddai deddfwriaeth drydyddol ychwanegol yr UE a oedd yn cael ei pharatoi gan yr UE yn cael ei chyhoeddi mewn pryd i gynnwys darpariaethau sy'n rhoi effaith i'r ddeddfwriaeth honno yn Rheoliadau 2019 pe bai'r Rheoliadau hynny yn dod i rym erbyn y

dyddiad cau, sef 14 Rhagfyr 2019 – y dyddiad y daeth y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol i rym.

Mae'r Rheoliadau yn nodi deddfwriaeth drydyddol ychwanegol yr UE sydd ar y rhestrau o ddeddfwriaeth a nodir yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, ac maent yn gwneud rhai newidiadau canlyniadol. Mae'r ddeddfwriaeth drydyddol hon yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cymhwyso'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol mewn meysydd penodol, fel pa mor aml a sut i gymhwyso gwiriadau ffisegol i lwythi bwyd neu fwyd anifeiliaid mewn porthladdoedd a rhai o'r rheolau ar gyfer gweithredu pellach sy'n ofynnol ar ôl cwblhau'r gwiriadau hyn.

Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth drydyddol, nodwyd rhai gwallau/hepgoriadau cyfyngedig yn y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2019 y mae angen eu cywiro. Mae angen y cywiriadau gofynnol hyn i sicrhau bod y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yn cael eu gweithredu'n briodol mewn perthynas â Chymru a bydd y Rheoliadau yn diwygio'r offerynnau perthnasol i ddarparu ar gyfer gorfodi'r ddeddfwriaeth drydyddol a chywiro'r gwallau a'r hepgoriadau hyn yn Rheoliadau 2019.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Mae cyfeiriadau at reoliadau penodol o dan y pwynt hwn yn cyfeirio at destun Cymraeg y rheoliadau.

Nid yw'n ymddangos bod y cyfeiriad yn rheoliad 2(2)(a)(ii) at destun sydd i'w hepgor o reoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") yn gywir. Ni allwn weld diffiniad sy'n dechrau *"ystyr "Cyfarwyddeb 2004/41""* yn rheoliad 2 o Reoliadau 2006. Credwn y dylai rheoliad 2(2)(a)(ii) gyfeirio at y diffiniad sy'n dechrau *"mae i "Cyfarwyddeb 2004/41""* (ychwanegwyd y pwyslais).

Yn yr un modd, nid yw'n ymddangos bod y cyfeiriad yn rheoliad 3(2)(a)(i) yn gywir. Ni allwn weld diffiniad sy'n dechrau *"ystyr "Penderfyniad 2007/275""* yn rheoliad 2 o Reoliadau

Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Credwn y dylai rheoliad 3(2)(a)(i) gyfeirio at y diffiniad sy'n dechrau *""mae i "Cyfarwyddeb 2004/41""* (ychwanegwyd y pwyslais).

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Yn nhestun Saesneg y Rheoliadau, yn y tabl a fewnosodir gan Atodlen 5 (yn lle Atodlen 6 i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009), nid yw'r paragraff yn y golofn gynnwys ar gyfer Erthygl 6(4) o Reoliad 2019/2123 yn pennu mai'r gweithredwr yw'r gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth ("responsible for the consignments"), fel sy'n wir yn y testun Cymraeg ac mewn mannau eraill yn y tabl.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**8 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1487 (Cy. 317)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ym maes diogelwch a hylendid bwyd anifeiliaid a bwyd er mwyn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.

Mae rheoliad 2 yn disodli ac yn diweddaru'r rhestr o Reoliadau'r UE a nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/31 (Cy. 5)), ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i'r rhestr a ddiweddarwyd.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (O.S. 2009/3376 (Cy. 298)).

- Mae paragraffau (2) ac (8) yn disodli ac yn diweddaru'r rhestr o Reoliadau'r UE a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny, ac yn gwneud diwygiadau cysylltiedig a chanlyniadol o ganlyniad i'r rhestr a ddiweddwyd.
- Mae paragraff (3) yn rhoi diffiniad diwygiedig o "cynnyrch" yn lle'r un blaenorol yn rheoliad 22. Mae paragraff (4) yn gwneud diwygiad canlyniadol o ganlyniad i'r diffiniad diwygiedig.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- Mae paragraff (5) yn diwygio rheoliad 36 i wneud darpariaeth ar gyfer talu costau rheolaethau swyddogol o dan Erthygl 79(2)(a) o Reoliad 2017/625 mewn cysylltiad â Rhan 3. Mae paragraff (7) yn mewnosod rheoliad 42A newydd yn Rhan 4 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu costau rheolaethau swyddogol o dan Erthygl 79(2)(c) o Reoliad 2017/625.
- Mae paragraff (6) yn diwygio rheoliad 41(1A) i ddisodli'r cyfeiriad at Erthygl 3 o Reoliad (EU) Rhif 211/2013, a ddiddymwyd ac a ddisodlwyd gan Reoliadau (EU) 2019/625 a 2019/628 (rhan o'r pecyn o Reoliadau a wnaed o dan Reoliad (EU) 2017/625).
- Mae paragraffau (9) a (10) yn rhoi Atodlenni 4 a 5 newydd, yn y drefn honno, yn lle'r rhai blaenorol i gywiro gwallau yn yr Atodlenni presennol.
- Mae paragraff (11) yn rhoi Atodlen 6 newydd yn lle'r un flaenorol i ddiweddaru'r rhestr o 'darpariaethau mewnforio penodedig'.

Mae rheoliad 4 yn diweddaru cyfeiriadau at offerynnau'r UE yn Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/387 (Cy. 121)). Yn benodol, mae'n disodli cyfeiriadau at Reoliad (EC) Rhif 882/2004 a Rheoliad (EC) Rhif 669/2009, sydd yn ôl eu trefn wedi eu diddymu a'u disodli gan Reoliad (EU) 2017/625 a Rheoliad (EU) 2019/1793.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1487 (Cy. 317)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *10 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**), a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau mewn

(**1**) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael. Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A drwy gyfeirio at yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020 (31 Rhagfyr 2020 am 11 pm). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol hefyd gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cysylltiad â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, neu sy'n cael ei fwydo i anifeiliaid o'r fath(**1**), mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd(**2**), a mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(**3**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at offerynnau'r UE a fewnosodir yn yr offerynnau statudol y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau UE hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**4**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2020.

---

(**1**) O.S. 2005/1971, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/2766. Mae'r swyddogaethau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi. Nid yw'r dynodiad yn estyn i fesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol (gan gynnwys rheolyddion twf) na chynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ac eithrio sefydlogyddion, neu sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd. Mae O.S. 2005/1971 wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(**2**) O.S. 2008/1792, sydd wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(**3**) O.S. 2010/2690. Nid yw'r dynodiad yn estyn i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd, sylweddau gwella treuliadwyedd, neu sefydlogyddion fflora'r perfedd. Mae O.S. 2010/2690 wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(**4**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2019/1243 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 198, 25.7.2019, t. 241).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad o "Rheoliadau'r Gymuned" ("*the Community Regulations*"), yn lle ", Rheoliad 2017/625 a phecyn Rheoliad 2017/625" rhodder "a phecyn Rheoliad 2017/625";

(ii) hepgorer y diffiniad sy'n dechrau ag "ystyr "Cyfarwyddeb 2004/41"";

(iii) yn lle'r diffiniad o "Pecyn Rheoliad 2017/625" rhodder—

"ystyr "Pecyn Rheoliad 2017/625" ("*the Regulation 2017/625 package*") yw Rheoliad 2017/625 a'r Rheoliadau eraill a restrir yn Atodlen 1 o dan y pennawd "Pecyn Rheoliad 2017/625";"

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Mae i unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Reoliad 2017/625 neu unrhyw Gyfarwyddeb neu Reoliad arall y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn yr Atodlen honno."

(3) Yn lle Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth yr UE) rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer y diffiniad sy'n dechrau â "ystyr "Penderfyniad 2007/275"";

(ii) yn y diffiniad o "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol", yn lle "Rheoliad 2017/625 neu becyn Rheoliad 2017/625" rhodder "phecyn Rheoliad 2017/625";

(**1**) O.S. 2006/31 (Cy. 5), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1482; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2009/3376 (Cy. 298), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, 2019/1482 (Cy. 266); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iii) yn lle'r diffiniad o "pecyn Rheoliad 2017/625" rhodder—

"ystyr "pecyn Rheoliad 2017/625" ("*the Regulation 2017/625 package*") yw Rheoliad 2017/625 a'r Rheoliadau eraill a restrir yn Atodlen 1 o dan y pennawd "Pecyn Rheoliad 2017/265";";

(b) ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

"(1A) Mae i unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Reoliad 2017/625 neu unrhyw Gyfarwyddeb neu Reoliad arall y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn yr Atodlen honno."

(c) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Onid yw'n ymddangos bod bwriad i'r gwrthwyneb, mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 178/2002 neu ym mhecyn Rheoliad 2017/625 yr ystyr a roddir i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw yn Rheoliad 178/2002 neu ym mhecyn Rheoliad 2017/625 yn ôl y digwydd."

(3) Yn rheoliad 22 (dehongli Rhan 3)—

(a) yn lle'r diffiniad o "cynnyrch" rhodder—

"ystyr "cynnyrch" ("*product*") yw bwyd anifeiliaid a bwyd nad ydynt yn dod o anifeiliaid y mae eu mewnforio wedi eu rheoleiddio gan Erthygl 44 neu Erthygl 47(1)(d), (e) neu (f) o Reoliad 2017/625 ac mae'n cynnwys y cynhyrchion a'r bwydydd cyfansawdd hynny nad ydynt wedi eu rhestru ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC ynghylch rhestrau o gynhyrchion cyfansawdd sydd i fod yn ddarostyngedig i reolaethau mewn safleoedd rheoli ar y ffin(**1**);";

(b) yn y diffiniad o "darpariaeth fewnforio benodedig", hepgorer "yn Rheoliad 2017/625 neu".

(4) Yn rheoliad 29 (gwirio cynhyrchion), yn lle "a 45(1), (2) a (4)", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder ", 45(1), (2) a (4), a 49(1)".

(5) Yn rheoliad 36(2) (costau a ffioedd) ar ôl "y cyfeirir atynt yn", mewnosoder "Erthygl 79(2)(a) ac".

---

(**1**) OJ Rhif L 116, 4.5.2007, t. 9, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2007 dyddiedig 18 Tachwedd 2019 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y rhestrau o anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion eginol, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid a gwair a gwellt sy'n ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin (OJ Rhif L 312, 3.12.19, t. 1).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(6) Yn rheoliad 41(1A) (tramgwyddau a chosbau), yn lle'r geiriau o "Erthygl 3" hyd at "cynhyrchu egin", rhodder "Erthygl 13 o Reoliad 2019/625, i'r graddau y mae'n ymwneud â egin a hadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer cynhyrchu egin, fel y'i darllenir gydag Erthygl 27 o Reoliad 2019/628".

(7) Yn Rhan 4 (adennill treuliau), yn y lle priodol mewnosoder—

> **"Ffioedd neu daliadau sy'n deillio o reolaethau swyddogol anghynlluniedig**
>
> **42A.** Rhaid i ffioedd neu daliadau a osodir gan awdurdod cymwys ar weithredydd yn unol ag Erthygl 79(2)(c) o Reoliad 2017/625 gael eu talu gan y gweithredydd ar archiad ysgrifenedig yr awdurdod cymwys."

(8) Yn lle Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth yr UE) rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(9) Yn lle Atodlen 4 (awdurdodau cymwys at ddibenion darpariaethau penodol yn Rheoliad 2017/625 i'r graddau y maent yn gymwys o ran cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol) rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

(10) Yn lle Atodlen 5 (awdurdodau cymwys at ddibenion darpariaethau penodol yn Rheoliad 2017/625 i'r graddau y maent yn gymwys o ran cyfraith bwyd berthnasol) rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn.

(11) Yn lle Atodlen 6 (darpariaethau mewnforio penodedig) rhodder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 5 i'r Rheoliadau hyn.

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli a chwmpas)—

(a) ym mharagraff (1)

(i) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad 882/2004";

(ii) yn y lleoedd priodol, mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

"ystyr "Rheoliad 2017/625" ("*Regulation 2017/625*") yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol

(**1**) O.S. 2016/387 (Cy. 121), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/40 (Cy. 12), 2018/806 (Cy. 162) a 2019/1482 (Cy. 266).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (**1**);"

"ystyr "Rheoliad 2019/1793" ("*Regulation 2019/1793*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793 ar gynyddu dros dro reolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n rheoli mynediad i'r Undeb i nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol(**2**);"

(b) ym mharagraff (2), yn lle "Rheoliad 882/2004, Rheoliad 183/2005 neu Reoliad 152/2009", rhodder "Rheoliad 183/2005, Rheoliad 152/2009 a Rheoliad 2017/625".

(3) Yn rheoliad 19 (dadansoddiad ac eithrio yng nghwrs rheolaethau swyddogol), yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Mewn achosion pan nad oes dull priodol o ddadansoddi yn Rheoliad 152/2009, rhaid cyflawni'r dadansoddiad yn y modd y cyfeirir ato yn Erthygl 34(1) a (2) o Reoliad 2017/625 fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2019/1793."

(4) Yn Atodlen 1 (cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig), yn y tabl—

(a) hepgorer y cofnodion ar gyfer Rheoliad 882/2004 ac ar gyfer Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 669/2009;

(b) yn y lleoedd priodol, mewnosoder y cofnodion a ganlyn—

"Rheoliad 2017/625 i'r graddau y mae'n ymwneud â bwyd anifeiliaid"

"Rheoliad 2019/1793 i'r graddau y mae'n ymwneud â bwyd anifeiliaid".

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg,
un o Weinidogion Cymru
8 Rhagfyr 2020

(**1**) OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2127 dyddiedig 10 Hydref 2019 sy'n diwygio Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran dyddiad cymhwyso darpariaethau penodol Cyfarwyddebau'r Cyngor 91/496/EEC, 97/78/EC a 2000/29/EC (OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 111).

(**2**) OJ L 277, 29.10.2019, t. 89, fel y'i diwygwyd ddiweddaf gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1540 dyddiedig 22 Hydref 2020 mewn perthynas â hadau *sesamum* sydd yn tarddu o India (OJ Rhif L 353, 23.10.20, t. 4).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 1 Rheoliad 2(3)

## Yr Atodlen i'w rhoi yn lle Atodlen 1 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

# "ATODLEN 1 Rheoliad 2(1A)

## DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/41" yw Cyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diddymu Cyfarwyddebau penodol ynglŷn â hylendid bwyd ac amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu a rhoi ar y farchnad gynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl ac sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/662/EEC a 92/118/EEC a Phenderfyniad y Cyngor 95/408/EC(**1**);

ystyr "Rheoliad 178/2002" yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), fel y'i darllenir gyda Rheoliad 931/2011 a Rheoliad 208/2013;

ystyr "Rheoliad 852/2004" yw Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid bwydydd(**3**) fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2073/2005 a Rheoliad 210/2013;

ystyr "Rheoliad 853/2004" yw Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**4**) fel y'i darllenir gyda

(**1**) OJ Rhif L 157, 30.4.2004, t. 33. Mae testun diwygiedig Cyfarwyddeb 2004/41/EC wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 195, 2.6.2004, t. 12).

(**2**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1.

(**3**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 1. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 226, 25.6.2004, t. 3) y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L 204, 4.8.2007, t. 26).

(**4**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 55. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 226, 25.6.2004, t. 22), y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L 204, 4.8.2007, t. 26).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 1688/2005, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2017/185;

ystyr "Rheoliad 1688/2005" yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1688/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gwarantau arbennig ynghylch salmonela ar gyfer llwythi o gig ac wyau penodol i'r Ffindir a Sweden(**1**);

ystyr "Rheoliad 2073/2005" yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd(**2**);

ystyr "Rheoliad 2074/2005" yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n rhanddirymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**3**);

ystyr "Rheoliad 931/2011" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 931/2011 ar y gofynion olrheiniadwyedd a osodir gan Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**4**);

ystyr "Rheoliad 1169/2011" yw Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 1924/2006 ac (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004(**5**);

ystyr "Rheoliad 208/2013" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 208/2013 ar ofynion olrheiniadwyedd ar gyfer egin a hadau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu egin(**6**);

---

(**1**) OJ Rhif L 271, 15.10.2005, t. 17.
(**2**) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 1, fel y'i darllenir gyda'r Corigenda yn OJ Rhif L 278, 10.10.2006, t. 32 ac OJ Rhif L 283, 14.10.2006, t. 62.
(**3**) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 27.
(**4**) OJ Rhif L 242, 20.9.2011, t. 2.
(**5**) OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t. 18.
(**6**) OJ Rhif L 68, 12.3.2013, t. 16.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr “Rheoliad 210/2013” yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy’n cynhyrchu egin yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor(**1**);

ystyr “Rheoliad 579/2014” yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 579/2014 sy’n caniatáu rhanddirymu darpariaethau penodol yn Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran cludo olewau hylifol a brasterau hylifol dros y môr(**2**);

ystyr “Rheoliad 2015/1375” yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/1375 sy’n gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig(**3**);

ystyr “Rheoliad 2017/185” yw Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/185 sy’n gosod mesurau trosiannol ar gyfer cymhwyso darpariaethau penodol yn Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor(**4**);

**Pecyn Rheoliad 2017/625**

ystyr “Rheoliad 2017/625” yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, sy’n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 999/2001, (EC) Rhif 396/2005, (EC) Rhif 1069/2009, (EC) Rhif 1107/2009, (EU) Rhif 1151/2012, (EU) Rhif 652/2014, (EU) 2016/429 ac (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a’r Cyngor, Rheoliadau’r Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ac (EC) Rhif 1099/2009 a Chyfarwyddebau’r Cyngor 98/58/EC, 1999/74/EC, 2007/43/EC, 2008/119/EC a 2008/120/EC, ac sy’n diddymu Rheoliadau (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor, Cyfarwyddebau’r Cyngor 89/608/EEC, 89/662/EEC, 90/425/EEC, 91/496/EEC, 96/23/EC, 96/93/EC a 97/78/EC a Phenderfyniad y Cyngor 92/438/EEC(**5**) fel y’i darllenir gyda Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2017/185 a phecyn Rheoliad 2017/625;

(**1**) OJ Rhif L 68, 12.3.2013, t. 24.
(**2**) OJ Rhif L 160, 29.5.2014, t. 14.
(**3**) OJ Rhif L 212, 11.8.2015, t. 7.
(**4**) OJ Rhif L 29, 3.2.2017, t. 21.
(**5**) OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "Rheoliad 2019/478" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/478 sy'n diwygio Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y categorïau o lwythi sydd i fod yn ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin(**1**);

ystyr "Rheoliad 2019/624" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/624 ynghylch rheolau penodol ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchu cig ac ar gyfer ardaloedd cynhyrchu ac ailddodi molysgiaid dwygragennog byw yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**2**);

ystyr "Rheoliad 2019/625" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/625 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gofynion ar gyfer mynediad i'r Undeb i lwythi o anifeiliaid a nwyddau penodol a fwriedir i'w bwyta gan bobl(**3**);

ystyr "Rheoliad 2019/626" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/626 ynghylch rhestrau o drydydd gwledydd neu ranbarthau o'r trydydd gwledydd hynny sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer mynediad i anifeiliaid a nwyddau penodol a fwriedir i'w bwyta gan bobl i'r Undeb Ewropeaidd, sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/759 o ran y rhestrau hyn(**4**);

ystyr "Rheoliad 2019/627" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/627 sy'n gosod trefniadau ymarferol unffurf ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir i'w bwyta gan bobl yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac sy'n diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol(**5**);

ystyr "Rheoliad 2019/628" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/628 ynghylch tystysgrifau swyddogol enghreifftiol ar gyfer anifeiliaid a nwyddau penodol ac sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 a Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/759 o ran y tystysgrifau enghreifftiol hyn(**6**);

ystyr "Rheoliad 2019/1012" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1012 sy'n

(**1**) OJ Rhif L 82, 25.3.2019, t. 4.
(**2**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 1.
(**3**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 18.
(**4**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 31.
(**5**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 51.
(**6**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 101.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor drwy randdirymu'r rheolau ar gyfer dynodi pwyntiau rheoli a'r isafswm gofynion ar gyfer safleoedd rheoli ar y ffin(**1**);

ystyr "Rheoliad 2019/1013" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1013 ar hysbysu ymlaen llaw am lwythi o gategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i mewn i'r Undeb(**2**);

ystyr "Rheoliad 2019/1014" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1014 i osod rheolau manwl ar gyfer yr isafswm gofynion ar gyfer safleoedd rheoli ar y ffin, gan gynnwys canolfannau arolygu, ac ar gyfer y fformat, y categorïau a'r byrfoddau i'w defnyddio wrth restru safleoedd rheoli ar y ffin a phwyntiau rheoli(**3**);

ystyr "Rheoliad 2019/1081" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1081 sy'n sefydlu rheolau ar ofynion hyfforddi penodol ar gyfer staff er mwyn cyflawni gwiriadau ffisegol penodol mewn safleoedd rheoli ar y ffin(**4**);

ystyr "Rheoliad 2019/1602" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1602 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y Ddogfen Fynediad Iechyd Gyffredin sy'n mynd gyda llwythi o anifeiliaid a nwyddau i'w cyrchfan(**5**);

ystyr "Rheoliad 2019/1666" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1666 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran yr amodau ar gyfer monitro cludiant a chyrhaeddiad llwythi o nwyddau penodol o'r safle rheoli ar y ffin lle y cyraeddasant i'r sefydliad yn y gyrchfan yn yr Undeb(**6**);

ystyr "Rheoliad 2019/1715" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1715 sy'n gosod rheolau ar gyfer gweithrediad y system rheoli gwybodaeth ar gyfer rheolaethau swyddogol a chydrannau ei system(**7**);

ystyr "Rheoliad 2019/1793" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793 ar gynyddu dros dro reolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n rheoli mynediad i'r Undeb i

(**1**) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 4.
(**2**) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 8.
(**3**) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 10.
(**4**) OJ Rhif L 171, 26.6.2019, t. 1.
(**5**) OJ Rhif L 250, 30.9.2019, t. 6.
(**6**) OJ Rhif L 255, 4.10.2019, t. 1.
(**7**) OJ Rhif L 261, 14.10.2019, t. 37.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol sy'n gweithredu Rheoliadau (EU) 2017/625 ac (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diddymu Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 669/2009, (EU) Rhif 884/2014, (EU) 2015/175, (EU) 2017/186 ac (EU) 2018/1660(**1**);

ystyr "Rheoliad 2019/1873" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1873 ar y gweithdrefnau mewn safleoedd rheoli ar y ffin ar gyfer cyflawni gan awdurdodau cymwys mewn modd cydgysylltiedig reolaethau swyddogol dwysach ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion eginol, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion cyfansawdd(**2**)."

ystyr "Rheoliad 2019/2007" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2007 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y rhestrau o anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion eginol, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid a gwair a gwellt sy'n ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin ac yn diwygio Penderfyniad 2007/275/EC(**3**);

ystyr "Rheoliad 2019/2074" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2074 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ynghylch rheolaethau swyddogol penodol ar lwythi o anifeiliaid a nwyddau penodol sy'n tarddu o'r Undeb, ac yn dychwelyd i'r Undeb yn dilyn gwrthod mynediad gan drydedd wlad(**4**);

ystyr "Rheoliad 2019/2122" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2122 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran categorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau a esemptir o reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin, rheolaethau penodol ar fagiau personol teithwyr ac ar lwythi bach o nwyddau anfonir at bobl naturiol na fwriedir eu rhoi ar y farchnad, ac yn diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011(**5**);

ystyr "Rheoliad 2019/2123" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2123 sy'n

---

(**1**) OJ Rhif L 277, 29.10.2019, t. 89.
(**2**) OJ Rhif L 289, 8.11.2019, t. 50.
(**3**) OJ Rhif L 312, 3.12.2019, t. 1.
(**4**) OJ Rhif L 316, 6.12.2019, t. 6.
(**5**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 45.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cygngor o ran rheolau ar gyfer yr achosion lle y caniateir cyflawni gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar nwyddau penodol mewn pwyntiau rheoli ac y caniateir cynnal gwiriadau dogfennol o bell o safleoedd rheoli ar y ffin, a'r amodau y cynhelir y gwiriadau hynny oddi tanynt(**1**);

ystyr "Rheoliad 2019/2124" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2124 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer rheolaethau swyddogol ar lwythi o anifeiliaid a nwyddau sy'n cael eu cludo, eu trawslwytho a'u cludo ymlaen drwy'r Undeb, ac yn diwygio Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 798/2008, (EC) Rhif 1251/2008, (EC) Rhif 119/2009, (EU) Rhif 206/2010, (EU) Rhif 605/2010, (EU) Rhif 142/2011, (EU) Rhif 28/2012, Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/759 a Phenderfyniad y Comisiwn 2007/777/EC(**2**);

ystyr "Rheoliad 2019/2126" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2126 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer rheolaethau swyddogol penodol ar gategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau, mesurau i'w cymryd yn dilyn cyflawni'r rheolaethau hynny a chategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau a esemptir o reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin(**3**);

ystyr "Rheoliad 2019/2129" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2129 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer cymhwyso cyfraddau amlder unffurf ar gyfer gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar lwythi penodol o anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i'r Undeb(**4**);

ystyr "Rheoliad 2019/2130" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2130 sy'n sefydlu rheolau manwl ar y gweithrediadau i'w cyflawni yn ystod, ac ar ôl, gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar anifeiliaid a nwyddau sy'n ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin(**5**);

ystyr "Rheoliad 2020/466" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/466 ar fesurau dros dro i atal risgiau i iechyd dynol,

(**1**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 64.
(**2**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 73.
(**3**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 104.
(**4**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 122.
(**5**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 128.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

iechyd anifeiliaid ac iechyd planhigion a lles anifeiliaid yn ystod tarfu difrifol penodol ar systemau rheoli Aelod-wladwriaethau oherwydd clefyd y coronafeirws(**1**);

ystyr "Rheoliad 2020/1158" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1158 ar yr amodau sy'n llywodraethu mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n tarddu o drydedd wledydd yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf bŵer niwclear Chernobyl(**2**)."

## ATODLEN 2 Rheoliad 3(8)

## Yr Atodlen i'w rhoi yn lle Atodlen 1 i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

## "ATODLEN 1 Rheoliad 2(1A)

## DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/41" yw Cyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diddymu Cyfarwyddebau penodol ynglŷn â hylendid bwyd ac amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu a rhoi ar y farchnad gynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl ac sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/662/EEC a 92/118/EEC a Phenderfyniad y Cyngor 95/408/EC(**3**);

ystyr "Rheoliad 999/2001" yw Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a difodi enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol(**4**);

ystyr "Rheoliad 178/2002" yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**5**);

---

(**1**) OJ Rhif L 98, 31.3.2020, t. 30.
(**2**) OJ Rhif L 257, 6.8.2020, t. 1.
(**3**) OJ Rhif L 157, 30.4.2004, t. 33. Mae testun diwygiedig Cyfarwyddeb 2004/41/EC wedi ei nodi bellach mewn Corigendwm (OJ Rhif L 195, 2.6.2004, t. 12).
(**4**) OJ Rhif L 157, 30.4.2004, t. 33.
(**5**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "Rheoliad 852/2004" yw Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid bwydydd(**1**) fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2073/2005;

ystyr "Rheoliad 853/2004" yw Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**2**) fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 1688/2005 a Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2017/185;

ystyr "Rheoliad 1688/2005" yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1688/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gwarantau arbennig ynghylch salmonela ar gyfer llwythi o gig ac wyau penodol i'r Ffindir a Sweden(**3**);

ystyr "Rheoliad 2073/2005" yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd(**4**);

ystyr "Rheoliad 2074/2005" yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n rhanddirymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(**5**);

ystyr "Rheoliad 2017/185" yw Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/185 sy'n gosod mesurau trosiannol ar gyfer cymhwyso darpariaethau penodol yn Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**6**);

**Pecyn Rheoliad 2017/625**

ystyr "Rheoliad 2017/625" yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, sy'n diwygio Rheoliadau

(**1**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 1.
(**2**) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 55.
(**3**) OJ Rhif L 271, 15.10.2005, t. 17
(**4**) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 1.
(**5**) OJ Rhif L 338, 22.12.2005, t. 27.
(**6**) OJ Rhif L 29, 3.2.2017, t. 21.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(EC) Rhif 999/2001, (EC) Rhif 396/2005, (EC) Rhif 1069/2009, (EC) Rhif 1107/2009, (EU) Rhif 1151/2012, (EU) Rhif 652/2014, (EU) 2016/429 ac (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, Rheoliadau'r Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ac (EC) Rhif 1099/2009 a Chyfarwyddebau'r Cyngor 98/58/EC, 1999/74/EC, 2007/43/EC, 2008/119/EC a 2008/120/EC, ac sy'n diddymu Rheoliadau (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/608/EEC, 89/662/EEC, 90/425/EEC, 91/496/EEC, 96/23/EC, 96/93/EC a 97/78/EC a Phenderfyniad y Cyngor 92/438/EEC(**1**) fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2017/185 a phecyn Rheoliad 2017/625;

ystyr "Rheoliad 2019/478" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/478 sy'n diwygio Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y categorïau o lwythi sydd i fod yn ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin(**2**);

ystyr "Rheoliad 2019/624" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/624 ynghylch rheolau penodol ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchu cig ac ar gyfer ardaloedd cynhyrchu ac ailddodi molysgiaid dwygragennog byw yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**);

ystyr "Rheoliad 2019/625" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/625 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gofynion ar gyfer mynediad i'r Undeb i lwythi o anifeiliaid a nwyddau penodol a fwriedir i'w bwyta gan bobl(**4**);

ystyr "Rheoliad 2019/626" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/626 ynghylch rhestrau o drydydd gwledydd neu ranbarthau o'r trydydd gwledydd hynny sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer mynediad i anifeiliaid a nwyddau penodol a fwriedir i'w bwyta gan bobl i'r Undeb Ewropeaidd, sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/759 o ran y rhestrau hyn(**5**);

ystyr "Rheoliad 2019/627" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/627 sy'n gosod trefniadau ymarferol unffurf ar gyfer

(**1**) OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1.
(**2**) OJ Rhif L 82, 25.3.2019, t. 4.
(**3**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 1.
(**4**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 18.
(**5**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 31.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid a fwriedir i’w bwyta gan bobl yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ac sy’n diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol(**1**);

ystyr “Rheoliad 2019/628” yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/628 ynghylch tystysgrifau swyddogol enghreifftiol ar gyfer anifeiliaid a nwyddau penodol ac sy’n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 a Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/759 o ran y tystysgrifau enghreifftiol hyn(**2**);

ystyr “Rheoliad 2019/1012” yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1012 sy’n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor drwy randdirymu’r rheolau ar gyfer dynodi pwyntiau rheoli a’r isafswm gofynion ar gyfer safleoedd rheoli ar y ffin(**3**);

ystyr “Rheoliad 2019/1013” yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/1013 ar hysbysu ymlaen llaw am lwythi o gategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau sy’n dod i mewn i’r Undeb(**4**);

ystyr “Rheoliad 2019/1014” yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/1014 i osod rheolau manwl ar gyfer yr isafswm gofynion ar gyfer safleoedd rheoli ar y ffin, gan gynnwys canolfannau arolygu, ac ar gyfer y fformat, y categorïau a’r byrfoddau i’w defnyddio wrth restru safleoedd rheoli ar y ffin a phwyntiau rheoli(**5**);

ystyr “Rheoliad 2019/1081” yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1081 sy’n sefydlu rheolau ar ofynion hyfforddi penodol ar gyfer staff er mwyn cyflawni gwiriadau ffisegol penodol mewn safleoedd rheoli ar y ffin(**6**);

ystyr “Rheoliad 2019/1602” yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1602 sy’n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ynghylch y Ddogfen Fynediad Iechyd Gyffredin sy’n mynd gyda llwythi o anifeiliaid a nwyddau i’w cyrchfan(**7**);

ystyr “Rheoliad 2019/1666” yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1666 sy’n

(**1**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 51.
(**2**) OJ Rhif L 131, 17.5.2019, t. 101.
(**3**) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 4.
(**4**) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 8.
(**5**) OJ Rhif L 165, 21.6.2019, t. 10.
(**6**) OJ Rhif L 171, 26.6.2019, t. 1.
(**7**) OJ Rhif L 250, 30.9.2019, t. 6.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran yr amodau ar gyfer monitro cludiant a chyrhaeddiad llwythi o nwyddau penodol o'r safle rheoli ar y ffin lle y cyraeddasant i'r sefydliad yn y gyrchfan yn yr Undeb(**1**);

ystyr "Rheoliad 2019/1715" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1715 sy'n gosod rheolau ar gyfer gweithrediad y system rheoli gwybodaeth ar gyfer rheolaethau swyddogol a chydrannau ei system(**2**);

ystyr "Rheoliad 2019/1793" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793 ar gynyddu dros dro reolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n rheoli mynediad i'r Undeb i nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol sy'n gweithredu Rheoliadau (EU) 2017/625 ac (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diddymu Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 669/2009, (EU) Rhif 884/2014, (EU) 2015/175, (EU) 2017/186 ac (EU) 2018/1660(**3**);

ystyr "Rheoliad 2019/1873" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1873 ar y gweithdrefnau mewn safleoedd rheoli ar y ffin ar gyfer cyflawni gan awdurdodau cymwys mewn modd cydgysylltiedig reolaethau swyddogol dwysach ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion eginol, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion cyfansawdd(**4**);

ystyr "Rheoliad 2019/2007" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2007 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y rhestrau o anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion eginol, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid a gwair a gwellt sy'n ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin ac yn diwygio Penderfyniad 2007/275/EC(**5**);

ystyr "Rheoliad 2019/2074" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2074 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ynghylch rheolaethau swyddogol penodol ar lwythi o anifeiliaid a nwyddau penodol sy'n tarddu o'r Undeb, ac yn

(**1**) OJ Rhif L 255, 4.10.2019, t. 1.
(**2**) OJ Rhif L 261, 14.10.2019, t. 37.
(**3**) OJ Rhif L 277, 29.10.2019, t. 89.
(**4**) OJ Rhif L 289, 8.11.2019, t. 50.
(**5**) OJ Rhif L 312, 3.12.2019, t. 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

dychwelyd i'r Undeb yn dilyn gwrthod mynediad gan drydedd wlad(**1**);

ystyr "Rheoliad 2019/2122" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2122 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran categorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau a esemptir o reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin, rheolaethau penodol ar fagiau personol teithwyr ac ar lwythi bach o nwyddau anfonir at bobl naturiol na fwriedir eu rhoi ar y farchnad, ac yn diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011(**2**);

ystyr "Rheoliad 2019/2123" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2123 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer yr achosion lle y caniateir cyflawni gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar nwyddau penodol mewn pwyntiau rheoli ac y caniateir cynnal gwiriadau dogfennol o bell o safleoedd rheoli ar y ffin, a'r amodau y cynhelir y gwiriadau hynny oddi tanynt(**3**);

ystyr "Rheoliad 2019/2124" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2124 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer rheolaethau swyddogol ar lwythi o anifeiliaid a nwyddau sy'n cael eu cludo, eu trawslwytho a'u cludo ymlaen drwy'r Undeb, ac yn diwygio Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 798/2008, (EC) Rhif 1251/2008, (EC) Rhif 119/2009, (EU) Rhif 206/2010, (EU) Rhif 605/2010, (EU) Rhif 142/2011, (EU) Rhif 28/2012, Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/759 a Phenderfyniad y Comisiwn 2007/777/EC(**4**);

ystyr "Rheoliad 2019/2126" yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2126 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer rheolaethau swyddogol penodol ar gategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau, mesurau i'w cymryd yn dilyn cyflawni'r rheolaethau hynny a chategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau a esemptir o reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin(**5**);

ystyr "Rheoliad 2019/2129" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2129 sy'n

(**1**) OJ Rhif L 316, 6.12.2019, t. 6.
(**2**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 45.
(**3**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 64.
(**4**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 73.
(**5**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 104.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

sefydlu rheolau ar gyfer cymhwyso cyfraddau amlder unffurf ar gyfer gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar lwythi penodol o anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i'r Undeb(**1**);

ystyr "Rheoliad 2019/2130" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2130 sy'n sefydlu rheolau manwl ar y gweithrediadau i'w cyflawni yn ystod, ac ar ôl, gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar anifeiliaid a nwyddau sy'n ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin(**2**);

ystyr "Rheoliad 2020/466 yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/466 ar fesurau dros dro i atal risgiau i iechyd dynol, iechyd anifeiliaid ac iechyd planhigion a lles anifeiliaid yn ystod tarfu difrifol penodol ar systemau rheoli Aelod-wladwriaethau oherwydd clefyd y coronafeirws(**3**);

ystyr "Rheoliad 2020/1158" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1158 ar yr amodau sy'n llywodraethu mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n tarddu o drydedd wledydd yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf bŵer niwclear Chernobyl(**4**)."

## ATODLEN 3 Rheoliad 3(9)

## Yr Atodlen i'w rhoi yn lle Atodlen 4 i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

## "ATODLEN 4 Rheoliad 3(1)

## AWDURDODAU CYMWYS AT DDIBENION DARPARIAETHAU PENODOL YN RHEOLIAD 2017/625 I'R GRADDAU Y MAENT YN GYMWYS O RAN CYFRAITH BWYD ANIFEILIAID BERTHNASOL

| *Colofn 1* | *Colofn 2* |
|---|---|
| ***Awdurdod Cymwys*** | ***Y darpariaethau yn*** |

(**1**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 122.
(**2**) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 128.
(**3**) OJ Rhif L 98, 31.3.2020, t. 30.
(**4**) OJ Rhif L 257, 6.8.2020, t. 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | *Rheoliad 2017/625* |
|---|---|
| Yr Asiantaeth | Erthyglau 4, 5(1), (4) a (5), 6, 7, 8, 11, 12, 15, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 35, 37, 38, 39, 40, 42, 63(4)(a), 65(5), 66(6), 73, 75, 76, 78, 79, 81, 82, 83, 84, 85, 87, 88, 89, 91, 93, 96, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 113, 115, 116, 124, 130, 135, 137, 138, 140. |
| Yr awdurdod bwyd anifeiliaid | Erthyglau 4, 5(1), (4) a (5), 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 15, 26, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 35, 36, 38, 44, 45, 46, 47, 49, 50, 55, 56, 57, 63, 65(1), (2), (3), (4) a (5), 66, 67, 68, 69, 71, 72, 73, 75, 76, 78, 79, 81, 82, 83, 84, 85, 86, 87, 88, 89, 91, 96, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 113, 115, 116, 130, 135, 137, 138, 140.” |

## ATODLEN 4 Rheoliad 3(10)

## Yr Atodlen i’w rhoi yn lle Atodlen 5 i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

## “ATODLEN 5 Rheoliad 3(3)

## AWDURDODAU CYMWYS AT DDIBENION DARPARIAETHAU PENODOL YN RHEOLIAD 2017/625 I’R GRADDAU Y MAENT YN GYMWYS O RAN CYFRAITH BWYD BERTHNASOL

| *Colofn 1* | *Colofn 2* |
|---|---|
| *Awdurdod Cymwys* | *Y darpariaethau yn Rheoliad 2017/625* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | |
|---|---|
| Yr Asiantaeth | Erthyglau 4, 5(1), (4) a (5), 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 15, 18, 21, 26, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 42, 44, 45, 46, 47, 49, 50, 55, 56, 57(3), 63(4)(a), 65(5), 66(6), 68, 69, 71, 72, 73, 75, 76, 78, 79, 81, 82, 83, 84, 85, 86, 87, 88, 89, 91, 93, 96, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 113, 115, 116, 124, 130, 132, 133, 135, 137, 138, 140, 148, 150. |
| Yr awdurdod bwyd | Erthyglau 4(2), 5(1), (4) a (5), 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 15, 18, 21, 26, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 35, 36, 38, 44, 45, 46, 47, 49, 50, 55, 56, 57, 63, 65(1), (2), (3), (4) a (5), 66, 67, 68, 69, 71, 72, 73, 75, 76, 78, 79, 81, 82, 83, 84, 85, 86, 87, 88, 89, 91, 96, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 113, 115, 116, 130, 132, 133, 135, 137, 138, 140, 148, 150.” |

## ATODLEN 5 Rheoliad 3(11)

## Yr Atodlen i'w rhoi yn lle Atodlen 6 i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

## “ATODLEN 6 Rheoliadau 22 a 41(1)(a)

## DARPARIAETHAU MEWNFORIO PENODEDIG

| ***Colofn 1***<br><br>***Y ddarpariaeth yn neddfwriaeth yr UE*** | ***Colofn 2***<br><br>***Y cynnwys*** |
|---|---|
| Erthygl 69(1) o Reoliad 2017/625 | Gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth i |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | |
|---|---|
| | gyflawni'r holl fesurau y mae'r awdurdodau cymwys yn eu gorchymyn. |
| Erthygl 1 o Reoliad 2019/1013 | Gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth i roi hysbysiad ymlaen llaw i'r awdurdod cymwys ynghylch y safle rheoli ar y ffin, o leiaf un diwrnod gwaith cyn y disgwylir i'r llwyth gyrraedd. |
| Erthygl 3 o Reoliad 2019/1602 | Gofyniad bod Dogfen Fynediad Iechyd Gyffredin (DFIG) i fynd gyda phob llwyth pa un a gaiff ei hollti yn y safle rheoli ar y ffin neu ar ôl gadael y safle rheoli ar y ffin ai peidio. |
| Erthygl 4(a) o Reoliad 2019/1602 | Pan na fo llwyth yn cael ei hollti cyn ei ryddhau ar gyfer cylchrediad rhydd, gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth i sicrhau bod copi o'r DFIG yn mynd gyda'r llwyth i'r gyrchfan a hyd nes y caiff ei ryddhau ar gyfer cylchrediad rhydd. |
| Erthygl 4(b) o Reoliad 2019/1602 | Pan na fo llwyth yn cael ei hollti cyn cael ei ryddhau ar gyfer cylchrediad rhydd, gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth i nodi rhif cyfeirnod y DFIG yn y datganiad tollau sy'n cael ei roi i'r awdurdodau tollau a'i fod i gadw copi o'r DFIG at ddefnydd yr awdurdodau tollau. |
| Erthygl 5(1)(a) o Reoliad 2019/1602 | Pan fo llwyth i'w hollti yn y safle rheoli ar y ffin, gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth, wrth hysbysu ymlaen llaw, i ddatgan mai'r |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | |
|---|---|
| | safle rheoli ar y ffin yw'r gyrchfan yn y DFIG ar gyfer y llwyth cyfan. |
| Erthygl 5(1)(b) o Reoliad 2019/1602 | Pan fo llwyth i'w hollti yn y safle rheoli ar y ffin, gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth, wrth orffen y DFIG ar gyfer y llwyth cyfan, i ofyn am i'r llwyth gael ei hollti, a'i fod i gyflwyno, drwy'r IMSOC, DFIG ar gyfer pob rhan o'r llwyth a holltwyd a gwneud datganiad. |
| Erthygl 5(1)(d) o Reoliad 2019/1602 | Pan fo llwyth i'w hollti yn y safle rheoli ar y ffin, gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth i sicrhau bod copi o'r DFIG ar gyfer pob rhan o'r llwyth a holltwyd yn mynd gyda'r rhan berthnasol i'r gyrchfan a hyd nes y caiff ei rhyddhau ar gyfer cylchrediad rhydd. |
| Erthygl 5(1)(e) o Reoliad 2019/1602 | Pan fo llwyth i'w hollti yn y safle rheoli ar y ffin, gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth i nodi rhif cyfeirnod y DFIG ar gyfer pob rhan o'r llwyth a holltwyd yn y datganiad tollau a roddir i'r awdurdodau tollau a'i fod i gadw copi o'r DFIG hwnnw at ddefnydd yr awdurdodau tollau. |
| Erthygl 5(2)(a) o Reoliad 2019/1602 | Pan fo llwyth nad yw'n cydymffurfio i'w hollti yn y safle rheoli ar y ffin, gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth, wrth orffen y DFIG ar gyfer y llwyth cyfan, i gyflwyno DFIG ar |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | |
|---|---|
| | gyfer pob rhan o'r llwyth a holltwyd a gwneud datganiad. |
| Erthygl 6(a) o Reoliad 2019/1602 | Pan fo llwyth i'w hollti ar ôl gadael y safle rheoli ar y ffin a chyn cael ei ryddhau ar gyfer cylchrediad rhydd, gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth i sicrhau bod copi o'r DFIG yn mynd gyda phob rhan o'r llwyth a holltwyd hyd nes y caiff ei rhyddhau ar gyfer cylchrediad rhydd. |
| Erthygl 6(b) o Reoliad 2019/1602 | Pan fo llwyth i'w hollti ar ôl gadael y safle rheoli ar y ffin a chyn cael ei ryddhau ar gyfer cylchrediad rhydd, gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth i nodi rhif cyfeirnod y DFIG ar gyfer pob rhan o'r llwyth a holltwyd yn y datganiad tollau a roddir i'r awdurdodau tollau a'i fod i gadw copi o'r DFIG hwnnw at ddefnydd yr awdurdodau tollau. |
| Erthygl 3(1) o Reoliad 2019/1666 | Gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth i roi gwybod i'r awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am gyflawni'r rheolaethau swyddogol yn y sefydliad yn y gyrchfan, fod y llwyth wedi cyrraedd, a hynny o fewn un diwrnod i'r adeg y mae'r llwyth yn cyrraedd. |
| Erthygl 6(1) o Reoliad 2019/2123 | Ar ôl i awdurdodau cymwys y safle rheoli ar y ffin awdurdodi trosglwyddo'r llwyth i'r pwynt rheoli a nodir yn y DFIG, neu |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | |
|---|---|
| | benderfynu gwneud hynny, gofyniad na chaiff y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth gyflwyno'r llwyth ar gyfer gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol i bwynt rheoli gwahanol i'r un a nodir yn y DFIG, oni bai bod awdurdodau cymwys y safle rheoli ar y ffin yn awdurdodi trosglwyddo'r llwyth i bwynt rheoli arall yn unol â phwynt (a) o Erthygl 3(1) a phwynt (a) o Erthygl 4(2). |
| Erthygl 6(4) o Reoliad 2019/2123 | Gofyniad bod rhaid i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth nodi rhif cyfeirnod y DFIG a gwblhawyd y cyfeirir ati yn Erthygl 6(3) yn y datganiad tollau sy'n cael ei roi i'r awdurdodau tollau a'i fod i gadw copi o'r DFIG honno at ddefnydd yr awdurdodau tollau. |
| Erthygl 6(1) of Reoliad 2019/2124 | Gofyniad bod y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwythi a awdurdodir ar gyfer eu cludo ymlaen yn unol ag Erthygl 4 yn sicrhau: (a) yn ystod ei gludo i'r cyfleuster cludo ymlaen, a'i storio yn y cyfleuster hwnnw, nad ymyrrir â'r llwyth mewn unrhyw fodd; (b) nad yw'r llwyth yn ddarostyngedig i unrhyw addasu, prosesu, amnewid neu newid deunydd pecynnu; (c) nad yw'r llwyth yn gadael y cyfleuster cludo ymlaen hyd nes y bydd awdurdodau cymwys y safle rheoli ar y ffin yn gwneud y |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | |
|---|---|
| | penderfyniad ynghylch y llwyth yn unol ag Erthygl 55 o Reoliad 2017/625. |
| Erthygl 6(2) o Reoliad 2019/2124 | Gofyniad bod rhaid i’r gweithredwr sy’n gyfrifol am y llwyth gludo’r llwyth o dan oruchwyliaeth tollau yn uniongyrchol o’r safle rheoli ar y ffin i’r cyfleuster cludo ymlaen, heb ddadlwytho’r nwyddau yn ystod eu cludo, a rhaid iddo storio’r llwyth yn y cyfleuster cludo ymlaen. |
| Erthygl 6(4) o Reoliad 2019/2124 | Gofyniad bod rhaid i’r gweithredwr sy’n gyfrifol am y llwyth sicrhau bod copi, ar bapur neu ar ffurf electronig, o’r DFIG y cyfeirir ati yn Erthygl 3 yn mynd gyda’r llwyth o’r safle rheoli ar y ffin i’r cyfleuster cludo ymlaen. |
| Erthygl 6(5) o Reoliad 2019/2124 | Gofyniad bod y gweithredwr sy’n gyfrifol am y llwyth yn hysbysu’r awdurdodau cymwys yn y cyrchfan derfynol bod y llwyth wedi cyrraedd y cyfleuster cludo ymlaen. |
| Erthygl 6(6) o Reoliad 2019/2124 | Ar ôl i awdurdodau cymwys y safle rheoli ar y ffin awdurdodi ei gludo ymlaen i’r cyfleuster cludo ymlaen, gofyniad na chaiff y gweithredwr sy’n gyfrifol am y llwyth ei gludo ymlaen i gyfleuster cludo ymlaen gwahanol i’r un a nodir yn y DFIG, oni bai bod awdurdodau cymwys y safle rheoli ar y ffin yn awdurdodi’r newid yn unol ag Erthygl 4 ac ar |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

yr amod y
cydymffurfir â'r
amodau a nodir ym
mharagraffau 1 i 5 o
Erthygl 6."

**Memorandwm Esboniadol i** Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020.

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Lles a'r Gymraeg
10 Rhagfyr 2020

**Rhan 1**

**Disgrifiad**

1. Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020 yn diwygio

   - Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006,
   - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, a
   - Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016.

2. Mae'r offeryn hwn yn caniatáu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliadau Gweithredu a Dirprwyedig yr Undeb Ewropeaidd (UE) ymhellach (“deddfwriaeth drydyddol yr UE”) a wneir o dan Reoliad (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso (“yr OCR”).

**Cefndir**

3. Galluogwyd gweithredu a gorfodi’r OCR a deddfwriaeth drydyddol yr UE a gyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd erbyn mis Tachwedd 2019 trwy Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 (“Rheoliadau 2019”).

4. Roedd y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2019 hefyd yn cynnwys pecyn o ddeddfwriaeth drydyddol yr UE (Rheoliadau Gweithredu a Dirprwyedig), a wnaed o dan yr OCR.

5. Nodwyd ar y pryd na fyddai deddfwriaeth drydyddol ychwanegol yr UE a oedd yn cael ei pharatoi gan yr UE yn cael ei chyhoeddi mewn pryd i gynnwys darpariaethau sy’n rhoi effaith i’r ddeddfwriaeth honno yn Rheoliadau 2019 pe bai’r Rheoliadau hynny yn dod i rym erbyn y dyddiad cau o 14 Rhagfyr 2019 – sef y dyddiad y daeth yr OCR i rym.

6. Mae'r offeryn hwn yn nodi deddfwriaeth drydyddol ychwanegol yr UE o fewn y rhestrau o ddeddfwriaeth a nodir yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (“Rheoliadau 2009”), ac yn gwneud newidiadau cyfyngedig o ganlyniad.

7. Yn ychwanegol at y ddeddfwriaeth drydyddol, mae swyddogion wedi nodi rhai gwallau/hepgoriadau cyfyngedig yn y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2019 y mae angen eu cywiro. Mae'r cywiriadau gofynnol hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod yr OCR yn cael ei weithredu'n iawn mewn perthynas â Chymru.

8. Bydd Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yn diwygio'r offerynnau perthnasol i ddarparu ar gyfer gorfodi'r ddeddfwriaeth drydyddol a thrwsio'r gwallau a'r hepgoriadau yn Rheoliadau 2019.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

9. Dim

**Y cefndir deddfwriaethol**

10. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) a pharagraff 1A Atodlen 2 Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("ECA 1972"). Dynodir Gweinidogion Cymru mewn perthynas â:

    a. mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu sy'n cael ei fwydo iddynt (gweler Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 2) 2005/1971).
    b. mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd (gweler Gorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 2) 2008/1792); a
    c. mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd (gweler Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 5) 2010/2690).

11. Diddymwyd ECA 1972 gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gan ddod i rym ar y diwrnod ymadael. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw, mae adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn parhau i fod mewn grym gydag addasiadau tan ddaw'r cyfnod gweithredu i ben yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

12. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o ECA 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn fuddiol dehongli cyfeiriadau at offerynnau'r UE o fewn y Rheoliadau fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

13. Mae adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 (fel y'i darllenir gydag adran 59(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn cynnig dewis rhwng gweithdrefnau negyddol a chadarnhaol. Mae'r offeryn hwn yn gwneud darpariaeth gyfyngedig, sy'n dechnegol ei natur ac sy'n rhoi effaith i gyfraith yr UE (gan gynnwys diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE), y mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn cyfyngedig mewn perthynas â hwy. O'r herwydd, mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

**Pwrpas y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig**

14. Pwrpas yr Offeryn hwn yw caniatáu ar gyfer gweithredu deddfwriaeth drydyddol a wneir o dan yr OCR ymhellach a mynd i'r afael â hepgoriadau a gwallau yn y ddarpariaeth a wnaed gan Reoliadau 2019.

15. Mae'r ddeddfwriaeth drydyddol hon yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cymhwyso'r OCR mewn meysydd penodol, fel amlder a dulliau cymhwyso gwiriadau ffisegol i lwythi bwyd neu fwyd anifeiliaid mewn porthladdoedd a rhai o'r rheolau ar gyfer gweithredu pellach sy'n ofynnol ar ôl cwblhau'r gwiriadau hyn.

16. Mae'r set lawn o ddeddfwriaeth drydyddol y mae'r offeryn hwn yn darparu ar ei chyfer, fel y rhestrir isod, wedi'i chysylltu'n bennaf â mewnforio a symud bwyd a bwyd anifeiliaid trwy bwyntiau mynediad.

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2007
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2074
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2122
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2123
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2124
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2126
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2129
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2130
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1158
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/466

17. Mae teitlau manwl yr holl ddeddfwriaeth drydyddol, sy'n rhoi arwyddion pellach o'r meysydd penodol y mae pob Rheoliad yn berthnasol iddynt, yn Atodiad 1 isod.

**Cywiro gwallau a hepgoriadau cyfeiriad yn Rheoliadau 2019**

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (Offeryn Statudol 2009/3376 (W. 298))**

18. Mae’r offeryn hwn:
    a. Yn diweddaru ac yn disodli atodlenni 1,4,5 a 6 i sicrhau bod pob cyfeiriad at Reoliadau'r UE yn gyfredol ac yn gywir.

    b. Yn cywiro'r diffiniad o “gynnyrch” yn rheoliad 22 o Reoliadau 2009, a ddiwygiwyd yn anghywir gan reoliad 18(a) o Reoliadau 2019.

    c. Yn cywiro'r rhestr o ddarpariaethau OCR a restrir yn rheoliad 29 o Reoliadau 2009 i gynnwys cyfeiriad at erthygl a gafodd ei hepgor ar ddamwain gan reoliad 23 o Reoliadau 2018.

    d. Yn cywiro darpariaeth codi tâl yn rheoliad 36 o Reoliadau 2009 a ddiwygiwyd yn anghywir gan reoliad 27 o Reoliadau 2019. Mae hyn yn ofynnol i weithredu'r darpariaethau codi tâl gorfodol yn Erthygl 79 o'r OCR i ganiatáu i awdurdodau cymwys godi'r tâl cywir am reolaethau swyddogol a gynhelir ar lwythi o fwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad yw’n dod o anifeiliaid.

    e. Yn ailosod darpariaeth ar gyfer adennill treuliau a dalwyd gan awdurdod cymwys o reolaethau swyddogol ychwanegol gan weithredwr y busnes bwyd neu fwyd anifeiliaid fel sy'n ofynnol gan Erthygl 79(2)(c) o'r OCR. Roedd y ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn rheoliad 43 o Reoliadau 2009, a ddirymwyd trwy gamgymeriad gan reoliadau 2019.

    f. Yn cywiro cyfeiriad sydd wedi dyddio at Reoliad yr UE a ddirymwyd i sicrhau parhad y drosedd o fethu â chydymffurfio â gofynion ardystio ar gyfer mewnforio egin neu hadau y bwriedir iddynt egino.

**Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 Offeryn Statudol 2006/31 (W. 5))**

19. Mae'r offeryn hwn yn disodli ac yn diweddaru'r rhestr o Reoliadau'r UE a nodir yn Atodlen 1

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) (Cymru) 2016 (Offeryn Statudol 2016/387 (W. 121))**

20. Mae'r offeryn hwn yn disodli ac yn diweddaru cyfeiriadau at offerynnau'r UE sy'n cael eu diddymu a'u disodli gan yr OCR a Rheoliad (UE) 2019/1793

**Deddfwriaeth mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig (DU)**

21. Mae deddfwriaeth gyfatebol yn cael ei llunio mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

22. Oherwydd goblygiadau ariannol i awdurdodau gorfodi mewn Mannau Rheoli ar y Ffin yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon, roedd gwall o ran cymhwyso darpariaeth ar gyfer codi tâl am reolaethau swyddogol mewn Mannau Rheoli ar y Ffin wedi'i wneud mewn offerynnau cynharach yn y rhannau hynny o'r DU.
23. Gan nad oes Man Rheoli ar y Ffin yng Nghymru ar hyn o bryd, ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi, mae gweithredu'r newid hwn wedi'i ddal yn ôl i'w gynnwys yn yr offeryn cyfredol.

24. Mae'n bwysig mynd i'r afael â'r mater hwn gan ei bod yn debygol y bydd porthladdoedd Cymru yn ceisio cael eu dynodi'n Fannau Rheoli ar y Ffin yn y dyfodol.

**Ymgynghoriad**

25. Cynhaliodd yr ASB ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos o hyd ar yr egwyddorion cyffredinol a amlinellwyd yn Rheoliadau 2019 i roi digon o gyfle i'r rheiny â diddordeb fynegi eu barn. At hynny, cynhaliodd yr ASB waith ymgysylltu â ffocws gyda rhanddeiliaid ar draws y diwydiant a chymunedau gorfodi, ar lefel Cymru ac ar draws y DU. Ni fynegwyd llawer o ddiddordeb gan randdeiliaid mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig, a dim ond pedwar ymateb a ddaeth i'r ymgynghoriad.

26. Mae'r newidiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn gwbl dechnegol eu natur ac nid ydynt yn newid yr egwyddorion a amlinellir yn yr ymgynghoriad ar Reoliadau 2019 mewn unrhyw ffordd.

27. Felly, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ychwanegol mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

28. Paratowyd asesiad effaith llawn ar gyfer Rheoliadau 2019 ac ni ystyrir y bydd costau ychwanegol yn deillio o'r offeryn hwn nad ydynt eisoes wedi’u cyfrif fel rhan o’r asesiad effaith hwnnw, sy'n rhan o'r Memorandwm Esboniadol i Reoliadau 2019.

**Atodiad 1 – Teitlau llawn y ddeddfwriaeth drydyddol a gynhwysir yn yr offeryn hwn**

**Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2007** dyddiedig 18 Tachwedd sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rhestrau anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion egino, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a gwair a gwellt sy'n destun rheolaethau swyddogol mewn mannau rheoli ar y ffin a diwygio Penderfyniad 18/EC

**Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2074** dyddiedig 23 Medi 2019 sy'n ategu Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar reolaethau swyddogol penodol ar lwythi o anifeiliaid a nwyddau penodol sy'n tarddu o'r Undeb, ac sy'n dychwelyd i'r Undeb, wedi i drydedd gwlad wrthod mynediad

**Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2122** dyddiedig 10 Hydref 2019 sy'n ategu Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran categorïau o anifeiliaid a nwyddau penodol sydd wedi'u heithrio rhag rheolaethau swyddogol mewn mannau rheoli ar y ffin, rheolaethau penodol ar fagiau personol teithwyr ac ar lwythi bach o nwyddau a anfonir at bersonau naturiol na fwriedir eu rhoi ar y farchnad ac sy'n diwygio Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 142/201

**Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2123** ar 10 Hydref 2019 sy'n ategu Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer yr achosion lle gallai'r amodau ar gyfer cynnal gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar nwyddau penodol gael eu cynnal ar bwyntiau rheoli a gellir cynnal gwiriadau dogfennol o bell o fannau rheoli ar y ffin (Testun gyda pherthnasedd i'r AEE)

**Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2124** dyddiedig 10 Hydref 2019 sy'n ategu Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer rheolaethau swyddogol ar lwythi o anifeiliaid a nwyddau wrth eu cludo, eu trawslwytho a'u cludo ymlaen trwy'r Undeb, a diwygio Rheoliadau'r Comisiwn (CE) Rhif 798/2008, (CE) Rhif 1251/2008, (CE) Rhif 119/2009, (UE) Rhif 206/2010, (UE) Rhif 605/2010, (UE) Rhif 142/2011, (UE) Rhif 28/2012, Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2016/759 a Phenderfyniad y Comisiwn 2007/777/EC

**Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/2126** dyddiedig 10 Hydref 2019 yn ategu Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer rheolaethau swyddogol penodol ar gyfer categorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau, mesurau i'w cymryd yn dilyn cynnal rheolaethau o'r fath a chategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau sydd wedi'u heithrio o reolaethau swyddogol mewn mannau rheoli ar y ffin

**Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2129** dyddiedig 25 Tachwedd 2019 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer cymhwyso cyfraddau amledd yn gyson ar gyfer gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar lwythi penodol o anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i mewn i'r Undeb

**Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2130** dyddiedig 25 Tachwedd 2019 sy'n sefydlu rheolau manwl ar y gweithrediadau sydd i'w cynnal yn ystod ac ar ôl

gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar anifeiliaid a nwyddau sy'n ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn mannau rheoli ar y ffin

**Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/1158** dyddiedig 5 Awst ar yr amodau sy'n llywodraethu mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o drydydd gwledydd yn dilyn y ddamwain yn orsaf bŵer niwclear Chernobyl

**Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/466** dyddiedig 30 Mawrth 2020 ar fesurau dros dro i reoli risgiau i iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion a lles anifeiliaid yn ystod unrhyw amhariadau difrifol ar systemau rheoli Aelod-wladwriaethau oherwydd clefyd coronafeirws (COVID-19)

# SL(5)700 – Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio —

(a) Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 sy'n nodi, yn Atodlen 2, Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) ("Gorchymyn 1992"),

(b) Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 sy'n nodi, yn Atodlen 1, Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) ("Gorchymyn 2007"),

(c) Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 sy'n nodi, yn Atodlen 1, Gynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 ("Gorchymyn Digolledu 2007"), a

(d) Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 sy'n nodi Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae rheoliadau 3 i 5 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn 1992. Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 3(a), (c) a (d), yn sicrhau nad yw diffoddwr tân dan anfantais oherwydd y ddarpariaeth sy'n caniatáu i ddau bensiwn, y cânt eu cyfrifo ar wahân, gael eu dyfarnu, yn dilyn gostyngiad sylweddol mewn cyflog, ac maent hefyd yn gwneud mân ddiweddariadau eraill.

Mae rheoliad 3(b) yn egluro, pan fo gan ddiffoddwr tân yr hawl i ddau bensiwn o dan Orchymyn 1992, caiff swm y pensiwn cyntaf ei uwchraddio'n flynyddol o'r dyddiad y peidiodd y diffoddwr tân ag ennill cyflog yn ôl y gyfradd uwch.

Effaith y diwygiadau yn rheoliad 4 yw cysoni'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr partneriaethau sifil a phriodasau o'r un rhyw â'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr priodasau rhwng pobl o rywiau gwahanol.

Mae rheoliad 5 yn diweddaru cyfeiriad statudol sydd wedi dyddio yng Ngorchymyn 1992.

Mae rheoliadau 7 i 9 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn 2007. Mae rheoliad 7 yn egluro, pan fo gan ddiffoddwr tân yr hawl i ddau bensiwn o dan Gynllun 2007, caiff swm y pensiwn cyntaf ei uwchraddio'n flynyddol o'r dyddiad y peidiodd y diffoddwr tân ag ennill cyflog yn ôl y gyfradd uwch.

Mae rheoliad 8 yn diweddaru cyfeiriad statudol sydd wedi dyddio yng Ngorchymyn 2007.

Mae rheoliad 9 yn rhoi tabl newydd yn lle'r tabl o ffactorau cymudo ar gyfer aelodau arbennig a nodir yn Atodiad ZA i Orchymyn 2007 i gynnwys ffactorau y tu hwnt i 65 oed, hyd

at 75 oed. Mae'r ffactorau cymudo fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2014 (hyd at 65 oed) wedi eu hatgynhyrchu yn y tabl newydd ac nid ydynt wedi newid.

Mae rheoliadau 11 a 12 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Digolledu 2007. Effaith y diwygiadau yn rheoliad 11 yw cysoni'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr partneriaethau sifil a phriodasau o'r un rhyw â'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr priodasau rhwng pobl o rywiau gwahanol.

Mae rheoliad 12 yn diwygio rheol 3 (lwfans arbennig plentyn: cyfyngiadau) yn Rhan 4 o Orchymyn Digolledu 2007 drwy ddileu rhai o'r cyfyngiadau ar blant dibynnol, llys blant a phlant wedi eu mabwysiadu, yn ogystal â phlant i rieni di-briod. Mae hefyd yn diwygio pennawd rheol 3 ac yn egluro croesgyfeiriad yn rheol 3(5)(a).

Mae rheoliad 14 yn diwygio Rheoliadau 2015 i egluro bod aelodau gwarchodedig o'r Cynllun a gyfansoddwyd gan Orchymyn 1992 sy'n trosglwyddo i Gymru o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn parhau i fod â'r hawl i fod yn aelodau o'r Cynllun hwnnw.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau o ganlyniad i ddau ddyfarniad gan y Goruchel Lys:

> **Walker yn erbyn Innospec**:[1] O ganlyniad i'r dyfarniad hwn, mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i gysoni'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr partneriaethau sifil a phriodasau o'r un rhyw â'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr priodasau rhwng pobl o rywiau gwahanol. Caiff y diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau i gydymffurfio â'r

[1] [2017] UKSC 47

dyfarniad eu hôl-ddyddio i 5 Rhagfyr 2005, sef y diwrnod y cafodd partneriaethau sifil eu cyflwyno.

**McLaughlin**:[2] Dywedodd y Goruchel Lys fod gwrthod buddion sy'n daliadwy i blant (neu'n daliadwy ar eu rhan) yn seiliedig ar statws priodasol eu rhieni yn anghyfreithlon. Felly, mae'r Rheoliadau'n gwneud diwygiadau i ddileu darpariaethau sy'n gwahaniaethau yn erbyn aelodau dibriod o'r cynllun. Mae'r diwygiadau hefyd yn dileu rhai o'r cyfyngiadau ar blant dibynnol, llys blant a phlant wedi eu mabwysiadu. Caiff y diwygiadau hyn eu hôl-ddyddio i 1 Ebrill 2006, sef y dyddiad y cafodd y ddarpariaeth wreiddiol effaith.

## Ymateb gan Lywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Ionawr 2021**

[2] [2018] UKSC 48

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1511 (Cy. 323)

# PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 sy'n nodi, yn Atodlen 2, Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) ("Gorchymyn 1992"),

(b) Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 sy'n nodi, yn Atodlen 1, Gynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) ("Gorchymyn 2007"),

(c) Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 sy'n nodi, yn Atodlen 1, Gynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 ("Gorchymyn Digolledu 2007"), a

(d) Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 sy'n nodi Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae i rai o'r rheoliadau effaith ôl-weithredol – nodir y rhain yn rheoliad 1(3). Mae'r darpariaethau a ganlyn yn y ddeddfwriaeth alluogi yn caniatáu i'r rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau hynny gael effaith ôl-weithredol—

(a) adran 12 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, fel y'i cymhwysir gan adran 16(3) o'r Ddeddf honno mewn perthynas â gorchmynion a wneir o dan adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947,

(b) adran 34(3) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ac

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) adran 3(3)(b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

Mae rheoliadau 3 i 5 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn 1992. Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 3(a), (c) a (d), yn sicrhau nad yw diffoddwr tân dan anfantais oherwydd y ddarpariaeth sy'n caniatáu i ddau bensiwn, y cânt eu cyfrifo ar wahân, gael eu dyfarnu, yn dilyn gostyngiad sylweddol mewn cyflog, ac maent hefyd yn gwneud mân ddiweddariadau eraill. Mae rheoliad 3(b) yn egluro, pan fo gan ddiffoddwr tân yr hawl i ddau bensiwn o dan Orchymyn 1992, caiff swm y pensiwn cyntaf ei uwchraddio'n flynyddol o'r dyddiad y peidiodd y diffoddwr tân ag ennill cyflog yn ôl y gyfradd uwch.

Effaith y diwygiadau yn rheoliad 4 yw cysoni'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr partneriaethau sifil a phriodasau o'r un rhyw â'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr priodasau rhwng pobl o rywiau gwahanol.

Mae rheoliad 5 yn diweddaru cyfeiriad statudol sydd wedi dyddio yng Ngorchymyn 1992.

Mae rheoliadau 7 i 9 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn 2007. Mae rheoliad 7 yn egluro, pan fo gan ddiffoddwr tân yr hawl i ddau bensiwn o dan Gynllun 2007, caiff swm y pensiwn cyntaf ei uwchraddio'n flynyddol o'r dyddiad y peidiodd y diffoddwr tân ag ennill cyflog yn ôl y gyfradd uwch.

Mae rheoliad 8 yn diweddaru cyfeiriad statudol sydd wedi dyddio yng Ngorchymyn 2007.

Mae rheoliad 9 yn rhoi tabl newydd yn lle'r tabl o ffactorau cymudo ar gyfer aelodau arbennig a nodir yn Atodiad ZA i Orchymyn 2007 i gynnwys ffactorau y tu hwnt i 65 oed, hyd at 75 oed. Mae'r ffactorau cymudo fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2014 (hyd at 65 oed) wedi eu hatgynhyrchu yn y tabl newydd ac nid ydynt wedi newid.

Mae rheoliadau 11 a 12 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Digolledu 2007.

Effaith y diwygiadau yn rheoliad 11 yw cysoni'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr partneriaethau sifil a phriodasau o'r un rhyw â'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr priodasau rhwng pobl o rywiau gwahanol.

Mae rheoliad 12 yn diwygio rheol 3 (lwfans arbennig plentyn: cyfyngiadau) yn Rhan 4 o Orchymyn Digolledu 2007 drwy ddileu rhai o'r cyfyngiadau ar blant dibynnol, llys blant a phlant wedi eu mabwysiadu, yn ogystal â phlant i rieni di-briod. Mae hefyd yn diwygio pennawd rheol 3 ac yn egluro croesgyfeiriad yn rheol 3(5)(a).

Mae rheoliad 14 yn diwygio Rheoliadau 2015 i egluro bod aelodau gwarchodedig o'r Cynllun a gyfansoddwyd gan Orchymyn 1992 sy'n trosglwyddo i

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Gymru o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn parhau i fod â'r hawl i fod yn aelodau o'r Cynllun hwnnw.

Mae'r diwygiadau a wneir gan—

(a) rheoliadau 4(1), 4(2), 4(4) a 11 yn cael effaith o 5 Rhagfyr 2005 ymlaen;

(b) rheoliad 12 yn cael effaith o 1 Ebrill 2006 ymlaen;

(c) rheoliad 7 yn cael effaith o 6 Ebrill 2006 ymlaen;

(d) rheoliad 3 yn cael effaith o 1 Ebrill 2007 ymlaen;

(e) rheoliadau 5 ac 8 yn cael effaith o 1 Rhagfyr 2009 ymlaen;

(f) rheoliad 4(3) yn cael effaith o 13 Mawrth 2014 ymlaen;

(g) rheoliad 14 yn cael effaith o 1 Ebrill 2015 ymlaen;

(h) rheoliad 9 yn cael effaith o 23 Chwefror 2021 ymlaen.

Ystyriwyd Cod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1511 (Cy. 323)

# PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *14 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *23 Chwefror 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 26(1), (2) a (5) o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**1**); adran 12 o

(**1**) 1947 p. 41, a ddiddymwyd gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) ac Atodlen 2 iddi. Mae is-adrannau (1), (2) a (5) o adran 26 yn parhau i gael effaith, o ran Cymru, at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno fel Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ac a nodir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), yn rhinwedd erthygl 3 o O.S. 2004/2918 (Cy. 257). Newidiwyd enw'r cynllun i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) gan erthygl 4 o'r offeryn hwnnw. Diwygiwyd adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 gan adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1951 (p. 27), adran 42 o Ddeddf y Lluoedd Wrth Gefn a'r Lluoedd Ategol (Diogelu Buddiannau Sifil) 1951 (p. 65), adran 33 o Ddeddf Dwyn 1968 (p. 60) ac Atodlen 3 iddi, adrannau 16 a 29 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (p. 11) ac Atodlen 8 iddi, adrannau 100 a 101 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1973 (p. 38) ac Atodlen 27 iddi, adran 1 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Darpariaethau Canlyniadol) 1975 (p. 18), ac Atodlen 1 iddi, adran 32(2) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43), adran 1 o Ddeddf Pensiynau'r Heddlu a'r Dynion Tân 1997 (p. 52), adran 256 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) ac Atodlen 25 iddi, a chan O.S. 1976/551. I'r graddau y caiff Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ei barhau mewn grym, o ran Cymru, yn rhinwedd O.S. 2004/2918 (erthygl 3(1)), mae adran 26(1), (2) a (5) yn cael effaith fel pe rhoddid cyfeiriad at "National Assembly for Wales" yn lle pob cyfeiriad at "Secretary of State"; gweler erthygl 2 o O.S. 2006/1672 (Cy. 160). Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r swyddogaethau o dan adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 wedi eu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ddeddf Blwydd-daliadau 1972(**1**), fel y'u cymhwysir gan adran 16(3) o'r Ddeddf honno(**2**); a chan adran 34(1) i (4) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**3**)(**4**), ac a freinir bellach yng Ngweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1(1) a (2)(f)(**5**), 2(1), 3(1) i (3) a 18(5)(a) a (6) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013(**6**) ac Atodlenni 2 (paragraff 6(b)) a 3 (paragraffau 1 i 4) iddi.

Cyn gwneud y Rheoliadau hyn, ac yn unol ag adran 34(5) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru â'r personau hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

Yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y personau hynny y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt.

## RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Chwefror 2021.

(3) Mae'r darpariaethau yn—

---

breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru.

(**1**) 1972 p. 11; diwygiwyd adran 12 gan Ddeddf Pensiynau (Darpariaethau Amrywiol) 1990 (p. 7).

(**2**) Diddymwyd adran 16 gan adran 52 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ac Atodlen 2 iddi, ond mae'n parhau i gael effaith, o ran Cymru, yn rhinwedd erthygl 3(2) o O.S. 2004/2918 (Cy. 257).

(**3**) 2004 p. 21. Mae'r pwerau a roddir gan adran 34(1) i (4) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Yr oeddent wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 62 o'r Ddeddf honno. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

(**4**) Caniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 34(4) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i wneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

(**5**) *Gweler* hefyd adran 1(3) ac Atodlen 1.

(**6**) 2013 p. 25.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) rheoliadau 4(1), 4(2), 4(4) ac 11 yn cael effaith o 5 Rhagfyr 2005 ymlaen;

(b) rheoliad 12 yn cael effaith o 1 Ebrill 2006 ymlaen;

(c) rheoliad 7 yn cael effaith o 6 Ebrill 2006 ymlaen;

(d) rheoliad 3 yn cael effaith o 1 Ebrill 2007 ymlaen;

(e) rheoliadau 5 ac 8 yn cael effaith o 1 Rhagfyr 2009 ymlaen;

(f) rheoliad 4(3) yn cael effaith o 13 Mawrth 2014 ymlaen;

(g) rheoliad 14 yn cael effaith o 1 Ebrill 2015 ymlaen(**1**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

## RHAN 2

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992

### Diwygiadau i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992

**2.** Mae Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992(**2**) (lle nodir Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru)(**3**) ("Cynllun 1992")), wedi ei diwygio fel a nodir yn rheoliadau 3 i 5.

### Cynyddu pensiynau hollt: Cynllun 1992

**3.** Yn Rhan B (dyfarndaliadau personol), yn rheol B5A (yr hawlogaeth i gael dau bensiwn)(**4**)—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "exceeds" rhodder "is lower than";

(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) The amount of the first pension determined under paragraph (3) or (4B)(a), is increased for each year before the firefighter's

---

(**1**) Mae pŵer i roi effaith ôl-weithredol wedi ei roi gan adran 12 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, adran 34(3) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a chan adran 3(3)(b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

(**2**) O.S. 1992/129; a ddiwygiwyd gan O.S.au 1997/2309 a 2851, 1998/1010, 2001/3649 a 3691, 2004/1912 a 2918 (Cy. 257), 2006/1672 (Cy. 160), 2007/1074 (Cy. 112), 2009/1226 (Cy. 109), 2010/234, 2013/736 (Cy. 88), 2014/522 (Cy. 63) a 3242 (Cy. 329), 2014/560, 2015/1016 (Cy. 71) a 2018/577 (Cy. 104).

(**3**) Cafodd Cynllun 1992 ei ailenwi gan erthygl 4(2) o O.S. 2004/2918.

(**4**) Mewnosodwyd rheol B5A gan erthygl 2 o O.S. 2009/1226 (Cy. 109), a pharagraff 1 o'r Atodlen iddo, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2014/3242 (Cy. 329), O.S. 2015/1016 (Cy. 71) ac O.S. 2018/577 (Cy. 104).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

last day of service by an amount equivalent to that which would apply if the first pension were a pension in payment commencing from the day after the date of the firefighter's last day of service at the higher rate of pay, to which the Pensions (Increase) Act 1971(**1**) applied.";

(c) ym mharagraff (6), ar ôl "B1," mewnosoder "B1A,";

(d) ym mharagraff (9), yn lle "paragraph (3)" rhodder "paragraph (4)".

**Buddion goroeswr i bartneriaid sifil a phriodau o'r un rhyw: Cynllun 1992**

**4.**—(1) Yn Rhan C (dyfarndaliadau yn sgil marwolaeth – priodau)—

(a) yn rheol C1 (pensiwn cyffredin priod)—

(i) ym mharagraff (2)(**2**), ar ôl "spouse" mewnosoder "or surviving civil partner";

(ii) hepgorer paragraff (2A)(**3**);

(b) yn rheol C4 (pensiwn cronedig priod), ym mharagraff (3)(**4**)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl "spouse" mewnosoder "or surviving civil partner";

(ii) hepgorer is-baragraff (b) a'r "and" sy'n dod o'i flaen;

(c) yn rheol C5 (cyfyngiad ar ddyfarndaliad i briod neu bartner sifil drwy gyfeirio at ddyddiad y briodas neu'r dyddiad y ffurfiwyd y bartneriaeth)(**5**)—

(i) ym mharagraff (2), ar ôl "spouse" mewnosoder "or surviving civil partner";

(ii) hepgorer paragraff (3);

(d) yn rheol C6 (budd angenrheidiol a phensiwn dros dro priod neu bartner sifil), ym mharagraff (4)(**6**)—

(i) yn is-baragraff (a), hepgorer "in the case of a surviving spouse,";

(ii) hepgorer is-baragraff (b) a'r "and" sy'n dod o'i flaen;

(**1**) 1971 p. 56.
(**2**) Amnewidiwyd paragraff (2) o reol C1 gan erthygl 2 o O.S. 2014/3242 (Cy. 329), a pharagraff 3(a) o Atodlen 1 iddo.
(**3**) Mewnosodwyd paragraff (2A) o reol C1 gan erthygl 2 o O.S. 2006/1672 (Cy. 160), a pharagraff 3 o Atodlen 2 iddo.
(**4**) Amnewidiwyd paragraff (3) o reol C4 gan erthygl 2 o O.S. 2006/1672 (Cy. 160), a pharagraff 6 o Atodlen 2 iddo.
(**5**) Amnewidiwyd rheol C5 gan erthygl 2 o O.S. 2006/1672 (Cy. 160), a pharagraff 7 o Atodlen 2 iddo; diwygiwyd paragraffau (2) a (3) gan erthygl 2 o O.S. 2007/1074 (Cy. 112), a pharagraff 17 o Atodlen 1 iddo.
(**6**) Amnewidiwyd rheol C6 gan erthygl 2 o O.S. 2007/1074 (Cy. 112), a pharagraff 18 o Atodlen 1 iddo.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(e) yn rheol C8 (cyfyngiad pan fo priodau yn byw ar wahân), ym mharagraff (2)(**1**)—

(i) yn is-baragraff (a), hepgorer "in the case of a surviving spouse,";

(ii) hepgorer is-baragraff (b) a'r "and" sy'n dod o'i flaen.

(2) Yn Rhan J (achosion arbennig), yn rheol J1 (lleiafswm pensiwn gwarantedig)(**2**)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) in the case of a person who dies at any time and leaves a widow, a surviving same sex spouse or surviving civil partner, that person is entitled to a pension of a weekly rate equal to half the deceased person's guaranteed minimum, and";

(ii) hepgorer is-baragraff (d) a'r "and" sy'n dod o'i flaen;

(b) ym mharagraff (4), yn lle ", (c) or (d)" rhodder "or (c)".

(3) Yn Atodlen 1 (dehongli) i Gynllun 1992, hepgorer paragraffau 1 a 2 o Ran 3 (darpariaeth yn ymwneud â chyplau o'r un rhyw)(**3**).

(4) Yn Atodlen 3 (dyfarndaliadau yn sgil marwolaeth – priodau) i Gynllun 1992—

(a) yn Rhan 3 (pensiwn cronedig priod)—

(i) ym mharagraff 2(1), ar ôl "spouse's" mewnosoder ", or surviving civil partner's,";

(ii) ym mharagraff 3(1), ar ôl "spouse" mewnosoder "or surviving civil partner";

(b) yn Rhan 4 (pensiwn i briod sy'n goroesi o briodas ar ôl ymddeol), ym mharagraffau 1(1)(**4**) a 2(1), ar ôl "surviving spouse" mewnosoder "or surviving civil partner".

---

(**1**) Amnewidiwyd paragraff (2) o reol C8 gan erthygl 2 o O.S. 2006/1672 (Cy. 160), a pharagraff 10 o Atodlen 2 iddo; ac fe'i diwygiwyd gan erthygl 2 o O.S. 2007/1074 (Cy. 112), a pharagraff 20 o Atodlen 1 iddo.

(**2**) Amnewidiwyd paragraff 2(d) o reol J1 gan erthygl 2 o O.S. 2014/3242 (Cy. 329), a pharagraff 11 o Atodlen 1 iddo; diwygiwyd paragraff (4) gan erthygl 2 o O.S. 2006/1672 (Cy. 160), a pharagraff 21 o Atodlen 2 iddo.

(**3**) Mewnosodwyd Rhan 3 o Atodlen 1 i Gynllun 1992 gan erthygl 4 o O.S. 2014/560, a pharagraff 17 o Ran 2 o Atodlen 3 iddo; mae diwygiad arall i baragraff 1 nad yw'n berthnasol i'r offeryn hwn.

(**4**) Amnewidiwyd Rhan 4 gan erthygl 2 o O.S. 2006/1672 (Cy. 160), a pharagraff 83(b) o Atodlen 1 iddo; diwygiwyd paragraff 1(1) ac amnewidiwyd paragraff 1(2) gan erthygl 2 o O.S. 2007/1074 (Cy. 112), a pharagraff 63(c) o Atodlen 1 iddo.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Cymudo credydau pensiwn bach: Cynllun 1992**

**5.** Yn Rhan IA (aelodau credyd pensiwn), yn rheol IA2(1)(**1**) (cymudo'r buddion credyd pensiwn), yn lle "In the circumstances described in regulation 3(2)(b) of the Pension Sharing (Pension Credit Benefit) Regulations 2000 (commutation of pension credit benefit: small pensions)" rhodder "Where the amount of pension payable under rule IA1 does not exceed the trivial commutation lump sum limit in paragraph 7 of Schedule 29 to the Finance Act 2004 (lump sum rule)(**2**)".

## RHAN 3

### Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

**Diwygiadau i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007**

**6.** Mae Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007(**3**) (lle nodir Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) ("Cynllun 2007")) wedi ei diwygio fel a nodir yn rheoliadau 7 i 9.

**Cynyddu pensiynau hollt: Cynllun 2007**

**7.** Yn Rhan 3 (dyfarndaliadau personol), yn rheol 7 (yr hawlogaeth i gael dau bensiwn)(**4**)—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "ym mharagraffau (3) a (4)" rhodder "ym mharagraffau (3), (3A) a (4)";

(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Caiff swm y pensiwn cyntaf a ddyfernir o dan baragraff (3) ei gynyddu bob blwyddyn cyn diwrnod gwasanaeth olaf y diffoddwr tân o swm sy'n gyfwerth â'r swm a fyddai'n gymwys pe byddai'r pensiwn cyntaf yn bensiwn a delir gan gychwyn o'r dyddiad yr oedd paragraff (1) yn gymwys am y tro cyntaf i'r aelod, yr oedd Deddf Pensiynau (Cynnydd) 1971 yn gymwys iddo."

---

(**1**) Diwygiwyd rheol IA2(1) gan erthygl 2 o O.S. 2014/3242 (Cy. 329), a pharagraff 10(b) o Atodlen 1 iddo.

(**2**) 2004 p. 12; mae diwygiadau i Ran 1 o Atodlen 29 nad ydynt yn berthnasol.

(**3**) O.S. 2007/1072 (Cy. 110); a ddiwygiwyd gan O.S.au 2009/1225 (Cy. 108), 2010/234, 2012/972 (Cy. 127), 2013/735 (Cy. 87), 2013/1577 (Cy. 145), 2014/560, 2014/3254 (Cy. 330), 2015/1013 (Cy. 69), 2015/1016 (Cy. 71) a 2018/577 (Cy. 104).

(**4**) Diwygiwyd rheol 7, yn Rhan 3, gan O.S. 2014/3254 (Cy. 330) a 2015/1016 (Cy. 71).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Cymudo credydau pensiwn bach: Cynllun 2007**

**8.** Yn Rhan 6 (rhannu pensiwn yn sgil ysgaru), yn rheol 2 (cymudo'r cyfan o fuddion credyd pensiwn), ym mharagraff (1), yn lle "O dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn rheoliad 3(2)(b) o Reoliadau Rhannu Pensiwn (Budd Credyd Pensiwn) 2000 (cymudo budd credyd pensiwn: pensiynau bach)" rhodder "Pan na fo swm y pensiwn sy'n daladwy o dan y Rhan hon yn fwy na therfyn y cyfandaliad mân gymudiad o fewn ystyr "trivial commutation lump sum" ym mharagraff 7 o Atodlen 29 i Ddeddf Cyllid 2004 (y rheol ynghylch cyfandaliadau)(**1**)".

(**1**) 2004 p. 12; mae diwygiadau eraill i Ran 1 o Atodlen 29 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Y gyfran a gymudwyd: aelodau arbennig: Cynllun 2007**

**9.** Yn Atodiad ZA, yn lle’r Tabl rhodder—

| “ | ***Oedran mewn blynyddoedd a misoedd cyflawn ar ddiwrnod cychwyn y pensiwn*** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Blynydd oedd*** | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **Islaw 50** | 23.4 | | | | | | | | | | | |
| **50** | 22.4 | 22.3 | 22.3 | 22.3 | 22.3 | 22.2 | 22.2 | 22.2 | 22.2 | 22.1 | 22.1 | 22.1 |
| **51** | 22.1 | 22.0 | 22.0 | 22.0 | 22.0 | 21.9 | 21.9 | 21.9 | 21.9 | 21.8 | 21.8 | 21.8 |
| **52** | 21.8 | 21.7 | 21.7 | 21.7 | 21.7 | 21.6 | 21.6 | 21.6 | 21.6 | 21.5 | 21.5 | 21.5 |
| **53** | 21.5 | 21.4 | 21.4 | 21.4 | 21.3 | 21.3 | 21.3 | 21.3 | 21.2 | 21.2 | 21.2 | 21.1 |
| **54** | 21.1 | 21.1 | 21.1 | 21.0 | 21.0 | 21.0 | 21.0 | 20.9 | 20.9 | 20.9 | 20.9 | 20.8 |
| **55** | 20.8 | 20.8 | 20.8 | 20.7 | 20.7 | 20.7 | 20.6 | 20.6 | 20.6 | 20.5 | 20.5 | 20.5 |
| **56** | 20.4 | 20.4 | 20.4 | 20.4 | 20.3 | 20.3 | 20.3 | 20.2 | 20.2 | 20.2 | 20.1 | 20.1 |
| **57** | 20.1 | 20.0 | 20.0 | 20.0 | 19.9 | 19.9 | 19.9 | 19.8 | 19.8 | 19.8 | 19.7 | 19.7 |
| **58** | 19.7 | 19.6 | 19.6 | 19.6 | 19.5 | 19.5 | 19.5 | 19.4 | 19.4 | 19.4 | 19.3 | 19.3 |
| **59** | 19.3 | 19.2 | 19.2 | 19.2 | 19.1 | 19.1 | 19.1 | 19.0 | 19.0 | 19.0 | 18.9 | 18.9 |
| **60** | 18.9 | 18.8 | 18.8 | 18.7 | 18.7 | 18.7 | 18.6 | 18.6 | 18.6 | 18.5 | 18.5 | 18.5 |
| **61** | 18.4 | 18.4 | 18.4 | 18.3 | 18.3 | 18.2 | 18.2 | 18.2 | 18.1 | 18.1 | 18.1 | 18.0 |
| **62** | 18.0 | 18.0 | 17.9 | 17.9 | 17.8 | 17.8 | 17.8 | 17.7 | 17.7 | 17.7 | 17.6 | 17.6 |
| **63** | 17.5 | 17.5 | 17.5 | 17.4 | 17.4 | 17.4 | 17.3 | 17.3 | 17.2 | 17.2 | 17.2 | 17.1 |
| **64** | 17.1 | 17.1 | 17.0 | 17.0 | 16.9 | 16.9 | 16.9 | 16.8 | 16.8 | 16.8 | 16.7 | 16.7 |
| **65** | 16.6 | 16.6 | 16.6 | 16.5 | 16.5 | 16.5 | 16.4 | 16.4 | 16.3 | 16.3 | 16.3 | 16.2 |
| **66** | 16.2 | 16.2 | 16.1 | 16.1 | 16.0 | 16.0 | 16.0 | 15.9 | 15.9 | 15.9 | 15.8 | 15.8 |
| **67** | 15.7 | 15.7 | 15.7 | 15.6 | 15.6 | 15.6 | 15.5 | 15.5 | 15.4 | 15.4 | 15.4 | 15.3 |
| **68** | 15.3 | 15.2 | 15.2 | 15.2 | 15.1 | 15.1 | 15.1 | 15.0 | 15.0 | 14.9 | 14.9 | 14.9 |
| **69** | 14.8 | 14.8 | 14.7 | 14.7 | 14.7 | 14.6 | 14.6 | 14.5 | 14.5 | 14.5 | 14.4 | 14.4 |
| **70** | 14.3 | 14.3 | 14.3 | 14.2 | 14.2 | 14.1 | 14.1 | 14.0 | 14.0 | 14.0 | 13.9 | 13.9 |
| **71** | 13.8 | 13.8 | 13.8 | 13.7 | 13.7 | 13.6 | 13.6 | 13.5 | 13.5 | 13.5 | 13.4 | 13.4 |
| **72** | 13.3 | 13.3 | 13.2 | 13.2 | 13.2 | 13.1 | 13.1 | 13.0 | 13.0 | 12.9 | 12.9 | 12.8 |
| **73** | 12.8 | 12.8 | 12.7 | 12.7 | 12.6 | 12.6 | 12.5 | 12.5 | 12.4 | 12.4 | 12.3 | 12.3 |
| **74** | 12.3 | 12.2 | 12.2 | 12.1 | 12.1 | 12.0 | 12.0 | 11.9 | 11.9 | 11.8 | 11.8 | 11.7 |
| **75** | 11.7 ” | | | | | | | | | | | |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 4

## Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

**Diwygiadau i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007**

**10.** Mae Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007(**1**) (lle nodir Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 ("Cynllun Digolledu 2007")) wedi ei diwygio fel a nodir yn rheoliadau 11 a 12.

**Buddion goroeswr i bartneriaid sifil a phriodau o'r un rhyw: Cynllun Digolledu 2007**

**11.** Yn Rhan 3 (dyfarndaliadau yn sgil marwolaeth: priodau a phartneriaid sifil)—

(a) yn rheol 1 (dyfarndaliad arbennig ar gyfer priod neu bartner sifil), ym mharagraff (3)(**2**)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl "spouse" mewnosoder "or surviving civil partner";

(ii) hepgorer is-baragraff (b);

(b) yn rheol 3 (cyfyngiad ar ddyfarndaliad i briod neu bartner sifil drwy gyfeirio at ddyddiad y briodas neu'r dyddiad y ffurfiwyd y bartneriaeth)—

(i) ym mharagraff (2), ar ôl "spouse" mewnosoder "or surviving civil partner";

(ii) hepgorer paragraff (3);

(c) yn rheol 4 (cyfyngiad pan fo'r priod neu'r partner sifil yn byw ar wahân), ym mharagraff (2)(**3**)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl "spouse" mewnosoder "or surviving civil partner";

(ii) hepgorer is-baragraff (b) a'r "and" sy'n dod o'i flaen.

---

(**1**) O.S. 2007/1073 (Cy. 111); a ddiwygiwyd gan O.S.au 2010/234, 2014/3256 (Cy. 331), 2015/1013 (Cy. 69) a 2018/577 (Cy. 104).

(**2**) Diwygiwyd paragraff (3) o reol 1 gan erthygl 2 o O.S. 2014/3256 (Cy. 331), a pharagraff 3(2) o Atodlen 1 iddo, erthygl 2 o O.S. 2015/1013 (Cy. 69), a pharagraff 3(2)(a)(i) a (ii) o Atodlen 1 iddo.

(**3**) Diwygiwyd paragraff 2 o reol 4 gan erthygl 2 o O.S. 2015/1013 (Cy. 69), a pharagraff 3(3) o Atodlen 1 iddo.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Dyfarndaliadau yn sgil marwolaeth: plant: Cynllun Digolledu 2007**

**12.** Yn Rhan 4 (dyfarndaliadau yn sgil marwolaeth: plant), yn rheol 3 (lwfans arbennig neu rodd ariannol plentyn: cyfyngiadau)—

(a) yn y pennawd, hepgorer "or gratuity";

(b) hepgorer paragraff (1);

(c) ym mharagraff (5)(a), yn lle "(b) or (c)" rhodder "(2)(b) or (c)".

# RHAN 5

Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

**Diwygiadau i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015**

**13.** Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, sy'n sefydlu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015(**1**) ("Cynllun 2015"), wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 14.

**Taliadau gwerth trosglwyddiad clwb: Cynllun 2015**

**14.** Yn Atodlen 2 (darpariaethau trosiannol), ym mharagraff 45 (derbyn taliadau gwerth trosglwyddiad clwb), ar ôl "ymwneud â budd cyflog terfynol aelod" mewnosoder ", ar wahân i daliad o Gynllun 1992 fel y mae'r cynllun hwnnw yn cael effaith yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon,".

*Hannah Blythyn*
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
10 Rhagfyr 2020

(**1**) O.S. 2015/622 (Cy. 50); a ddiwygiwyd gan O.S.au 2015/1016 (Cy. 71) a 2018/576 (Cy. 103).

**Explanatory Memorandum to The Firefighters' Pension Schemes and Compensation Scheme (Wales) (Amendment) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Deputy Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of **The Firefighters' Pension Schemes and Compensation Scheme (Wales) (Amendment) Regulations 2020.** I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

**Hannah Blythyn MS**
**Deputy Minister for Housing and Local Government**
**14 December 2020**

**PART 1**

## 1. Description

The Firefighters' Pension Schemes and Compensation Scheme (Wales) (Amendment) Regulations 2020 ("the Regulations") amend the following:-

- the Firemen's Pension Scheme Order 1992 ("the 1992 Order") which sets out, in Schedule 2, the Firefighters' Pension (Wales) Scheme ("the 1992 Scheme"),
- the Firefighters' Pension Scheme (Wales) Order 2007 ("the 2007 Order") which sets out, in Schedule 1, the New Firefighters' Pension Scheme (Wales) ("the 2007 Scheme"),
- the Firefighters' Compensation Scheme (Wales) Order 2007 ("the 2007 Compensation Order") which sets out, in Schedule 1, the Firefighters' Compensation Scheme (Wales) 2007 ("the 2007 Compensation Scheme"), and
- the Firefighters' Pension Scheme (Wales) Regulations 2015 ("the 2015 Order") which sets out the Firefighters' Pension Scheme (Wales) 2015 ("the 2015 Scheme").

The 1992 Scheme and the 2007 Compensation Scheme currently provide surviving civil partners and same sex spouses with entitlement to a survivors' pension based on pensionable service from 6 April 1988. Following the Supreme Court judgment in the case of Walker v Innospec[1], the Regulations amend these provisions to remove the 1988 limitation date, which will bring the benefits payable to surviving civil partners and same sex spouses in line with those payable to surviving widows of opposite sex marriages and comply with the ruling. The amendments are backdated to 5 December 2005, the date that civil partnerships were introduced.

In addition, the Regulations also remove the provisions that equate opposite sex civil partnerships with same sex marriages or civil partnerships, in the 1992 Scheme. Following the introduction of the Civil Partnership (Opposite-sex Couples) Regulations 2019, which allow civil partnerships to be formed by opposite sex couples, this provision is no longer appropriate. The amendment is backdated to 13 March 2014, the date that same sex marriages were introduced.

Following the Supreme Court ruling in the case of McLaughlin[2], in which it was held that denying benefits payable to (or on behalf of) children based on their parents' marital status was unlawful, the Regulations amend the 2007 Compensation Scheme to remove the provisions that discriminate against children of unmarried scheme members. The proposed amendment also eliminates differential treatment currently applied to dependent, step and adopted children. This regulation is backdated to the date from which the original provision had effect (1 April 2006).

---

[1] [2017] UKSC 47 (https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2016-0090.html)
[2] [2018] UKSC 48 (https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2017-0035.html)

The Regulations also amend the 1992 Scheme and the 2007 Scheme to clarify that where a firefighter has an entitlement to two pensions, the amount of the first pension is up-rated annually (as if subject to the Pension (Increase) Act 1971) from the date that the firefighter ceased to earn the higher rate of pay until retirement.

The Regulations amend the 1992 Scheme and 2007 Scheme in relation to pension sharing on divorce. On divorce from a pension scheme member, under pension sharing provisions, spouses or civil partners of scheme members can be awarded part of their pension as a credit. Amendments have been made to update the out of date statutory reference and ensure that pension credit members (those who have rights under the 1992 Scheme or 2007 Scheme which are attributable, directly or indirectly, to a pension credit under a pension order following divorce or nullity of marriage) continue to commute their benefit as permitted by overarching legislation (trivial commutation lump sum limit in paragraph 7 of Schedule 29 to the Finance Act 2004). On divorce from a pension scheme member, Current provisions of the 1992 Scheme and 2007 Scheme do not take account of changes to the related legislation on pension sharing.

The Regulations also make amendments to update the 2007 Scheme to include special commutation factors (that is, the rates at which pension can be exchanged for a lump sum) up to age 75, instead of age 65.

The Regulations amend the 2015 Scheme to clarify that members of the 1992 Scheme with protected rights transferring to Wales from England, Scotland or Northern Ireland continue to be entitled to remain as members of that Scheme.

## 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

Certain regulations make retrospective provision – these are set out in regulation 1(3) of this statutory instrument (namely, regulations 3, 4, 5, 7, 8, 11, 12 and 14). The following provisions in the enabling legislation permit regulations made under those provisions to have retrospective effect—

(a) section 12 of the Superannuation Act 1972, as applied by section 16(3) of that Act in relation to orders made under section 26 of the Fire Services Act 1947,
(b) section 34(3) of the Fire and Rescue Services Act 2004, and
(c) section 3(3)(b) of the Public Service Pensions Act 2013.

This is to ensure that certain provisions can be applied to pensions already in payment or being accrued.

## 3. Legislative background

The powers of the Welsh Ministers in relation to the 1992 Scheme to make these Regulations are conferred by section 26(1), (2) and (5) of the Fire Services Act 1947; section 12 of the Superannuation Act 1972, as applied by section 16(3) of that Act.

In respect of the 2007 Scheme and the 2007 Compensation Scheme, the powers of the Welsh Ministers to make these Regulations are conferred by section 34(1) to (4) of the Fire and Rescue Services Act 2004.

The powers of the Welsh Ministers in relation to the 2015 Scheme to make these Regulations are conferred by sections 1(1) and (2)(f), 2(1), 3(1) to (3) and 18(5)(a) and (6) of, and Schedules 2 (paragraph 6(b)) and 3 (paragraphs 1 to 4) to, the Public Service Pensions Act 2013.

This instrument is subject to the negative resolution procedure.

## 4. Purpose and intended effect of the legislation

**Regulation 3** makes amendments to the 1992 Order in relation to split pensions. Currently, both the 1992 Scheme and 2007 Scheme allow a "two pension" option if a firefighter has a reduction in pensionable pay when taking up a different role. This enables pension rights before the reduction in pay to be "preserved". The amendments made by **regulations (a), (c) and (d)**, ensure that a firefighter is not disadvantaged by the provision which allows for two pensions to be awarded, calculated separately, after a significant reduction in pay. This clarifies that two pensions should not be awarded if their total is lower than the single pension. Other minor updates to Rule B5A of the 1992 Scheme are also being made. **Regulation 3(b)** clarifies that where a firefighter has an entitlement to two pensions under the 1992 Order, the amount of the first pension is uprated annually (as if subject to the Pensions (Increase) Act 1971) from the time of the reduction in pay until retirement.

**Regulation 4** amends the 1992 Order to bring the benefits payable to survivors of civil partnerships and same sex marriages into line with the benefits payable to survivors of opposite sex marriages under the 1992 Scheme. In addition, the regulations also remove the provisions that equate opposite sex civil partnerships with same sex marriages or civil partnerships, which is no longer appropriate following the introduction of the Civil Partnership (Opposite-sex Couples) Regulations 2019 (which allow civil partnerships to be formed by opposite sex couples).

**Regulation 5** amends an out of date statutory reference in the 1992 Order in relation to commutation of small pension credits. This ensures that pension credit members can continue to commute their benefit as permitted by the trivial commutation lump sum limit as set out in the Finance Act 2004.

**Regulation 7** amends the 2007 Order in relation to split pensions. The amendment clarifies that where a firefighter has an entitlement to two pensions under the 2007 Scheme, the amount of the first pension is uprated annually (as if subject to the Pensions (Increase) Act 1971) from the date that the firefighter ceased to earn the higher rate of pay until retirement.

**Regulation 8** amends an out of date Statutory Reference in the 2007 Order in relation to commutation of small pension credits. This ensures that pension credit members can continue to commute their benefit as permitted by the trivial commutation lump sum limit as set out in the Finance Act 2004.

**Regulation 9** substitutes the table of commutation factors within Annex ZA of the 2007 Order to include special commutation factors up to age 75 years. The commutation factors as at 31 March 2014 (up to age 65) have been replicated in the substituted table and have not changed.

**Regulation 11** amends the 2007 Compensation Order to bring the benefits payable to survivors of civil partnerships and same sex marriages into line with the benefits payable to survivors of opposite sex marriages under the 2007 Compensation Scheme.

**Regulation 12** amends the 2007 Compensation Order to remove some of the limitations applied to dependent, step and adopted children, as well as to children of unmarried parents. It also amends the heading of rule 3 of the 2007 Compensation Scheme and clarifies a cross-reference in rule 3(5)(a).

**Regulation 14** makes an amendment to the 2015 Regulations to clarify that protected members of the 1992 Scheme transferring to Wales from England, Scotland and Northern Ireland continue to be entitled to remain as members of that Scheme.

## 5. Consultation

Section 34(5) of the Fire and Rescue Services Act 2004 requires the Welsh Ministers to consult either those who are likely to be affected by them, or the representatives of those persons, before making any amendments.

Section 21(1) of the Public Service Pensions Act 2013 requires the authority responsible for making the regulations to consult either those who are likely to be affected by them, or the representatives of those persons, before making any regulations.

A 12 week consultation ran from 10 July 2020 to 02 October 2020 inviting stakeholder views on the proposed amendments. The consultation was brought to the attention of key stakeholders such as the Fire and Rescue Authorities and

Trade Unions via the Firefighters' Pension Scheme Advisory Board for Wales' meetings.

There were no responses to the consultation exercise. This may be due to the technical nature of the proposed amendments and the fact that the Regulations seek only to confer benefits. Accordingly, there is no summary of the consultation responses to publish Welsh Government lawyers have concluded that no amendments were necessary to the draft Regulations which were published (in both English and Welsh) alongside the Welsh Government's consultation document.

## 6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

A Regulatory Impact Assessment has been considered, but has not been conducted in this instance as the Regulations will not introduce any additional costs to charities, and the private or third sector.

The changes to scheme rules which implement the Walker and McLaughlin judgments will increase pension benefits for survivors of same-sex relationships, and survivors who are adopted or step-children. We do not know (and have no way of knowing) exactly how many firefighters are in same-sex relationships, or are unmarried or adoptive parents. However, if these numbers are broadly similar to those in the population as a whole, then the impact on Fire and Rescue Authorities (FRAs) is not expected to be significant. Costs will be taken into account in future pension scheme valuations and will be reflected in any required changes to overall scheme benefits, employer and employee contribution rates.

# SL(5)701 – Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016"). Mae'n diwygio darpariaethau yn y Gorchmynion hynny er mwyn estyn y cyfnod pan fo gofynion penodol wedi eu haddasu neu eu datgymhwyso.

Mae erthygl 2 yn diwygio erthygl 2G(2)(b) o Orchymyn 2012 er mwyn estyn cyfnod yr argyfwng pan fo'r gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio wedi eu haddasu. Mae hefyd yn estyn cyfnod yr argyfwng at ddiben yr amser sydd gan gynghorau cymuned i wneud sylwadau ar geisiadau yr hysbysir hwy amdanynt. Daw cyfnod yr argyfwng i ben ar 8 Hydref 2021.

Mae erthygl 3 yn diwygio erthygl 12(6A)(b) o Orchymyn 2016 er mwyn estyn y cyfnod pan na fo copïau caled o geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn ofynnol. Daw'r cyfnod hwnnw i ben ar 8 Hydref 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar y cynigion hyn. Mae paragraff 5.1 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

5.1 *Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch y cynigion hyn oherwydd y diffyg amser cyn oedd angen gwneud y gorchymyn wrth ragweld yr angen i gynnal y trefniadau dros dro heb doriad.*
5.2 *Mae angen rhoi'r diwygiad ar waith ar unwaith er mwyn estyn y mesurau lliniaru a roddwyd yn eu lle i reoli effeithiau cyfyngiadau COVID-19 o ran teithio ac agor adeiladau ar rannau penodol o'r system gynllunio. Bydd y diwygiad yn golygu bod modd i ddatblygwyr barhau i gyflwyno ceisiadau cynllunio, gan atal achosion rhag cronni, a galluogi caniatâd i gael ei roi wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi.*
5.3 *Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi'n fuan ar ateb hirdymor.*

Mae Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, wedi gosod Memorandwm Esboniadol manwl, a pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Disgwylir y cyhoeddir ymgynghoriad cyhoeddus cyn bo hir, fel y nodwyd ym mharagraff 5.3 o'r Memorandwm Esboniadol (gweler uchod).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1516 (Cy. 324)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016"). Mae'n diwygio darpariaethau yn y Gorchmynion hynny er mwyn estyn y cyfnod pan fo gofynion penodol wedi eu haddasu neu eu datgymhwyso.

Mae erthygl 2 yn diwygio erthygl 2G(2)(b) o Orchymyn 2012 er mwyn estyn cyfnod yr argyfwng pan fo'r gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio wedi eu haddasu. Mae hefyd yn estyn cyfnod yr argyfwng at ddiben yr amser sydd gan gynghorau cymuned i wneud sylwadau ar geisiadau yr hysbysir hwy amdanynt. Daw cyfnod yr argyfwng i ben ar 8 Hydref 2021.

Mae erthygl 3 yn diwygio erthygl 12(6A)(b) o Orchymyn 2016 er mwyn estyn y cyfnod pan na fo copïau caled o geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn ofynnol. Daw'r cyfnod hwnnw i ben ar 8 Hydref 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1516 (Cy. 324)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *14 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *9 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 61Z(8) a (9), 62(11), 62R a 333(4B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), a thrwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59, 62(1) a (2), 71(1), (2)(a) a (2A) a 333(7) o'r Ddeddf honno(**2**) sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**) (fel y'u cymhwysir yn

(**1**) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 61Z gan adran 17(2) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ("Deddf 2015"). Mewnosodwyd adran 62(11) gan adran 17(3) o Ddeddf 2015 (gweler hefyd adran 59(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") (y cyfeirir ati yn y troednodyn nesaf) sy'n darparu mai ystyr gorchymyn datblygu mewn perthynas â Chymru yw gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru). Mewnosodwyd adran 62R gan adran 25 o Ddeddf 2015. Amnewidiwyd adran 333(4B) gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 6(3) o Atodlen 7 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**2**) Diwygiwyd adran 59(2) gan adran 1 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27) a pharagraff 4 o Atodlen 1 iddi, a chan adran 27 o Ddeddf 2015 a pharagraff 3 o Atodlen 4 iddi. Mewnosodwyd adran 59(4) gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi. Gweler adran 71(4) am ystyr "prescribed". Diwygiwyd adran 71 gan adran 16(2) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf 1990. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

achos adran 62(1) gydag addasiadau gan Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2016(**1**)), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Ionawr 2021.

**Ymgynghori cyn ymgeisio: rhoi gwybodaeth ar gael**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2G(2)(b), yn lle "8 Ionawr 2021" rhodder "8 Hydref 2021".

**Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: gwneud ceisiadau**

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 12(6A)(b), yn lle "8 Ionawr 2021" rhodder "8 Hydref 2021".

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Lleol, un o Weinidogion Cymru
10 Rhagfyr 2020

adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**1**) O.S. 2016/54 (Cy. 24).

(**2**) O.S. 2012/801 (Cy. 110), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/59 (Cy. 29), O.S. 2017/567 (Cy. 136), O.S. 2020/514 (Cy. 121) ac O.S. 2020/1004 (Cy. 223); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(**3**) O.S. 2016/55 (Cy. 25), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/514 (Cy. 121) ac O.S. 2020/1004 (Cy. 223); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
14 Rhagfyr 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (y "DMPWO") yn darparu ar gyfer gweithdrefnau cysylltiedig â cheisiadau cynllunio, ymgyngoriadau cysylltiedig â cheisiadau cynllunio, penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, apeliadau, gorchmynion datblygu lleol, tystysgrifau datblygiad neu ddefnydd cyfreithlon, cynnal a chadw cofrestrau o geisiadau cynllunio a materion cysylltiedig.

1.2 Mae Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (y "DNSPWO") yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut mae Gweinidogion Cymru yn delio â cheisiadau am ganiatâd cynllunio yng nghyswllt Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DNS").

1.3 Daeth Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("Gorchymyn cyntaf 2020") i rym ar 19 Mai 2020 ac mae'n addasu neu'n datgymhwyso gofynion penodol yn y DMPWO a'r DNSPWO yng nghyswllt y cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad dod i rym y Gorchymyn ac yn dod i ben ar 18 Medi. Mae'r Gorchymyn yn gwneud y canlynol yn benodol:

*Y weithdrefn cyn ymgeisio ar gyfer datblygiadau mawr*

- Mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad cyn ymgeisio (y mae'n rhaid ei gynnal cyn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau penodol a elwir yn ddatblygiadau mawr), mae'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid sicrhau bod copïau o ddogfennau cysylltiedig â chais cynllunio arfaethedig ar gael i'w harchwilio yn lleol wedi cael ei ddisodli gan ofyniad sy'n nodi bod rhaid i'r dogfennau hyn fod ar gael ar wefan neu fod copi caled ohonynt yn cael ei ddarparu ar gais.

- Mae newidiadau sy'n adlewyrchu'r hyn a nodir uchod wedi cael eu gwneud i'r hysbysiadau safleoedd a'r llythyrau angenrheidiol i berchnogion a meddianwyr tir cyffiniol, yn ogystal â hysbysiadau i ymgyngoreion yn y gymuned. Os gwneir cais am gopïau caled o unrhyw ddogfennau, rhaid peidio â chyflwyno cais cyn pen 14 diwrnod i'r dyddiad yr anfonir y ddogfen ddiwethaf.

- Mae'n rhaid i adroddiad yr ymgynghoriad cyn ymgeisio gynnwys cadarnhad bod y gofynion, sy'n ymwneud â sicrhau bod gwybodaeth am y cais arfaethedig ar gael ar wefan a bod copïau caled o'r wybodaeth hon yn cael eu darparu ar gais, wedi cael eu bodloni. Mae angen cynnwys datganiad sy'n nodi a gafwyd ceisiadau am gopïau caled hefyd.

*Amser i gynghorau cymuned ymateb i hysbysiadau*

- Mae'r amser sydd gan gynghorau cymuned i ymateb i geisiadau cynllunio y rhoddir gwybod iddyn nhw amdanynt wedi cael ei ymestyn o 14 diwrnod i 21 diwrnod.

*Cyflwyno copi caled o geisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol*

- Mae'r gofyniad presennol yn y DNSPWO, sy'n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled o gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol lle bo cais wedi cael ei gyflwyno'n electronig, wedi cael ei ddatgymhwyso.

1.4 Roedd Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("ail Orchymyn 2020") wedi estyn y cyfnod pan fydd y gweithdrefnau dros dro'n gymwys hyd 8 Ionawr 2021.

1.5 Mae Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yn estyn y cyfnod naw mis yn fwy, gyda'r gweithdrefnau dros dro'n gymwys hyd 8 Hydref 2021.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Adran 61Z (8) a (9) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am ymgynghoriad, neu yng nghyswllt ymgynghoriad, y mae'n rhaid ei gynnal mewn cysylltiad â cheisiadau am ddatblygiadau a nodir mewn gorchymyn datblygu. (Caiff datblygiad mawr ei nodi at y dibenion hyn yn erthygl 2B(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ac fe ddiffinnir datblygiad mawr yn erthygl 2 o'r un gorchymyn.)

3.2 Mae Adran 62(11) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy orchymyn datblygu am adroddiadau ymgynghori cyn ymgeisio.

3.3 Mae Adran 62R yn galluogi gorchmynion datblygu i wneud darpariaethau am geisiadau am ganiatâd cynllunio a gyflwynir i Weinidogion Cymru.

3.4 Mae Adran 333(4B) o Ddeddf 1990 yn galluogi darpariaeth wahanol ar gyfer dibenion, achosion ac ardaloedd gwahanol.

3.5 Mae'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59 (pŵer i wneud gorchmynion datblygu), 62(1) a (2) (darpariaethau ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio), 71(1), (2)(a), (2A) (ymgynghori ynghylch ceisiadau am

ganiatâd cynllunio) a 333(7) (pŵer i amrywio gorchymyn) o Ddeddf 1990, i'r graddau y mae modd eu gweithredu yng nghyswllt Cymru, wedi cael eu trosglwyddo ac maent bellach wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (S.I. 1999/672), erthygl 2 a'r cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

3.6 Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162, a pharagraff 20 o Atodlen 11, o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.7 Mae Adran 62(1) wedi cael ei defnyddio gydag addasiadau gan Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2016.

3.8 Mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y darpariaethau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael

4.1 Mae argyfwng y COVID-19 yn parhau ledled y Deyrnas Unedig. Er bod gweithleoedd, adeiladau cyhoeddus, swyddfeydd cynghorau a chanolfannau cymunedol bellach yn cael agor yn gyfreithlon, mae llawer ohonynt yn parhau ar gau neu o dan gyfyngiadau mynediad.

4.2 Hefyd, er bod y rhan fwyaf o gyfyngiadau ar deithio wedi'u codi, effaith gosod y cyfyngiadau cenedlaethol diweddar a'r posibilrwydd am fwy ohonynt yn y dyfodol agos fel ymateb i'r cynnydd yn lledaeniad COVID-19, fydd ailosod cyfyngiadau ar symudiadau.

4.3 Mae darpariaethau Gorchymyn cyntaf 2020, ac a estynnwyd gan ail Orchymyn 2020, yn dal yn angenrheidiol felly hyd at 2021, er mwyn gallu parhau i gynnal y system gynllunio yng Nghymru.

4.4 Nod Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yw estyn y cyfnodau a ddynodir yn ail Orchymyn 2020 hyd 8 Hydref 2021. Disgrifir cwmpas y darpariaethau yn rhan 1. Gweler isod eu pwrpas:

*Gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio*

4.5 Fel rhan o'r mesurau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymateb parhaus i COVID-19, cafodd pob adeilad cyhoeddus nad yw'n hanfodol ei gau, ac ni chaniateir teithio'n ddianghenraid. O ganlyniad i hyn, mae'n anodd i ddatblygwyr gydymffurfio ag erthygl 2C(1)(b) y DMPWO.

4.6 Mae'n rhaid cwblhau'r ymgynghoriad cyn ymgeisio cyn gallu cyflwyno ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

4.7 Nod y newidiadau i ddarpariaethau'r weithdrefn cyn ymgeisio, a ddisgrifir yn adran 1 uchod, yw galluogi datblygwyr i sicrhau bod gwybodaeth am ddatblygiadau mawr arfaethedig ar gael yn lleol mewn modd ymarferol tra bo cyfyngiadau'r Coronafeirws yn amharu ar hyn, er mwyn sicrhau bod partïon â buddiant yn cael cyfle i ystyried y cais a rhoi sylwadau os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Er mwyn cynnwys cymaint o bobl â phosib, bydd yr wybodaeth ar gael yn electronig neu ar ffurf copi caled ar gais.

4.8 Bydd cwblhau'r broses cyn ymgeisio hon yn galluogi datblygwyr i gyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr, gan atal mwy a mwy o geisiadau cynllunio rhag cronni wrth iddynt aros i gael eu hystyried. Os bydd y ceisiadau'n cael eu cymeradwyo, bydd y sector adeiladu yn gallu eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau'n cael eu codi, gan leihau'r difrod economaidd a chymdeithasol tymor hwy fydd yn cael ei achosi.

*Sylwadau gan gynghorau cymuned cyn gwneud penderfyniad ynghylch ceisiadau*

4.9 Cynghorau cymuned yw'r haen o lywodraeth sydd ar lawr gwlad yng Nghymru. Mae gan gynghorau cymuned ran bwysig i'w chwarae fel y cyswllt lleol â chymunedau, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r broses gynllunio a bod yn rhan ohoni.

4.10 Drwy ymestyn y cyfnod a ganiateir i gyflwyno sylwadau ar geisiadau y rhoddir gwybod iddyn nhw amdanynt, y bwriad yw y bydd hyn yn lleddfu'r anawsterau mae cynghorau cymuned yn eu hwynebu o ran cynnal cyfarfodydd rheolaidd o ganlyniad i'r mesurau rheoli a gyflwynwyd fel rhan o'r ymateb i COVID-19.

*Dileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid cyflwyno copi caled o gais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol*

4.11 Caiff ceisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol eu cyflwyno'n electronig fel arfer, fodd bynnag, pan wneir cais o'r fath, mae'n ofynnol cyflwyno copi caled i Weinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol. O ganlyniad i'r cyfyngiadau parhaus mewn ymateb i COVID-19, mae adeiladau cyhoeddus nad ydynt yn hanfodol wedi cau a does dim staff i dderbyn copïau caled o geisiadau mewn swyddfeydd perthnasol, felly, mae'n gallu bod yn anodd dilysu hyn.

4.12 Diben diwygio'r DNSPWO yw datgymhwyso elfen o'r weithdrefn bresennol y mae'n anodd gwirio cydymffurfedd â hi tra bo cyfyngiadau COVID-19 ar waith.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch y cynigion hyn oherwydd y diffyg amser cyn oedd angen gwneud y gorchymyn wrth ragweld yr angen i gynnal y trefniadau dros dro heb doriad.

5.2 Mae angen rhoi'r diwygiad ar waith ar unwaith er mwyn estyn y mesurau lliniaru a roddwyd yn eu lle i reoli effeithiau cyfyngiadau COVID-19 o ran teithio ac agor adeiladau ar rannau penodol o'r system gynllunio. Bydd y diwygiad yn golygu bod modd i ddatblygwyr barhau i gyflwyno ceisiadau cynllunio, gan atal achosion rhag cronni, a galluogi caniatâd i gael ei roi wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi.

5.3 Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi'n fuan ar ateb hirdymor.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 1. Ymgynghoriad cyn ymgeisio

### Opsiynau

1.1. Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim byd h.y. dim newidiadau deddfwriaethol.
- Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio i estyn y cyfnod argyfwng a ddynodir yn Erthygl 2G(2), gan barhau i ddileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid i ddatblygwyr sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad sy'n agos i'r datblygiad arfaethedig tan 8 Hydref 2021.
- Opsiwn 3 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio i estyn y cyfnod argyfwng a ddynodir yn Erthygl 2G(2), gan barhau i ddileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid i ddatblygwyr sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad sy'n agos i'r datblygiad arfaethedig tan 8 Mai 2021.

### Opsiwn 1 - Gwneud dim byd

### Disgrifiad

1.2. Daw'r darpariaethau a fewnosodwyd i'r DMPWO gan ail Orchymyn 2020 i ben ar 8 Ionawr. Byddai datblygwyr yn gorfod cydymffurfio'n llawn ag Erthygl 2C o'r DMPWO cyn cyflwyno cais cynllunio dilys ar gyfer datblygiad mawr. Fodd bynnag, tra bydd adeiladau sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd yn parhau ar gau oherwydd COVID-19, byddai datblygwyr yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio'n llawn.

### Costau

<u>Llywodraeth Cymru</u>

1.3. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol.

1.4. Fodd bynnag, byddai'n cael effaith ganlyniadol ar gyflawni datblygiadau strategol lleol a chenedlaethol yn sgil yr oedi fyddai'n anochel oherwydd bod datblygwyr methu cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio'n llawn, wedyn cyflwyno cais dilys ar gyfer datblygiad mawr. Ystyr datblygiad mawr yw datblygiad sy'n cynnwys un neu fwy o'r canlynol:
   a) cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithio mwynau;
   b) datblygiad gwastraff;
   c) darparu tai annedd lle mae'r canlynol yn berthnasol—
      i. bydd 10 neu fwy o dai annedd yn cael eu darparu; neu
      ii. bydd y datblygiad yn cael ei wneud ar safle sy'n 0.5 hectar neu fwy, ac nid yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o dan is-baragraff (c)(i);

d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
e) ddatblygiad sy'n cael ei wneud ar safle ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy;

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.5. Byddai Opsiwn 1 golygu bod ychydig os o gwbl o geisiadau am ddatblygiadau mawr yn cael eu cyflwyno i awdurdod cynllunio lleol am y cyfnod lle na all datblygwyr gydymffurfio â gofynion gweithdrefnol y DMPWO.

1.6. Mae prif ffynhonnell cyllid awdurdodau cynllunio lleol yn dod o incwm y ffi maen nhw'n ei gael am wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau. Mae ein tystiolaeth ni'n awgrymu bod y cyllid hwn yn ddibynnol iawn ar y ffioedd cysylltiedig â phenderfyniadau ynghylch y mathau hyn o geisiadau[1].

1.7. Felly, byddai oedi o ran cyflwyno ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr yn cael effaith niweidiol ar gyllid awdurdodau cynllunio lleol.

Y Diwydiant Datblygu

1.8. Drwy gynnal ymgynghoriad cymunedol cyn ymgeisio ar lefel sylfaenol, amcangyfrifir bod cyfanswm y gost mae'r datblygwr yn ei hysgwyddo rhwng £390 a £1,430[2]. Er y byddai atal y broses ymgynghori cyn ymgeisio dros dro yn golygu bod y costau hyn yn cael eu harbed, mae'n debygol y byddai'r costau fyddai'n deillio o'r oedi yn gwrthbwyso'r rhain. Er ei bod yn anodd amcangyfrif y gost yn union, mae'n amlwg bod oedi cyn gwneud penderfyniadau cynllunio yn rhoi baich ariannol ar ddatblygwyr ac ar economi Cymru.

1.9. Mae oedi'n debygol o gael effaith niweidiol ar sut mae'r gwaith o ddatblygu a rheoli tir yng Nghymru yn cael ei wneud gan y system gynllunio, sy'n un o'r prif ysgogiadau o ran cynnydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae diwydiant datblygu iach a gweithredol yn debygol o chwarae rhan sylweddol yn y broses adfer pan fydd mesurau COVID-19 yn cael eu llacio.

Y Gymuned Leol

1.10. Byddai atal y system cyn ymgeisio dros dro yn golygu oedi o ran datblygu amrywiaeth eang o ddatblygiadau ar raddfa fawr sydd o fudd economaidd a chymdeithasol, a allai niweidio cymunedau lleol, yn enwedig rhai lle mae angen tai fforddiadwy neu gyflogaeth.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

1.11. Does dim manteision o bwys i Lywodraeth Cymru.

[1] Newidiadau i ffioedd cynllunio a ffioedd cysylltiedig â cheisiadau. Llywodraeth Cymru. Rhagfyr 2019.
[2] EMRIA Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (prisiau wedi'u diweddaru gan ddefnyddio cyfres y datchwyddydd cynnyrch domestig gros')

Awdurdodau Lleol

1.12. Ar hyn o bryd, mae adnoddau awdurdodau lleol dan bwysau o ganlyniad i effeithiau COVID-19. Bydd gostyngiad yn nifer y ceisiadau cynllunio yn golygu bod modd ailasesu adnoddau staff yr adran gynllunio a'u hadleoli i feysydd allweddol eraill dros dro er mwyn diwallu anghenion yr awdurdod lleol.

1.13. Fodd bynnag, gallai adleoli staff, pe na baent yn dychwelyd i'w swyddi gwreiddiol pan fydd y cyfyngiadau COVID-19 dechrau cael eu codi, effeithio ar weithrediad y gwasanaeth cynllunio, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar allu'r system gynllunio i gyflawni ei rôl fel gwasanaeth allweddol, a helpu gyda'r broses adfer.

Y Diwydiant Datblygu

1.14. Does dim manteision i'r diwydiant datblygu.

Y Gymuned Leol

1.15. O dan opsiwn 1, bydd y broses ymgynghori cyn ymgeisio yn debygol o gael ei hatal nes bydd llawer o adeiladau cyhoeddus yn ailagor, a fyddai'n golygu bod datblygwyr yn gallu defnyddio'r cyfleusterau hyn i gyflwyno gwybodaeth am ddatblygiadau arfaethedig i'r cyhoedd ei harchwilio.

**Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio sy'n estyn y cyfnod argyfwng hyd 8 Hydref.**

**Disgrifiad**

1.16. Byddai opsiwn 2 yn golygu bod y darpariaethau gwreiddiol a fewnosodwyd i'r DMPWO yn cael eu hestyn tan 8 Hydref 2021. Roedd Gorchymyn cyntaf 2020 yn cael yr effaith ganlynol:

- Dileu'r gofyniad sy'n nodi bod rhaid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad agos i'r datblygiad arfaethedig, a'i ddisodli â gofyniad sy'n nodi bod rhaid i'r wybodaeth fod ar gael ar wefan.
- Disodli Atodlen 1B 'yr hysbysiad angenrheidiol', i adlewyrchu'r holl wybodaeth yn cael ei storio ar-lein yn unig. Nawr mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys rhif ffôn cyswllt ar gyfer y datblygwr/asiant. Dylid darparu gwybodaeth ar ffurf copi caled ar gais, gyda'r datblygwr yn ysgwyddo'r gost.

1.17. Byddai'r newidiadau hyn yn rhai dros dro tan 8 Hydref 2021 neu tan y gwneir Gorchymyn diwygio arall i weithredu'r ateb hirdymor a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

1.18. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol ychwanegol.

1.19. Bydd yr holl gostau cysylltiedig â gwneud y ddeddfwriaeth a rhannu canllawiau perthnasol yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.20. Ni fyddai awdurdodau cynllunio lleol yn wynebu costau ariannol ychwanegol. Byddai busnes yn parhau fel yr oedd cyn COVID-19.

Y Diwydiant Datblygu

1.21. Efallai y bydd y diwydiant datblygu'n wynebu'r gost ychwanegol o bostio copïau caled o wybodaeth ar gais pobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd. O blith yr holl gartrefi ym Mhrydain, roedd gan 93% ohonynt fynediad i'r rhyngrwyd yn 2019[3] felly mae disgwyl i nifer y ceisiadau hyn fod yn isel iawn.

1.22. Mae'r gost o gynhyrchu copi caled o gais cynllunio ar gyfer Datblygiad Mawr yn amrywio fesul achos, ac mae'n dibynnu ar raddfa'r cais a'r deunydd ategol sydd ei angen i ddisgrifio'r datblygiad. Efallai mai dim ond cynllun neu arolwg penodol y bydd y rheini sy'n gwneud cais am wybodaeth eisiau ei weld, nid yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais. Er hynny, mae'r costau a ysgwyddir yn ddi-nod o'u cymharu â'r costau posibl fyddai'n cael eu hysgwyddo yn sgil yr oedi.

Y Gymuned Leol

1.23. Ni fyddai'r gymuned leol yn wynebu unrhyw gostau ariannol. Byddai busnes yn parhau fel yr oedd cyn COVID-19.

1.24. Mae mesurau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd yn dal yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth berthnasol. Bydd rhif ffôn yn cael ei ddarparu ar hysbysiad y safle, a gall pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd ddefnyddio hwn i wneud cais am gopi caled o'r wybodaeth berthnasol. Gallent hefyd drafod y datblygiad gyda'r datblygwr/asiant.

1.25. Oherwydd bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol neu'n hunanynysu, mae risg na fydd y bobl nad ymgynghorir â nhw'n uniongyrchol yn gweld yr hysbysiad safle, ac efallai na fyddant yn ymwybodol o'r ymgynghoriad. Er mai cyhoeddi hysbysiad safle a rhoi gwybod i gymdogion uniongyrchol yw'r unig ofynion statudol o ran cyhoeddusrwydd, mae datblygwyr yn aml yn mynd gam ymhellach na'r gofynion sylfaenol i sicrhau bod eu hymgynghoriad yn cyrraedd cymaint o bobl â phosib, er enghraifft, drwy bostio negeseuon ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol.

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Defnyddwyr y Rhyngrwyd, y DU 2019

1.26. Mae datblygwyr wedi cael eu hatgoffa i fanteisio ar gyfryngau cymdeithasol i gyhoeddi eu hymgyngoriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Bydd llafar gwlad hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth mewn cymunedau.

1.27. Serch hynny, ar ôl cyflwyno cais cynllunio, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn cynnal proses cyhoeddusrwydd ac ymgynghoriad ffurfiol. Bydd hyn yn rhoi cyfle arall i'r rheini sydd â buddiant yn y datblygiad i wneud sylwadau cyn bod penderfyniad terfynol yn cael ei wneud o ran rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

1.28. Byddai'r diwygiad deddfwriaethol a gynigir o dan opsiwn 2 yn galluogi'r broses ymgynghori cyn ymgeisio barhau.

1.29. Mae Ffyniant i Bawb[4] yn cydnabod bod penderfyniadau cynllunio yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd unigolyn ac mae'n cyfleu'r neges o weithio mewn ffordd wahanol. Mae'r strategaeth yn nodi bod cael system gynllunio addas yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Bydd diwygio gweithdrefnau'n sicrhau bod y system ceisiadau cynllunio'n gweithredu'n ddidrafferth, gan helpu awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau datblygiad cynaliadwy, a helpu busnesau drwy gynnal system gynllunio effeithiol sy'n darparu'r gallu i greu cyfleoedd economaidd i bawb.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.30. Byddai awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i gael incwm o ffioedd ceisiadau ar gyfer datblygiadau mawr.

1.31. Byddai adrannau cynllunio yn cadw staff er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn barod i geisiadau gael eu cyflwyno ar ôl COVID-19 fel rhan o'r broses o adfer yr economi.

Y Diwydiant Datblygu

1.32. Mae'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael yn awgrymu bod y mesurau dros dro blaenorol wedi cyflawni eu hamcan. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyn ymgeisio dros y chwe mis diwethaf ac mae datblygwyr wedi gallu cyflwyno ceisiadau i Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae disgwyl i hyn barhau o dan yr Opsiwn hwn, gan atal oedi helaeth o ran cyflwyno ceisiadau cynllunio, a'r effeithiau ar y sector adeiladu sy'n deillio o hynny.

1.33. Gall y diwydiant datblygu sicrhau parhad busnes drwy wneud yn siŵr bod ceisiadau cynllunio yn parhau i gael eu cyflwyno. Bydd hyn y cyfrannu at sicrhau bod pobl sydd â swyddi cysylltiedig â'r system gynllunio yn cael eu

[4] Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru. Symud Cymru Ymlaen. Llywodraeth Cymru. 2017

cadw mewn gwaith yn ystod yr argyfwng cenedlaethol hwn, gan gefnogi economi fywiog a chreu cyfoeth.

1.34. Mae estyn y cyfnod argyfwng am naw mis (o gymharu â phedwar mis) yn darparu mwy o sicrwydd i'r diwydiant tra bo ateb parhaol yn cael ei ddatblygu.

Y Gymuned Leol

1.35. O dan opsiwn 2, bydd y gymuned leol yn elwa'n uniongyrchol os bydd y diwydiant datblygu'n gallu parhau – yn sgil datblygiadau sy'n amrywio o dai fforddiadwy i fusnesau'n codi adeiladau newydd, a fydd yn creu cyflogaeth. Bydd hyn yn arwain at fanteision yn y diwydiant adeiladu ac i'r rheini fydd yn defnyddio'r cyfleusterau hyn. Nid oes tystiolaeth y bydd y newid i'r prosesau cyn ymgeisio yn rhoi'r gymuned leol dan anfantais.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno Gorchymyn Diwygio sy'n estyn y cyfnod argyfwng hyd 8 Mai (estyniad o 4 mis).**

**Disgrifiad**

1.36. Byddai Opsiwn 3 yn arwain at y darpariaethau a fewnosodwyd yn wreiddiol yn y DMPWO gan estyn Gorchymyn cyntaf 2020 hyd 8 Mai 2021. Byddai hyn yn ailadrodd yr estyniad blaenorol o 4 mis a wnaed ym mis Medi 2020. Byddai'r newidiadau hyn yn rhai dros dro hyd 8 Mai 2021.

1.37. Er gwaethaf hyn, mae dau faes risg drwy ymestyn y cyfnod argyfwng am 4 mis yn unig:

- Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ateb hirdymor, gan ddileu'r angen am Orchmynion diwygio yn y dyfodol. Rhaid ymgynghori am o leiaf 12 wythnos. Ar ôl ymgynghori, mae angen amser i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac i ddrafftio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol. Ni ellir gwneud hyn o fewn 4 mis. O ganlyniad, byddai toriad rhwng y mesurau dros dro sy'n dod i ben a'r ateb parhaol yn dod i rym. Os bydd cyfyngiadau COVID-19 yn parhau i fod ar waith sy'n atal adeiladau cyhoeddus rhag agor yn eang, ni fydd datblygwyr yn gallu cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio. O ganlyniad, bydd cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr yn cael ei oedi.

- Cynhelir etholiad Senedd 2021 ar 6 Mai 2021. Bydd arsylwi'r cyfnod cyn yr etholiad a'r cyfnod ar ôl yr etholiad pan sefydlir Llywodraeth, yn debygol o effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyflwyno cyfnod ymestyn ychwanegol pe bai cyfyngiadau COVID-19 yn parhau ar waith ar ôl mis Mai 2021.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

1.38. Ni fyddai unrhyw gost ariannol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gall y costau a nodir yn opsiwn 1 ddigwydd os bydd toriad rhwng y darpariaethau dros dro sy'n dod i ben a ateb hirdymor yn dod i rym sy'n atal ceisiadau cynllunio rhag cael eu cyflwyno.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.39. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau cynllunio lleol.

1.40. Fodd bynnag, gallai unrhyw doriad rhwng y darpariaethau dros dro sy'n dod i ben ac ateb hirdymor sy'n dod i rym sy'n atal cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad mawr arwain at golli incwm ffioedd cynllunio, fel y nodir yn opsiwn 1.

Y diwydiant datblygu

1.41. Byddai'r diwydiant datblygu yn parhau â'r broses ymgynghori cyn ymgeisio, a'i chynnyrch terfynol yw'r gallu i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad mawr am 4 mis ychwanegol.

1.42. Fodd bynnag, gall unrhyw doriad rhwng y darpariaethau dros dro sy’n dod i ben a’r ateb hirdymor sy’n dod i rym sy’n atal cyflwyno ceisiadau cynllunio oedi prosiectau ac arwain at y diwydiant datblygu yn ysgwyddo costau fel y nodwyd yn opsiwn 1.

Y Gymuned Leol

1.43. Nid oes unrhyw gostau ariannol i’r gymuned leol.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

1.44. Byddai’r diwygiad deddfwriaethol a gynigir o dan opsiwn 3 yn galluogi’r broses ymgynghori cyn ymgeisio i barhau am 4 mis ychwanegol. Fodd bynnag, bydd unrhyw doriad rhwng y darpariaethau dros dro sy’n dod i ben a’r ateb hirdymor sy’n dod i rym yn cael effaith niweidiol ar weithrediad y system gynllunio yng Nghymru.

1.45. Byddai disgwyl i'r posibilrwydd o atal y broses ymgynghori cyn ymgeisio ar ôl pedwar mis ac atal ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr gael effaith negyddol ar economi Cymru.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

1.46. Byddai awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i gael incwm ffioedd o geisiadau ar gyfer datblygiadau mawr yn ystod yr estyniad o 4 mis.

Y Diwydiant Datblygu

1.47. Byddai'r diwydiant datblygu yn parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer datblygiadau mawr, gan ymgymryd ag ymgynghoriad cyn ymgeisio a chyflwyno ceisiadau cynllunio am gyfnod o 4 mis.

Y Gymuned Leol

1.48. Nid oes unrhyw fanteision o bwys i'r gymuned o ganlyniad i opsiwn 3.

**Crynodeb a'r Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio**

1.49. Byddai opsiwn 1 unwaith eto yn atal datblygiadau mawr gan y diwydiant datblygu dros dro. Byddai hyn yn esgor ar oblygiadau economaidd i ddatblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol a'r economi ehangach. Gallai'r oedi effeithio ar barodrwydd y system gynllunio i helpu gyda'r broses adfer ar ôl Covid-19.

1.50. Byddai opsiwn 2 yn sicrhau bod ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr yn gallu parhau, gan atal oedi yn y diwydiant datblygu a'r system gynllunio. Byddai hefyd yn caniatáu digon o amser i ymgynghori ar ateb hirdymor a'i ddwyn i rym.

1.51. Byddai opsiwn 3 yn arwain at estyn y darpariaethau dros dro am 4 mis arall. Ni fyddai, fodd bynnag, ddigon o amser i gwblhau'r broses ymgynghori a datblygu polisi i ddwyn ymlaen yr ateb hirdymor. Byddai hyn yn arwain at doriad rhwng yr adeg y bydd y darpariaethau dros dro yn dod i ben a'r adeg y daw'r ateb hirdymor i rym. Mae hyn yn achosi risg i ddatblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol a'r economi ehangach os bydd cyfyngiadau COVID-19 yn parhau, gan atal cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr.

1.52. Felly, opsiwn 2 sy'n cael ei ffafrio.

## 2. Ymgynghori â Chynghorau Cymuned

### Opsiynau

2.1. Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim byd h.y. dim newidiadau deddfwriaethol.
- Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio er mwyn ymestyn y cyfnod argyfwng hyd 8 Hydref 2021, gan gadw cyfnod 21 niwrnod ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad.
- Opsiwn 3 – Cyflwyno Gorchymyn Diwygio gan estyn y cyfnod argyfwng hyd 3 Mai 2021 (estyniad o 4 mis yn unol â'r estyniad blaenorol), gan gadw cyfnod 21 niwrnod ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad.

### Opsiwn 1 - Gwneud dim byd

### Disgrifiad

2.2. Yng nghyswllt y broses ceisiadau cynllunio, ar ôl i Gynghorau Cymuned roi gwybod i'r awdurdod cynllunio lleol eu bod yn dymuno cael gwybod am gais penodol, mae Erthygl 16 y DMPWO yn rhoi cyfnod statudol o 14 diwrnod (30 diwrnod ar gyfer cais sy'n ymwneud ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) iddynt gyflwyno eu sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol. Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi'i rwystro rhag gwneud penderfyniad am geisiadau yn ystod y cyfnod hwn.

2.3. Mae diwygiadau a fewnosodwyd i'r DMPWO gan Orchymyn Ceisiadau Cynllunio (Datgymhwyso ac Addasiadau Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yn estyn y cyfnod hwn i 21 niwrnod.

2.4. Byddai gwneud dim byd yn golygu bod y cyfnod yn dychwelyd i 14 diwrnod.

### Costau

<u>Llywodraeth Cymru</u>

2.5. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

2.6. Er na fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu cost ariannol, gallai hyn gael effaith ddemocrataidd oherwydd mae'n bosibl y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud heb dderbyn sylwadau gan Gynghorau Cymuned.

2.7. Gallai cynrychiolaeth Cynghorau Cymuned fod wedi effeithio ar benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.

Cynghorau Cymuned

2.7 Er na fyddai Cynghorau Cymuned yn wynebu cost ariannol, mae risg na fyddent yn gallu bod yn rhan o'r broses gynllunio oherwydd eu bod yn methu cydlynu cyfarfod o bell a chyflwyno sylwadau i’r Awdurdod Cynllunio lleol o fewn y cyfnod 14 diwrnod a ganiateir ar hyn o bryd.

2.8 Byddai hyn yn arwain at ddiffyg democratiaidd yn y broses gwneud penderfyniadau.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

2.9 Does dim manteision i Lywodraeth Cymru.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.10 Does dim manteision i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Cynghorau Cymuned a Thref

2.11 Does dim manteision i Gynghorau Cymuned a Thref.

**Opsiwn 2 - Cyflwyno Gorchymyn Diwygio er mwyn ymestyn y cyfnod argyfwng hyd 8 Hydref, gan gadw’r cyfnod o 21 niwrnod ar gyfer derbyn ymatebion i’r ymgynghoriad**

**Disgrifiad**

2.12 Byddai opsiwn 2 yn golygu cadw tan 8 Hydref 2021 y cyfnod estynedig o 21 niwrnod pan y caiff Cynghorau Cymuned a Thref gyflwyno sylwadau i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

2.13 Byddai cadw’r cyfnod estynedig hwn yn rhoi mwy o amser i ymateb gan ystyried yr anawsterau mae Cynghorau Cymuned yn eu hwynebu yn sgil mesurau rheoli'r llywodraeth yng nghyswllt COVID-19, o ran cynnal cyfarfodydd rheolaidd oedd wedi’u trefnu.

2.14 Bydd hyn hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymgymryd ag ymgynghoriad ar ateb hirdymor a’i ddwyn i rym cyn diwedd y cyfnod argyfwng.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

2.15 Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol ychwanegol.

2.16 Bydd yr holl gostau cysylltiedig â gwneud y ddeddfwriaeth a rhannu canllawiau perthnasol yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

2.17 Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu cost ariannol.

<u>Cynghorau Cymuned a Thref</u>

2.18 Ni fyddai Cynghorau Cymuned a Thref yn wynebu cost ariannol.

**Manteision**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

2.19 Bydd gan Lywodraeth Cymru ddigon o amser i ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ac i ddatblygu deddfwriaeth i ddwyn ymlaen ateb hirdymor. Byddai'n dod i rym pan fydd y cyfnod argyfwng yn dod i rym.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

2.20 Byddai cadw'r cyfnod estynedig ar gyfer derbyn ymatebion gan Gynghorau Cymuned i 21 diwrnod yn rhoi'r un faint o amser ag y mae'r cyhoedd yn ei gael fel rhan o'r cyfnod cyhoeddusrwydd statudol.

2.21 Bydd pennu un dyddiad lle disgwylir i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law yn helpu i reoli'r broses ymgeisio.

<u>Cynghorau Cymuned a Thref</u>

2.22 Mae COVID-19 wedi effeithio ar allu Cynghorau Cymuned i gynnal eu cyfarfodydd rheolaidd oherwydd bod mannau cyfarfod wedi cau a bod aelodau'n cadw pellter cymdeithasol.

2.23 Bydd yr amser ychwanegol yn rhoi'r hyblygrwydd i Gynghorau Cymuned i allu trefnu cyfarfodydd o bell a chyflwyno ymatebion i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar amser.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno Gorchymyn Diwygio er mwyn ymestyn y cyfnod argyfwng hyd 8 Mai, gan gadw'r cyfnod o 21 niwrnod ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad**

**Disgrifiad**

2.24 Byddai opsiwn 3 yn arwain at gyfnod estynedig o 21 niwrnod ac yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i Gynghorau Tref a Chymuned gyflwyno sylwadau i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ôl i gais gael ei gadw tan 8 Mai 2021, gan ailadrodd yr estyniad 4 mis blaenorol.

2.25 Byddai'r cyfnod i Gynghorau Cymuned gyflwyno sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol yn dychwelyd i 14 diwrnod o 9 Mai 2021.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

2.26 Ni fyddai unrhyw gostau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

2.27 Fodd bynnag, ni fyddai digon o amser i ymgymryd â'r gwaith ymgynghori a datblygu polisi sydd ei angen i gyflwyno ateb hirdymor cyn diwedd yr estyniad 4 mis.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.28 Ni fydd unrhyw gostau ariannol i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Cynghorau Tref a Chymuned

2.29 Ni fyddai unrhyw gost ariannol i Gynghorau Tref a Chymuned. Fodd bynnag, os oes cyfyngiadau COVID-19 ar waith unwaith y bydd y cyfnod dros dro yn dod i ben, efallai y byddant yn ei chael yn anodd darparu ymatebion amserol i'r awdurdod cynllunio lleol.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

2.30 Nid oes unrhyw fanteision i Lywodraeth Cymru.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.31 Nid oes unrhyw fanteision i awdurdodau cynllunio lleol.

Cynghorau Tref a Chymuned

2.32 Byddai Cynghorau Cymuned yn cadw'r cyfnod estynedig ar gyfer darparu ymatebion i'r ymgynghoriad am 4 mis ychwanegol.

2.33 Fodd bynnag, byddai risg yn gysylltiedig â dychwelyd i 14 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod estynedig, os bydd cyfyngiadau COVID-19 yn parhau.

**Crynodeb a’r Opsiwn sy’n cael ei Ffafrio**

2.34 Byddai opsiwn 1 yn adfer yr amser sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref gael gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio i 14 diwrnod. Mae’r oedi o ran gallu Cynghorau Cymuned i gynnal cyfarfodydd yn debygol o olygu y byddant yn cymryd mwy o amser nag arfer i gyflwyno ymatebion, gan olygu y gallent gyflwyno sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol ar ôl i’r penderfyniad am y cais cynllunio gael ei wneud.

2.35 Byddai opsiwn 2 yn cadw’r cyfnod estynedig sydd gan Gynghorau Cymuned i gyflwyno sylwadau i 21 diwrnod, sef yr un faint â'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cyhoedd. Byddai’r amser ychwanegol yn helpu Cynghorau Cymuned i gyflwyno ymatebion i geisiadau cynllunio ar amser, gan sicrhau cymaint o gynhwysiant democrataidd â phosibl yn y broses gwneud penderfyniadau gan hefyd ganiatáu digon o amser i Lywodraeth Cymru ddwyn ymlaen ateb hirdymor.

2.36 Byddai Opsiwn 3 yn cynnal y cyfnod estynedig pan fydd yn rhaid i Gynghorau Cymuned gyflwyno sylwadau 21 diwrnod cyn mis Mai 2021. Fodd bynnag, pe bai cyfyngiadau COVID-19 yn parhau, gall dychwelyd i gyfnod ymgynghori o 14 diwrnod effeithio ar allu cynghorau cymuned i gymryd rhan yn y broses ymgeisio.

2.37 Felly, opsiwn 2 sy’n cael ei ffafrio.

## 3. Newid Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

**Opsiynau**

3.1. Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim byd h.y. dim newidiadau deddfwriaethol.

- Opsiwn 2 – Estyn y cyfnod pan y datgymhwysir y gofyniad i gyflwyno copi caled o'r cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig, hyd 8 Hydref 2021.

- Opsiwn 3 – Estyn y cyfnod pan y datgymhwysir y gofyniad i gyflwyno copi caled o'r cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig, hyd 8 Mai 2021.

**Opsiwn 1 - Gwneud dim byd**

**Disgrifiad**

3.2. Cyn i Orchymyn cyntaf 2020 fewnosod y darpariaethau i'r DNSPWO, lle caiff cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ei wneud yn electronig, mae'r DNSPWO yn cynnwys darpariaeth sy'n gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno copi caled o'r cais cynllunio i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Gwneir hyn at ddibenion ymarferol, er enghraifft, i sicrhau bod gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a Gweinidogion Cymru gopi caled wrth law i ddadansoddi'r cais, gan mai hwn yw'r fformat sy'n cael ei ffafrio gan nifer o'r swyddogion a'r unigolion penodedig fydd yn archwilio'r cais.

3.3. Gallai gwneud dim byd olygu bod y gofyniad hwn yn cael ei adfer, pe bai cais yn cael ei gyflwyno'n electronig.

**Costau**

<u>Llywodraeth Cymru</u>

3.4. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol</u>

3.5. Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu cost ariannol.

<u>Y Diwydiant Datblygu</u>

3.6. Mae'r gost o gynhyrchu copi caled o gais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn amrywio fesul achos, ac mae'n dibynnu ar raddfa'r cais a'r deunydd ategol sydd ei angen i ddisgrifio'r datblygiad. Amcangyfrifir y byddai'r gost yn £120, ar sail y gost o argraffu 1,000 o dudalennau mewn lliw, costau rhwymo a'r gost o blotio 25 o ddarluniau

maint A1. Amcangyfrifir y byddai'r gost o gyflwyno dau gais, gan gynnwys costau danfon, yn £260 y cais.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

3.7. Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn cael unrhyw fanteision mawr oherwydd bydd copi o'r cais wedi cael ei anfon yn electronig beth bynnag. Mater o gyfleuster i'r swyddogion sy'n dadansoddi'r cais fyddai cael copi caled.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.8. Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cael unrhyw fanteision o bwys, oherwydd bydd copi o'r cais wedi cael ei anfon yn electronig beth bynnag. Mater o gyfleuster i'r swyddogion sy'n dadansoddi'r cais fyddai cael copi caled. Er y gellid sicrhau bod copi caled ar gael i'w archwilio, caiff y ddyletswydd o gynnal cofrestr gynllunio ei chynnal a'i chyflawni'n electronig fel arfer.

Y Diwydiant Datblygu

3.9. Does dim manteision hysbys i'r Diwydiant Datblygu. Gan na fyddai'r Diwydiant Datblygu'n gallu cydymffurfio â gofynion y DNSPWO, ni fyddai'n gallu cyflwyno cais dilys.

**Opsiwn 2 – Estyn y cyfnod pan y datgymhwysir y gofyniad i gyflwyno copi caled o'r cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig, hyd 8 Hydref 2021.**

**Disgrifiad**

3.10. Caiff ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu cyflwyno'n electronig fel arfer. Yn ystod y pandemig COVID-19, gallai problemau ymarferol godi yng nghyswllt cyflwyno copïau caled oherwydd nid oes staff i'w derbyn yn y swyddfeydd perthnasol, ac ni ellir cadarnhau eu bod wedi dod i law bob amser.

Diwygiwyd y DNSPWO gan Orchymyn cyntaf 2020 trwy ddileu dros dro y gofyniad i gyflwyno copi caled i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol, am resymau ymarferol, lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig. Roedd ail Orchymyn 2020 yn estyn y cyfnod dros dro hyd 8 Ionawr 2020 i alluogi gwneud gwaith ymgynghori a datblygu polisi er mwyn dwyn ymlaen ateb hirdymor.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

3.11. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ariannol ychwanegol.

3.12. Bydd yr holl gostau cysylltiedig â gwneud y ddeddfwriaeth yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.13. Ni fyddai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn wynebu costau ariannol ychwanegol. Oherwydd bod dim staff yn y swyddfeydd ar hyn o bryd, ni fyddai modd argraffu'r cais. Mae'n rhaid i swyddogion ddadansoddi pob cais yn electronig.

Y Diwydiant Datblygu

3.14. Byddai tua £260 o gostau yn cael eu harbed yng nghyswllt pob cais.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

3.15. Byddai gan Lywodraeth Cymru ddigon o amser i ddwyn ymlaen ateb hirdymor.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.16. Does dim manteision uniongyrchol i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Y Diwydiant Datblygu

3.17. Mae COVID-19 wedi effeithio ar allu'r Diwydiant Datblygu i gydymffurfio â gofynion y DNSPWO. Bydd cadw'r newid yn opsiwn 2 yn galluogi'r Diwydiant Datblygu i barhau i gyflwyno ceisiadau a chydymffurfio â'r gofynion perthnasol.

**Opsiwn 3 – Estyn y cyfnod pan y datgymhwysir y gofyniad i gyflwyno copi caled o'r cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol lle bo cais yn cael ei wneud yn electronig, hyd 8 Mai 2021.**

**Disgrifiad**

3.18. Mae'r opsiwn hwn yr un ag opsiwn 2, ond bod yr estyniad dros dro wedi'i gyfyngu i 4 mis.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

3.19. Ni fyddai unrhyw gostau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

3.20. Fodd bynnag, ni fyddai digon o amser i ymgymryd â'r gwaith ymgynghori a datblygu polisi gofynnol er mwyn cyflwyno'r ateb hirdymor pan ddaw'r cyfnod dros dro i ben. Mae perygl, os oes cyfyngiadau COVID-19 ar waith, y gellid tarfu ar gyflwyno ceisiadau ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.21. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Y Diwydiant Datblygu

3.22. Byddai'r arbedion o ran cost o tua £260 fesul cais a amlinellir yn opsiwn 2 yn gymwys yn ystod y cyfnod dros dro.

3.23. Os bydd cyfyngiadau COVID-19 yn parhau ar waith ar ôl y cyfnod dros dro, gallai effeithio ar gyflwyno ceisiadau.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

3.24. Nid oes unrhyw fanteision uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.25. Nid oes unrhyw fanteision uniongyrchol i Awdurdodau Cynllunio Lleol

Y diwydiant datblygu

3.26. Nid oes unrhyw fanteision uniongyrchol i'r diwydiant datblygu. Mae estyniad byr, gyda chyfyngiadau COVID-19 pellach yn debygol yn 2021, yn debygol o arwain at ansicrwydd os nad oes ateb hirdymor ar waith.

**Crynodeb a’r Opsiwn sy’n cael ei Ffafrio**

3.27. Byddai opsiwn 1 yn adfer y sefyllfa fel ag yr oedd, fodd bynnag, gallai olygu bod ceisiadau ddim yn cydymffurfio â’r gofynion perthnasol ac nad oes modd eu cyflwyno felly.

3.28. Byddai opsiwn 2 yn caniatáu i'r broses ddiwygiedig fynd yn ei blaen, gan ddileu gofyniad sy’n atal ceisiadau rhag cael eu cyflwyno.

3.29. Ni fyddai Opsiwn 3 yn caniatáu digon o amser i gyflwyno ateb hirdymor cyn diwedd yr estyniad 4 mis, gan achosi ansicrwydd i'r holl randdeiliaid

3.30. Felly, opsiwn 2 sy’n cael ei ffafrio.

## 4. Asesiad o’r Gystadleuaeth

4.1. Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi cael ei gwblhau. Does dim disgwyl i'r cynigion effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na pha mor gystadleuol yw busnesau Cymru.

**5. Adolygiad ôl-weithredu**

5.1 Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael adborth gan randdeiliaid ynghylch effaith y mesurau dros dro. Fodd bynnag, mae ymgynghoriad cyn ymgeisio wedi bod yn digwydd, ac mae ceisiadau am ddatblygiad mawr yn cael eu cyflwyno i'r awdurdodau cynllunio lleol.

5.2 Gwahoddir rhanddeiliaid i gyflwyno adborth, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r mesurau dros dro, fel rhan o'r ymgynghoriad sydd i'w gyhoeddi ynglŷn â'r ateb hirdymor. Bydd yr adborth hwn yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio datblygiad polisi'r ateb hirdymor.

Eitem 4.4

# SL(5)716 – Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r EU) 2021

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379).

Oherwydd bod y DU a'r UE wedi dod yn 'drydydd gwledydd' ar y cyd ar ôl diwedd y cyfnod pontio, bydd angen i fewnforwyr ac allforwyr i'r ddau gyfeiriad gydymffurfio â gwarantau iechyd ychwanegol yng ngofynion y Dystysgrif Iechyd Allforio (EHC) a gwaharddiadau a chyfyngiadau eraill, a nodir yn neddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth a ddargedwir y DU.

Diben yr offeryn hwn yw atal dros dro y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru o sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Yr Ynys Werdd neu'r Swistir fod wedi'u rhewi'n ddwfn.

Bydd yr amod hwn, os caiff ei orfodi, yn achosi problemau sylweddol i fewnforwyr cig o'r UE. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amod hwn yn or-gyfyngol pan fo Cymru ar hyn o bryd yn cysoni â'r UE ar bob rheoliad a safon, ei bod â lefelau bioddiogelwch a statws iechyd anifeiliaid tebyg, a'i bod â'r un rheolaethau ar gyfer cynhyrchu a pharatoi cynhyrchion cig. Os na chymhwysir yr offeryn hwn, ni fyddai mewnforwyr yn gallu mewnforio paratoadau cig ffres o'r UE a gwladwriaethau eraill yn gyfreithiol, a fyddai â goblygiadau negyddol i'r gadwyn cyflenwi bwyd

Mae'r ddarpariaeth hon yn un drosiannol yn unig oherwydd, yn unol â Model Gweithredu Ffiniau Llywodraeth y DU, bydd y DU yn cyflwyno gofyniad i fewnforion cynhyrchion anifeiliaid o'r UE gael Tystysgrifau Iechyd Allforio a'r amodau ynddynt, i gyd-fynd â hwy . Gwneir penderfyniadau ar yr amodau hynny, o fis Ebrill 2021, o fewn trefniadau llywodraethu'r Fframwaith Cyffredin Iechyd a Lles Anifeiliaid.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 5 Ionawr 2021.

Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch pam mae'r rheoliadau hyn yn torri'r rheol 21 diwrnod:

> *"Dim ond ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu y daeth y pŵer galluogi ar gyfer datgymhwyso'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ar baratoadau cig ar gael, gyda Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid a Bwyd Anifeiliaid, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020. Bydd 'bwlch aer' yn bodoli hyd nes y gwneir Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ac y dônt i rym.*
>
> *Os na ddaw'r offeryn hwn i rym cyn gynted â phosibl, byddai'r 'bwlch aer' hwn yn golygu, yn ystod y cyfnod interim hwn, y byddai'n dechnegol anghyfreithlon mewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri i Gymru, a fyddai'n cael effaith negyddol ar y gadwyn cyflenwi bwyd.*
>
> *Mae Lloegr a'r Alban yn gwneud offerynnau cyfatebol i ddileu'r amod mewnforio hwn. Heb gysondeb, byddai mewnforwyr mewn helbul. Er mwyn sicrhau gorfodadwyedd parhaus â gweddill y DU, a lleihau hyd y 'bwlch aer', bu angen anwybyddu'r confensiwn 21 diwrnod."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

**2021 Rhif 1 (Cy. 1)**

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# BWYD, CYMRU

# Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252).

Mae Rheoliad 2 yn diwygio Erthygl 1 o Benderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC dyddiedig 8 Medi 2000 sy'n gosod yr amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ardystio milfeddygol ar gyfer mewnforio paratoadau cig i'r Gymuned o drydydd gwledydd er mwyn egluro bod y Penderfyniad hwn yn gymwys i fewnforion i Gymru o drydydd gwledydd fel y'u diffinnir yn Erthygl 1(2) o'r Penderfyniad hwnnw.

Mae Rheoliad 3 yn atal dros dro y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru o sefydliadau a leolir yn Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir fod wedi'u rhewi'n ddwfn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 1 (Cy. 1)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Ionawr 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *5 Ionawr 2021* |
| *Yn dod i rym* | *6 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru a deuant i rym ar 6 Ionawr 2021.

**Diwygio Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC**

**2.** Yn Erthygl 1(1) o Benderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC dyddiedig 8 Medi 2000 sy'n gosod yr amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ardystio milfeddygol ar gyfer mewnforio paratoadau cig i'r

(**1**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252). Mewnosodir paragraff 11A o Atodlen 2 gan reoliad 2(2) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1639) (Cy. 344).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Gymuned o drydydd gwledydd(**1**) ('Penderfyniad y Comisiwn'), ar ôl "meat preparations" mewnosoder "from third countries".

**Addasiadau darfodol i Benderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC**

**3.**—(1) Mae paragraph (2) o'r rheoliad hwn yn cael effaith yn ystod y cyfnod sy'n cychwyn ar y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac sy'n gorffen am hanner nos ar 31 Mawrth 2021.

(2) Mae Erthygl 3 o Benderfyniad y Comisiwn yn gymwys fel pe bai—

(a) "other than in relation to imports of meat preparations originating from, or produced in, an establishment situated in a territory subject to special transitional import arrangements," wedi'i fewnosod, ym mharagraff 3, cyn "they";

(b) "4. In this Article, "territory subject to special transitional import arrangements" has the same meaning as in point (a) of the definition of "territory subject to special transitional import arrangements" in paragraph 2 of Annex 6 to Regulation (EU) 2017/625 of the European Parliament and of the Council on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products(**2**)." wedi'i fewnosod ar y diwedd.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
4 Ionawr 2021

(**1**) Diwygir EUDN 2000/572/EC gan reoliad 40 o Reoliadau Mewnforio a Masnachu Cynhyrchion Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1462). Ailrifir Erthygl 1(1) felly, a mewnosodir y diffiniad o 'third country' gan reoliad 40(2) o'r Rheoliadau hynny.

(**2**) Mewnosodir Atodiad 6 Rheoliad (EU) 2017/625 gan reoliad 29(4) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1481).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Datblygu Gwlediga Deddfwriaeth o fewn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

Lesley Griffiths AS
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
5 Ionawr 2021

# Rhan 1

## 1. Disgrifiad

Bydd Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (yr "offeryn") yn gwneud diwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir, sy'n gymwys o ran Cymru a pharth Cymru, mewn perthynas â'r fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol.

Daw'r offeryn hwn i rym ar 6 Ionawr 2021.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r offeryn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252). Mewnosodir paragraff 11A o Atodlen 2 i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020. Daeth y Rheoliadau hyn ac, felly, y diwygiad i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011, i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

<u>Yn dod i rym</u>

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y daw'r Rheoliadau i rym o fewn 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod.

Heb y ddeddfwriaeth hon, byddai'n anghyfreithlon i fasnachwyr fewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri o'r UE. Mae busnesau wedi nodi nad ydynt yn gyfforddus yn masnachu mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r gyfraith, sy'n golygu na fyddai archfarchnadoedd yn gosod archebion sy'n cynnwys eitemau anghyfreithlon megis selsig, pelenni cig a pharatoadau cig eraill. Byddai i hyn ganlyniadau ariannol i fusnesau a byddai'n amharu ar gyflenwadau bwyd drwy gyfyngu ar argaeledd cynhyrchion.

Bydd yr OS hwn yn helpu busnesau i allu paratoi ar gyfer bywyd y tu allan i'r farchnad sengl ac yn lliniaru problemau sy'n gysylltiedig â chyflenwadau bwyd ar unwaith drwy ei gwneud yn bosibl i'r cynhyrchion bwyd hynny y mae'r Gwaharddiadau a'r Cyfyngiadau hyn yn effeithio arnynt gael eu mewnforio am gyfnod cyfyngedig.

Dim ond ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu y daeth y pŵer galluogi hwn ar gyfer datgymhwyso'r Gwaharddiadau a'r Cyfyngiadau ar baratoadau cig ar gael, am mai dim ond gyda Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020 y daeth y pŵer galluogi hwn i rym.

Gyda'i gilydd, roedd y rhesymau hyn yn golygu bod ‘bwlch aer’ yn y ddeddfwriaeth hon sy'n gweithredu'r bwriad polisi yn anochel.

Byddai 'bwlch aer' yn golygu, hyd nes y deuai'r OS hwn i rym, y byddai'n dechnegol anghyfreithlon mewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri o'r UE i Gymru ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Mae Lloegr a'r Alban yn gwneud offerynnau cyfatebol i ddileu'r amod mewnforio hwn. Tra bod 'bwlch aer' dros dro yn sefyllfa y gellir ei rheoli'n weithredol, dylai fod mor fyr â phosibl. Heb gysondeb, byddai mewnforwyr mewn helbul. Er mwyn sicrhau gorfodadwyedd parhaus â gweddill y DU, a lleihau hyd y 'bwlch aer', bu angen anwybyddu'r confensiwn 21 diwrnod.

Ar hyn o bryd, rydym yn masnachu mewn cynhyrchion y mae Gwaharddiadau a Chyfyngiadau yn effeithio arnynt ac nid yw'r cynhyrchion hyn yn achosi unrhyw bryderon inni mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd nac iechyd anifeiliaid. Fodd bynnag, ni fydd cyfundrefn archwiliadau iechydol a ffytoiechydol (SPS) y DU a'r UE yn cyd-fynd â'i gilydd yn awtomatig mwyach. Felly, mae gwahaniaethau posibl yn y dyfodol yn golygu na fydd, o bosibl, yn briodol datgymhwyso Gwaharddiadau a Chyfyngiadau oddi wrth yr UE yn yr hirdymor heb ddatblygu polisïau a threfniadau llywodraethu priodol drwy Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cyffredin y DU.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Gan y bydd y DU a'r UE yn dod yn ‘drydydd gwledydd’ i'w gilydd ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben, bydd angen i fewnforwyr ac allforwyr i'r ddau gyfeiriad gydymffurfio â gwarantau iechyd ychwanegol o fewn gofynion Tystysgrifau Iechyd Allforio a Gwaharddiadau a Chyfyngiadau eraill a nodir yn neddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth y DU a ddargedwir.

Mae Gwaharddiadau a Chyfyngiadau presennol sy'n ofynnol ar gyfer masnach o fewn y Gymuned rhwng Aelod-wladwriaethau (megis anifeiliaid byw, er enghraifft), ond bydd ‘statws trydedd wlad’ newydd yn dod â llu o Waharddiadau a Chyfyngiadau newydd ar gyfer masnach y DU â'r UE. Ar gyfer mewnforion o'r UE a gwladwriaethau EFTA, mae'r Gwaharddiadau a'r Cyfyngiadau hyn wedi'u dileu i raddau helaeth, ond yn ddiau bydd ein hallforion i'r UE yn eu hwynebu. Bydd y gofynion newydd hyn yn gofyn am newidiadau i'r gadwyn gyflenwi, y bydd angen i'r diwydiant ddarparu ar eu cyfer.

Mae'r mwyafrif o Waharddiadau a Chyfyngiadau wedi'u hysgrifennu ac wedi'u diffinio yn y Tystysgrifau Iechyd Allforio a atodir i ddeddfwriaeth yr UE. Wrth baratoi ar gyfer ein hymadawiad â'r UE, er mwyn datgymhwyso'r Gwaharddiadau a'r Cyfyngiadau hyn ar fewnforion i'r DU, dilëwyd y Tystysgrifau Iechyd Allforio hyn o'n deddfwriaeth yr UE a ddargedwir. Fodd bynnag, mae rhai Gwaharddiadau a Chyfyngiadau wedi'u hysgrifennu o hyd ym mhrif gorff ein deddfwriaeth yr UE a ddargedwir.

O 1 Ionawr 2021 ymlaen, bydd yn rhaid i baratoadau cig a fewnforir gydymffurfio â gwarantau iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd penodol fel y'u nodir mewn deddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth yr UE a ddargedwir. Mae Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC yn nodi'n benodol fod yn rhaid i baratoadau cig a fewnforir o drydydd gwledydd fod wedi cael eu rhewi "*at an internal temperature of not more than – 18 °C at the production plant or plants of origin*"

## 4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

Diben yr offeryn hwn yw atal dros dro y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru o sefydliadau a leolir yn Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir fod wedi'u rhewi'n ddwfn

Bydd yr amod hwn, os caiff ei osod, yn achosi problemau sylweddol i fewnforwyr cig o'r UE. Gellir ystyried bod yr amod yn rhy ragnodol pan fyddwn yn ystyried ein bod yn cyd-fynd â'r UE ar hyn o bryd o ran yr holl reoliadau a safonau a bod gennym lefelau bioddiogelwch a statws iechyd anifeiliaid tebyg a'r un rheolaethau ar gyfer cynhyrchu a pharatoi cynhyrchion cig. Os na chaiff yr offeryn hwn ei gymhwyso, o dan y gyfraith, ni allai mewnforwyr fewnforio paratoadau cig ffres o'r UE a gwladwriaethau eraill a byddai i hyn oblygiadau negyddol i'r gadwyn cyflenwi bwyd.

Bwriedir i'r ddarpariaeth hon fod yn un dros dro oherwydd, yn unol â Model Gweithredu'r Ffin Llywodraeth y DU, bydd y DU yn cyflwyno gofyniad i Dystysgrifau Iechyd Allforio gael eu hanfon gyda chynhyrchion anifeiliaid a fewnforir a fydd yn gorfod bodloni'r amodau a nodir ynddynt. Gwneir penderfyniadau ar yr amodau hynny, o fis Ebrill 2021 ymlaen, o fewn trefniadau llywodraethu'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cyffredin.

### Yr hyn a wna'r offeryn

Mae rhan 2 o'r offeryn yn diwygio Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC dyddiedig 8 Medi 2000 sy'n gosod yr amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ardystio milfeddygol ar gyfer mewnforio paratoadau cig i'r Gymuned o drydydd gwledydd.

Mae rhan 3 o'r offeryn yn gwneud addasiadau darfodol i Benderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC.

## 5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus. Diben Rheoliadau 2012 yw ei gwneud yn bosibl i baratoadau cig ffres barhau i gael eu mewnforio o'r UE a gwladwriaethau eraill.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni luniwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r offeryn hwn. Mae'n parhau â'r sefyllfa a fodolai cyn pontio o'r Undeb Ewropeaidd ac, felly, ni ragwelir unrhyw effaith ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-4511-20

Elin Jones, AS/MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

5 Ionawr 2021

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fe'ch hysbysaf y daw'r offeryn statudol hwn i rym ar 6 Ionawr, llai nag 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Atodir Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn er gwybodaeth.

Diben yr offeryn hwn yw atal dros dro y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru o sefydliadau a leolir yn Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir fod wedi'u rhewi'n ddwfn.

Dim ond ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu y daeth y pŵer galluogi ar gyfer datgymhwyso'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ar baratoadau cig ar gael, gyda Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid a Bwyd Anifeiliaid, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020. Bydd 'bwlch aer' yn bodoli hyd nes y gwneir Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ac y dônt i rym.

Os na ddaw'r offeryn hwn i rym cyn gynted â phosibl, byddai'r 'bwlch aer' hwn yn golygu, yn ystod y cyfnod interim hwn, y byddai'n dechnegol anghyfreithlon mewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri i Gymru, a fyddai'n cael effaith negyddol ar y gadwyn cyflenwi bwyd.

Mae Lloegr a'r Alban yn gwneud offerynnau cyfatebol i ddileu'r amod mewnforio hwn. Heb gysondeb, byddai mewnforwyr mewn helbul. Er mwyn sicrhau gorfodadwyedd parhaus â gweddill y DU, a lleihau hyd y 'bwlch aer', bu angen anwybyddu'r confensiwn 21 diwrnod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ystyried mai amcan yr OS yw cadw'r rhyddid presennol i fewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri, ystyriwyd nad oedd angen cynnal ymgynghoriad nac Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, paratowyd Memorandwm Esboniadol a atodir er gwybodaeth. Mae wedi'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, gerbron y Swyddfa Gyflwyno

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

# SL(5)714 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran gweithrediad sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/44).

Yn benodol, mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn sicrhau y bydd y cyrff sy'n gyfrifol am orfodi gofynion y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yng Nghymru yn parhau i fod â'r pwerau gorfodi, fel y pŵer arolygu sydd eu hangen arnynt, ar ôl dyddiad y cyfnod gweithredu.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r esboniad a ddarperir gan Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 23 Rhagfyr 2020, ynghylch defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol gwnaed ar gyfer y Rheoliadau hyn (a fyddai fel rheol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol) o ystyried cyfyngiadau amser a bod angen i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Yn benodol, nodwn y paragraff canlynol yn y llythyr:

> *"Daw'r offeryn hwn i rym o dan y weithdrefn gadarnhaol frys 'gwnaed' cyn y caiff ei osod gerbron y Senedd. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bod y diwygiadau y mae'r Rheoliadau yn eu gwneud wedi deillio o oedi o ran trafodaethau â gweinyddiaethau'r DU ac addasiadau hwyr i Reoliadau cyfatebol Lloegr. Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau yn cynnwys pŵer newydd ar gyfer llunio rheoliadau y bydd angen ei arfer ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd er mwyn datgymhwyso rhai amodau ar allforion o'r UE i mewn i Gymru. Yn sgîl yr oedi yma mae'n rhaid i'r Rheoliadau a fyddai fel rheol wedi bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol symud ymlaen o dan y weithdrefn gadarnhaol frys 'gwnaed' ar sail y ffaith nad oes digon o amser i fodloni'r amodau sifftio a nodir yn y Ddeddf Ymadael nac ychwaith ddigon o amser i osod y Rheoliadau yn wirfoddol yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft."*
>
> *Yn unol â'r weithdrefn a amlinellir ym mharagraff 7 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae'n rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 7 Chwefror er mwyn iddo barhau i gael effaith."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn mai dim ond y fersiwn Saesneg o'r Memorandwm Esboniadol a osodwyd gyda'r Rheoliadau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1639 (Cy. 344)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# ANIFEILIAID, CYMRU

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

# Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran gweithrediad sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379 (Cy. 252)) a Rheoliadau Rheolaethau

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/44 (Cy. 5)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1639 (Cy. 344)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# ANIFEILIAID, CYMRU

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

*Gwnaed* *22 Rhagfyr 2020*

*Gosodwyd gerbon Senedd Cymru* *29 Rhagfyr 2020*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud y Rheoliadau hyn heb osod drafft o'r offeryn gerbron Senedd Cymru, na chymeradwyo'r drafft hwnnw drwy benderfyniad ganddi.

## RHAN 1

### Rhagarweiniol

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

## RHAN 2

### Diwygio is-ddeddfwriaeth

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 11 mewnosoder—

> "**Amodau Mewnforio Arbennig**
>
> **11A.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau osod amodau mewnforio arbennig mewn cysylltiad â mewnforion o drydydd gwledydd o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl, gan roi sylw i'r sefyllfa o ran iechyd anifeiliaid yn y drydedd wlad neu yn y trydydd gwledydd dan sylw, a chânt at y diben hwnnw ddiwygio, addasu neu ddirymu unrhyw fân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a wnaed o

(**1**) 2018 p. 16. Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan baragraff 53 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).

(**2**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

dan Erthygl 8(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/99/EC(**1**).

(2) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan y paragraff hwn—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;

(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol; ac

(c) yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu ddarpariaeth arbed y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol.

(3) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru."

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn lle'r diffiniad o "Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder—

"ystyr "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol" ("*the Official Controls Regulations*") yw Rheoliad yr UE a'r Rheoliadau Gweithredu, y Rheoliadau Dirprwyedig a'r offerynnau statudol a wnaed oddi tano;";

(b) yn y diffiniad o "swyddog gorfodi", yn lle "orfodi Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "orfodi'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol";

(c) yn y diffiniad o "deddfwriaeth berthnasol", yn lle "Ewropeaidd a domestig" rhodder "uniongyrchol yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig".

(3) Yn rheoliad 4, hepgorer "yn y Deyrnas Unedig ac mewn Aelod-wladwriaethau eraill".

(4) Yn rheoliadau 4, 5(1), 9(3), 11(1), 12(1) a 13, ym mhob lle y maent yn digwydd, yn lle "a Rheoliadau

(**1**) OJ Rhif L 18, 23.1.2003, t. 11 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/20/EU (OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 234).

(**2**) O.S. 2020/44 (Cy. 5).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "a'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol", yn lle "â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "â'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol", yn lle "neu Reoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "neu'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol" ac yn lle "yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol".

(5) Yn rheoliad 9—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer "o Aelod-wladwriaeth arall";

(ii) yn is-baragraff (a), hepgorer y gair "gwlad";

(b) hepgorer paragraff (2).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
22 Rhagfyr 2020

**The Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc.) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Office of the Chief Veterinary Officer and is laid before the Senedd in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc.) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020

I have made the statements required by the European Union (Withdrawal) Act 2018. These statements can be found in Part 2 of the annex to this memorandum

**Lesley Griffiths MS**
**Minister for Environment, Energy, Planning and Rural Affairs**

**29 December 2020**

## 1. Description

### The Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc) (Wales) Regulations 2020

These regulations make EU Exit operability corrections to The Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc.) (Wales) Regulations 2020. They form part of a wider legislative programme to amend domestic legislation derived from European Union (EU) law under the European Union Withdrawal Action 2018. The purpose of this programme is to ensure the efficient and effective operability of the statute book following the UK's withdrawal from the EU**.**

### Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011

An amendment is also being made to The Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011. These Regulations establish a system for trade in live animals, genetic material and products of animal origin.

These regulations are being made at the same time as two UK Official Controls Regulations. These both make amendments to Regulation 625/2017, amend and revoke EU tertiary legislation and make amendments to UK subordinate legislation.

### The Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health etc) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020

Part 2 of these Regulations make amendments to Regulation (EU) 2017/625 and Part 3 amends EU tertiary legislation. These EU tertiary instruments concern official controls to be carried out on entry of animals and goods into Great Britain, from countries outside the British Islands. They also cover requirements relating to transit of animals and good through Great Britain. They provide for various functions of the European Commission, including making instruments of a legislative character, to be exercisable instead by the "appropriate authority" and for other functions to be exercised by the "competent authority". Both of these terms are defined in Article 3 of Regulation (EU) 2017/625.

### The Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health etc.) (Amendment) (EU Exit) (No. 2) Regulations 2020

These Regulations make amendments to and revocations of legislation in the field of official controls and other official activities performed by the authorities to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products. Part 2 amends UK subordinate legislation, Part 3 amends retained direct EU legislation and Part 4 revokes retained direct EU legislation.

Part 5 makes a general transitional provision relating to the presentation or other use of model certificates on or after IP completion day in connection with the importation into, or movement through or from, Great Britain, of goods, or the inspection and placing on the market of goods in Great Britain, or the slaughter of animals in Great Britain. It also provides transitional arrangements for model certificates for animals and related products, including products of animal origin.

## 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

The SI is being laid under the "Made Affirmative" procedure due to the need for it to come into force on implementation period completion day and the Ministerial statement in Part 2 of the Annex sets out the reasons for this decision.

The amendments in the Regulations include a new regulation making power which will need to be exercised early in the New Year in order to dis-apply certain conditions on imports from the EU into Wales. The Regulations, which would ordinarily be subject to the negative procedure, have to proceed under the 'urgent made affirmative' procedure on the basis that there is neither sufficient time to satisfy the sifting conditions set out the Withdrawal Act, nor lay the Regulations voluntarily in accordance with the 'draft affirmative' procedure.

## 3. Legislative background

This instrument is made in exercise of the powers conferred upon the Welsh Ministers by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 in order to address failures of retained EU law to operate effectively or other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

In accordance with the requirements of that Act the Minister has made the relevant statements as detailed in Part 2 of the Annex to this Explanatory Memorandum.

## 4. Purpose & intended effect of the legislation

EU Regulation 2017/625 governs official controls and other official activities perform to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health. The controls are enforced in Wales by The

Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees, etc.) Regulations (Wales) Regulations 2020.

**5. Why is it being changed?**

The Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc.) (Wales) Regulations 2020

OCR covers a complex legislative landscape, where reserved and devolved functions are closely interlinked in practice. The amendments propose to correct deficiencies in Welsh SIs, which arise as a result of the UK withdrawal from the EU. These amendments are necessary to ensure the legislation remains operable post withdrawal. The amendments are technical or minor in nature and make no policy changes. The amendments do not impact on the devolution settlement.

The Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011

It is necessary to temporarily dis-apply the prohibitions and restrictions (P&R) on certain meat preparations imported from the EU from 1 January 2021. As currently legislated and retained, the geographical proximity and the harmonisation of food safety and animal health legislation between the UK and EU Member States means the P&R requirement that imported meat preparations be frozen is disproportionate to the Sanitary and Phytosanitary (SPS) risk.

The power to change this requirement has been included as an amendment to Schedule 2 of the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011. The provision transfers the power of the European Commission to establish special import conditions in Article 8(4) of Council Directive 2002/99/EC to the Welsh Ministers. Following discussions with UK administrations we considered this the most appropriate place to insert the power and to ensure a joined up approach across the UK. The imports regime should be consistent across GB to avoid trade distortions.

In addition, various P&Rs for imports to GB have been already removed through corrections in The Import of and Trade in Animals and Animals Products (Miscellaneous amendments) (EU Exit) Regulations 2020. The intention is that this will be a temporary fix to disapply P&Rs in line with the UK Government’s Border Operating Model. When certificates are required for those items in April, the P&R may be re-applied and retained in the new certificates once industry has had time to adapt. Such decision will follow the governance of the Animal Health and Welfare Framework.

**6. What will it now do?**

The instrument will ensure that official controls and other official activities on food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products will continue to operate effectively in the UK after we leave the EU.

Policy objectives of this subordinate legislation are to ensure that the bodies responsible for enforcing the requirements of the Official Control Regulation in Wales will continue to have the enforcement powers, such as power of inspection that they require, post the implementation period date.

## 7. Consultation

As there is no policy change, no public consultation was undertaken. The purpose of this instrument is solely to enable the current domestic legislative and policy framework to remain unchanged by the withdrawal of the UK from the EU.

## 8. Regulatory Impact Assessment (RIA)

No discrete RIA has been conducted for these EU Exit corrections to existing domestic legislation. This was covered when the original regulations were made in January 2020, and the changes proposed will have no additional impacts.

# Annex 1
# Statements under the European Union (Withdrawal) Act 2018
# Part 1

## Table of Statements under the 2018 Act

This table sets out the statements that may be required of the Welsh Ministers under the 2018 Act. The table also sets out those statements that may be required of Ministers of the Crown under the 2018 Act, which the Welsh Ministers have committed to also provide when required. The required statements can be found in Part 2 of this annex.

| Statement | Where the requirement sits | To whom it applies | What it requires |
|---|---|---|---|
| Sifting | Paragraphs 3(7) and 4(3), Schedule 7<br><br>*Paragraph 3(7) (anticipated to be a requirement on Welsh Ministers in Standing Orders)* | The Welsh Ministers exercising powers in Part 1 of Schedule 2 to make a Negative SI<br><br>Paragraph 3(7) applies to Ministers of the Crown, but Welsh Ministers have committed to make the same statement | A statement to explain why the instrument should be subject to the negative procedure and, if applicable, why they disagree with the recommendation of the LJC Committee (as sifting committee) |
| Appropriate-ness | Sub-paragraph (2) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement that the SI does no more than is appropriate. |
| Good Reasons | Sub-paragraph (3) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement to explain the good reasons for making the instrument and that what is being done is a reasonable course of action. |
| Equalities | Sub-paragraphs (4) | Applies to Ministers of | A statement to explain what, if |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | and (5) of paragraph 28, Schedule 7 | the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | any, amendment, repeals or revocations are being made to the Equalities Acts 2006 and 2010 and legislation made under them.<br><br>A statement that the Minister has had due regard to the need to eliminate discrimination and other conduct prohibited under the Equality Act 2010. |
| Explanations | Sub-paragraph (6) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement to explain the instrument, identify the relevant law before exit day, explain the instrument's effect on retained EU law and give information about the purpose of the instrument, e.g. whether minor or technical changes only are intended to the EU retained law. |
| Criminal offences | Sub-paragraphs (3) and (7) of paragraph 28, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 | A statement setting out the 'good reasons' for creating a criminal offence, and the penalty attached. |
| Sub-delegation | Paragraph 30, Schedule 7 | Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and paragraph 1 of Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved Authority.<br><br>Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 or paragraph 1 of Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved Authority | A statement to explain why it is appropriate to create such a sub-delegated power. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Urgency | Sub-paragraph (2) and (8) of paragraph 7, Schedule 7 | Welsh Ministers exercising powers in Part 1 of Schedule 2 but using the urgent procedure in paragraph 7 of Schedule 7 | A statement that the Welsh Ministers are of the opinion that it is necessary to make the SI using the urgent procedure and the reasons for that opinion. |

# Part 2

## Statements required when using enabling powers under the European Union (Withdrawal) 2018 Act

**1. Sifting statement(s)**

Not Applicable

**2. Appropriateness statement**

The Minister for Environment, Energy, Planning and Rural Affairs, Lesley Griffiths**,** has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

"*In my view the Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc.) Regulations (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020, do no more than is appropriate*". This is the case because they are limited to make previous Welsh legislation operable, post implementation date.

**3. Good reasons**

The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, Lesley Griffiths has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

"In my view there are good reasons for the provisions in this instrument, and I have concluded they are a reasonable course of action".

**4. Equalities**

The Minister for Environment, Energy, Planning and Rural Affairs, Lesley Griffiths, has made the following statement(s): "*The instrument does not amend, repeal or revoke a provision or provisions in the Equality Act 2006 or the Equality Act 2010 or subordinate legislation made under those Acts".*

The Minister for Environment, Energy, Planning and Rural Affairs, Lesley Griffiths, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

*"In relation to the draft instrument, I, Minister for Environment, Energy, Planning and Rural Affairs, Lesley Griffiths, have had due regard to the need to eliminate discrimination, harassment, victimisation and any other conduct that is prohibited by or under the Equality Act 2010."*.

**5. Explanations**

The explanations statement has been made in paragraph 4 (Purpose & intended effect of the legislation) of the main body of this explanatory memorandum.

**5. Criminal offences**

Not applicable/required

**6. Legislative sub-delegation**

Not applicable/required.

**7. Urgency**

The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, Lesley Griffiths, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

"In my view by reason of urgency, it is necessary to make The Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc.) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020, without a draft of this instrument containing the Regulations being laid before, and approved by a resolution of Senedd Cymru.

This is because the Welsh Ministers have concluded that the 'made affirmative' procedure provided for in the European Union (Withdrawal) Act 2018 is needed to ensure that this instrument is in place on implementation period completion day."

It is important to have this instrument in place on implementation period completion day so as to provide confidence and certainty to the public and business and to ensure the effective functioning of the statute book after exit.

Using this procedure still allows for scrutiny and Senedd Cymru will need to approve its making for it to remain in force.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LG/3910/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

llywydd@senedd.cymru

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Rwyf wedi cyflwyno heddiw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020, a hynny wrth arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithred. Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig. Rwy'n bwriadu gosod y rhain unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Daw'r offeryn hwn i rym o dan y weithdrefn gadarnhaol frys 'gwnaed' cyn y caiff ei osod gerbron y Senedd. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bod y diwygiadau y mae'r Rheoliadau yn eu gwneud wedi deillio o oedi o ran trafodaethau â gweinyddiaethau'r DU ac addasiadau hwyr i Reoliadau cyfatebol Lloegr. Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau yn cynnwys pŵer newydd ar gyfer llunio rheoliadau y bydd angen ei arfer ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd er mwyn datgymhwyso rhai amodau ar allforion o'r UE i mewn i Gymru. Yn sgil yr oedi yma mae'n rhaid i'r Rheoliadau a fyddai fel rheol wedi bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol symud ymlaen o dan y weithdrefn gadarnhaol frys 'gwnaed' ar sail y ffaith nad oes digon o amser i fodloni'r amodau sifftio a nodir yn y Ddeddf Ymadael nac ychwaith ddigon o amser i osod y Rheoliadau yn wirfoddol yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn unol â'r weithdrefn a amlinellir ym mharagraff 7 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae'n rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 7 Chwefror er mwyn iddo barhau i gael effaith.  O dan yr amgylchiadau hyn rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol a gall y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen lle y gall y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd. Efallai y byddai o ddefnydd i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl yn y cyfarfod llawn ar gyfer yr eitem yma o is-ddeddfwriaeth ar 26 Ionawr 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth a Pholisi.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Eitem 4.6

# SL(5)718 – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 45C(1), (2), (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ailddeddfu Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 sy'n dod i ben ar 11 Ionawr 2021.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Ionawr 2021 a deuant i ben ar ddiwedd y dydd ar 31 Mawrth 2021. Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid adolygu'r Rheoliadau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir yn parhau i fod yn gymesur.

Mae'r Rheoliadau hyn yn atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan.

Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys; neu pan y'i gwnaed yn llwyr neu'n rhannol ar sail trais domestig, troseddau difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu niwsans; neu, mewn achosion pan fo'r person sy'n bresennol wedi ei fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannu ar yr adeg pan fo'n bresennol a phan fo'r gorchymyn meddiant wedi ei wneud yn llwyr neu'n rhannol ar sail marwolaeth y meddiannydd.

Mewn datganiad ar 8 Ionawr 2021, dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y canlynol:

> *"Diben y Rheoliadau yw cyfrannu at ymateb iechyd y cyhoedd i'r coronafeirws drwy atal pobl rhag cael eu troi allan ac eithrio yn yr amgylchiadau mwyaf difrifol. Mae effaith troi pobl allan a digartrefedd ar fynychder a lledaeniad Covid 19 yn dal i fod o bryder mawr. Mae digartrefedd yn rhoi pobl mewn sefyllfaoedd lle maent mewn perygl llawer mwy o ddal y feirws ac o'i drosglwyddo i eraill. Efallai bod y cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 presennol yn ei gwneud yn anoddach i'r rheini sy'n wynebu cael eu troi allan gael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyngor a chymorth, gan fod sefydliadau ar gau efallai neu'n gweithredu ar sail capasiti cyfyngedig. Efallai ei bod yn anoddach yn ymarferol sicrhau llety amgen hefyd, sydd eisoes yn fwy cyfyngedig yn ystod y gaeaf. Mewn sefyllfa lle mae lefel trosglwyddo'r feirws yn gyffredin ac yn cynyddu o fewn y gymuned, ac o ystyried y pwysau sydd ar wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, mae'n dal i fod yn fwy tebygol nag arfer y bydd troi pobl allan yn arwain at ddigartrefedd.*
>
> *Bydd y Rheoliadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod cyfnod eu gweithredu i sicrhau bod y cyfyngiadau a'r gofynion yn parhau i fod yn gymesur. Rhaid cynnal yr*

*adolygiad cyntaf rhwng yr adeg pan ddaw'r Rheoliadau i rym a 28 Ionawr 2021 er mwyn bod yn gydnaws ag amseru'r adolygiadau a nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Yna rhaid eu hadolygu o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod tair wythnos wedi hynny.*"

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Yn unol â'r weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 3 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod yn weithredol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd â hawliau landlordiaid o dan Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("A1P1"). Mae'r Pwyllgor yn nodi bod eithriadau wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau sy'n caniatáu ar gyfer troi allan mewn amgylchiadau penodol, bod y rheoliadau'n cael eu gwneud am gyfnod penodedig yn unig, eu bod i'w hadolygu ar gylch 3 wythnos rheolaidd a'u bod yn cael eu gwneud yng nghyd-destun yr argyfwng iechyd presennol.

Ymhellach, mae'r pwyllgor yn nodi'r rhesymau a roddwyd dros y ddeddfwriaeth hon yn y Memorandwm Esboniadol.

*"Diben y Rheoliadau yw rhoi ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder a throsglwyddiad cynyddol feirws Covid-19 drwy atal achosion o orfodi troi allan yng Nghymru ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf difrifol. Daw'r Rheoliadau i rym ar 11 Ionawr, a dônt i ben ar 31 Mawrth. Rhaid adolygu p'un a oes yn dal i fod angen y rheoliadau, a pha mor gymesur y maent, bob tair wythnos. Bydd yr adolygiadau 3 wythnos hyn yn gydnaws â'r cyfnodau adolygu a nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020, gan y bydd y Lefel Rhybudd berthnasol yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu p'un a yw'r mesurau yn dal i fod yn gymesur."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"O ystyried yr argyfwng iechyd y cyhoedd, ni fu modd cynnal unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ac nid oes gofyniad statuol i wneud hynny. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gref â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector tai; mae cyrff sy'n cynrychioli landlordiaid wedi bod yn cyfrannu'n anffurfiol at y Rheoliadau hyn.*"

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn a bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"Mae'r argyfwng COVID-19 a brys gwneud y Rheoliadau hyn yn golygu [na] fu modd paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i feintioli."*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod paragraff 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn ceisio nodi crynodeb o effaith bosibl y Rheoliadau hyn sy'n darparu rhywfaint o asesiad ansoddol o'u heffaith.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfnod oddeutu 10 wythnos pan fydd landlord yn cael ei atal rhag ceisio meddiannu eu heiddo oherwydd rhent heb ei dalu. Ar y cyd â Rheoliadau blaenorol, bydd landlordiaid wedi eu hatal rhag adennill meddiant oherwydd rhent heb ei dalu am gyfnod sylweddol. Gall ôl-ddyledion rhent rhai landlordiaid gael effaith economaidd sylweddol. A yw'r Llywodraeth wedi rhoi ystyriaeth i'r cymorth ariannol y bydd yn ei roi i landlordiaid sydd mewn trafferth ariannol oherwydd estyn y cyfyngiadau a osodir gan y Rheoliadau hyn?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pwynt rhinweddau 4.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2021 Rhif 12 (Cy. 5)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru fel "the appropriate Minister", drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ailddeddfu Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 sy'n dod i ben ar 11 Ionawr 2021.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Ionawr 2021 a deuant i ben ar ddiwedd y dydd ar 31 Mawrth 2021. Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid adolygu'r Rheoliadau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir yn parhau i fod yn gymesur.

Mae'r Rheoliadau hyn yn atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan.

Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys; neu pan y'i gwnaed yn llwyr neu'n rhannol ar sail trais domestig, troseddau difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu niwsans; neu, mewn achosion pan fo'r person sy'n bresennol wedi ei fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannu ar yr adeg pan fo'n bresennol a phan fo'r gorchymyn meddiant wedi ei wneud yn llwyr neu'n rhannol ar sail marwolaeth y meddiannydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 12 (Cy. 5)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Ionawr 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *8 Ionawr 2021* |
| *Yn dod i rym* | *11 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45C(1), (2), (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14) ("Deddf 2008"). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno(**1**), oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Ionawr 2021.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae i "tŷ annedd" yr un ystyr ag a roddir i "dwelling-house" yn Neddf Tai 1985(**2**), Deddf Tai 1988(**3**) neu Ddeddf Rhenti 1977(**4**), yn ôl y digwydd.

**Tenantiaethau preswyl (gwarchodaeth rhag troi allan)**

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni chaiff unrhyw berson fod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben—

(a) gweithredu gwrit neu warant meddiant,

(b) gweithredu gwrit neu warant adfer, neu

(c) danfon hysbysiad troi allan.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo'r llys wedi ei fodloni bod y writ, y warant neu'r hysbysiad yn ymwneud â gorchymyn meddiant a wneir—

(a) yn erbyn tresmaswyr yn unol â hawliad y mae rheol 55.6 (cyflwyno hawliadau yn erbyn tresmaswyr) o Reolau'r Drefniadaeth Sifil 1998(**5**) yn gymwys iddo,

(b) yn llwyr neu'n rhannol o dan adran 84A (sail absoliwt ar gyfer meddiannu am ymddygiad gwrthgymdeithasol) o Ddeddf Tai 1985(**6**),

(c) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 2 neu Sail 2A yn Atodlen 2 (seiliau ar gyfer meddiannu tai

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 45R gan adran 129 o Ddeddf 2008.
(**2**) 1985 p. 68.
(**3**) 1988 p. 50.
(**4**) 1977 p. 42.
(**5**) O.S. 1998/3132 (Cyfr. 17). Mewnosodwyd rheol 55.6 gan Atodlen 1 i O.S. 2001/256 (Cyfr. 7).
(**6**) Mewnosodwyd adran 84A gan adran 94(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (p. 12) ("Deddf 2014") ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 84 o Atodlen 24 i Ddeddf Dedfrydu 2020 (p. 17) ("Deddf 2020").

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau diogel) i Ddeddf Tai 1985(**1**),

(d) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 7A, Sail 14 neu Sail 14A yn Atodlen 2 (seiliau ar gyfer meddiannu tai annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau sicr) i Ddeddf Tai 1988(**2**),

(e) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 7 (sail ar gyfer meddiannu pan fo tenant yn marw ac na cheir hawl olyniaeth) yn Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988(**3**), neu

(f) yn llwyr neu'n rhannol o dan Achos 2 o Atodlen 15 (sail ar gyfer meddiannu tai annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau gwarchodedig neu statudol, neu sy'n ddarostyngedig iddynt) i Ddeddf Rhenti 1977.

(3) Pan fo paragraff (2)(e) yn gymwys, rhaid i'r person sy'n bresennol yn y tŷ annedd gymryd camau rhesymol i'w fodloni ei hun nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannu cyn cyflawni'r materion hynny a nodir ym mharagraff (1)(a), (b) neu (c).

**Adolygu a dod i ben**

**3.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn, a pha un a yw'r cyfyngiadau hynny yn gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt—

(a) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 11 Ionawr 2021 i 28 Ionawr 2021;

(b) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 o ddiwrnodau.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 31 Mawrth 2021.

---

(**1**) Amnewidiwyd Sail 2 gan adran 144 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) ("Deddf 1996") ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 45 o Atodlen 7 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15) ("Deddf 2005") ac adran 98(1) o Ddeddf 2014. Mewnosodwyd Sail 2A gan adran 145 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 33 o Atodlen 8 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) ("Deddf 2004") a chan O.S. 2019/1458.

(**2**) Mewnosodwyd Sail 7A gan adran 97(1) o Ddeddf 2014 ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 97 o Atodlen 24 i Ddeddf 2020. Amnewidiwyd Sail 14 gan adran 148 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 46 o Atodlen 7 i Ddeddf 2005 ac adran 98(2) o Ddeddf 2014. Mewnosodwyd Sail 14A gan adran 149 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 43(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2004, O.S. 2010/866, O.S. 2011/1396 ac O.S. 2019/1458.

(**3**) Mae diwygiadau i Sail 7 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
6 Ionawr 2021

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
8 Ionawr 2021

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan. Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys neu pan y'i gwnaed yn llwyr neu'n rhannol ar sail trais domestig, troseddau difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans neu, mewn achosion pan fo'r person sy'n bresennol wedi ei fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannau ar yr adeg pan fo'n bresennol, farwolaeth y meddiannydd. Daw'r rheoliadau hyn i ben ar 31 Mawrth 2021, ond rhaid adolygu p'un a oes yn dal i fod angen y rheoliadau, a pha mor gymesur y maent, bob tair wythnos. Maent yn atgynhyrchu cynnwys Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("Rheoliadau 2020") sy'n dod i ben ar 11 Ionawr.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae angen brys i sicrhau bod cyn lleied o achosion o droi allan â phosibl o ystyried bod trosglwyddo feirws Covid-19 yn gyffredin ac yn cynyddu o fewn y gymuned, a'r pwysau y mae hyn yn ei roi ar wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Gan fod y mynediad at wasanaethau a llety amgen yn debygol o barhau i fod yn gyfyngedig, mae mwy o risg y bydd achos o droi allan yn arwain at ddigartrefedd, a fydd yn ei dro yn cynyddu'r risg y bydd yr unigolyn yn dal COVID-19 ac yn ei drosglwyddo. Yng ngoleuni hyn, a'r gyfradd heintio uchel sydd yna ar hyn o bryd yng Nghymru, gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984" ac fe'u gwnaed heb fod drafft wedi ei osod yn gyntaf ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd, fel y byddai'n ofynnol fel arfer o dan adran 45Q o'r Ddeddf. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau hyn heb fod drafft wedi ei osod felly na'i gymeradwyo fel y gall camau iechyd y cyhoedd gael eu cymryd mewn ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad COVID-19. Daw'r Rheoliadau i rym ar 11 Ionawr 2021. Gan eu bod wedi eu gwneud o dan y weithdrefn frys, byddant yn peidio â bod yn weithredol ar ddiwedd 28 diwrnod i'r diwrnod y'u gwneir oni chânt eu cymeradwyo drwy benderfyniad Senedd Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 i alluogi cymryd camau iechyd y cyhoedd er mwyn lleihau'r risgiau i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad COVID-19. Mae adran 45C o'r Ddeddf honno yn galluogi Gweinidogion

Cymru (fel yr “appropriate Minister”), drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru. Bydd y Rheoliadau yn atal achosion o droi tenantiaid preswyl allan yn ystod yr adeg allweddol hon o’r pandemig. Yn unol ag adran 45R o Ddeddf 1984, mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb fod drafft wedi ei osod gerbron y Senedd ac wedi ei gymeradwyo ganddi.

3.2 Mae mesurau deddfwriaethol wedi cael eu rhoi ar waith yn flaenorol er mwyn atal tenantiaid rhag cael eu troi allan yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 (“Deddf 2020”) yn rhoi gwarchodaeth rhag troi allan mewn perthynas â'r rhan fwyaf o denantiaethau preswyl a hysbysiadau[1] a gyflwynir yn ystod y ‘cyfnod perthnasol’ (y diffiniwyd y byddai'n dod i ben ar 30 Medi 2020 i ddechrau ond sydd wedyn wedi cael ei ymestyn tan 31 Mawrth 2021). Gwna hyn drwy gynyddu, yn y rhan fwyaf o achosion, gyfnod yr hysbysiad y mae'n rhaid ei gyflwyno cyn y gellir dechrau gweithrediadau meddiant yn y llysoedd.

3.3. Yn ogystal, roedd yna ataliad dros dro ar weithrediadau llys yng Nghymru a Lloegr a ddechreuodd ym mis Mawrth, a daeth i ben ar 20 Medi. Wedi hynny, roedd yn bosibl cychwyn gweithrediadau meddiant drwy'r llysoedd pan oedd cyfnod gofynnol yr hysbysiad wedi mynd heibio, ac, os gwneid gorchymyn, i'r landlord geisio gorfodi'r gorchymyn hwnnw drwy wneud cais i'r llys am writ neu warant meddiant, a allai arwain at droi allan gan feilïod Llys Sirol neu swyddogion gorfodi'r Uchel Lys.

3.4 Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio atal achosion o droi allan (yng Nghymru a Lloegr) pan dybiwyd bod y rhain yn anghyson â mesurau iechyd y cyhoedd drwy roi arweiniad i feilïod llysoedd sirol a thrwy lythyr gan yr Arglwydd Ganghellor at Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys. Roedd hyn yn gymwys yn ystod y cyfnod atal yng Nghymru.

3.5 Ar 16 Tachwedd, gosododd Llywodraeth y DU reoliadau gerbron Senedd y DU – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Coronafeirws) (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan a Chymryd Rheolaeth dros Nwyddau) (Lloegr) 2020. Ymhlith pethau eraill, roedd y rheoliadau hynny yn atal yn Lloegr y rhan fwyaf o achosion o droi allan yn ystod y cyfnod hyd at 11 Ionawr 2021.

3.6 I sicrhau bod pobl yn cael eu gwarchod rhag cael eu troi allan yng Nghymru dros gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd ar yr un sail statudol ag yn Lloegr, daeth Rheoliadau 2020 i rym ar 11 Rhagfyr. Maent yn atal, ac eithrio mewn amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan. Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi'i fodloni bod yr hawliad yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys, neu pan

[1] Yr hysbysiadau perthnasol yw'r rhai a gyflwynir o dan Ddeddf Gwarchodaeth Rhag Troi Allan 1977, Deddf Rhenti 1977, Deddf Tai 1985, Deddf Tai 1988 a Deddf Tai 1996.

y’i gwneir yn llwyr neu'n rhannol ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau difrifol, niwsans, trais domestig neu, mewn achosion lle mae'r person a fydd yn mynd yno wedi'i fodloni nad yw’r tŷ annedd wedi’i feddiannu ar yr adeg pan fydd yno, farwolaeth y meddiannydd. Daw Rheoliadau 2020 i ben ar 11 Ionawr 2021.

**4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth**

4.1 Diben y Rheoliadau yw rhoi ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder a throsglwyddiad cynyddol feirws Covid-19 drwy atal achosion o orfodi troi allan yng Nghymru ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf difrifol. Daw'r Rheoliadau i rym ar 11 Ionawr, a dônt i ben ar 31 Mawrth. Rhaid adolygu p’un a oes yn dal i fod angen y rheoliadau, a pha mor gymesur y maent, bob tair wythnos. Bydd yr adolygiadau 3 wythnos hyn yn gydnaws â’r cyfnodau adolygu a nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020, gan y bydd y Lefel Rhybudd berthnasol yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu p’un a yw’r mesurau yn dal i fod yn gymesur.

4.2 Hyd at 20 Medi, ac felly drwy gydol ton gyntaf y pandemig, ataliwyd achosion o droi allan drwy ddiwygiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a ataliodd achosion o feddiannu. O ystyried yr ataliad, nid oedd angen ystyried cymryd camau i atal gorfodi troi allan yn ystod y cyfnod hwnnw drwy ddefnyddio'r pwerau a nodwyd yn Neddf 1984 ar y pryd hwnnw. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa honno wedi newid yn sgil codi'r ataliad, ynghyd â dechreuad ail don o'r pandemig a phwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill yn ystod y gaeaf.

4.3 Dros gyfnod y Nadolig a chanol y gaeaf, ar adeg y mae’r risg o drosglwyddo'r feirws wedi bod yn uchel iawn unwaith eto, a mynediad at wasanaethau a llety amgen wedi bod yn gyfyngedig, mae Rheoliadau 2020 wedi bod ar waith i sicrhau na chaiff pobl eu troi allan.

4.4 Er nad yw’r amharu ar wasanaethau ac ar gyflenwad llety amgen yn sgil cyfnod gwyliau’r Nadolig yn ffactor ar ôl 11 Ionawr, mae’r effaith ar iechyd y cyhoedd, ac yn benodol ar fynychder a lledaeniad Covid-19, achosion o droi pobl allan a digartrefedd yn dal i fod yn bryder mawr. Mae Cymru wedi symud i Lefel Rhybudd 4 (y lefel uchaf bosibl), sydd efallai yn ei gwneud yn anoddach i’r rheini sy’n wynebu cael eu troi allan gael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyngor a chymorth, gan fod busnesau ar gau efallai neu’n gweithredu ar sail capasiti cyfyngedig. Efallai ei bod yn anoddach yn ymarferol sicrhau llety amgen hefyd, sydd eisoes yn fwy cyfyngedig yn ystod y gaeaf. Mewn sefyllfa lle mae trosglwyddo’r feirws yn gyffredin ac yn cynyddu o fewn y gymuned, ac o ystyried y pwysau sydd ar wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, mae’n

dal i fod yn fwy tebygol nag arfer y bydd troi pobl allan yn arwain at ddigartrefedd.

4.5 Mae digartrefedd hefyd yn rhoi pobl mewn sefyllfaoedd lle maent yn wynebu llawer mwy o risg o ddal y feirws a'i drosglwyddo i eraill. Mae’n llai tebygol fod gan berson digartref fynediad at gyfleusterau hylendid sylfaenol – yn enwedig cyfleusterau golchi dwylo – sy’n hollbwysig i’w warchod ei hun rhag y clefyd. Mae’n llawer llai tebygol o allu cadw pellter cymdeithasol, hyd yn oed lle sicrheir llety amgen dros dro ar ei gyfer. Ac mae’n debygol o ddod i gysylltiad â llawer mwy o bobl, boed yn rheini sy’n darparu gwasanaethau cymorth i’r digartref, neu’n bobl ddigartref eraill. O ganiatáu i bobl gael eu troi allan, felly, mae baich ychwanegol yn debygol o gael ei osod ar y GIG, ac awdurdodau lleol yn debygol o wynebu rhwystrau wrth gynnig ymateb iechyd y cyhoedd, a hynny yn ystod cyfnod pan fydd pwysau'r gaeaf ar wasanaethau cyhoeddus perthnasol yn debygol o fod ar eu hanterth.

4.6 Yng ngoleuni’r uchod, mae’n hollbwysig gweithredu i sicrhau bod deddfwriaeth yn dal yn weithredol i atal troi allan ar ôl 11 Ionawr. At hyn, o ystyried y cyfyngiad Lefel Rhybudd 4 sydd mewn grym ar hyn o bryd, a’r rheol gyffredinol bod yn rhaid i bobl aros gartref, ac eithrio at ddibenion cyfyngedig iawn, ymddengys bod caniatáu i feilïod a swyddogion gorfodi'r Uchel Lys ailgychwyn troi pobl allan o’u cartrefi yn mynd yn groes i ddiben y cyfyngiadau hynny.

4.7 Er mwyn sicrhau bod y mesurau yn parhau'n gymesur â'r risg uwch i iechyd y cyhoedd, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen rhai eithriadau i'r gwaharddiad ar orfodi gorchmynion meddiant. Yr un eithriadau yw’r rhain ag a sefydlwyd ar gyfer Rheoliadau 2020, sef, yn bennaf oll, achosion lle y bernir bod buddiannau atal niwed i drydydd partïon a gweithredu yn erbyn ymddygiad dybryd yn ddigon i fod yn drech na'r risgiau i iechyd y cyhoedd a berir gan droi allan, ond hefyd lle nad oes unrhyw risg amlwg i iechyd y cyhoedd. Yn benodol, mae'r rhain yn:

- achosion lle mae'r llys wedi'i fodloni bod y gorchymyn meddiant wedi cael ei wneud yn llwyr neu'n rhannol ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol; niwsans; a/neu drais domestig mewn tenantiaethau cymdeithasol; neu
- achosion lle mae'r llys wedi'i fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys; neu
- achosion lle mae’r person yn yr eiddo wedi'i fodloni nad yw’r tŷ annedd wedi’i feddiannu ar yr adeg y mae yno, ac y gwneir y gorchymyn adennill meddiant yn llwyr neu’n rhannol ar sail marwolaeth y meddiannydd.

4.8 Wrth gymhwyso'r amgylchiadau penodedig hyn lle bydd modd gorfodi, mae Gweinidogion Cymru yn nodi y bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aml yn arwain at effaith negyddol sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant cymdogion. Os nad oes modd troi allan ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol/niwsans a melltith gall landlordiaid fod mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt ailgartrefu'r cymdogion hynny yr effeithir fwyaf ar eu llesiant neu efallai y bydd preswylwyr agos yn cymryd camau eu hunain i ddod o hyd i lety newydd a symud iddo. O dan amgylchiadau eithriadol, gall unigolion sy'n agored i niwed hyd yn oed ddewis mynd yn ddigartref yn hytrach na pharhau i ddioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol.Bydd ailgartrefu cymdogion oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r camau a gymerir gan y cymdogion eu hunain i ddod o hyd i gartref newydd a symud iddo amlygu'r unigolion hynny o bosibl i sefyllfaoedd lle maent yn wynebu mwy o risg o drosglwyddo'r feirws. Yn achos y rhai sy'n dewis mynd yn ddigartref, mae'r risgiau hynny yn debygol o fod hyd yn oed yn waeth.Gall achosion sy'n ymwneud â thresmaswyr yn aml fod yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd.

4.9 Yn yr achosion hyn, gall caniatáu i orchmynion meddiant gael eu gorfodi arwain at lai o risg y caiff y feirws ei ddal a'i ledaenu na chaniatáu i'r rhai sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol aros yn eu cartrefi. Er bod hyn yn golygu y bydd rhai pobl yn cael eu troi allan yn ystod y gaeaf, bydd atal achosion o orfodi troi allan ac eithrio yn yr achosion mwyaf dybryd yn lleihau'n sylweddol nifer y gweithrediadau gorfodi yn ystod y gaeaf pan fydd trosglwyddiad y feirws yn cynyddu.

4.10 Yr amgylchiad penodedig arall lle bydd modd gorfodi yw pan fydd y tenant wedi marw ac nad oes unrhyw hawl etifeddu. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r person sy'n mynd i'r tŷ annedd gymryd camau rhesymol i fodloni ei hun nad yw'r tŷ annedd wedi'i feddiannu cyn gweithredu gwrit neu warant meddiant neu adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan.  Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw meddiannu eiddo gwag yn peri unrhyw risg i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghoriad

5.1 O ystyried yr argyfwng iechyd y cyhoedd, ni fu modd cynnal unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ac nid oes gofyniad statuol i wneud hynny. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gref â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector tai; mae cyrff sy'n cynrychioli landlordiaid wedi bod yn cyfrannu'n anffurfiol at y Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae'r argyfwng COVID-19 a brys gwneud y Rheoliadau hyn yn golygu fu modd paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i feintioli.  Fodd bynnag,

mae'r adran ganlynol yn rhoi disgrifiad ansoddol o'r effeithiau tebygol.

**Opsiynau**

6.2 Ystyriwyd dau opsiwn:

*Opsiwn A – Gwneud dim*

*Opsiwn B – Deddfu i atal y rhan fwyaf o achosion o droi allan rhag digwydd rhwng 11 Ionawr 2021 a 31 Mawrth 2021, yn amodol ar adolygiad rheolaidd.*

**Costau a Manteision**

*Opsiwn A – Gwneud dim*

6.3 Er nad oes unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, ni fydd yn sicrhau'r fantais i iechyd y cyhoedd nac yn rheoli'r feirws fel y byddem yn ei weld drwy atal achosion o droi allan yn ystod y cyfnod hwn. O ganlyniad i'r olaf, bydd cost sylweddol o bosibl yn y tymor canolig i'r tymor hwy, o ran niwed posibl i iechyd y cyhoedd a'r effaith ar wasanaethau sy'n gorfod ymdrin â'r rhai sy'n wynebu'r risg o gael eu troi allan a mynd yn ddigartref.

*Opsiwn B – Deddfu i atal y rhan fwyaf o achosion o droi allan rhag digwydd rhwng 11 Ionawr 2021 a 31 Mawrth 2021, yn amodol ar adolygiad rheolaidd*

6.4 O dan yr opsiwn hwn, byddai rheoliadau yn atal gorfodi gorchmynion meddiant oni bai bod y sail dros feddiant yn un o'r amgylchiadau penodedig lle y gellir gorfodi gorchymyn yn ystod y gaeaf. O ganlyniad, byddai'r manteision i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig ag atal cynnydd yn nifer y bobl sy'n ddigartref ac unrhyw gynnydd cysylltiedig ym mynychder a throsglwyddiad y feirws yn cael eu gwireddu. Byddai arbediad hefyd i awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n rhoi cymorth i unigolion sy'n wynebu'r risg o gael eu troi allan, gyda'u llwythi achosion yn lleihau dros dro, a fyddai o bosibl yn eu galluogi i gyfeirio adnoddau at feysydd eraill.

6.5 Nid oes unrhyw gostau gweinyddol na throsiannol amlwg yn gysylltiedig ag atal achosion o droi allan dros y cyfnod dros dro hwn. Pan fo landlord yn ceisio meddiannu eiddo nad yw'r rhent amdano yn cael ei dalu, mae cost ychwanegol bosibl i landlordiaid sy'n codi o'r oedi ychwanegol cyn y gall y landlord ailfeddiannu'r eiddo ac adennill yr ôl-ddyledion a all gronni o bosibl yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, byddai'n rhaid cydbwyso hyn â'r gost o ran iechyd y cyhoedd, ac effeithiau caniatáu troi allan ar y gwasanaeth iechyd a sefydliadau eraill, lle mae risg sylweddol bod hyn yn cyfrannu at fynychder a lledaeniad y feirws.

## Asesu'r Gystadleuaeth

6.6 Ni fu modd asesu'r gystadleuaeth yn llawn mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, o ystyried bod terfyn amser i'w cymhwyso, mae'n annhebygol y byddant yn cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth.

## Profion Effaith Penodol

*Cyfleoedd cyfartal*

6.7 Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gwahaniaethu yn erbyn personau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. I'r gwrthwyneb, gall y darpariaethau a geir yn y rheoliadau fod yn fuddiol iawn i unigolion sy'n agored i niwed a allai fel arall wynebu'r risg o gael eu troi allan a'u gorfodi i ddod o hyd i lety amgen yn ystod cyfnod pan fyddai ceisio dod o hyd i lety o'r fath yn heriol iawn. Mae'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn debygol o gael eu cynrychioli'n ymhlith y rhai sy'n byw yn y sector rhentu ac felly'n debygol o fod yn fwy agored i gael eu troi allan.

*Hawliau plant*

6.8 Ni nodwyd unrhyw wrthdaro â CCUHP ac ni ddisgwylir i unrhyw effeithiau negyddol ar blant na phobl ifanc godi o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn. Ar gyfer teuluoedd sydd â phlant dibynnol, gall atal troi allan dros dro yn ystod y gaeaf helpu i leihau'r tarfu ar blant pan fydd cartref yn symud drwy roi mwy o amser i rieni ddod o hyd i lety amgen gerllaw, neu roi digon o amser i wneud trefniadau i symud ymhellach i ffwrdd pan fo hynny'n angenrheidiol neu'n ddymunol.

*Y Gymraeg*

6.9 Ni ddylai'r Rheoliadau hyn arwain at unrhyw effeithiau negyddol mewn perthynas â llesiant diwylliannol y Gymraeg.

*Llywodraeth Leol*

6.10 Gall y Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol, gyfyngedig ar awdurdodau lleol o ganlyniad i'r lleihad yn y galw am wasanaethau digartrefedd mewn argyfwng o ganlyniad i lai o achosion o droi allan yn ystod y gaeaf.

*Effeithiau economaidd*

6.11 Fel y nodir uchod, er y byddai landlordiaid yn gallu ailfeddiannu eiddo o hyd pe bai tenant yn methu â thalu'r rhent, neu fel arall yn torri telerau ei

denantiaeth, ac y byddai benthycwyr yn gallu adfeddiannu eiddo o hyd pe bai'r landlord yn methu â thalu'r morgais, mae cost ychwanegol bosibl iddynt o ganlyniad i'r oedi a achosir drwy atal troi allan dros dro. Fodd bynnag, mae natur dros dro y rheoliadau yn golygu y dylai unrhyw effaith economaidd negyddol a achosir fod yn gyfyngedig i'r cyfnod y maent yn weithredol.

*Effaith ar Breifatrwydd*

6.12 Nid yw'r Rheoliadau yn creu unrhyw ofynion newydd o ran preifatrwydd na rhannu gwybodaeth.

*Prawfesur gwledig*

6.13 Bydd y Rheoliadau yn gymwys yn yr un modd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol. Fel y cyfryw, ni ddylai'r effeithiau – na'r manteision – fod yn wahanol rhwng y ddau.

*Iechyd a llesiant*

6.14 Yn ogystal â'r manteision penodol i iechyd y cyhoedd a fyddai'n deillio o leihau nifer y bobl sy'n cael eu troi allan ac yn mynd yn ddigartref yn ystod y gaeaf, dylai'r Rheoliadau hefyd gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n agored i gael eu troi allan drwy roi sicrwydd na fyddant yn wynebu'r risg o gael eu troi allan nes diwedd pob cyfnod adolygu.

*Effaith ar y System Gyfiawnder*

6.15 Bydd y Rheoliadau yn effeithio ar y system gyfiawnder yn yr ystyr y byddant yn atal gweithredu gorchmynion llys yn ystod y gaeaf. Bydd unrhyw effaith hirdymor yn dibynnu ar ba mor hir y bydd y rheoliadau yn weithredol, ac ar nifer y gorchmynion adennill meddiant a fydd yn cronni.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Ionawr 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

Rwyf heddiw wedi gwneud Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 o dan adrannau 45C(1), (2), (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 sy'n dod i rym ar 11 Ionawr 2021.
Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol, ac rwy'n bwriadu ei osod ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 8 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod yn weithredol. O dan yr amgylchiadau hyn, deallaf fod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno. Gallai fod o gymorth ichi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y drafodaeth ar yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth yn y cyfarfod llawn ar 19 Ionawr 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984**<br>**Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021** |
| **DYDDIAD** | **08 Ionawr 2021** |
| **GAN** | **Julie James, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol** |

Mae Adran 45C o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (‘Deddf 1984’) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Fel y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a chan ddefnyddio’r pwerau o dan Adran 45C o Ddeddf 1984, rwyf heddiw wedi gosod gerbron y Senedd reoliadau mewn ymateb i’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad Covid 19.

Daw’r Rheoliadau i rym ar 11 Ionawr, a dônt i ben ddiwedd y dydd 31 Mawrth 2021.

Mae’r Rheoliadau yn atgynhyrchu cynnwys Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 sy’n dod i ben ar 11 Ionawr, ac yn atal, ac eithrio mewn amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan. Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi'i fodloni bod: yr hawliad yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys; neu pan wneir y gorchymyn adennill meddiant yn llwyr neu'n rhannol ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau difrifol, niwsans, trais domestig; neu, mewn achosion lle mae'r person a fydd yn mynd yno wedi'i fodloni nad yw’r tŷ annedd wedi’i feddiannu ar yr adeg pan fydd yno, ac y gwneir y gorchymyn adennill meddiant yn llwyr neu’n rhannol ar sail marwolaeth y meddiannydd.

Diben y Rheoliadau yw cyfrannu at ymateb iechyd y cyhoedd i’r coronafeirws drwy atal pobl rhag cael eu troi allan ac eithrio yn yr amgylchiadau mwyaf difrifol. Mae effaith troi pobl allan a digartrefedd ar fynychder a lledaeniad Covid 19 yn dal i fod o bryder mawr. Mae

digartrefedd yn rhoi pobl mewn sefyllfaoedd lle maent mewn perygl llawer mwy o ddal y feirws ac o'i drosglwyddo i eraill. Efallai bod y cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 presennol yn ei gwneud yn anoddach i'r rheini sy'n wynebu cael eu troi allan gael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyngor a chymorth, gan fod sefydliadau ar gau efallai neu'n gweithredu ar sail capasiti cyfyngedig. Efallai ei bod yn anoddach yn ymarferol sicrhau llety amgen hefyd, sydd eisoes yn fwy cyfyngedig yn ystod y gaeaf. Mewn sefyllfa lle mae lefel trosglwyddo'r feirws yn gyffredin ac yn cynyddu o fewn y gymuned, ac o ystyried y pwysau sydd ar wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, mae'n dal i fod yn fwy tebygol nag arfer y bydd troi pobl allan yn arwain at ddigartrefedd.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod cyfnod eu gweithredu i sicrhau bod y cyfyngiadau a'r gofynion yn parhau i fod yn gymesur. Rhaid cynnal yr adolygiad cyntaf rhwng yr adeg pan ddaw'r Rheoliadau i rym a 28 Ionawr 2021 er mwyn bod yn gydnaws ag amseru'r adolygiadau a nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Yna rhaid eu hadolygu o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod tair wythnos wedi hynny.

Mae copi o'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig i'w weld yma ac yma.

# SL(5)719 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (“Rheoliadau Rhif 5”), gan gadw'r cyfyngiadau ychwanegol sydd eisoes ar waith mewn perthynas â De Affrica a'u hymestyn i deithwyr (a'u haelwydydd) sy'n cyrraedd Cymru o wledydd eraill yn ne cyfandir Affrica (a restrir yn Atodlen 3A newydd i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol) ar neu ar ôl 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021.

At hynny, mae’r Rheoliadau hyn yn:

- Ymestyn y gwaharddiad presennol ar awyrennau teithwyr a llestrau sy'n cyrraedd yn uniongyrchol yng Nghymru, i'r gwledydd ychwanegol a restrir yn Atodlen 3A newydd; a
- Caniatáu i gartrefi arddangos aros ar agor mewn ardaloedd Lefel Rhybudd 4 (er na chaniateir gweld eiddo mewn cysylltiad â gwerthiant neu osod dim ond os yw’n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy’n rhesymol ymarferol).

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd wedi’i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft.**

Mae rheoliad 8 (7) yn y testun Saesneg yn amnewid “developer sales offices and show homes” ym mharagraff 48 o Atodlen 4 i Reoliadau Rhif 5 gyda “developer sales offices”. Fodd bynnag, mae'r un rheoliad yn y testun Cymraeg yn amnewid “swyddfeydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos” gyda “chartrefi arddangos”.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 5; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.*"

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

**3. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn mynd i'r afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**4. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae troednodyn (2) ar dudalen 8 o'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at "O.S. 2020/163" ac "O.S. 2020/165". Rydym yn tybio y dylen nhw gyfeirio at O.S. 2020/16***2***3 ac O.S. 16***4***5 (*ychwanegwyd pwyslais*) gan mai dyna'r rhifau O.S. ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020, yn y drefn honno.

Derbynnir nad yw'r troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben ei gynnwys yw cynorthwyo darllenydd, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyfeiriadau cywir yn cael ei ddefnyddio.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 20 (Cy. 7)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609) (Cy. 335)) (y "Rheoliadau Cyfyngiadau".

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (O.S. 2020/1232) (Cy. 278);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237) (Cy. 279);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1288) (Cy. 286);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020 (O.S. 2020/1329) (Cy. 295);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020 (O.S. 2020/1362) (Cy. 301);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1477) (Cy. 316);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1521) (Cy. 325);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020 (O.S. 2020/1602) (Cy. 332); a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1645) (Cy. 345).

Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau wedi eu diwygio yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1610) (Cy. 336);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1623) (Cy. 340); a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1645) (Cy. 345).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor y cofnodion ar gyfer Dinas Jerwsalem, Gweriniaeth Botswana, Israel, Mauritius a Seychelles.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhannau 3 a 3B o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac yn mewnosod Rhan 3C ac Atodlen 3A newydd yn y Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn hepgor rheoliad 12C o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n gosod rheolau arbennig ar unrhyw berson sy'n teithio o Dde Affrica ac aelodau o aelwyd y person hwnnw. Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth arbed mewn cysylltiad â hepgor rheoliad 12C o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 6 yn hepgor rheoliad 12D yn Rhan 3B o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliadau 12E a 12F ac Atodlen 3A newydd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 7(1) yn mewnosod darpariaeth newydd sy'n ymwneud â mesurau ychwanegol ar gyfer gwledydd a thiriogaethau penodedig yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar ffurf rheoliad 12E newydd. Mae'r

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

rheoliad 12E newydd yn debyg i'r rheoliad 12C blaenorol, ond nid yw'n benodol i Dde Affrica. Yn hytrach, mae'n gosod mesur ychwanegol ar wledydd a thiriogaethau a restrir yn yr Atodlen 3A newydd. Mae rheoliad 12E yn darparu, pan fo person wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth benodedig yn ystod y 10 niwrnod diwethaf ac yn cyrraedd Cymru ar 9 Ionawr 2021 neu wedi hynny, ei bod yn ofynnol i'r person ac aelodau ei aelwyd ynysu. At hynny, nid yw'r categorïau o bersonau esempt fel y'u disgrifir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys, a chaiff person adael ynysiad o dan amgylchiadau mwy cyfyngedig. Mae rheoliad 7(1) hefyd yn mewnosod rheoliad 12F newydd, sy'n gosod cyfyngiad ar awyrennau a llestrau sy'n cyrraedd yn uniongyrchol o wlad a restrir yn yr Atodlen 3A newydd.

Mae rheoliad 7(2) yn mewnosod Atodlen 3A newydd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n rhestru'r gwledydd a'r tiriogaethau penodedig hynny sy'n ddarostyngedig i'r mesurau ychwanegol yn rheoliadau 12E a 12F o'r Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 7(2) yn rhestru'r gwledydd a'r tiriogaethau a ganlyn yn Atodlen 3A: Gweriniaeth Angola, Gweriniaeth Botswana, Gweriniaeth De Affrica, Gweriniaeth Malaŵi, Gweriniaeth Mauritius, Gweriniaeth Mozambique, Gweriniaeth Namibia, Gweriniaeth Seychelles, Gweriniaeth Zambia, Gweriniaeth Zimbabwe, Teyrnas Eswatini a Theyrnas Lesotho.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn—

(a) gosod gofynion ynysu llymach ar bobl sydd wedi bod mewn un o 11 gwlad restredig yn Affrica o fewn y cyfnod o 10 niwrnod cyn 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021 ac ar unrhyw un ar yr un aelwyd â phobl o'r fath. Mae'r rhain yn wledydd lle y ceir tystiolaeth o ledaeniad cymunedol amrywiolyn newydd o'r coronafeirws;

(b) gwneud mân ddiwygiad i ganiatáu i gartrefi arddangos aros ar agor mewn ardaloedd Lefel Rhybudd 4, er na chaniateir gweld eiddo mewn cysylltiad â gwerthiant neu osod mewn ardaloedd Lefel Rhybudd 4 ond os yw'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol;

(c) dirymu'r darpariaethau sy'n ymwneud â dydd Nadolig sydd wedi eu disbyddu bellach a gwneud mân ddiwygiadau eraill i reoliadau 38 a 57.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad technegol i destun Cymraeg rheoliad 14(1)(c) yn Rhan 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 20 (Cy. 7)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 4.07 p.m. ar 8 Ionawr 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 6.00 p.m. ar 8 Ionawr 2021* |
| *Yn dod i rym* | *am 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**);

(b) ystyr y "Rheoliadau Cyfyngiadau" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**2**).

## RHAN 2

### Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Hepgor gwledydd a thiriogaethau o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332) ac O.S. 2020/1645 (Cy. 345).

(**2**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/163 (Cy. 340) ac O.S. 2020/165 (Cy. 345).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnodion a ganlyn—

"Dinas Jerwsalem"

"Gweriniaeth Botswana"

"Israel"

"Mauritius"

"Seychelles".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 9 Ionawr 2021 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

## RHAN 3

## Diwygiadau i Ran 3 a Rhan 3B o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiad i Ran 3 (gofyniad i ynysu etc.) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**4.** Hepgorer rheoliad 12C (rheolau arbennig sy'n berthnasol i bobl sy'n teithio o Dde Affrica) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

**Darpariaeth arbed mewn cysylltiad â rheoliad 4**

**5.** Pan fo rheoliad 12C o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys i berson, yn union cyn 4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021, mae'n parhau i fod yn gymwys i'r person hwnnw er gwaethaf ei ddirymu gan reoliad 4.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Hepgor Rhan 3B (teithio o Dde Affrica) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**6.** Hepgorer Rhan 3B (teithio o Dde Affrica) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

## RHAN 4

### Ychwanegu Rhan 3C ac Atodlen 3A at y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Mewnosod Rhan 3C (teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A)**

**7.**—(1) Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 12 mewnosoder—

> "RHAN 3C
>
> Teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A
>
> **Mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A**
>
> **12E.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo gofyniad ynysu (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2)) yn cael ei osod ar berson ("P") am fod P—
>
> (a) wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A, neu
>
> (b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.
>
> (2) Mae rheoliadau 7(1) ac 8(1) i'w darllen mewn perthynas â P fel pe bai cyfeiriadau at "gwlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" yn gyfeiriadau at "gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A".
>
> (3) Mae'r gofyniad ynysu sydd wedi ei osod ar P yn rhinwedd rheoliad 7(1) neu 8(1) fel y'i haddesir gan baragraff (2), hefyd wedi ei osod ar bob aelod o aelwyd P.
>
> (4) Er gwaethaf rheoliad 9(2), mae rheoliadau 7 ac 8 yn gymwys i P.
>
> (5) Nid yw aelod o aelwyd P wedi ei esemptio rhag y gofyniad i ynysu yn rhinwedd rheoliad 9(2).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(6) Yn unol â hynny nid yw P nac unrhyw aelod o aelwyd P i'w drin fel person a ddisgrifir mewn unrhyw baragraff o Atodlen 2.

(7) At ddibenion rheoliad 10, mae aelod o aelwyd P i'w drin fel pe bai P oedd y person hwnnw.

(8) Mae rheoliad 10 yn gymwys i P (ac aelod o aelwyd P yn rhinwedd paragraff (7)) fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (4) o'r rheoliad hwnnw—

"(4) Caiff P adael y fangre a bod y tu allan iddi—

(a) cyhyd ag y bo'n angenrheidiol—

(i) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen hynny ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;

(ii) i osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol;

(iii) i gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(b) os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan gwnstabl;

(c) i deithio at ddiben gadael Cymru."

**Gwahardd awyrennau a llestrau sy'n teithio'n uniongyrchol o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A rhag cyrraedd**

**12F.**—(1) Ni chaiff y person sy'n rheoli awyren neu lestr neu sydd â rheolaeth dros awyren neu lestr yr oedd ei man ymadael diwethaf yn wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A beri na chaniatáu i'r awyren neu'r llestr gyrraedd Cymru, oni bai bod gwneud hynny yn rhesymol angenrheidiol er mwyn sicrhau—

(a) diogelwch yr awyren neu'r llestr, neu

(b) iechyd a diogelwch unrhyw berson ar ei bwrdd neu ar ei fwrdd.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—

(a) awyren a weithredir yn fasnachol neu lestr a weithredir yn fasnachol nad yw'n cludo unrhyw deithwyr;

(b) awyren neu lestr a weithredir gan Lywodraeth ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig neu i'w chefnogi;

(c) awyren neu lestr a oedd mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ddiweddaf 11 o ddiwrnodau neu ragor cyn cyrraedd Cymru.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "cyrraedd" yw—

(i) mewn perthynas ag awyren, glanio;

(ii) mewn perthynas â llestr, angori yn unrhyw fan;

(b) ystyr "teithiwr" yw person a gludir mewn awyren neu ar lestr ac eithrio aelod o'i chriw neu o'i griw."

(3) Ar ôl Atodlen 3, mewnosoder—

## "ATODLEN 3A Rheoliadau 12E a 12F

### Gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol

Gweriniaeth Angola

Gweriniaeth Botswana

Gweriniaeth De Affrica

Gweriniaeth Malaŵi

Gweriniaeth Mauritius

Gweriniaeth Mozambique

Gweriniaeth Namibia

Gweriniaeth Seychelles

Gweriniaeth Zambia

Gweriniaeth Zimbabwe

Teyrnas Eswatini

Teyrnas Lesotho".

## RHAN 5

### Diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau

**Diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau**

**8.**—(1) Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliad 4(7).

(3) Yn rheoliad 11A—

(a) yn y pennawd, yn lle "yn Ne Affrica" rhodder "mewn gwledydd penodol";

(b) ym mharagraff (1)—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020" rhodder "4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020" rhodder "4.00 a.m. ar 9 Ionawr 2021";

(iii) yn is-baragraff (c), yn lle "yn Ne Affrica" rhodder "mewn gwlad restredig";

(c) ym mharagraff (2), yn lle "y gadawodd P De Affrica" rhodder "yr oedd P mewn gwlad restredig ddiwethaf";

(d) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) At ddibenion y rheoliad hwn, mae'r gwledydd a ganlyn yn wledydd rhestredig —

(a) Teyrnas Eswatini;

(b) Teyrnas Lesotho;

(c) Gweriniaeth Angola;

(d) Gweriniaeth Botswana;

(e) Gweriniaeth Malaŵi;

(f) Gweriniaeth Mauritius;

(g) Gweriniaeth Mozambique;

(h) Gweriniaeth Namibia;

(i) Gweriniaeth Seychelles;

(j) Gweriniaeth Zambia;

(k) Gweriniaeth Zimbabwe."

(4) Yn rheoliad 11B—

(a) yn y pennawd, yn lle "yn Ne Affrica" rhodder "mewn gwledydd penodol";

(b) yn is-baragraff (2)(c), yn lle "neu risg arall o niwed difrifol" rhodder ", risg arall o niwed difrifol neu i gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol".

(5) Yn rheoliad 38(c), yn y testun Saesneg, ar ôl "(2)" mewnosoder "of".

(6) Yn rheoliad 57(1)(t)(i), yn lle ", o fewn unrhyw ardal Haen 4 neu o fewn unrhyw ardal lle y gosodir cyfyngiadau llymach na'r rhai sy'n gymwys yn yr ardal Haen 3" rhodder "neu o fewn yr ardal Haen 4".

(7) Ym mharagraff 48 o Atodlen 4, yn lle ", swyddfeydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos" rhodder "a chartrefi arddangos".

(8) Hepgorer Atodlen 6.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 6

### Diwygiad i destun Cymraeg Rhan 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiad i Ran 4 (gorfodi a throseddau) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**9.** Yn rheoliad 14 (troseddau) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, yn y testun Cymraeg, yn is-baragraff (1)(c) hepgorer "neu".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 4.07 p.m. ar 8 Ionawr 2021

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

8 Ionawr 2021

## 1. Disgrifiad

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (“Rheoliadau Rhif 5”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

*Yn dod i rym*

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a osodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984 (c. 22) (“Deddf 1984”). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb i ddrafft gael ei osod na'i gymeradwyo gan y Senedd. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo felly fel y gellir cymryd camau iechyd cyhoeddus er mwyn ymateb yn gyflym i fygythiad y coronafeirws i iechyd pobl. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion fel y'u nodir yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd cyhoeddus i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Daw’r Rheoliadau i rym am 4am ar 9 Ionawr 2021.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 5; mae’r Llywodraeth o’r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf 1984, a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae'r Memoranda Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 5 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd

a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau eithriedig na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r mannau hynny – yn fwyaf diweddar ar 19 Rhagfyr 2020.

Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi cynyddu yng Ngweriniaeth Botswana, Israel, Dinas Jerwsalem, Gweriniaeth Seychelles a Gweriniaeth Mauritius. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai gofynion i ynysu yn awr gael eu cyflwyno ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o'r gwledydd a'r tiriogaethau hynny.

Bydd y gofynion diwygiedig yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd neu'r tiriogaethau hynny am 4.00 a.m. ddydd Sadwrn 9 Ionawr 2021 neu wedi hynny.

O 24 Rhagfyr 2020, gosodwyd cyfyngiadau ychwanegol ar deithwyr i Gymru o Dde Affrica mewn ymateb i'r risgiau iechyd a ddaeth i'r amlwg yn sgil straen newydd o coronafeirws (COVID202012/02) a nodwyd sydd â lefelau trosglwyddiad uchel iawn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cadw'r cyfyngiadau ychwanegol mewn perthynas â De Affrica ond yn ailstrwythuro'r rheoliadau i alluogi cyflwyno cyfyngiadau ar deithwyr o gyrchfannau penodol eraill. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud rhai mân newidiadau i'r cyfyngiadau eu hunain, er enghraifft, i alluogi i berson adael ei leoliad ynysu i gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol neu er mwyn gadael Cymru.

Bydd y Rheoliadau hefyd yn ymestyn y cyfyngiadau ychwanegol (fel y'i diwygiwyd) sydd ar deithwyr i Gymru o Dde Affrica (a'u haelwydydd) ar hyn o bryd i deithwyr (a'u haelwydydd) o wledydd eraill yn ne cyfandir Affrica. Ystyrir bod teithwyr o'r gwledydd a ganlyn yn risg i iechyd y cyhoedd oherwydd adroddiadau bod amrywiolyn De Affrica (COVID202012/02) ar led yno a/neu oherwydd bod gan y gwledydd hyn gysylltiadau teithio cryf gyda De Affrica: Namibia, Botswana, Malawi, Eswatini, Lesotho, Zambia, Zimbabwe, Mozambique ac Angola, y Seychelles a Mauritius.

Felly, bydd pobl sy'n cyrraedd Cymru o 4:00am ar 9 Ionawr 2021 ac sydd wedi bod yn unrhyw un o'r gwledydd hyn yn y 10 diwrnod diwethaf, ac aelodau o aelwydydd yr unigolion hynny, yn gorfod ynysu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn datgymhwyso'r holl eithriadau sectoraidd yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cyfyngiadau Teithio, fel na all unrhyw unigolyn sy'n cyrraedd Cymru sydd wedi bod yn y gwledydd hynny yn ystod y 10 diwrnod blaenorol fod wedi'i eithrio o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth bersonol nac ynysu. Bydd rhestr fwy cyfyngedig na'r arfer o resymau dros adael y cartref dros dro yn gymwys hefyd, fel rhan o'r ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd.

Bydd y gwaharddiad ar awyrennau teithwyr a llongau sy'n cyrraedd Cymru yn uniongyrchol o Dde Affrica hefyd yn parhau i fod yn berthnasol a cânt eu hymestyn i'r gwledydd ychwanegol hyn os yw'n berthnasol.

Er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa sy'n dod i'r amlwg, mae newidiadau wedi'u gwneud hefyd i Reoliadau Rhif 5, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un a gyrhaeddodd Gymru cyn 04.00am ar 9 Ionawr 2021 ar ôl bod yn un o'r gwledydd a restrwyd yn ystod y 10 diwrnod blaenorol ynysu am 10 diwrnod o'r dyddiad y bu yn y wlad honno ddiwethaf. Estynnir y gofyniad hwn hefyd i unrhyw aelod o aelwyd yr unigolyn hwnnw.

Mae'r diwygiadau hyn yn cyd-daro â gweithredu pwerau mewnforio Llywodraeth y DU, a fydd yn gwrthod mynediad i bob teithiwr nad yw'n wladolyn Prydeinig nac yn breswylydd Prydeinig sy'n cyrraedd ffiniau'r DU o'r gwledydd hyn o 4:00am ddydd Sadwrn 9 Ionawr 2021.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r gofynion newydd hyn yn effeithiol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach yn cysylltu ar frys â holl drigolion Cymru sydd wedi bod yn y gwledydd a effeithiwyd yn ystod y 10 diwrnod diwethaf i esbonio'r gofynion ynysu newydd.

Gwnaed un newid bychan hefyd i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i fynd i'r afael â mater technegol yn fersiwn Gymraeg y rheoliadau.

Gwnaed mân newidiadau hefyd i Reoliadau Rhif 5, gan gynnwys hepgor darpariaethau sydd wedi darfod yn ymwneud ag aelwydydd estynedig ar 25 Rhagfyr 2020, a chaniatáu i dai arddangos aros ar agor mewn ardaloedd Lefel Rhybudd 4 (er y caniateir mynd i weld eiddo mewn cysylltiad â'i werthu neu ei osod dim ond os yw hynny'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes unrhyw ddewis ymarferol arall). Caniateir gweithgareddau yn ymwneud â phrynu, gosod a symud tŷ ar hyn o bryd o dan Reoliadau Rhif 5 os ydynt yn rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall, ac mae'r diwygiad hwn yn galluogi i bobl fynd i weld tai newydd yn yr un modd ag y caniateir iddynt fynd i weld tai nad ydynt yn newydd ar hyn o bryd.

Daw'r holl newidiadau hyn i rym am 4.00am ddydd Sadwrn 9 Ionawr 2021.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/0067/21

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Ionawr 2021

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021 o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00am on 9 Ionawr 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 7 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Ionawr 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)** |
| **DYDDIAD** | **7 Ionawr 2021** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod a darparu gwybodaeth amdanynt eu hunain fel teithwyr, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau hyn i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i hunanynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i hunanynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth am deithwyr.

Ers hynny, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Heddiw, adolygais asesiadau diweddaraf y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch ac rwyf wedi penderfynu y bydd Israel, Botswana, Mawrisiws a'r Seychelles yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Bydd gofyn i bobl sy'n teithio o'r gwledydd hyn hynanynysu ar ôl cyrraedd Cymru.

Ar 23 Rhagfyr adroddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth fod amrywiolyn newydd o Covid-19 wedi'i ganfod yn Ne Affrica. Penderfynodd Llywodraeth y DU weithredu cyfyngiadau teithio pellach ar y rheini sy'n cyrraedd o Dde Affrica. Mae'r rhan fwyaf o hediadau o Dde Affrica yn teithio i feysydd awyr yn Lloegr.

Heddiw, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wedi penderfynu cynnal y mesurau presennol ar Dde Affrica ac ymestyn mesurau cyfatebol i wledydd eraill sy'n

cynnwys Namibia, Zimbabwe, Botswana, Eswatini, Zambia, Malawi, Lesotho, Mozambique, Angola, a hefyd Mawrisiws a’r Seychelles.

Felly, rwyf wedi penderfynu y dylid cymryd camau i ddileu'r eithriadau sectoraidd i deithwyr sy'n cyrraedd o’r gwledydd hyn. Bydd yn ofynnol i bawb sy'n cyrraedd Cymru sydd wedi bod yn y gwledydd hyn yn ystod y 10 diwrnod blaenorol ynysu am 10 diwrnod a dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y bydd hawl ganddynt i adael eu cartrefi. Bydd yr un gofynion ynysu yn gymwys i bob aelod o'u haelwyd hefyd. Bydd y gofynion ynysu ychwanegol hyn hefyd yn gymwys i unigolion sydd eisoes yng Nghymru a fu yn y gwledydd hyn yn ystod y 10 diwrnod diwethaf, yn ogystal ag aelodau o'u haelwyd.

Gwneir diwygiad pellach fel na all awyrennau sy'n teithio yn uniongyrchol o’r gwledydd hyn lanio mewn meysydd awyr yng Nghymru mwyach.

Yfory byddaf yn gosod y rheoliadau angenrheidiol a ddaw i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 9 Ionawr 2021.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

# SL(5)720 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

O ran Cymru, cyfrifir y lluosydd ardrethu annomestig yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf") ar gyfer pob blwyddyn ariannol pan nad oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio. Nid oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021.

Mae'r fformiwla ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn cynnwys eitem B, sef y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf i bennu, drwy Orchymyn, swm gwahanol ar gyfer eitem B. Os yw Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer hwnnw mewn perthynas â blwyddyn ariannol, rhaid i'r swm gwahanol a bennir felly fod yn llai na'r mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol yw 294.3.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu mai swm eitem B ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 yw 291.0.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Gorchymyn cyn i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021, pa un bynnag sydd gyntaf.

(Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi bod disgwyl i ddadl y Senedd ar y setliad llywodraeth leol gael ei chynnal ddechrau mis Mawrth 2021.)

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3(i) a 21.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath**

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn bwysigrwydd y Gorchymyn hwn, a'i effaith ar y setliadau refeniw llywodraeth leol blynyddol. Yn benodol, nodwn y paragraffau defnyddiol a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"The 2021 Order will have the effect of freezing the NDR multiplier rather than increasing by RPI for the financial year 2021-22. By freezing the NDR multiplier, the multiplier will be set at 0.535.*
>
> *This will mean that non-domestic property owners and occupiers in Wales will receive lower rates bills for 2021-22 than they would have if RPI were used.*
>
> *Primary legislation does not currently provide the Welsh Ministers with powers to permanently change the figure used to calculate the multiplier from RPI to a lower measure. Therefore, the 2021 Order will apply to 2021-22 only.*
>
> *Similar orders were made to effect a change to increase by CPI rather than RPI for 2018-19 to 2020-21.*
>
> *All owners or occupiers of non-domestic properties who pay rates will benefit from the change. Even properties which receive significant amounts of rates relief will benefit as the residual amounts will be calculated using a lower multiplier.*
>
> *All the non-domestic rates collected in Wales are pooled centrally and distributed to unitary authorities and to police and crime commissioners as part of the annual local government settlements. The total amount to be distributed in this way is known as the Distributable Amount. It is calculated by applying the multiplier to the estimated national total of rateable value, taking account of any surplus or deficit carried forward from previous years.*
>
> *The Distributable Amount is a key component of the annual local government revenue settlements and the 1988 Act requires that it is approved by the Senedd as part of the annual Local Government Finance Reports. The multiplier therefore needs to be determined before the annual settlements can be finalised.*
>
> *There is a clear purpose to the policy behind the legislation. It is aimed at supporting economic growth and reducing the tax liability for businesses and other non-domestic ratepayers in Wales, ensuring they are not at a disadvantage compared to other parts of the United Kingdom.*

*Freezing the multiplier rather than increasing the multiplier by RPI in Wales will reduce the income into the non-domestic rates pool in 2021-22. The reduction will be fully funded by the Welsh Government and will be reflected in the calculations for the local government settlements so that there is no financial impact on local authorities or police budgets."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf).*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 16 (Cy. 6)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O ran Cymru, cyfrifir y lluosydd ardrethu annomestig yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf") ar gyfer pob blwyddyn ariannol pan nad oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio. Nid oes rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021.

Mae'r fformiwla ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn cynnwys eitem B, sef y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf i bennu, drwy Orchymyn, swm gwahanol ar gyfer eitem B. Os yw Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer hwnnw mewn perthynas â blwyddyn ariannol, rhaid i'r swm gwahanol a bennir felly fod yn llai na'r mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol yw 294.3.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu mai swm eitem B ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 yw 291.0.

Mae erthygl 3 yn dirymu Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020, a oedd wedi

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

pennu 292.6 fel swm eitem B ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021.

Yn unol â pharagraff 5(15) o Atodlen 7 i'r Ddeddf, ni fydd y Gorchymyn hwn ond yn dod i rym os yw'n cael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 5(15) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf).*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 16 (Cy. 6)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Ionawr 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *11 Ionawr 2021* |

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir i'r Trysorlys gan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i cymeradwyir drwy benderfyniad gan

(**1**) 1988 p. 41.

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau yr oedd yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi, mae'r pŵer bellach wedi ei freinio yng Ngweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Senedd Cymru, ar yr amod y cymeradwyir y Gorchymyn cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth 2021 (pa un bynnag sydd gynharaf)(**1**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y lluosydd ardrethu annomestig**

**2.** At ddiben paragraff 3B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, pennir mai 291.0 yw B.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020(**2**) wedi ei ddirymu.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
7 Ionawr 2021

(**1**) Yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cyfeiriadau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru.
(**2**) O.S. 2020/1254 (Cy. 285).

**Explanatory Memorandum to the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2021**

This Explanatory Memorandum has been prepared by Local Government Strategic Finance Division and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2021.
I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

**Rebecca Evans MS**
**Minister for Finance and Trefnydd**
**11 January 2021**

**Contents**

PART 1: EXPLANATORY MEMORANDUM 3
1. Description 3
2. Matters of Special Interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee 4
3. Legislative background 4
4. Purpose and Intended Effect of the Legislation 5

PART 2: REGULATORY IMPACT ASSESSMENT ........................................ 7

ANALYSIS OF OTHER EFFECTS AND IMPACTS........................................ 8

## PART 1: EXPLANATORY MEMORANDUM

### 1. Description

*The Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2021 Order (the 2021 Order)*

The 2021 Order sets the non-domestic rating (NDR) multiplier for Wales for the financial year 2021-22. It reflects the decision announced on 15 December 2020 to freeze the multiplier rather than using the Retail Prices Index (RPI) to calculate an increase in the multiplier.

Between 2018-19 and 2020-21, the multiplier was increased in line with the Consumer Prices Index (CPI). This position was initially proposed for 2021-22, resulting in the making and laying of The Non-Domestic Rating (Wales) Order 2020 (the 2020 Order). The debate on the 2020 Order was scheduled for 8 December but was postponed, with the motion subsequently withdrawn on 15 December following the change in policy position to freeze the multiplier.

*Calculation of the Multiplier*

Under the Local Government Finance Act 1988 (the 1988 Act), the annual increase in the multiplier should be calculated using the RPI figure for the September preceding the financial year to which the multiplier applies. For 2021-22, the RPI figure would have been 294.3.

The multiplier is applied to the rateable value (RV) of each non-domestic property to calculate its non-domestic rates bill. The 2021 Order applies the figure required to ensure there is no increase in the multiplier in place of the RPI figure. This results in no increase in the 2021-22 rates bills to be paid by businesses and other non-domestic property owners, as opposed to a rise in rates bills which would be the case if the RPI figure were used.

The formula used for calculating the NDR multiplier in a non-revaluation year is:

(A x B) / C.

A is the multiplier for the preceding financial year
B is the RPI for September of the preceding financial year
C is the RPI for September of the financial year two years before.

Welsh Ministers may substitute a figure for B which is less than the RPI figure. As no increase in the multiplier is used as the measure for setting the multiplier, B is calculated on this basis.

To calculate the appropriate figure for freezing the multiplier, the value for B divided by the value for C is required to be equal to 1. As C is set in primary legislation as RPI for September of the financial year two years before, the figure for B must also be this figure. For 2021-22, B has been calculated as 291.

This results in the multiplier for 2021-22 remaining at 0.535 instead of increasing to 0.541.

## 2. Matters of Special Interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

Given the change in the policy position after the laying and making of the 2020 Order, the 2021 Order revokes that Order, in addition to setting the value for B at 291.

## 3. Legislative background

Under the 1988 Act, for financial years in which new rating lists do not apply (ie. all years which are not revaluation years), the default position for determining the non-domestic rating multiplier for Wales is to apply the formula set out in paragraph 3B to Schedule 7 to the 1988 Act. An element in that formula is the RPI for September of the financial year preceding the year concerned. The financial year beginning 1 April 2021 is not a revaluation year and therefore there will not be a new rating list.

Under paragraph 5(3) of Schedule 7 to the 1988 Act, the Welsh Ministers have the power to increase a multiplier at below the level of inflation as measured by RPI. It is this power which the Welsh Ministers propose to exercise in making the 2021 Order.

The Welsh Ministers have adopted the approach of increasing the multiplier using CPI rather than RPI for each financial year since 2018-19. However, it has been decided that for 2021-22, the multiplier will be frozen.

As the Welsh Government is diverging from the prescribed practice of increasing the multiplier by RPI, Ministers are required, under paragraph 5(15) of Schedule 7 to the 1988 Act, after making the 2021 Order to limit the increase at below RPI, to lay it before the Senedd for approval.

The 2021 Order is subject to a made affirmative procedure and must be approved by the Senedd for it to be effective. It is also a requirement of the 1988 Act that any such Order is approved before the *Local Government Finance Reports* (for unitary authorities and police and crime commissioners) are approved by the Senedd, or before 1 March in the preceding financial year, whichever is earlier. This requirement for prior agreement of the multiplier arises because it plays a vital part in calculating the total funding available in the annual settlements.

The debate on the Local Government Finance Report for unitary authorities for 2021-22 is expected to be scheduled for debate in early March 2021. The debate to approve the 2021 Order is scheduled to take place on 9 February 2021.

## 4. Purpose and Intended Effect of the Legislation

The 2021 Order will have the effect of freezing the NDR multiplier rather than increasing by RPI for the financial year 2021-22. By freezing the NDR multiplier, the multiplier will be set at 0.535.

This will mean that non-domestic property owners and occupiers in Wales will receive lower rates bills for 2021-22 than they would have if RPI were used.

Primary legislation does not currently provide the Welsh Ministers with powers to permanently change the figure used to calculate the multiplier from RPI to a lower measure. Therefore, the 2021 Order will apply to 2021-22 only.

Similar orders were made to effect a change to increase by CPI rather than RPI for 2018-19 to 2020-21.

All owners or occupiers of non-domestic properties who pay rates will benefit from the change. Even properties which receive significant amounts of rates relief will benefit as the residual amounts will be calculated using a lower multiplier.

All the non-domestic rates collected in Wales are pooled centrally and distributed to unitary authorities and to police and crime commissioners as part of the annual local government settlements. The total amount to be distributed in this way is known as the Distributable Amount. It is calculated by applying the multiplier to the estimated national total of rateable value, taking account of any surplus or deficit carried forward from previous years.

The Distributable Amount is a key component of the annual local government revenue settlements and the 1988 Act requires that it is approved by the Senedd as part of the annual *Local Government Finance Reports*. The multiplier therefore needs to be determined before the annual settlements can be finalised.

There is a clear purpose to the policy behind the legislation. It is aimed at supporting economic growth and reducing the local tax liability for businesses and other non-domestic ratepayers in Wales, ensuring they are not at a disadvantage compared to other parts of the United Kingdom.

Freezing the multiplier rather than increasing the multiplier by RPI in Wales will reduce the income into the non-domestic rates pool in 2021-22. The reduction will be fully funded by the Welsh Government and will be reflected in the calculations for the local government settlements so that there is no financial impact on local authorities or police budgets.

## 5. Consultation

No consultation has been undertaken on the policy behind the 2021 Order. The proposals benefit all ratepayers in Wales and there is no impact on the resources available to local authorities. The policy position replicates changes made in England and ensures ratepayers in Wales are not placed at a disadvantage compared to those in England.

## PART 2: REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

### Options

***Option 1 – Use RPI to increase the multiplier***

This option would increase the multiplier for 2021-22 by RPI at September 2020 (1.1%), resulting in a multiplier of 0.541.

***Option 2 – Increase the multiplier by the equivalent of CPI***

This option would increase the multiplier for 2021-22 by CPI at September 2020 (0.5%), resulting in a multiplier of 0.538.

***Option 3 – Freeze the multiplier***

This option would result in no increase in the multiplier, resulting in a multiplier of 0.535.

### Costs and benefits

***Option 1 – Use RPI to increase the multiplier***

The following illustrates the effect of using RPI to increase the multiplier on the non-domestic rates bill of a property.

For example, if a property has a rateable value (RV) as assessed by the Valuation Office Agency of £15,000, the rates bill for 2020-21 (before any reliefs) would have been:

RV £15,000 x 0.535 = £8,025

Applying RPI would result in an annual rates bill for 2021-22 of:

RV £15,000 x 0.541 = £8,115

The increase in the annual charge would therefore be £90.

***Option 2 – Increase the multiplier by the equivalent of CPI***

This option would result in a lower increase in rates bills for all non-domestic properties than under RPI. Using the example from Option 1.

The rates bill for 2020-21 was:

RV £15,000 x 0.535 = £8,025

An increase using CPI for 2021-22 would give a bill of:

RV £15,000 x 0.538 = £8,070

The increase in rates for the property would therefore be £45, £45 less than if RPI were used.

The total saving to non-domestic ratepayers across Wales is estimated at around £6m in 2021-22. This would be a recurrent saving as the multiplier cannot be increased at a level above RPI in future years. This saving is additional to the savings made from applying the same approach in each year since 2018-19.

***Option 3 – Freeze the multiplier***

This option would result in no increase in rates bills for all non-domestic properties. Using the example from Options 1 and 2.

The rates bill for 2020-21 was:

RV £15,000 x 0.535 = £8,025

A freeze in the multiplier for 2021-22 would give a bill of:

RV £15,000 x 0.535 = £8,025

There would therefore be no increase in rates for the property, rates would therefore be £90 less than if RPI were used and £45 less than if CPI were used.

The total saving to non-domestic ratepayers across Wales is estimated at around £12m in 2021-22. This would be a recurrent saving as the multiplier cannot be increased at a level above RPI in future years. This saving is additional to the savings made from increasing by CPI in each year since 2018-19.

**Option selection**

The cost of freezing the multiplier (Option 3) would be borne by the Welsh Government. There would be no financial impact on local authorities. The approach also means that ratepayers in Wales would not be at a disadvantage compared to other parts of the UK.

Option 3 is therefore the preferred option.

**Analysis of other effects and impacts**

**Promoting Economic Opportunity for All (Tackling Poverty)**
Freezing the multiplier provides support for all ratepayers which could help to prevent hardship. It also ensures ratepayers in Wales are not at a disadvantage to ratepayers in England benefitting from a freeze in the multiplier.

**UNCRC**
No particular impact on the rights of children has been identified.

**Welsh language**
No effect on the opportunities to use the Welsh language or the equal treatment of the language has been identified.

**Equalities**
No specific impacts, positive or negative, on persons who share a protected characteristic (as determined by the Equality Act 2010) have been identified.

**Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015**
Freezing the multiplier will assist all ratepayers and, as such, will help to contribute to the achievement of the wellbeing goals of a prosperous and a more equal Wales.

**Impact on voluntary sector**
Freezing the multiplier will benefit all ratepayers including those operating in the voluntary, charitable and not-for-profit sectors.

**Competition Assessment**
A competition filter test has been applied to the Order. As the change benefits all ratepayers, no effect on competition within Wales is indicated. Freezing the multiplier means that ratepayers in Wales are not placed at a disadvantage compared to other parts of the UK.

**Post implementation review**
The Welsh Government will monitor the impact of the change on the non-domestic rates pool.

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-4424-20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

07 Ionawr 2021

Annwyl Llywydd,

**GORCHYMYN ARDRETHU ANNOMESTIG (LLUOSYDD) (CYMRU) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021, dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Fe ddaw i rym drannoeth y diwrnod y'i cymeradwyir drwy benderfyniad gan Senedd Cymru ac yn cael effaith o 1 Ebrill 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd ym mharagraff 5(15) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n rhaid i Senedd Cymru gymeradwyo'r offeryn hwn cyn i'r Senedd gymeradwyo'r *Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol* ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau 21 Ebrill 2021, neu cyn 1 Mawrth yn y flwyddyn ariannol flaenorol, pa un bynnag yw'r cynharaf, er mwyn iddo fod yn effeithiol. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 9 Chwefror.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(5)691 – Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru greu Awdurdodau Iechyd Arbennig.

Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru ('IGDC') ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer ei gyfansoddiad a'i swyddogaethau cyffredinol. Mae rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu wedi'u cynnwys mewn rheoliadau a ddaw i rym ar yr un pryd â'r Gorchymyn ar 30 Rhagfyr 2020. Paratowyd adroddiad ar wahân mewn perthynas â'r rheoliadau hynny.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu IGDC ac yn darparu ar gyfer aelodaeth o'r corff newydd. Mae hefyd yn cadarnhau bod IGDC i arfer swyddogaethau yn unol â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r materion a nodir yn y Gorchymyn, gan gynnwys mewn perthynas â dylunio, datblygu a chyflenwi platfformau, systemau a gwasanaethau digidol ar gyfer y Sector Iechyd a Gofal yng Nghymru. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y grym i roi cyfarwyddiadau i IGDC ynghylch arfer unrhyw swyddogaethau.

Bydd IGDC yn sefydliad newydd o fewn GIG Cymru, sy'n bodoli ochr yn ochr â'r saith Bwrdd Iechyd, y tair Ymddiriedolaeth GIG a'r Awdurdod Iechyd Arbennig (Addysg a Gwella Iechyd Cymru) presennol; a chanddo y bydd y cyfrifoldeb cyffredinol am ddarparu ffynhonnell ar gyfer platfformau, gwasanaethau a systemau digidol ar gyfer y sector iechyd a gofal yng Nghymru.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pam mai dim ond yn Saesneg y mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu gosod?

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020**

Pwynt Craffu ar Rinweddau: *Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer y Memoranda Esboniadol a'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Offerynnau Statudol a osodir yn ddwyieithog yn y Senedd. Fodd bynnag, ni osodir y dogfennau hyn yn ddwyieithog yn awtomatig ar hyn o bryd. Er ein bod yn gosod cyfran gynyddol o'r dogfennau hyn yn ddwyieithog, rydym hefyd yn gorfod blaenoriaethu ein hadnodd cyfieithu cyfyngedig mewn modd llym iawn ar hyn o bryd, gan roi'r flaenoriaeth uchaf i ddeddfwriaeth a chanllawiau i'r cyhoedd sy'n ymwneud â Covid a Brexit. Mae'r pandemig a Brexit wedi cyfrannu'n sylweddol at y pwysau digyffelyb ar ein hadnoddau cyfieithu.

Mae Rheol Sefydlog 15.4 o'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob dogfen gael ei gosod yn ddwyieithog pan fo hynny'n rhesymol ymarferol, ac mae Safon 47 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried y pwnc penodol a'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer dogfennau penodol wrth flaenoriaethu eu cyfieithu. Gan ddilyn canllawiau a ddarparwyd gan swyddfa'r Comisiynydd, fe wnaethom ystyried materion megis a oedd y Gorchymyn yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg yn uniongyrchol, a oedd y Gorchymyn o ddiddordeb mawr i grwpiau o siaradwyr Cymraeg yn benodol, ac a fyddai cyfran uchel o'r gynulleidfa ar gyfer y dogfennau yn siarad Cymraeg. Am fod y Gorchymyn hwn yn weithdrefnol ei natur, gan sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chan wneud darpariaethau ynghylch ei aelodaeth a'i swyddogaethau, ac nad oes iddo effaith uniongyrchol ar y cyhoedd, nid ystyriwyd ei fod yn flaenoriaeth i'n Gwasanaeth Cyfieithu sydd o dan bwysau ar yr adeg hon.

# SL(5)692 – Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020

## Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020 ("y Gorchymyn") yn sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru ("IGDC") ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ei gyfansoddiad a'i swyddogaethau cyffredin.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ategu'r Gorchymyn ac yn gwneud darpariaeth fanwl am aelodaeth a gweithdrefnau IGDC. Maent yn nodi materion gweithdrefnol a manylion mewn perthynas â'r aelodau amrywiol, gan gynnwys eu penodi, eu cymhwysedd, eu deiliadaeth, eu hamghymhwyso, eu hatal dros dro a'u diswyddo. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i IGDC wneud rheolau sefydlog ynghylch ei gyfarfodydd a'i drafodion.

Gyda'i gilydd, mae'r Gorchymyn a'r Rheoliadau hyn yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefydlu IGDC.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 14(2) yn darparu, mewn rhai amgylchiadau, y caiff yr aelodau nad ydynt yn swyddogion ddiswyddo aelod cyswllt (a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(b)).

Yn wahanol i reoliadau 11(2) a 13(2) - sy'n darparu'n benodol bod yn rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig *i'r aelod* - nid yw'n amlwg o eiriad rheoliad 14(2) beth y mae'n rhaid i'r aelodau nad ydynt yn swyddogion ei wneud gyda'r rhybudd ysgrifenedig er mwyn cydymffurfio â'r ddarpariaeth.

Pan gaiff ei ystyried ochr yn ochr â geiriad rheoliad 14(3), gellid casglu bod yn rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o dan reoliad 14(2) i'r aelod (gan mai dyna'r hyn sy'n ofynnol er mwyn atal aelod dros dro o dan reoliad 14(3)). Fodd bynnag, ni fynegir hyn yn glir yng ngeiriad rheoliad 14(2) a chredwn y byddai'r amwysedd yn cael ei osgoi pe bai'r geiriad "i'r aelod" wedi ei gynnwys yn y lle perthnasol.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae dechrau rheoliad 14(5) yn darllen "person y mae ei benodiad wedi ei atal dros dro o dan baragraff (1)". Mae'n ymddangos bod y cyfeiriad at baragraff (1) yn anghywir, gan fod y pŵer perthnasol i atal dros dro wedi ei gynnwys ym mharagraff (3) o reoliad 14, nid paragraff (1).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliad 2 yn y fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau hyn yn diffinio Deddf 1992, y Ddeddf a'r Gorchymyn yn gyntaf ac yna'n parhau i restru diffiniadau yn nhrefn yr wyddor. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pam na fabwysiadwyd yr un dull gweithredu yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hyn, lle y mae'r rhestr gyfan o ddiffiniadau yn nhrefn yr wyddor?

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pam mai dim ond yn Saesneg y mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu gosod?

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae troednodyn (5) ar dudalen 4 o'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) *2004 [pwyslais wedi'i ychwanegu]*, ond mae "2004" wedi ei hepgor o'r cyfeiriad.

Derbynnir nad yw'r troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben ei gynnwys yw cynorthwyo darllenydd, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyfeiriad cyfan yn cael ei ddefnyddio.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020**

Pwyntiau Craffu Technegol 1 a 2:

Er na wneir darpariaeth ddatganedig bod rhaid i hysbysiad o dan reoliad 14(2) gael ei roi *i'r aelod*, rydym o'r farn y cesglir bod rhaid i hysbysiad ysgrifenedig o dan reoliad 14(2) gael ei roi i'r aelod, wrth ystyried y rheoliad hwnnw ochr yn ochr â geiriad rheoliad 14(3) (oherwydd dyna'r hyn sy'n ofynnol er mwyn atal dros dro aelod o dan reoliad 14(3)).

Rydym yn cydnabod bod y cyfeiriad yn rheoliad 14(5) at baragraff (1) yn anghywir a byddwn yn cywiro hyn drwy gyfrwng slip cywiro.

Pwyntiau Craffu ar Rinweddau 1, 2 a 3: *Ymateb*

Mae rhestru'r diffiniadau yn nhrefn yr wyddor yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau hyn yn gyson ag arfer Llywodraeth Cymru yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i ystyried hyn at y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer y Memoranda Esboniadol a'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Offerynnau Statudol a osodir yn ddwyieithog yn y Senedd. Fodd bynnag, ni osodir y dogfennau hyn yn ddwyieithog yn awtomatig ar hyn o bryd. Er ein bod yn gosod cyfran gynyddol o'r dogfennau hyn yn ddwyieithog, rydym hefyd yn gorfod blaenoriaethu ein hadnodd cyfieithu cyfyngedig mewn modd llym iawn ar hyn o bryd, gan roi'r flaenoriaeth uchaf i ddeddfwriaeth a chanllawiau i'r cyhoedd sy'n ymwneud â Covid a Brexit. Mae'r pandemig a Brexit wedi cyfrannu'n sylweddol at y pwysau digyffelyb ar ein hadnoddau cyfieithu.

Mae Rheol Sefydlog 15.4 o'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob dogfen gael ei gosod yn ddwyieithog pan fo hynny'n rhesymol ymarferol, ac mae Safon 47 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried y pwnc penodol a'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer dogfennau penodol wrth flaenoriaethu eu cyfieithu. Gan ddilyn canllawiau a ddarparwyd gan swyddfa'r Comisiynydd, fe wnaethom ystyried materion megis a oedd y Rheoliadau yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg yn uniongyrchol, a oedd y Rheoliadau o ddiddordeb mawr i grwpiau o siaradwyr Cymraeg yn benodol, ac a fyddai cyfran uchel o'r gynulleidfa ar gyfer y dogfennau yn siarad Cymraeg. Am fod y Rheoliadau hyn yn weithdrefnol eu natur, gan wneud darpariaethau ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac nad oes iddynt effaith uniongyrchol ar y cyhoedd, nid ystyriwyd eu bod yn flaenoriaeth i'n Gwasanaeth Cyfieithu sydd o dan bwysau ar yr adeg hon.

Rydym yn cydnabod y byddai o gymorth pe bai'r cyfeiriad cyflawn at Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 2004 yn cael ei ddefnyddio yn y troednodyn a chaiff ei gywiro drwy gyfrwng slip cywiro.

# SL(5)708 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"), i gychwyn y Rheoliadau hynny ar ddechrau 20 Rhagfyr 2020 (ac eithrio Rhan 6) ac i symud Cymru i Haen 4 o'r un dyddiad.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud newidiadau i Atodlen 6 i'r prif Reoliadau mewn perthynas â threfniadau ar gyfer ffurfio cartrefi estynedig dros gyfnod y Nadolig.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Rheoliad 2(5)(d) yn gwneud diwygiadau i baragraff 4 o Atodlen 6 i'r prif Reoliadau (sydd yn ei dro yn gwneud addasiadau i baragraff 3 o Atodlen 4 i'r rheoliadau hynny) fel bod cyfyngiadau a oedd yn wreiddiol yn gymwys dros "gyfnod y Nadolig" nawr ond yn berthnasol ar 25 Rhagfyr.

Mae Rheoliad 2(5)(d)(ii) o'r Rheoliadau hyn yn dileu paragraff 3A o Atodlen 4 i'r prif Reoliadau. Fodd bynnag, erys cyfeiriad at baragraff 3A ym mharagraff 3(5)(a) o Atodlen 4.

Rydym o'r farn y dylai'r diwygiadau a wneir gan Reoliad 2(5)(d) o'r Rheoliadau hyn gynnwys dileu'r cyfeiriad at baragraff 3A a gynhwysir ym mharagraff 3(5)(a) o Atodlen 4 i'r prif Reoliadau, gan fod y cyfeiriad yn ddiangen.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn y testun Cymraeg, yn y paragraff a fewnosodir gan Reoliad 2(5)(g)(ii) o'r Rheoliadau hyn,

mae'r gair "cyn" ar goll o'r rhan o'r frawddeg sy'n darllen "yn union 25 Rhagfyr 2020". Rydym o'r farn y dylai ddarllen "yn union *cyn* 25 Rhagfyr 2020" [*pwyslais wedi'i ychwanegu*].

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y daeth y Rheoliadau i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gwnaeth y Prif Weinidog hysbysu'r Llywydd o hyn mewn llythyr ar 19 Rhagfyr 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd [y Rheoliadau hyn] yn dod i rym cyn y cânt eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n angenrheidiol iddynt ddod i rym ar unwaith yng ngoleuni gwybodaeth newydd ynghylch cyfraddau mynychder y coronafeirws yng Nghymru a chyfradd lledaeniad y clefyd."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.*
>
> *Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y Rheoliadau hyn. Mae'r newidiadau i'r darpariaethau ar aelwydydd estynedig yn benodol yn ymwneud ag Erthygl 8.*
>
> *Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail eu bod y nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae gweithredu cyfyngiadau a gofynion newydd o dan y Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad cynyddol y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau* 3 *unigolion a*

*busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn mynd i'r afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu bod crynodeb o'r asesiad effaith integredig wedi'i baratoi ar gyfer y prif Reoliadau ac y bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan llyw.cymru: https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y darn canlynol o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyfeirio at dystiolaeth wyddonol a dynnwyd arni er mwyn asesu'r risg i iechyd y cyhoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu fel a ganlyn:

*"Roedd y prif Reoliadau a wnaed ar 18 Rhagfyr yn nodi'r cyfyngiadau a gofynion a fydd yn gymwys i bedair Lefel Rhybudd wahanol gan bennu'r Lefelau Rhybudd sy'n gymwys fel y'u nodir yn y Cynllun Rheoli'r Coronafeirws sydd wedi'i ddiweddaru. Roeddent hefyd yn gosod Cymru ar Lefel Rhybudd 4 ar Ddydd Nadolig ac yn darparu ar gyfer diwygio'r Rheoliadau dros dro ar gyfer cyfnod y Nadolig (rhwng 23 a 27 Rhagfyr)."*

*Ers gwneud y Rheoliadau hynny, mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi argymell mai ymateb rhesymol i'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yw bod Cymru'n symud i Lefel Rhybudd 4 o ddechrau 20 Rhagfyr. Roedd hyn yng ngoleuni gwybodaeth newydd am gyfraddau digwyddedd y coronafeirws yng Nghymru a chyfraddau lledaeniad yr haint, yn arbennig yn sgil amrywiad newydd o'r feirws.*

*Am yr un rhesymau, mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi penderfynu y dylai'r eithriadau i'r cyfyngiadau y darparwyd ar eu cyfer yn Atodlen 6 mewn perthynas â'r Nadolig bellach ond fod yn gymwys ar gyfer 25 Rhagfyr 2020."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol a godwyd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn  yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 5) (CYMRU) (DIWYGIO) 2020**

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 6 Ionawr 2021.

**Pwyntiau craffu technegol:**

*Pwyntiau 1 a 2: Gwallau yn rheoliad 2(5)*

2. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am y materion. Fel y mae'r Pwyllgor yn ymwybodol, mae'r darpariaethau perthnasol yn y prif Reoliadau wedi eu disbyddu bellach. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu dirymu gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021 sydd wedi eu gwneud heddiw.

# SL(5)704 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Cod hwn yn rhoi canllawiau ynghylch yr hyn sy'n dod o fewn paragraffau 1 a 2 o Atodlen 8 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) a'r hyn nad yw'n dod o'u mewn. Mae'r paragraffau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'gwariant ymgyrch' ac yn enwedig felly i ba dreuliau y mae'n ofynnol i blaid wleidyddol roi gwybod amdanynt

Mae gan y Comisiwn Etholiadol bŵer o dan baragraff 3 o Atodlen 8 I Ddeddf 2000 i baratoi Cod Ymarfer yn rhoi canllawiau ynghylch y mathau o dreuliau sy'n dod o fewn paragraffau 1 a 2 o Atodlen 8 ac nad ydynt yn dod o'u mewn.

Cafodd y Cod Ymarfer hwn ei baratoi gan y Comisiwn Etholiadol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Caiff y Cod ei ddyroddi gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol o dan baragraff 3 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000.

## Gweithdrefn

Negyddol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y fersiwn drafft hon ei gosod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi ei: (i) diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod), bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, ni ddylai Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod.

Os na chaiff penderfyniad o'r fath ei wneud, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (yn y ffurf ddrafft) a bydd y Cod yn dod i rym ar ddiwrnod a nodir mewn Gorchymyn gan Weinidogion Cymru.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

**Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Cod hwn.**

1. Bydd y Cod yn dod i rym ar ôl i'r cyfnod rheoleiddiedig ddechrau. Nodir bod y Nodyn Esboniadol yn cynnwys y datganiad a ganlyn:

> *"Mae'r cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn dechrau ar 6 Ionawr 2021.*

*"Er na fydd Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 mewn grym erbyn 6 Ionawr bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi canllawiau cyn i'r Cod Ymarfer fod mewn grym i sicrhau bod gwybodaeth ar gael."*

2. Mae paragraffau 1.24 ac 1.25 o'r Cod yn crynhoi darpariaethau Deddf 2000 ynghylch gwariant tybiannol, fel yr amlinellir yn adran 73 o Ddeddf 2000. Nod y pwynt bwled cyntaf ym mharagraff 1.24 yw crynhoi un o'r amodau sy'n penderfynu a ddylid trin gwariant tybiannol ar ymgyrch fel gwariant ymgyrch a achoswyd gan y blaid. Yn benodol, mae paragraff 1.24 yn nodi'r amod a ganlyn: "*pan fydd eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau yn cael eu trosglwyddo neu eu darparu am ddim neu am ddisgownt o fwy na 10 y cant i'w defnyddio gan y blaid neu er budd y blaid*". Yn yr un modd, mae paragraff 1.25 yn cyfeirio at "*ei gwerth ar y farchnad (pan gaiff ei throsglwyddo'n ddi-dâl), neu werth y disgownt*".

Fodd bynnag, mae adran 73 o Ddeddf 200 yn gwahaniaethu rhwng y ffordd yr ymdrinnir â throsglwyddo eiddo a darparu eiddo, gwasanaethau a chyfleusterau. Felly, gellir ystyried bod y crynodebau hyn yn gorsymleiddio materion.

Er na fyddai'r Cod yn trechu rhwymedigaethau Deddf 2000, mae'n bosibl y gall arwain at gamddeall y sefyllfa os yw'r person yn darllen y Cod yn unig.

3. Nodir bod y Cod drafft a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn wahanol i'r Cod a osodwyd gerbron y Senedd. Er bod rhai o'r newidiadau yn gymharol fach - er enghraifft, adlewyrchu'r newid enw o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru - mae newidiadau eraill yn ymdrin â phwyntiau sylweddol.

Nid yw tarddiad y newidiadau yn glir. Yn benodol, nid yw'n glir a gafodd y newidiadau eu gwneud gan y Comisiwn Etholiadol yn sgil yr ymgynghoriad neu gan Weinidogion Cymru. Os yw'r drafft sydd bellach wedi'i osod gerbron y Senedd yn cynnwys newidiadau a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru, nodir bod yn rhaid cyflwyno datganiad o'r rhesymau am y newidiadau i gyd-fynd â'r Cod yn unol â pharagraff 3(5) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000. Gan nad oes datganiad o'r fath wedi'i osod, tybir mai'r Comisiwn Etholiadol oedd yn gyfrifol am y newidiadau. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau ffynhonnell y newidiadau.

## Ymateb y Llywodraeth

O gofio'r amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, disgwylir ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ail bwynt a'r trydydd pwynt cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Ionawr 2021**

# Cod Ymarfer
# Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol
# (Etholiadau'r Senedd) 2020

**Mae'r Cod hwn:**

- **i'w adnabod fel Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020**
- **yn dod i rym ar [ ]**

# Rhagymadrodd

## Y cefndir

1.1 Cafodd y Cod Ymarfer hwn ar dreuliau cymwys pleidiau gwleidyddol ei baratoi gan y Comisiwn Etholiadol ar ôl ymgynghori â'r personau a'r cyrff sydd â buddiant yn hyn o beth, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd.

## Y pŵer i ddyroddi'r Cod hwn

1.2 Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi'i gymeradwyo gan y Senedd ac mae wedi'i ddyroddi gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol o dan Atodlen 8, paragraff 3 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) fel y darperir ar ei gyfer gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.

## Diben y Cod hwn

1.3 Mae'r Cod hwn yn rhoi canllawiau ynghylch yr hyn sy'n dod o fewn paragraffau 1 a 2 o Atodlen 8 o Ddeddf 2000 a'r hyn nad yw'n dod o'u mewn.

1.4 Mae'r paragraffau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'gwariant ymgyrch' ac yn enwedig felly i ba dreuliau y mae'n ofynnol i blaid wleidyddol roi gwybod amdanynt.

1.5 Mae paragraff 1 o Atodlen 8 yn rhestru'r treuliau sy'n gymwys pan achosir y rheiny at ddibenion etholiad. Mae paragraff 2 yn rhestru'r eithriadau.

## Pa etholiadau sy'n dod o dan y Cod hwn?

1.6 Mae'r Cod hwn yn gymwys i etholiadau i'r Senedd.

1.7 Os oes cyfnod a reoleiddir ar y cyd ar waith o dan Ran III, Atodlen 9 o Ddeddf 2000, mae rheolau etholiadau'r Deyrnas Unedig yn gymwys i etholiadau penodol sy'n digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Pan fo hynny'n gymwys i etholiad i'r Senedd, nid yw'r Cod hwn yn gymwys.

## Y Cod hwn a chanllawiau eraill a gyhoeddir gan y Comisiwn

1.8 Canllaw statudol yw'r Cod hwn. Mae'r Cod hwn yn wahanol i fathau eraill o ganllawiau y mae'r Comisiwn yn eu cyhoeddi am ei fod wedi'i gymeradwyo gan y Senedd.

1.9 Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar y rheolau ar gyfer etholiadau.

1.10 Mae'r gyfraith ar wariant pleidiau gwleidyddol wedi'i nodi yn Neddf 2000. Mae trosolwg o'r fframwaith cyfreithiol yn Neddf 2000 wedi'i nodi isod i roi cyd-destun y Cod hwn.

1.11 Dylech gyfeirio at ein canllawiau i gael gwybodaeth benodol ynghylch y rheolau i bob etholiad. Mae'r canllawiau diweddaraf ynghylch pa etholiadau sy'n cael eu cynnal a pha reolau sy'n gymwys bob amser ar gael ar ein gwefan yn y cyfnod cyn etholiad.

## Beth yw canlyniadau torri'r Cod hwn?

1.12 Pan nad yw swyddog plaid yn dilyn y Cod hwn, mae trysorydd y blaid neu swyddog perthnasol arall yn debygol o fod yn torri'r gofynion statudol ynglŷn â gwariant ymgyrch, er enghraifft, y gofyniad statudol bod rhaid darparu ffurflen gyflawn a chywir. Gall torri'r Cod hwn arwain hefyd at gasgliad bod trysorydd plaid wedi gwneud datganiad ffug ynghylch y ffurflen yn fwriadol neu'n ddi-hid. Gall cyflawni'r troseddau hyn arwain at erlyniad.

1.13 Noda adran 79(2) Deddf 2000 ei bod yn amddiffyniad i unrhyw berson neu blaid gofrestredig a gyhuddir o'r drosedd o dorri'r terfyn ar wariant ymgyrch ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r Cod hwn wrth benderfynu ar yr eitemau a'r symiau gwariant ymgyrch i'w cofnodi yn y ffurflen gwariant ymgyrch berthnasol o dan adran 80 o Ddeddf 2000, ac na fyddai'r terfyn wedi'i dorri ar sail yr eitemau a'r symiau a gofnodwyd yn y ffurflen honno.

## Y fframwaith cyfreithiol yn Neddf 2000 ar wariant pleidiau gwleidyddol

### Cofrestru pleidiau gwleidyddol

1.14 Rhaid i bleidiau gwleidyddol gael eu cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol er mwyn sefyll ymgeiswyr sy'n defnyddio nodau adnabod plaid mewn etholiadau perthnasol. Rheolir gwariant pleidiau gwleidyddol mewn etholiadau gan PPERA.

### Terfynau gwariant a chyfnodau ymgyrchu

1.15 Mae'r rheolau gwariant yn gymwys yn ystod y cyfnod a nodir yn Atodlen 9 PPERA. Mae Atodlen 9 PPERA hefyd yn nodi'r terfynau gwario.

### Beth sy'n cyfrif fel gwariant plaid wleidyddol?

1.16 Llywodraethir gwariant pleidiau gwleidyddol mewn etholiadau gan Ran V o Ddeddf 2000. Mae gan y Comisiwn Etholiadol bŵer o dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 i baratoi Cod Ymarfer yn rhoi canllawiau ynghylch y mathau o dreuliau sy'n dod o fewn Rhan I ac nad ydynt yn dod o'i mewn.

1.17 Mae adran 72(2) o Ddeddf 2000 yn diffinio ‘*gwariant ymgyrch'* plaid gofrestredig fel hyn: ‘*expenses incurred by or on behalf of the party which are expenses falling within Part I of Schedule 8 and so incurred for election purposes’.*

1.18 Nid yw hyn yn cynnwys dim byd sydd i'w gynnwys yn ffurflen treuliau etholiad yr ymgeisydd. Gan hynny, mae unrhyw beth sy'n hybu etholiad ymgeiswyr sy'n sefyll yn enw’r blaid y tu allan i'r cyfnod pan fo’r rheolau gwariant i ymgeiswyr yn gymwys yn cyfrif fel gwariant ymgyrch i’r blaid ac felly mae’n rhaid rhoi gwybod amdano yn ffurflen y blaid. Efallai y bydd achosion pan fydd rhaid rhannu gwariant ymgyrch rhwng y blaid wleidyddol ac ymgeisydd sy'n sefyll mewn etholaeth.

1.19 Mae Rhan I o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 yn amlinellu’r treuliau sy’n gymwys pan achosir y rheiny ‘at ddibenion etholiad’. Mae paragraff 1 o Atodlen 8 yn rhestru materion sy’n gymwys. Mae paragraff 2 yn rhestru’r eithriadau.

*Treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd a chyfieithu*

1.20 Mae Atodlen 8, paragraff 2 o Ddeddf 2000 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi'u 'heithrio' rhag bod yn 'dreuliau etholiad' o fewn ystyr adran 72.

1.21 Mae Atodlen 8, paragraff 2(1)(f)(i) yn eithrio unrhyw dreuliau a achosir mewn perthynas ag unrhyw fater y mae’n rhesymol ei briodoli i anabledd yr ymgeisydd.

1.22 Mae Atodlen 8, paragraff 2(1)(f)(ii) yn eithrio unrhyw dreuliau a achosir mewn perthynas â chyfieithu unrhyw beth o'r Gymraeg i'r Saesneg neu o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o ganlyniad i hynny.

**Dibenion etholiad**

1.23 Diffinnir ‘*at ddibenion etholiad’* yn adran 72(4) o Ddeddf 2000. Mae’n golygu:

> *‘for the purpose of or in connection with—*
>
> *(a) promoting or procuring electoral success for the party at any relevant election, that is to say, the return at any such election of candidates—*
>
> *(i) standing in the name of the party, or*
>
> *(ii) included in a list of candidates submitted by the party in connection with the election; or*
>
> *(b) otherwise enhancing the standing—*
>
> *(i) of the party, or*
>
> *(ii) of any such candidates,*
>
> *with the electorate in connection with future relevant elections (whether imminent or otherwise).’*

## Gwariant tybiannol

1.24 Mae 'gwariant ymgyrch tybiannol' yn cyfrif tuag at derfynau gwariant y blaid. O dan adran 73 o Ddeddf 2000, mae gwariant ymgyrch tybiannol yn codi pan fydd eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau:

- yn cael eu trosglwyddo neu eu darparu am ddim neu am ddisgownt o fwy na 10 y cant i'w defnyddio gan y blaid neu er budd y blaid,
- yn cael eu defnyddio gan y blaid neu ar ran y blaid, ac
- os oes treuliau wedi'u hachosi gan y blaid neu ar ran y blaid ynglŷn â'r defnydd hwnnw, pan fyddent wedi bod yn wariant ymgyrch – hynny yw o fewn y categorïau a restrir ym mharagraff 1 a heb fod wedi'u heithrio gan baragraff 2 o Atodlen 8

1.25 Pan fo pob un o'r tri phwynt uchod wedi'u bodloni, mae 'swm priodol' yn cael ei drin fel gwariant ymgyrch a achoswyd gan y blaid. Y swm priodol yw'r gyfran y mae'n rhesymol ei phriodoli i'r defnydd ar yr eitem, o naill ai:

- ei gwerth ar y farchnad (pan gaiff ei throsglwyddo'n ddi-dâl), neu
- werth y disgownt.

1.26 Os defnyddir y gwariant hwn gan y blaid neu ar ran y blaid, rhaid ei ddatgan fel gwariant ymgyrch yn ffurflen y blaid, hyd yn oed os nad yw'r eitemau a ddarparwyd wedi'u hawdurdodi gan y blaid. Mae'r rheolau ar roddion yn gymwys i'r rhodd gysylltiedig hefyd.

## Rhoi gwybod

1.27 O dan adran 80 o Ddeddf 2000, mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol ddarparu ffurflen ar ôl etholiad y mae'n rhaid iddi gynnwys:

> *a statement of all payments made in respect of campaign expenditure incurred by or on behalf of the party during the relevant campaign period in the relevant part or parts of the United Kingdom.*

1.28 Trysorydd y blaid sy'n gyfrifol am achosi gwariant a llenwi'r ffurflen. Pan fo gan y blaid Swyddog Ymgyrchoedd a benodwyd o dan adran 25 o Ddeddf 2000, y swyddog hwnnw sy'n gyfrifol am hyn. Rhaid cyflwyno ffurflenni i'r Comisiwn Etholiadol a bydd y dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno yn dibynnu ar y swm y mae'r blaid wedi'i wario.

1.29 Rhaid i drysorydd y blaid lofnodi datganiad bod y ffurflen, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, yn gyflawn ac yn gywir. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid.

# Diffiniadau

2.1 Yn y Cod hwn mae'r diffiniadau a ganlyn yn gymwys:

Mae i '**cost**' ei ystyr gyffredin o draul eitem neu draul sy'n gysylltiedig ag eitem. Mae'n cynnwys y 'swm priodol' sydd i'w drin fel pe bai wedi'i achosi gan y blaid o dan y rheolau ar wariant tybiannol.

Ystyr '**cyfnod a reoleiddir**' yw'r 'cyfnod perthnasol' ar gyfer etholiad fel y'i nodir yn Atodlen 9 i Ddeddf 2000.

Ystyr '**Deddf 2000'** yw Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Ystyr '**eitem'** yw rhywbeth y gellid gwario arno. Mae'n cynnwys gwasanaethau a gweithgareddau yn ogystal â phethau corfforol.

Ystyr '**ffurflen gwariant'** neu '**ffurflen**' yw ffurflen gwariant plaid wleidyddol sy'n ofynnol o dan adran 80 o Ddeddf 2000.

Ystyr '**gwariant tybiannol**' yw gwariant ymgyrch a drinnir fel pe bai wedi'i achosi pan ddarperir eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau am ddim neu am ddisgownt a phan ddefnyddir y rheiny gan y blaid neu ar ran y blaid o dan adran 73 o Ddeddf 2000.

Ystyr **'gwariant ymgyrch'** yw gwariant a bennir yn unol ag adran 72(2) o Ddeddf 2000.

Ystyr '**plaid wleidyddol'** yw plaid sydd wedi'i chofrestru o dan Ran II o Ddeddf 2000.

Ystyr **'rhanbarth etholiadol'** yw ardal a bennir yn unol ag adran 2(3) Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ceir pum rhanbarth etholiadol yng Nghymru.

Ystyr **'rhestr plaid'** yw rhestr o ddim mwy na deuddeg ymgeisydd plaid (ond gall fod yn rhestr o un ymgeisydd yn unig) i fod yn aelodau o'r Senedd ar gyfer un o ranbarthau etholiadol y Senedd.

Ystyr **'swm priodol'** yw swm o dreuliau etholiad a bennir yn unol ag adran 73(2) o Ddeddf 2000.

Mae '**terfyn gwario**' yn cyfeirio at y swm mwyaf o arian y caniateir i blaid wleidyddol ei wario mewn etholiad gan gyfrifo drwy ddefnyddio'r symiau a nodir yn Atodlen 9 i Ddeddf 2000.

Ystyr **'ymgeisydd deuol'** yw ymgeisydd sy'n sefyll etholiad mewn etholiad etholaeth i'r Senedd ac ar restr plaid mewn etholiad rhanbarthol i'r Senedd.

Ystyr **'ymgeisydd etholaeth'** yw ymgeisydd mewn etholiad etholaeth i'r Senedd.

Ystyr **'ymgeisydd rhestr plaid'** yw ymgeisydd mewn etholiad rhanbarthol i'r Senedd sydd wedi'i gynnwys ar restr plaid.

# Canllawiau cyffredinol ar y mathau o dreuliau sy'n gymwys fel gwariant ymgyrch lle achosir y rheiny at ddibenion etholiad

## Ailddefnyddio eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol

3.1 Rhaid peidio â dosrannu na disgowntio eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad gan blaid wleidyddol am eu bod yn cael eu hailddefnyddio mewn etholiad neu etholiadau dilynol neu am y gallent gael eu hailddefnyddio felly. Mae’n rhaid rhoi gwybod am gost lawn eitem sy'n ateb y meini prawf arferol yn y ffurflen yn yr etholiad lle defnyddir yr eitem am y tro cyntaf.

3.2 Mae cost lawn eitemau a fydd yn cael eu hailddefnyddio neu a allai gael eu hailddefnyddio yn cyfrif tuag at y terfyn gwario yn yr etholiad cyntaf y defnyddir nhw ynddo. Pan fo eitem yn cael ei defnyddio at ddibenion heblaw ei defnyddio mewn etholiad, rhaid rhoi gwybod am gost lawn y gyfran sy'n cael ei defnyddio ar gyfer yr etholiad.

3.3 O ran cost prynu eitemau:

- y talwyd amdanynt yn llawn (eu perchnogi nid eu llogi)
- a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol
- y rhoddwyd gwybod yn llawn amdanynt yn ffurflen gwariant y blaid mewn etholiad blaenorol, ac
- nad ydynt wedi’u newid mewn unrhyw fodd

does dim angen rhoi gwybod am y rhain yn ffurflen gwariant yr un blaid wleidyddol mewn etholiad dilynol, ac nid ydynt yn cyfrif tuag at y terfyn gwario mewn etholiadau dilynol o’r fath.

3.4 Serch hynny, mae’n rhaid rhoi gwybod yn ffurflen yr etholiad dilynol am yr holl gostau a achoswyd wrth hwyluso ailddefnyddio eitem mewn etholiad dilynol, gan gynnwys:

- ei glanhau
- ei newid a/neu ychwanegu ati
- ei chynnal a’i chadw
- ei hailddatblygu

pan fo’r eitemau wedi cael eu defnyddio eto.

3.5 Mae’r costau a achosir wrth hwyluso’r ailddefnyddio yn cyfrif tuag at y terfyn gwario yn yr etholiad dilynol lle maent yn cael eu hailddefnyddio.

- Mae plaid yn prynu cyfres o fyrddau Correx. Mae'n eu defnyddio mewn etholiad i’r Senedd ac yn rhoi gwybod amdanynt yn ffurflen yr etholiad hwnnw. Bum mlynedd wedyn mae'n defnyddio’r byrddau Correx eto. Cyn eu defnyddio mae’n trefnu eu glanhau a’u hadnewyddu yn ôl yr angen. Mae'r blaid yn cynnwys cost glanhau ac adnewyddu’r byrddau Correx yn ei ffurflen.

- Mae plaid yn prynu meddalwedd y mae’n ei defnyddio i dargedu pleidleiswyr. Mae'n ei defnyddio mewn etholiad i’r Senedd. Mae’n rhoi gwybod amdani yn ffurflen yr etholiad hwnnw. Yn y cyfnod rhwng etholiadau mae'n diweddaru ac yn cynnal y system. Yn yr etholiad nesaf, mae’r blaid yn rhoi gwybod am gost diweddaru a chynnal y system.

- Mae plaid yn prynu meddalwedd i gadw a phrosesu gwybodaeth am bleidleiswyr. Mae’r wybodaeth yn dod o’r gofrestr etholiadol y mae gan y blaid hawl i gael copi ohoni. Nid yw’n ofynnol rhoi gwybod am unrhyw gost wrth sicrhau’r data hwnnw.

  Defnyddiodd y blaid y feddalwedd at ddibenion eraill hefyd, megis cynnal data aelodau. Mae'r wybodaeth yn cael ei diweddaru drwy ganfasio o dŷ i dŷ. Does dim costau ynghlwm wrth ganfasio gan ei fod yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr.

  Mae etholiad i’r Senedd yn cael ei gynnal. Mae'r blaid yn dosrannu cost y feddalwedd yn ôl ei defnydd. Nid etholiad y blaid yw'r cyfan o’r gost. Mae adroddiadau'r blaid yn yr etholiad hwn yn dangos y gyfran o gost y feddalwedd sy'n berthnasol i'r etholiad. Mewn etholiadau dilynol, dim ond cost cynnal a chadw'r feddalwedd a'r gronfa ddata y mae'r blaid yn ei chynnwys yn rhoi gwybod amdani.

## Eitemau sydd heb eu defnyddio o gwbl

3.6 Ni fernir bod cost eitemau y talwyd amdanynt, ond sydd heb eu defnyddio mewn etholiad, wedi’i hachosi at ddibenion etholiad a does dim angen rhoi gwybod amdani yn y ffurflen.

## Treuliau a achosir cyn dechrau’r cyfnod a reoleiddir

3.7 Rhaid rhoi gwybod yn y ffurflen am dreuliau a achoswyd cyn dechrau'r cyfnod a reoleiddir, ar eitemau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir. Gan hynny, mae cost eitemau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir ond a brynwyd cyn dechrau’r cyfnod a reoleiddir yn cyfrif tuag at derfyn gwario’r blaid

## TAW

3.8 Rhaid cynnwys TAW wrth roi gwybod am dreuliau, lle bo'n gymwys, hyd yn oed os oes modd adennill y TAW.

3.9 Pan fo TAW wedi'i chodi ar eitem, mae swm y TAW yn cyfrif tuag at y terfyn gwario.

## Gorbenion a chostau cysylltiedig

3.10 Pan fo gorbenion a chostau cysylltiedig yn cael eu hachosi mewn modd perthnasol, y swm sy'n cyfrif fel gwariant ymgyrch yw'r gyfran honno sy'n adlewyrchiad rhesymol o'r defnydd yn ystod yr ymgyrch. Y gyfran honno sy'n gorfod cael ei chynnwys yn y ffurflen ac sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwario.

3.11 Mae hyn yn gymwys i eitemau fel:

- lle mewn swyddfa
- ardrethi busnes
- biliau trydan
- darparu llinellau ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd
- ffonau symudol
- darparu offer swyddfa o unrhyw fath

3.12 Y gyfran sy'n adlewyrchiad rhesymol o ddefnydd yn gyffredinol yw'r swm a achosir yn ychwanegol at y costau arferol mewn cyfnod penodol.

> Mae plaid yn talu swm safonol bob mis am drydan. Yn y cyfnod cyn yr etholiad mae'n talu swm ychwanegol uwchlaw'r hyn y mae'n ei dalu fel arfer. Y swm ychwanegol yw'r swm y mae'n rhaid rhoi gwybod amdano.

3.13 Mae unrhyw gostau cysylltiedig eraill hefyd yn cyfrif fel gwariant ymgyrch, ac felly mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt ac maent yn cyfrif tuag at y terfyn gwario.

## Eitemau sydd wedi'u heithrio

3.14 Nid yw cost dŵr, nwy, y dreth gyngor a gofal plant yn dreuliau sy'n dod o fewn Rhan I o Atodlen 8 i Ddeddf 2000. Ni fernir bod cysylltiad digon agos rhwng y rhain a'r materion a restrir yno. Does dim angen rhoi gwybod amdanynt.

# Atodlen 8, paragraff 1 o Ddeddf 2000

## Nodiadau cyffredinol

### Nid yw’r Cod hwn yn gynhwysfawr

4.1 Mae’r rhan hon o’r Cod yn nodi rhestrau, nad ydynt yn gynhwysfawr, o faterion sy’n berthnasol at ddibenion pob categori ym mharagraff 1 o Atodlen 8, ac felly y dylid rhoi gwybod amdanynt mewn ffurflen gwariant os caiff costau cysylltiedig eu hachosi gan blaid neu ar ran plaid at ddibenion etholiad.

### Gwariant tybiannol

4.2 Mae'r Cod hwn yn gymwys i wariant tybiannol ar ran plaid wleidyddol yn yr un modd ag y mae'n gymwys i wariant a achosir gan blaid wleidyddol, oni nodir yn wahanol.

### Costau sydd wedi’u heithrio

4.3 Mae'r adran hon o'r Cod yn egluro paragraff 1 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000. Ni ddylid cymryd dim byd ynddi fel pe bai’n amodi’r rhestr o eithriadau a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000, sydd wedi’i hatgynhyrchu isod.

*(1) Nothing in paragraph 1 shall be taken as extending to—*

*(a) any expenses in respect of newsletters or similar publications issued by or on behalf of the party with a view to giving electors in a particular electoral area information about the opinions or activities of, or other personal information relating to, their elected representatives or existing or prospective candidates;*

*(b) any expenses incurred in respect of unsolicited material addressed to party members;*

*(c) any expenses in respect of any property, services or facilities so far as those expenses fall to be met out of public funds;*

*(d) any expenses incurred in respect of the remuneration or allowances payable to any member of the staff (whether permanent or otherwise) of the party;*

*(e) any expenses incurred in respect of an individual by way of travelling expenses (by any means of transport) or in providing for his accommodation or other personal needs to the extent that the expenses are paid by the individual from his own resources and are not reimbursed to him; or*

*(f) any expenses incurred in respect of a Senedd Cymru election or a local government election in Wales:*

*(i) relating to any matter that is reasonably attributable to the candidate's disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred; and*

*(ii) in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh.*

*…*

*(3) In relation to sub-paragraph 2(1)(f)(i) "disability", has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010.*

# Atodlen 8, paragraff 1(1)

*Party political broadcasts.*

*Expenses in respect of such broadcasts include agency fees, design costs and other costs in connection with preparing or producing such broadcasts.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

5.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

i baratoi'r cynnwys, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu neu ei ddarlledu.

**Gorbenion a chostau cysylltiedig**

5.2 Mae'n cynnwys cost unrhyw feddalwedd o unrhyw fath i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais i ddylunio a chynhyrchu deunydd yn fewnol.

5.3 Er enghraifft, ffi drwyddedu am raglen feddalwedd i'w defnyddio wrth ddylunio cynnwys darllediad.

5.4 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer i baratoi'r cynnwys, ei gynhyrchu, hwyluso ei gynhyrchu neu ei ddarlledu.

5.5 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

- lle mewn swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cynnwys, ei gynhyrchu, hwyluso ei gynhyrchu a/neu ei ddarlledu.

5.6 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r darllediad i'r blaid pan delir y gost gan y blaid neu gan gaiff ei had-dalu gan y blaid.

# Atodlen 8, paragraff 1(2)

*Advertising of any nature (whatever the medium used).*

*Expenses in respect of such advertising include agency fees, design costs and other costs in connection with preparing, producing, distributing or otherwise disseminating such advertising or anything incorporating such advertising and intended to be distributed for the purpose of disseminating it.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

6.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir:

- i baratoi deunydd hysbysebu, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- i ledaenu deunydd hysbysebu drwy ei ddosbarthu neu fel arall

6.2 Er enghraifft, llogi ffotograffydd a mangre i gynhyrchu delweddau i'w defnyddio mewn deunydd hysbysebu.

**Costau penodol mewn cysylltiad â chynhyrchu neu ledaenu deunydd hysbysebu digidol neu electronig**

6.3 Mae'n cynnwys cost unrhyw feddalwedd o unrhyw fath i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais:

- i ddylunio a chynhyrchu deunydd hysbysebu yn fewnol
- i ledaenu deunydd hysbysebu neu hwyluso ei ledaenu

pa un a yw'r deunydd hwnnw'n cael ei ddosbarthu'n ddigidol, yn electronig neu drwy fodd arall.

6.4 Er enghraifft, ffi drwyddedu am raglen feddalwedd i'w defnyddio ar ddyfais.

6.5 Mae'n cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir:

- i baratoi deunydd hysbysebu digidol neu electronig, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- i ddosbarthu'r deunydd hysbysebu hwnnw neu hwyluso ei ledaenu drwy unrhyw fodd

gan gynnwys unrhyw gost sydd i'w phriodoli i gynyddu gwelededd y cynnwys drwy unrhyw fodd.

6.6 Er enghraifft, prynu safle amlycach ar dudalen mewn injan chwilio.

6.7 Mae'n cynnwys cost paratoi deunydd hysbysebu, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu:

- i gael ei lawrlwytho a'i ddefnyddio gan eraill
- i'w osod ar unrhyw fath o sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol a hybu'r blaid drwyddynt

6.8 Er enghraifft, costau cynhyrchu deunydd hysbysebu sy'n hybu'r blaid ac a osodir ar dudalen ar sianel cyfryngau cymdeithasol sy'n annog dilynwyr i'w rannu.

6.9 Mae'n cynnwys cost cyrchu, prynu, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall:

- sy'n hwyluso dosbarthu neu ledaenu deunydd hysbysebu drwy unrhyw fodd
- sy'n hybu neu'n cynyddu gwelededd deunydd hysbysebu drwy unrhyw fodd

6.10 Er enghraifft, prynu hunaniaethau digidol a ddefnyddir i wneud i ddeunydd ymddangos fel pe bai wedi'i weld ac wedi'i gymeradwyo gan nifer fawr o ddefnyddwyr ar lwyfan cyfryngau cymdeithasol.

6.11 Mae'n cynnwys costau:

- lletya a chynnal gwefan neu ddeunydd electronig/digidol arall sy'n hybu'r blaid
- dylunio ac adeiladu'r wefan
- cyfran o unrhyw wefan neu ddeunydd a sefydlir i sicrhau cyllid i'r blaid ond sydd hefyd yn hybu'r blaid yn ystod y cyfnod a reoleiddir

**Costau eraill a gynhwysir ym mharagraff 1(2)**

6.12 Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu am unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunydd hysbysebu.

6.13 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer arall mewn cysylltiad â'r canlynol:

- paratoi'r deunydd hysbysebu, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- lledaenu'r deunydd hysbysebu drwy ei ddosbarthu neu fel arall

6.14 Mae'n cynnwys cost:

- papur neu unrhyw gyfrwng arall yr argreffir deunydd hysbysebu arno
- arddangos hysbysebion yn gorfforol mewn unrhyw leoliad, er enghraifft clymau cebl neu lud at godi posteri

6.15 Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- offer llungopïo
- offer argraffu

i'w defnyddio wrth argraffu deunydd hysbysebu.

6.16 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

- lle mewn swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

mewn cysylltiad â'r canlynol:

- paratoi'r deunydd hysbysebu, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- lledaenu'r deunydd hysbysebu drwy ei ddosbarthu neu fel arall

6.17 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â deunydd hysbysebu i'r blaid pan delir y gost gan y blaid neu gan gaiff ei had-dalu gan y blaid.

# Atodlen 8, paragraff 1(3)

*Unsolicited material addressed to electors (whether addressed to them by name or intended for delivery to households within any particular area or areas).*

*Expenses in respect of such material include design costs and other costs in connection with preparing, producing or distributing such material (including the cost of postage).*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Costau sy'n gysylltiedig â sicrhau gwybodaeth a thargedu neu adnabod pleidleiswyr, gan gynnwys costau cronfeydd data**

7.1 Mae hyn yn cynnwys cost cyrchu, sicrhau, prynu, datblygu neu gynnal:

- meddalwedd TG neu gronfeydd data cysylltiadau
- unrhyw wybodaeth, drwy ba fodd bynnag

a ddefnyddir i hwyluso anfon deunydd digymell at bleidleiswyr.

7.2 Er enghraifft, prynu cyfeiriadau ebost.

7.3 Mae'n cynnwys cost cyrchu, sicrhau neu ddatblygu setiau data, gan gynnwys dadansoddi data i dargedu pleidleiswyr drwy ba fodd bynnag, gan gynnwys cost asiantaethau, sefydliadau neu bobl eraill sy'n adnabod grwpiau o bleidleiswyr, drwy ba fodd bynnag.

7.4 Er enghraifft, cost unrhyw asiantaeth a delir i ddadansoddi cynnwys y cyfryngau cymdeithasol i hwyluso targedu pleidleiswyr ar draws ardaloedd etholiadol a chost gwaith modelu gan unrhyw asiantaeth ar sail y dadansoddiad hwnnw.

7.5 Mae'n cynnwys cost unrhyw wasanaethau i adnabod pleidleiswyr sy'n cael eu prynu, eu datblygu neu eu darparu cyn y cyfnod a reoleiddir, ond a ddefnyddir i dargedu pleidleiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

7.6 Pan gaiff gwybodaeth neu fynediad i wybodaeth eu sicrhau oddi wrth drydydd parti, mae cost fasnachol sicrhau'r wybodaeth honno oddi wrth y trydydd parti yn cael ei chynnwys.

**Costau sy'n gysylltiedig â pharatoi, cynhyrchu neu ddosbarthu deunydd digymell i bleidleiswyr, gan gynnwys drwy ddulliau digidol**

7.7 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau

- offer

a ddefnyddir:

- i baratoi'r deunydd digymell, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- i ledaenu'r deunydd digymell drwy ei ddosbarthu neu fel arall, gan gynnwys unrhyw gost sydd i'w phriodoli i gynyddu gwelededd deunydd drwy unrhyw fodd

7.8 Mae'n cynnwys cost cyflenwi deunydd drwy unrhyw fodd gan gynnwys dulliau electronig neu ddosbarthu'r deunydd yn gorfforol, er enghraifft cost amlenni a stampiau neu brynu system at anfon negeseuon ebost.

7.9 Mae'n cynnwys cost cyrchu, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy'n hybu neu'n cynyddu gwelededd deunydd digymell ar unrhyw lwyfan.

7.10 Er enghraifft, os bydd plaid yn talu datblygwr i greu ap sy'n hwyluso gwaith i dargedu ei deunydd ar sianel cyfryngau cymdeithasol.

7.11 Mae'n cynnwys cost goruchwylio a chynnal a chadw pob dull cyfryngau cymdeithasol, dull digidol neu ddull arall o ddosbarthu deunydd digymell. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw pob cyfrif cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys os byddant yn cael eu cynnal gan endid/unigolyn arall.

**Costau eraill a gynhwysir ym mharagraff 1(3)**

7.12 Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu am unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunydd digymell.

7.13 Mae'n cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall yr argreffir deunydd digymell arno.

7.14 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer arall mewn cysylltiad â'r canlynol:

- paratoi'r deunydd digymell, ei gynhyrchu neu hwyluso ei gynhyrchu
- lledaenu'r deunydd digymell drwy ei ddosbarthu neu fel arall

7.15 Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- offer llungopïo
- offer argraffu

i'w defnyddio wrth argraffu deunydd digymell.

7.16 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

- lle mewn swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

mewn cysylltiad â pharatoi deunydd digymell, ei gynhyrchu ei ledaenu a’i ddosbarthu.

7.17 Mae’n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy’n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â deunydd digymell i’r blaid pan delir y gost gan y blaid neu gan gaiff ei had-dalu gan y blaid.

## Costau sydd wedi’u heithrio o baragraff 1(3)

7.18 Nid yw'n cynnwys cost postio'r anerchiad etholiadol di-dâl fel yr amlinellir yn erthygl 65 o Orchymyn 2007.

7.19 Nid yw'n cynnwys unrhyw gost sy'n gysylltiedig â sicrhau data fel y’i caniateir o dan unrhyw statud neu reoliad.

7.20 Er enghraifft, mae gan bleidiau gwleidyddol hawl i gael copi o'r gofrestr etholiadol drwy reoliad 102 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.

# Atodlen 8, paragraff 1(4)

*Any manifesto or other document setting out the party's policies.*

*Expenses in respect of such a document include design costs and other costs in connection with preparing or producing or distributing or otherwise disseminating any such document.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

8.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir:

- i baratoi unrhyw faniffesto neu ddogfen arall, eu cynhyrchu neu hwyluso eu cynhyrchu
- i ledaenu'r maniffesto neu'r ddogfen arall neu eu dosbarthu, drwy unrhyw fodd

gan gynnwys unrhyw gost sydd i'w phriodoli i gynyddu gwelededd y cynnwys drwy unrhyw fodd.

8.2 Er enghraifft, prynu safle amlycach ar dudalen mewn injan chwilio.

8.3 Mae'n cynnwys cost trefnu bod y maniffesto neu'r ddogfen arall ar gael ar ffurf electronig neu gorfforol a phob ffordd o'u lledaenu.

**Costau eraill a gynhwysir ym mharagraff 1(4)**

8.4 Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu am unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth gynhyrchu maniffesto neu ddogfen arall.

8.5 Mae'n cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall yr argreffir y maniffesto neu'r ddogfen arall arno

8.6 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer mewn cysylltiad â'r canlynol:

- paratoi'r maniffesto neu'r ddogfen arall, eu cynhyrchu neu hwyluso eu cynhyrchu
- lledaenu'r maniffesto neu'r ddogfen arall drwy eu dosbarthu neu fel arall

8.7 Mae'n cynnwys cost prynu neu logi:

- offer llungopïo
- offer argraffu

i'w defnyddio wrth argraffu'r maniffesto neu'r ddogfen arall

8.8 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

- lle mewn swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig â chostau mewnol dylunio'r maniffesto neu'r ddogfen arall, eu cynhyrchu a'u lledaenu.

8.9 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r maniffesto neu'r ddogfen arall i'r blaid pan delir y gost gan y blaid neu gan gaiff ei had-dalu gan y blaid.

# Atodlen 8, paragraff 1(5)

*Market research or canvassing conducted for the purpose of ascertaining polling intentions.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

9.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir:

- i baratoi gwaith canfasio neu ymchwil farchnad, eu cynhyrchu neu hwyluso eu cynhyrchu
- i wneud gwaith canfasio neu ymchwil farchnad neu eu cydlynu
- i gofnodi canlyniadau unrhyw ymchwil farchnad neu waith canfasio, neu eu dadansoddi neu eu defnyddio fel arall

9.2 Er enghraifft, cost defnyddio banciau ffôn i gysylltu â phleidleiswyr, gan gynnwys datblygu sgriptiau i'w defnyddio gan gyflogeion banc ffôn sydd wedi'u bwriadu i ddylanwadu ar bleidleiswyr

**Costau sicrhau neu gynnal data**

9.3 Mae hyn yn cynnwys cost cyrchu, prynu, datblygu a chynnal:

- meddalwedd TG neu gronfeydd data cysylltiadau
- setiau data, gan gynnwys defnyddio dadansoddeg data

i hwyluso ymchwil farchnad neu waith canfasio neu i'w cyflawni.

9.4 Er enghraifft, mae'n cynnwys cost gwrando ar y cyfryngau cymdeithasol a dadansoddi'r canlyniad er mwyn dadansoddi bwriad pleidleiswyr. Mae'n cynnwys costau a achosir cyn y cyfnod a reoleiddir pan ddefnyddir y data wedyn yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

**Costau eraill a gynhwysir ym mharagraff 1(5)**

9.5 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer sy'n angenrheidiol er mwyn:

- paratoi gwaith canfasio neu ymchwil farchnad, eu cynhyrchu neu hwyluso eu cynhyrchu
- gwneud gwaith canfasio neu ymchwil farchnad neu eu cydlynu
- cofnodi canlyniadau unrhyw ymchwil farchnad neu waith canfasio, neu eu dadansoddi neu eu defnyddio fel arall

9.6 Er enghraifft:

- gliniaduron neu gyfrifiaduron llechen os defnyddir y rheiny ar gyfer canfasio
- ffonau symudol os defnyddir y rheiny gan arweinydd/cydlynydd y gwaith canfasio

pan fo costau'r offer hwnnw a/neu gostau cysylltiedig yn cael eu talu neu eu had-dalu gan y blaid neu gan drydydd parti.

9.7 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

- lle mewn swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig ag ymchwil farchnad neu waith canfasio.

9.8 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad ag ymchwil farchnad neu waith canfasio i'r blaid, pan delir y gost gan y blaid neu gan gaiff ei had-dalu gan y blaid.

# Atodlen 8, paragraff 1(6)

*The provision of any services or facilities in connection with press conferences or other dealings with the media.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Costau cynadleddau i'r wasg neu ymwneud arall â'r cyfryngau**

10.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir i baratoi cynadleddau i'r wasg neu ymwneud arall â'r cyfryngau, eu cynhyrchu, eu hwyluso neu eu cynnal.

10.2 Mae'n cynnwys cost meddalwedd neu danysgrifiadau arbenigol ar gyfer y wasg neu'r cyfryngau.

**Costau eraill a gynhwysir ym mharagraff 1(6)**

10.3 Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu am unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth baratoi cynadleddau i'r wasg ac ymwneud arall â'r cyfryngau, eu cynhyrchu, eu hwyluso neu eu cynnal.

10.4 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer mewn cysylltiad â pharatoi cynadleddau i'r wasg neu ymwneud arall â'r cyfryngau, eu cynhyrchu, eu hwyluso neu eu cynnal.

10.5 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

- lle mewn swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig ag ymwneud â'r cyfryngau, megis cydlynu cynadleddau i'r wasg neu weithgarwch y cyfryngau, neu ddrafftio hysbysiadau i'r wasg, neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau, gan gynnwys pan fo gan blaid gyfleusterau ar gyfer cynadleddau i'r wasg ar ei mangre yn barod.

10.6 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â chynadleddau i'r wasg neu ymwneud arall â'r cyfryngau i'r blaid pan delir y gost gan y blaid neu gan gaiff ei had-dalu gan y blaid.

# Atodlen 8, paragraff 1(7)

*Transport (by any means) of persons to any place or places with a view to obtaining publicity in connection with an election campaign.*

*Expenses in respect of the transport of such persons include the costs of hiring a particular means of transport for the whole or part of the period during which the election campaign is being conducted.*

## Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

**Cludo gwirfoddolwyr ac ymgyrchwyr**

11.1 Mae'n cynnwys cost cludo:

- gwirfoddolwyr
- aelodau o’r blaid, gan gynnwys aelodau staff
- ymgyrchwyr eraill

o gwmpas yr ardal etholiadol, neu yn ôl ac ymlaen i’r ardal etholiadol, gan gynnwys cost:

- tocynnau ar gyfer unrhyw gludiant, gan gynnwys unrhyw ffi archebu
- llogi unrhyw gludiant
- tanwydd a brynir ar gyfer unrhyw gludiant
- parcio ar gyfer unrhyw gludiant

pan fôn nhw wrthi’n ymgyrchu ar ran y blaid.

11.2 Mae'n cynnwys cost cludiant y talwyd amdano gan unrhyw unigolyn, plaid wleidyddol neu drydydd parti arall ac sy'n cael ei thalu neu ei had-dalu gan y blaid wleidyddol neu drydydd parti, lle'r oedd yr unigolion a oedd yn cael eu cludo yn ymgyrchu neu’n ymgymryd â gweithgareddau yn gysylltiedig â’r ymgyrch dros y blaid.

**Costau eraill a gynhwysir ym mharagraff 1(7)**

11.3 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw gerbyd neu fath o gludiant sy’n arddangos deunydd sy’n hybu’r blaid, gan gynnwys unrhyw gost sy'n gysylltiedig â’r canlynol:

- dyluniad a gosod y dyluniad ar y cerbyd neu’r math o gludiant
- teithio rhwng ardaloedd etholiadol
- teithio o amgylch ardal etholiadol
- ffioedd parcio pan ddefnyddir cerbyd i arddangos deunydd.

11.4 Mae’n cynnwys cyfran o gost:

- lle mewn swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan
- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

pan fo'r rhain yn gysylltiedig â chynllunio, archebu neu ddefnyddio cludiant o unrhyw fath, neu pan fo cerbyd neu fath o gludiant yn cael eu paratoi i'w defnyddio mewn ardaloedd etholiadol. Er enghraifft, cost dyluniad a gosod dyluniad sy'n hybu'r blaid ar ochr bws.

11.5 Mae'n cynnwys yr holl gostau cludiant sy'n gysylltiedig â materion gwariant eraill. Er enghraifft, cludo rhywun i rali.

# Atodlen 8, paragraff 1(8)

*Rallies and other events, including public meetings (but not annual or other party conferences) organised so as to obtain publicity in connection with an election campaign or for other purposes connected with an election campaign.*

*Expenses in respect of such events include costs incurred in connection with the attendance of persons at such events, the hire of premises for the purposes of such events or the provision of goods, services or facilities at them.*

## Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**

12.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw un neu ragor o’r canlynol:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir:

- wrth hybu rali neu ddigwyddiad arall
- wrth gynnal rali neu ddigwyddiad arall i hybu’r blaid
- wrth ffrydio’n fyw neu ddarlledu rali neu ddigwyddiad arall drwy unrhyw fodd

**Costau eraill a gynhwysir ym mharagraff 1(8)**

12.2 Mae'n cynnwys cost hybu neu hysbysebu’r digwyddiad, drwy unrhyw fodd.

12.3 Mae'n cynnwys cost digwyddiad sy'n cael ei gynnal drwy ddolen o unrhyw fath neu sy'n cael ei ffrydio’n fyw neu ei ddarlledu, pan fo’r digwyddiad hwnnw’n agored i gael ei wylio gan ddefnyddwyr sianel neu lwyfan neu drwy fodd arall.

12.4 Mae'n cynnwys cost darparu unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau yn y digwyddiad, er enghraifft cost llogi seddau.

12.5 Mae’n cynnwys cost prynu unrhyw offer mewn cysylltiad â’r canlynol:

- cynnal cyfarfod cyhoeddus i hybu’r blaid
- ffrydio’n fyw neu ddarlledu cyfarfod cyhoeddus drwy unrhyw fodd

12.6 Mae’n cynnwys cyfran berthnasol o gost:

- lle mewn swyddfa
- ardrethi busnes
- trydan

- rhentu ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- hybu rali neu ddigwyddiad arall
- cynnal rali neu ddigwyddiad arall i hybu'r blaid
- ffrydio'n fyw neu ddarlledu rali neu ddigwyddiad arall drwy unrhyw fodd

12.7 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r canlynol:

- hybu rali neu ddigwyddiad arall
- cynnal rali neu ddigwyddiad arall i hybu'r blaid
- ffrydio'n fyw neu ddarlledu rali neu ddigwyddiad arall drwy unrhyw fodd

**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Weinidog ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.14

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020

Julie James AS,
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
18 Rhagfyr 2020

**RHAN 1**

**Disgrifiad**

1. Mae Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 yn rhoi arweiniad ar yr hyn sy’n dod o fewn paragraffau 1 a 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (“y Ddeddf”)[1] neu beidio.

2. Mae'r paragraffau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'wariant ymgyrch' ac felly, yn benodol, i ba dreuliau y mae'n ofynnol i blaid wleidyddol roi gwybod amdanynt.

3. Mae paragraff 1 o Atodlen 8 yn rhestru'r treuliau sy'n gymwys pan achosir hwy at ddibenion etholiad. Mae paragraff 2 yn rhestru'r eithriadau.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

4. Mae'r cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn dechrau ar 6 Ionawr 2021.

5. Er na fydd Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 mewn grym erbyn 6 Ionawr bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi canllawiau cyn i'r Cod Ymarfer fod mewn grym i sicrhau bod gwybodaeth ar gael.

**Y cefndir deddfwriaethol**

6. Mae gan y Comisiwn Etholiadol bŵer o dan baragraff 3 o Atodlen 8 i’r Ddeddf i baratoi Cod Ymarfer sy'n rhoi canllawiau ar y mathau o dreuliau sy’n dod o fewn Rhan 1 neu beidio.

7. Lluniwyd Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 gan y Comisiwn Etholiadol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

8. Bydd y Cod Ymarfer yn cael ei ddyroddi gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol o dan Atodlen 8, paragraff 3 o’r Ddeddf.

9. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol yn Atodlen 8, paragraff 3 o’r Ddeddf i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018[2].

10. Oni bai bod y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod, bydd y Cod Ymarfer hwn yn cael ei

[1] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/41/schedule/8
[2] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2018/644/article/45

ddwyn i rym gan Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

11. Mae Cod Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 yn rhoi arweiniad ar yr hyn sy'n dod o fewn paragraffau 1 a 2 o Atodlen 8 i'r Ddeddf neu beidio.

12. Mae'r paragraffau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'wariant ymgyrch' ac felly, yn benodol, i ba dreuliau y mae'n ofynnol i blaid wleidyddol roi gwybod amdanynt.

13. Mae paragraff 1 o Atodlen 8 yn rhestru'r treuliau sy'n gymwys pan achosir hwy at ddibenion etholiad. Mae paragraff 2 yn rhestru'r eithriadau.

14. O dan adran 80 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol gyflwyno ffurflen ar ôl etholiad mewn perthynas â gwariant ymgyrchu.

15. Trysorydd y blaid sy'n gyfrifol am achosi gwariant a chwblhau'r ffurflen. Os oes gan y blaid Swyddog Ymgyrchoedd a benodwyd o dan adran 25 o'r Ddeddf, yr unigolyn hwnnw sy'n gyfrifol am hyn. Rhaid cyflwyno'r ffurflenni i'r Comisiwn Etholiadol a bydd y dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno yn dibynnu ar y swm y mae'r blaid wedi'i wario.

16. Rhaid i drysorydd y blaid lofnodi datganiad bod y ffurflen, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, yn gyflawn ac yn gywir. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid.

17. Os nad yw swyddog plaid yn dilyn y Cod hwn, mae trysorydd y blaid, neu swyddog perthnasol arall, yn debygol o fod yn torri'r gofynion statudol sy'n ymwneud â gwariant ymgyrchu, er enghraifft y gofyniad statudol i sicrhau ffurflen gyflawn a chywir. Gall torri'r Cod hwn hefyd arwain at gasgliad bod trysorydd plaid wedi gwneud datganiad ffug am y ffurflen yn fwriadol neu'n ddi-hid. Gall cyflawni'r troseddau hyn arwain at erlyniad.

18. Mae adran 79(3) o'r Ddeddf yn darparu ei fod yn amddiffyniad i unrhyw berson neu blaid gofrestredig sy'n gyfrifol am y tramgwydd o fynd y tu hwnt i'r terfyn ar wariant ymgyrchu (o dan adran 79(2) o'r Ddeddf) ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r Cod hwn wrth benderfynu ar yr eitemau a'r symiau o wariant ymgyrchu sydd i'w cofnodi yn y ffurflen gwariant ymgyrch berthnasol o dan adran 80 o'r Ddeddf, ac na fyddent wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn ar sail yr eitemau a'r symiau a gofnodwyd yn y ffurflen honno.

19. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i etholiadau i Senedd Cymru.

20. Os oes cyfnod rheoleiddiedig cyfunol ar waith o dan Ran III, Atodlen 9 o'r Ddeddf, mae rheolau etholiadau'r DU yn gymwys i etholiadau penodol sy'n digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Pan fo hynny'n gymwys i etholiad i Senedd Cymru, nid yw'r Cod hwn yn gymwys.

**Ymgynghori**

21. Lluniwyd y Cod Ymarfer hwn ar dreuliau cymwys ar gyfer pleidiau gwleidyddol gan y Comisiwn Etholiadol ar ôl ymgynghori â phersonau a chyrff â diddordeb, gan gynnwys cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol, Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

22. Diffinnir Is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol y mae'n rhaid cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ei chyfer yn Adran 76(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol ac y mae'n ofynnol ei gosod gerbron y Senedd. Paratowyd y Cod hwn gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 3 Atodlen 8 i’r Ddeddf. O’r herwydd, nid yw'r Cod yn bodloni meini prawf adran 76 ac felly nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Fframwaith ar gyfer Llif Rhydd Data Nad Ydynt yn Ddata Personol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2021** |
| **DYDDIAD** | **17 Rhagfyr 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Trosolwg Polisi o'r Offeryn Statudol**

Daeth Rheoliad (EU) 2018/1807 – Llif Rhydd Data Nad Ydynt yn Ddata Personol i rym yn 2019 ac mae'n atal Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd rhag cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth, canllawiau neu fesur arall a fyddai'n cyfyngu ar ble y mae data nad ydynt yn ddata personol yn cael eu storio yn yr UE ('gofyniad lleoleiddio data') sydd heb fod wedi'u cyfiawnhau neu'n gymesur ar sail diogelwch y cyhoedd. Rhaid i Aelod-wladwriaethau nawr adolygu eu holl ddeddfwriaeth ddomestig a diwygio neu ddirymu unrhyw ofyniad lleoleiddio data nad yw wedi'i gyfiawnhau. Rhaid i Aelod-wladwriaethau hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd os ydynt yn credu bod gofyniad lleoleiddio data sydd eisoes yn bodoli wedi'i gyfiawnhau, yn ogystal â hysbysu'r Comisiwn os ydynt yn bwriadu cyflwyno unrhyw ofynion newydd.

O ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE, bydd Rheoliad yr UE yn darfod yn y DU ond mae unrhyw sgil effeithiau yn aneglur ar hyn o bryd. I osgoi unrhyw effeithiau anfwriadol ar gyfraith y DU, mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn bwriadu dirymu Rheoliad yr UE ar ddiwedd y cyfnod pontio, neu'n fuan wedi hynny.

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

Rheoliad (EU) 2018/1807 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fframwaith ar gyfer llif rhydd data nad ydynt yn ddata personol yn yr UE

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y DU â’r UE mewn perthynas â’r fframwaith ar gyfer llif rhydd data nad ydynt yn ddata personol yn yr UE. Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad, ar gael yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-framework-for-the-free-flow-of-non-personal-data-revocation-eu-exit-regulations-2021

**Unrhyw effaith y gallai’r OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Llywodraeth y DU yn haeru bod yr OS hwn yn cael ei gwmpasu gan Adran C9 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymdrin â thelegyfathrebu, telegraffiaeth, gwasanaethau rhyngrwyd ac amgryptio electronig. Mae wedi cymryd y farn hon oherwydd mai diben Rheoliad yr UE yw cael gwared â rhwystrau diangen i lif rhydd data nad ydynt yn ddata personol yn yr UE drwy wahardd cyfyngiadau sydd heb eu cyfiawnhau ar ble y gellir storio neu brosesu data. Caiff yr asesiad hwn hefyd ei lywio’n rhannol gan y nodiadau esboniadol i Ddeddf yr Alban 1998, sy’n diffinio’r mater cyfatebol a gedwir yn ôl fel un sy’n cwmpasu pob math o gyfathrebu electronig a wneir o bell.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â’r asesiad hwn. Er mai bwriad Rheoliad yr UE yw hwyluso symudiad data ar draws ffiniau, nid yw ond yn effeithio’n benodol ar y lleoliad lle y gellir storio neu brosesu data, drwy atal Aelod-wladwriaethau rhag cyflwyno unrhyw fesur statudol neu weinyddol i gyfyngu ar ble y mae data yn cael eu storio. Gan nad yw’n ymwneud yn uniongyrchol â throsglwyddo, symud na chyfathrebu data, nid yw’r materion a gedwir yn ôl yn C9 yn berthnasol. Yn ogystal, nid yw’r diffiniadau sydd yn y nodiadau esboniadol i Ddeddf yr Alban 1998 yn ymddangos yn y nodiadau esboniadol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gan nad oes unrhyw faterion eraill a gedwir yn ôl o fewn Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys i Reoliad yr UE neu’r OS dirymu, mae’r mater hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Fodd bynnag, disgwylir y bydd darpariaethau i sicrhau llif rhydd data nad ydynt yn ddata personol yn cael eu cynnwys yn nhelerau unrhyw gytundeb masnach yn y dyfodol â’r UE. Mae cytundebau masnach rhyngwladol yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn llwyr; os bydd cytundeb masnach yn cynnwys darpariaethau o’r fath, bydd y rhain i bob pwrpas yn disodli unrhyw gymhwysedd datganoledig.

**Unrhyw effaith y gallai’r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd**

Nid oes gan yr OS unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
Bu gan y Senedd erioed bwerau i ddeddfu ar leoliad storio data at ddibenion datganoledig.
Mae’r OS hwn yn dileu’r gofyniad i adrodd am unrhyw fesurau angenrheidiol i’r Comisiwn Ewropeaidd eu cymeradwyo ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer cywiro, dim ond ynghylch a yw’r mater hwn ar hyn o bryd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae cydsynio i’r OS hwn yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **211 - Rheoliadau'r Fframwaith ar gyfer Llif Rhydd Data Nad Ydynt yn Ddata Personol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2021**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 14 Rhagfyr 2020* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 22 Rhagfyr 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 5 Ionawr 2021 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 15 Ionawr 2021 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliad (EU) 2018/1807 o Senedd Ewrop a'r Cyngor, o 14 Tachwedd 2018, ar fframwaith ar gyfer llif rhydd data nad ydynt yn ddata personol yn yr Undeb Ewropeaidd ("Rheoliad yr UE"). Mae'r Rheoliad hwn yn ymwneud â lleihau mandadau lleoleiddio data y sector cyhoeddus ar gyfer data *nad ydynt yn ddata personol*.

Effaith Rheoliad yr UE yw bod yn rhaid i Aelod-wladwriaethau: hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd os ydynt yn dymuno cyflwyno mandad ar gyfer lleoleiddio data nad ydynt yn ddata personol (neu newid unrhyw bolisïau sy'n bodoli eisoes); cynorthwyo Gwladwriaethau eraill yr UE o ran ymholiadau ynghylch lleoleiddio data ac achosion posibl o droseddu; darparu gwybodaeth fusnes a hyrwyddo codau ymddygiad; ac ymgysylltu

â'r Comisiwn Ewropeaidd i adrodd ar eithriadau y gellir eu cyfiawnhau. I bob pwrpas, mae hyn yn atal Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd rhag cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth, canllawiau neu fesur arall a fyddai'n cyfyngu ar ble y mae data nad ydynt yn ddata personol yn cael eu storio yn yr UE sydd heb fod wedi'u cyfiawnhau neu'n gymesur. Erbyn 30 Mai 2021, rhaid i Aelod-wladwriaethau'r UE ddirymu unrhyw ofyniad lleoleiddio data nad yw wedi'i gyfiawnhau, a hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd os ydynt yn credu bod gofyniad lleoleiddio data sydd eisoes yn bodoli wedi'i gyfiawnhau.

O ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE, bydd Rheoliad yr UE yn darfod yn y DU, ond mae unrhyw sgil effeithiau yn aneglur ar hyn o bryd. Er mwyn osgoi unrhyw effeithiau anfwriadol ar gyfraith y DU, bydd Rheoliad yr UE yn cael ei ddirymu.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 17 Rhagfyr 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

- Mae datganiad Llywodraeth Cymru a'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cydnabod bod anghytuno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'r Rheoliadau'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn egluro bod Llywodraeth y DU o'r farn bod yr offeryn yn dod o fewn cwmpas y cymal cadw yn Adran C9 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymwneud â thelathrebu, telegraffiaeth ddiwifr, gwasanaethau rhyngrwyd ac amgryptio electronig. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r asesiad hwn, ac mae'n egluro ei rhesymau yn fwy manwl yn ei datganiad ysgrifenedig.

  Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir nad oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y polisi ar gyfer cywiro–dim ond ynghylch a yw'r mater hwn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ar hyn o bryd.

  Mae datganiad Llywodraeth Cymru, a osodwyd gerbron y Senedd cyn diwedd y Cyfnod Pontio, hefyd yn egluro: *"…disgwylir y bydd darpariaethau i sicrhau llif rhydd data nad ydynt yn ddata personol yn cael eu cynnwys yn nhelerau unrhyw gytundeb masnach yn y dyfodol â'r UE. Mae cytundebau masnach rhyngwladol yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl yn llwyr; os bydd cytundeb masnach yn cynnwys darpariaethau o'r fath, bydd y rhain i bob pwrpas yn disodli unrhyw gymhwysedd datganoledig."*

Ar 24 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Cytundeb Masnach a Chydweithrediad wedi'i daro rhwng y DU a'r UE;

- Mae Rheoliad 1 o'r Rheoliadau hyn yn nodi bod y Rheoliadau yn dod i rym ar y 22ain ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu gosod gerbron Senedd y DU. Mae hyn yn golygu, am gyfnod rhwng diwedd y Cyfnod Pontio a'r adeg pan ddaw’r Rheoliadau i rym, y bydd rhwymedigaethau amhriodol yn parhau i fod ar waith. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cydnabod hyn, ond mae'n disgrifio effaith y rhwymedigaethau amhriodol fel yr effaith leiaf bosibl;

- O ran arddull, mewn rhai mannau mae datganiad Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at Reoliad yr UE yn cael ei *ddiwygio* gan y Rheoliadau hyn. Er eglurder, dylid nodi nad yw'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad yr UE; maent yn ei ddirymu yn llwyr.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Eitem 7.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cludo Gwastraff Rhyngwladol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 ("Rheoliadau 2021")** |
| **DYDDIAD** | **30 Rhagfyr 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Cludo Gwastraff Rhyngwladol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 ("Rheoliadau 2021")**

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

<u>Deddfwriaeth yr UE</u>

- Rheoliad (CE) rhif 1013/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 14 Mehefin 2006 ar gludo gwastraff ("Rheoliadau Cludo Gwastraff"); a
- Rheoliad y Comisiwn (CE) rhif 1418/2007 o 29 Tachwedd 2007 ynghylch allforio i adfer rhai o'r mathau o wastraff a restrir yn Atodiad III neu IIIA i'r Rheoliadau Gwastraff i wledydd penodol na ddônt o dan benderfyniad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ("OECD") ar reoli symudiadau gwastraff ar draws ffiniau.

<u>Is-ddeddfwriaeth ddomestig</u>

- Rheoliadau Cludo Gwastraff ar draws Ffiniau 2007.

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw Rheoliadau 2021 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (yr UE) a deddfwriaeth ddomestig er mwyn gallu rhoi Protocol Iwerddon / Gogledd Iwerddon ("y Protocol") ar waith ac er mwyn gallu parhau i weithredu cyfraith yr UE a ddargedwir, ym maes diogelu'r amgylchedd mewn cysylltiad â symud gwastraff ar draws ffiniau, o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y "Ddeddf Ymadael") yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig (y DU) â'r UE.

**Diben y diwygiadau**

Diben Rheoliadau 2021 yw gwneud y cywiriadau angenrheidiol i'r ddeddfwriaeth a ddargedwir er mwyn medru rhoi mesurau ar waith ar gyfer rheoli symudiadau gwastraff o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.

Mae Rheoliad Cludo Gwastraff yr UE yn darparu ar gyfer goruchwylio a rheoli llwythi gwastraff o fewn ei ffiniau a chyda gwledydd Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ("OECD") a gwledydd y tu allan i'r UE sydd wedi llofnodi Confensiwn Basel.

O dan Gonfensiwn Basel ar Reoli Symudiadau Gwastraff Peryglus ar Draws Ffiniau a'u Gwaredu, daw llwythi gwastraff o dan reolaeth i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu trin mewn ffordd amgylcheddol ddiogel. Mae'r darpariaethau, ymhlith pethau eraill, yn rhwystro eu cludo i wledydd lle na ellir gwarantu y cânt eu trin mewn ffordd amgylcheddol ddiogel a threfn hysbysu ar gyfer symud gwastraff ar draws ffiniau.

Yn unol â thelerau'r Protocol, bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i ddilyn Rheoliadau Cludo Gwastraff yr UE tra phery'r Protocol. Mae hynny'n golygu y bydd Prydain Fawr yn trin Gogledd Iwerddon fel pe bai'n aelod-wladwriaeth o'r UE o safbwynt symud gwastraff o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.

Bydd y newidiadau gweithredol a'r diwygiadau canlyniadol eraill a wneir gan Reoliadau 2021 yn sefydlu mesurau rheoleiddio a rheoli gweinyddol ar symud gwastraff o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon sydd eu hangen i roi'r Protocol ar waith.

Caiff trefn reoli'r UE ar gyfer cludo gwastraff ei chadw yng nghyfraith y DU ar ôl y Cyfnod Pontio. Bydd y DU yn parhau'n llofnodwr o Gonfensiwn Basel ac yn aelod o'r OECD a bydd yn parhau i roi'r rheolau rhyngwladol a geir yn y cytundebau hyn ar waith.

Mae Rheoliadau 2020 a’u Memorandwm Esboniadol, sy’n gosod manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2021/9780348217650

**Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi’i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Chymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Barnwyd nad yw’r diwygiadau’n newid polisi ar ôl ystyried yn llawn a gofalus y diwygiadau, yr asesiad o gyfarwyddiadau’r polisi a’r dadansoddiad cyfreithiol o’r gwaith drafftio. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau’n ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

| GWEINIDOGION Y DU SY’N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **212 - Rheoliadau Cludo Gwastraff Rhyngwladol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 17 Rhagfyr 2020* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Diben y Rheoliadau Cludo Gwastraff Rhyngwladol (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2021 (“Rheoliadau 2021”) yw gwneud y cywiriadau angenrheidiol i’r ddeddfwriaeth a ddargedwir er mwyn medru rhoi mesurau ar waith ar gyfer rheoli symudiadau gwastraff o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon. Mae angen y diwygiadau er mwyn gallu parhau i weithredu cyfraith yr UE a ddargedwir, o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ym maes diogelu’r amgylchedd mewn cysylltiad â symud gwastraff ar draws ffiniau, yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r UE.

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio’r ddeddfwriaeth ganlynol:

Is-ddeddfwriaeth Ddomestig

- Rheoliadau Cludo Gwastraff ar draws Ffiniau 2007.

Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd

- Rheoliad (CE) rhif 1013/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 14 Mehefin 2006 ar gludo gwastraff ("Rheoliadau Cludo Gwastraff"); a
- Rheoliad y Comisiwn (CE) rhif 1418/2007 o 29 Tachwedd 2007 ynghylch allforio i adfer rhai o'r mathau o wastraff a restrir yn Atodiad III neu IIIA i'r Rheoliadau Gwastraff i wledydd penodol na ddônt o dan benderfyniad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar reoli symudiadau gwastraff ar draws ffiniau

Bydd y newidiadau gweithredol a'r diwygiadau canlyniadol eraill a wneir gan Reoliadau 2021 yn sefydlu mesurau rheoleiddio a rheoli gweinyddol ar symud gwastraff o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon sydd eu hangen i roi Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon ar waith.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 30 Rhagfyr 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020** |
| **DYDDIAD** | **05 Ionawr 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd** |

**SO30C – OS a osodir gerbron y Senedd sy'n diwygio deddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020 (“Rheoliadau 2020”)**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol:

Deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/66 ar reolau ynghylch trefniadau ymarferol unffurf ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill er mwyn gwirio cydymffurfedd â rheolau’r Undeb ar fesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion sy’n gymwys i’r nwyddau hynny

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/624 ynghylch rheolau penodol ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchu cig ac ar gyfer ardaloedd cynhyrchu ac ailddodi molysgiaid dwygragennog byw yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/625 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gofynion ar gyfer mynediad i’r Undeb i lwythi o anifeiliaid a nwyddau penodol a fwriedir i’w bwyta gan bobl

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/626 ynghylch rhestrau o drydydd gwledydd neu ranbarthau o’r trydydd gwledydd hynny sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer mynediad i anifeiliaid a nwyddau penodol a fwriedir i’w bwyta gan bobl i’r

Undeb Ewropeaidd, sy’n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/759 o ran y rhestrau hyn

- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/627 sy’n gosod trefniadau ymarferol unffurf ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid a fwriedir i’w bwyta gan bobl yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ac sy’n diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 o ran rheolaethau swyddogol

- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/628 ynghylch tystysgrifau swyddogol enghreifftiol ar gyfer anifeiliaid a nwyddau penodol ac sy’n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 a Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/759 o ran y tystysgrifau enghreifftiol hyn

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1012 sy’n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor drwy randdirymu’r rheolau ar gyfer dynodi mannau rheoli a’r gofynion sylfaenol ar gyfer safleoedd rheoli ar y ffin

- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/1014 i osod rheolau manwl ar gyfer y gofynion sylfaenol ar gyfer safleoedd rheoli ar y ffin, gan gynnwys canolfannau arolygu, ac ar gyfer y fformat, y categorïau a’r byrfoddau i’w defnyddio wrth restru safleoedd rheoli ar y ffin a mannau rheoli

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1081 sy’n sefydlu rheolau ar ofynion hyfforddi penodol ar gyfer staff er mwyn cynnal archwiliadau ffisegol penodol mewn safleoedd rheoli ar y ffin

- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/1715 sy’n gosod rheolau ar gyfer gweithrediad y system rheoli gwybodaeth ar gyfer rheolaethau swyddogol a chydrannau ei system (“Rheoliad SRhGRhS”)

- Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/1793 ar gynyddu dros dro reolaethau swyddogol a mesurau brys sy’n rheoli mynediad i’r Undeb i nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol sy’n gweithredu Rheoliadau (EU) 2017/625 ac (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a’r Cyngor ac yn diddymu Rheoliadau’r Comisiwn (EC) Rhif 669/2009, (EU) Rhif 884/2014, (EU) 2015/175, (EU) 2017/186 ac (EU) 2018/1660

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2074 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ynghylch rheolaethau swyddogol penodol ar lwythi o anifeiliaid a nwyddau penodol sy'n dod o'r Undeb ac sy'n dychwelyd iddo ar ôl i drydedd wlad wrthod mynediad iddynt

- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2098 ynghylch gofynion iechyd anifeiliaid dros dro ar gyfer llwythi o gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid i'w bwyta gan

bobl sy'n dod o'r Undeb ac sy'n dychwelyd iddo ar ôl i drydedd wlad wrthod mynediad iddynt

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2123 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheolau ar gyfer yr achosion lle y gellir cynnal gwiriadau adnabod ac archwiliadau ffisegol ar nwyddau penodol mewn mannau rheoli ac y gellir cynnal gwiriadau dogfennol ar bellter o safleoedd rheoli ar y ffin ac ar gyfer yr amodau y gellir cynnal gwiriadau/archwiliadau o'r fath oddi tanynt

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2124 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheolau ar gyfer rheolaethau swyddogol ar lwythi o anifeiliaid a nwyddau sy'n cael eu cludo, eu trawslwytho a'u cludo ymlaen drwy'r Undeb, ac yn diwygio Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 798/2008, (EC) Rhif 1251/2008, (EC) Rhif 119/2009, (EU) Rhif 206/2010, (EU) Rhif 605/2010, (EU) Rhif 142/2011, (EU) Rhif 28/2012, Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/759 a Phenderfyniad y Comisiwn 2007/777/EC

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2125 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cyflawni rheolaethau swyddogol penodol ar ddeunydd pecynnu pren, hysbysu am lwythi penodol a chamau i'w cymryd mewn achosion o ddiffyg cydymffurfedd

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2126 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheolau ar gyfer rheolaethau swyddogol penodol ar gyfer categorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau, camau i'w cymryd ar ôl cyflawni rheolaethau o'r fath a chategorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau sydd wedi'u heithrio rhag rheolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2128 sy'n sefydlu'r dystysgrif swyddogol enghreifftiol a'r rheolau ar gyfer rhoi tystysgrifau swyddogol ar gyfer nwyddau a ddosberthir i longau sy'n gadael yr Undeb ac y bwriedir iddynt gyflenwi llong neu gael eu bwyta gan y criw a theithwyr, neu fynd i un o orsafoedd milwrol NATO neu Unol Daleithiau America

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1540 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) 2019/1793 ynghylch hadau sesamwm sy'n dod o India

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1641 ynghylch mewnforio molysgiaid dwygragennog, ecinodermiaid, tiwnigogion a boldroediaid byw, oer, wedi'u rhewi neu wedi'u prosesu, i'w bwyta gan bobl o Unol Daleithiau America

Deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n cael ei dirymu gan Reoliadau 2020

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1756/2004 sy'n nodi'r amodau manwl ar gyfer y dystiolaeth sydd ei hangen a'r meini prawf ar gyfer y math o archwiliadau iechyd planhigion sydd angen eu cynnal ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion penodol neu wrthrychau penodol eraill a restrir yn Rhan B o Atodiad V i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC a lefel y lleihad mewn archwiliadau o'r fath;

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/723 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y ffurflen enghreifftiol safonol i'w defnyddio yn yr adroddiadau blynyddol a gyflwynir gan Aelod-wladwriaethau

- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1550 sy'n sefydlu'r rhaglen amlflwydd o reolaethau ar gyfer y cyfnod rhwng 2021 a 2025 i'w chyflawni gan arbenigwyr y Comisiwn yn yr Aelod-wladwriaethau er mwyn cadarnhau bod deddfwriaeth yr Undeb ynglŷn â'r gadwyn bwyd-amaeth yn cael ei gweithredu.

Deddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011
- Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) 2019
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol ac Iechyd Planhigion (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2020
- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020
- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Amodau Ffytoiechydol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020
- Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2020 yn trosglwyddo swyddogaethau anneddfwriaethol i'r ‘awdurdodau cymwys’ hynny sydd wedi'u dynodi felly ar gyfer Cymru, yn ddilyffethair. Maent hefyd yn trosglwyddo swyddogaethau anneddfwriaethol a deddfwriaethol i Weinidogion Cymru fel yr “awdurdod priodol” mewn perthynas â Chymru. Trosglwyddir nifer o swyddogaethau o'r fath yn ddilyffethair (gweler y priod ddiwygiadau i Reoliadau (EU) 2019/624, 625 a 626 a wneir gan reoliadau 13 i 15). Mae swyddogaethau eraill a roddir i Weinidogion Cymru fel yr “awdurdod priodol” mewn perthynas â Chymru hefyd yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru. Dim ond swyddogaethau sy'n arferadwy mewn meysydd datganoledig (fel y'u pennir drwy gyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd) a roddir i Weinidogion Cymru.

Gallai'r swyddogaethau cydredol a nodir yn y Rheoliadau ddwyn y gofynion ynghylch cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym ac, felly, gallent gyfyngu ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Mae sicrwydd wedi'i roi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 o dan y Ddeddf y caiff Atodlen 7B ei diwygio er mwyn negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**

Diben yr offeryn hwn yw gwneud diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth uniongyrchol bresennol yr UE a ddargedwir, sy'n rheoli rheolaethau swyddogol, gan gynnwys anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion, gan gynnwys bwyd a mewnforion eraill sy'n berthnasol i'r gadwyn bwyd-amaeth, sy'n cael eu mewnforio i Brydain Fawr - a elwir gyda'i gilydd yn archwiliadau iechydol a ffytoiechydol (“SPS”).

Cyflawnir rheolaethau swyddogol mewn mannau rheoli ar y ffin a ddynodwyd yn briodol a mannau cyrraedd eraill, a gellir eu cyflawni mewn lleoliadau eraill hefyd, megis lladd-dai, er mwyn cadarnhau bod nwyddau a fewnforir sy'n ddarostyngedig i reolaethau SPS yn cydymffurfio â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol. Mae'r rheolaethau hyn yn rhan annatod o'r gwaith o ddiogelu iechyd pobl a bioddiogelwch yn y DU, am eu bod yn darparu cyfundrefn benodol sy'n seiliedig ar risg ar gyfer cadarnhau tarddiad ac iechyd nwyddau sy'n ddarostyngedig i reolaethau SPS ac nad ydynt wedi'u halogi cyn caniatáu iddynt fynd y tu hwnt i'r mannau rheoli ar ffin y DU.

Cyflawnir rheolaethau swyddogol hefyd mewn sefydliadau perthnasol yn y DU, ar bob cam o'r gwaith o gynhyrchu, prosesu a dosbarthu nwyddau, gwrthrychau a sylweddau ac ati a gwmpesir gan y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol. Mae angen y rheolaethau hyn er mwyn sicrhau cyfanrwydd cadwyn bwyd-amaeth y DU a chynnal lefel uchel o iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion yn ogystal â lles anifeiliaid ar hyd y gadwyn bwyd-amaeth.

Mae'r offeryn hwn yn cwblhau'r corff o ddiwygiadau i reolaethau swyddogol ac yn ategu'r ddarpariaeth a nodir yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid a Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020, y disgwylir iddi ddod i rym am 11:00 p.m. ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r offeryn pellach hwn hefyd yn unioni diffygion cyfreithiol sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a fyddai'n atal ein system sefydledig a chyson bresennol o reolaethau swyddogol rhag gallu gweithredu'n effeithiol (os o gwbl) ar ddiwedd y cyfnod gweithredu, os na chânt eu diwygio. Fe'u gelwir yn 'ddiwygiadau o ran gweithredadwyedd'.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yn:
https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1631/made

**Pam y rhoddwyd caniatâd**

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod ac er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gyson ac yn gydlynol. Ystyriwyd y diwygiadau hyn yn llawn ac nid oes unrhyw wahaniaethau o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau y bydd y llyfr statud yn parhau'n weithredol ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

| **GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG** | |
|---|---|
| **213 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 21 Rhagfyr 2020* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1), (2)(f) a (6) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Diben y Rheoliadau hyn yw diwygio ymhellach reoliadau presennol uniongyrchol a ddargedwir gan yr UE sy'n llywodraethu rheolaethau swyddogol, gan gynnwys mewnforion anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion i Brydain Fawr, gan gynnwys bwyd a mewnforion eraill sy'n berthnasol i'r gadwyn bwyd-amaeth – a elwir ar y cyd yn archwiliadau iechydol a ffytoiechydol ("SPS").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cwblhau'r corff o ddiwygiadau i reolaethau swyddogol ac yn ategu'r ddarpariaeth a nodir yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion Etc.)

(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020, a ddaeth i rym am 11.00 yr hwyr ar 31 Rhagfyr 2020.

At hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro diffygion cyfreithiol sy'n codi yn sgîl ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd y byddent, heb eu diwygio, yn atal y system reolaethau swyddogol, sefydledig a chysonedig bresennol rhag gallu gweithredu'n effeithiol (neu weithredu o gwbl) ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 5 Ionawr 2021, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosglwyddo swyddogaethau anneddfwriaethol a swyddogaethau deddfwriaethol i Weinidogion Cymru fel yr "awdurdod priodol" mewn perthynas â Chymru, y mae nifer ohonynt yn cael eu trosglwyddo yn ddilyffethair.

Mae swyddogaethau eraill a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru fel yr "awdurdod priodol" mewn perthynas â Chymru hefyd yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gydredol, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Dim ond swyddogaethau sy'n arferadwy mewn meysydd datganoledig (fel y'u pennir drwy gyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd) a roddir i Weinidogion Cymru.

Mae gan swyddogaethau a drosglwyddwyd fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y potensial i gynnwys y gofyniad i ymgynghori â Llywodraethy DU o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai Bil Senedd yn y dyfodol yn ceisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hynny.

O ran y pwynt hwn, mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn dymuno tynnu sylw at sylwebaeth Llywodraeth Cymru yn y Datganiad Ysgrifenedig:

*"Gallai'r swyddogaethau cydredol a nodir yn y Rheoliadau ddwyn y gofynion ynghylch cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym ac, felly, gallent gyfyngu ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Mae sicrwydd wedi'i roi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 o dan y Ddeddf y caiff Atodlen 7B ei diwygio er mwyn negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol."*

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL**

**(MEMORANDWM RHIF 3)**

# BIL MASNACH

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29(iii)(a) yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Senedd os yw un o Filiau Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy’n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Masnach (“y Bil”) yn Nhŷ’r Cyffredin ar 19 Mawrth 2020. Cyflwynwyd fersiwn gyfredol y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Gorffennaf 2020. Cwblhaodd y Bil y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Ionawr 2021. Gellir gweld y Bil yn: Bill documents — Trade Bill 2019-21 — UK Parliament

## Amcanion Polisi

3. Amcanion polisi penodedig Llywodraeth y DU yw darparu dilyniant i fusnesau, gweithwyr a defnyddwyr ledled y DU a sefydlu'r DU yn genedl fasnachu fyd-eang annibynnol. I gefnogi hyn mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithredu cytundebau masnach ryngwladol â thrydydd gwledydd y mae ganddynt gytundebau masnach sy'n bodoli eisoes â’r UE; gweithredu'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (“y Cytundeb”); sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach (“yr Awdurdod”) a rhoi swyddogaethau iddo; ac mae’n gwneud darpariaeth ynghylch casglu a datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â masnach.

## Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran Masnach Ryngwladol y DU.

5. Mae'r fersiwn o'r Bil a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin yn cynnwys pedair prif elfen:

   - Mae'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidog y Goron a'r awdurdodau datganoledig er mwyn gweithredu'r Cytundeb os bydd y DU yn aelod annibynnol o'r Cytundeb hwnnw ar ôl ymadael â'r UE;

- Mae'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidog y Goron a'r awdurdodau datganoledig er mwyn gweithredu cytundebau masnach ryngwladol â thrydydd gwledydd yr oedd ganddynt gytundebau masnach a oedd yn bodoli eisoes â'r UE;

- Mae'n sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach i ddarparu fframwaith rhwymedïau masnach newydd y DU;

- Mae'n sefydlu porth rhannu data rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a chyrff cyhoeddus a chyrff preifat eraill.

6. Y darpariaethau yn y Bil y nodwyd yn flaenorol eu bod yn arbennig o berthnasol i Gymru yw:

- Rhan 1, Cymal 1 – (gweithredu'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau).

- Rhan 1, Cymal 2 – (gweithredu cytundebau masnach ryngwladol â thrydydd gwledydd y mae ganddynt gytundebau masnach a oedd yn bodoli eisoes â'r UE).

- Rhan 2 – (sefydlu'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach) – Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod y darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil sy'n ymwneud â'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach yn gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw. Fodd bynnag, gallai sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach effeithio ar feysydd datganoledig fel amaethyddiaeth a physgodfeydd.

- Rhan 3 – (Casglu a rhannu gwybodaeth am fasnach).

**Darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer**

7. Gosododd Llywodraeth Cymru femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 2 Ebrill 2020, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd ar 19 Mawrth 2020. Roedd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwnnw'n cwmpasu Rhan 1, Cymalau 1 i 4 ac Atodlenni 1, 2 a 3 o'r Bil. Nid oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau yn Rhannau 2 na 3 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn ymwneud â Rheol Sefydlog 29.

8. Gosododd Llywodraeth Cymru femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (Rhif 2) ar 4 Tachwedd 2020 a oedd yn cwmpasu Rhan 3, Cymalau 9 a 10 o'r Bil. Roedd y memorandwm yn angenrheidiol gan fod diwygiadau wedi'u gwneud i Ran 3 o'r Bil yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin sy'n gwneud darpariaeth o ran Cymru ac a oedd yn cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Darpariaethau atodol yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer**

9. Ers cyhoeddi'r memorandwm cyntaf a'r memorandwm atodol, mae'r Bil wedi'i ddiwygio yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi.

10. Mae'r memorandwm atodol hwn (memorandwm rhif 3) yn nodi'r cymalau newydd i'r Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Rhaid i'r memorandwm cyntaf a'r memorandwm atodol a osodwyd ar 2 Ebrill 2020 a 4 Tachwedd 2020 yn y drefn honno, ynghyd â'r memorandwm hwn, gael eu hystyried gyda'i gilydd wrth benderfynu ar gydsyniad.

11. Ceisir cydsyniad ar gyfer y diwygiadau perthnasol i'r Bil ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso prawf is na'r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1(i) sy'n darparu y dylid ceisio cydsyniad mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol ac ati).

12. Mae rhifau'r cymalau isod yn ymwneud â'r fersiwn o'r Bil y gorchmynnwyd iddi gael ei hargraffu ar 6 Ionawr 2021 yn dilyn diwygiadau a wnaed yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi.

<u>Rhan 3 – Y Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth (cymalau 15 i 18 ac Atodlen 6)</u>

13. Mae'r diwygiadau hyn yn darparu ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth ("y Comisiwn") fel corff statudol y mae ei rôl yn ymwneud â rhoi cyngor annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddarpariaethau perthnasol mewn cytundebau masnach rydd newydd. Yn amodol ar ddau fân welliant nad ydynt yn welliannau gan y llywodraeth, cafodd y darpariaethau a geir bellach yn Rhan 3 eu cyflwyno gan y llywodraeth a'u cymeradwyo yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 6 Ionawr 2021.

14. Mae cymal 15 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol benodi aelodau i'r Comisiwn fel pwyllgor statudol. Diben y Comisiwn yw rhoi cyngor o dan adran 42 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 ("Deddf 2020") sy'n cynnwys darpariaeth ar wahân ar adroddiadau sy'n ymwneud â chytundebau masnach rydd. Wrth benodi aelodau i'r Comisiwn, mae cymal 15(3)(e) yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi sylw i fanteision penodi aelodau sydd, rhyngddynt, ag arbenigedd o ran (a) safonau iechyd anifeiliaid a phlanhigion y DU, (b) safonau lles anifeiliaid y DU, (c) safonau amgylcheddol y DU fel y maent yn ymwneud â chynhyrchion amaethyddol, (d) cyfraith a pholisi masnach ryngwladol, ac (e) anghydraddoldebau o ran iechyd ac iechyd y cyhoedd.

15. Roedd cymal 15(3)(e) yn welliant nad oedd yn welliant gan y llywodraeth. Mae'n bosibl y caiff y gwelliant hwn ei wrthdroi pan fydd y Bil yn dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin ar gyfer ystyried gwelliannau.

16. Mae cymal 16 yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau'r Comisiwn. Mae'r diwygiadau yn mewnosod is-adran (4A) newydd yn adran 42 o Ddeddf 2020 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gyngor gan y Comisiwn ar y materion y cyfeirir atynt yn adran 42 o'r Ddeddf honno. Hynny yw, mae'r graddau y mae'r mesurau perthnasol a geir mewn cytundebau masnach rydd newydd sy'n gymwys i fasnachu mewn cynhyrchion amaethyddol yn cyd-fynd â chynnal lefelau diogelu statudol y DU mewn perthynas â bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid a'r amgylchedd.

17. Roedd y gwelliant gwreiddiol a gyflwynwyd gan y llywodraeth yn eithrio o gylch gwaith y Comisiwn ystyried lefelau diogelu statudol y DU mewn perthynas ag iechyd pobl. Fodd bynnag, cafodd y ddarpariaeth honno ei chynnwys mewn gwelliant nad oedd yn welliant gan y llywodraeth a basiwyd ar 6 Ionawr 2021. Mae'n bosibl y bydd y gwelliant yn cael ei wrthdroi pan fydd y Bil yn dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin ar gyfer ystyried gwelliannau.

18. Mae cymal 17 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch statws Aelodau'r Comisiwn, a luniwyd i adlewyrchu eu statws annibynnol. Nid yw Aelodau o'r fath i'w hystyried yn weision nac yn asiantau i'r Goron nac i'w hystyried yn mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron. Mae cymal 17 hefyd yn cyflwyno Atodlen 6 sy'n cynnwys darpariaeth sy'n cymhwyso deddfwriaeth sy'n ymwneud â chyrff cyhoeddus i'r Comisiwn.

19. Mae cymal 18 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiddymu cymalau 15 i 17 drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn nau Dŷ Senedd y DU.

20. Gan fod y Comisiwn yn cael ei sefydlu gyda'r swyddogaeth o roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gadarnhau'r penodau perthnasol mewn cytundebau masnach rydd yn y dyfodol, ni fyddai'n dod o fewn cymhwysedd y Senedd i wneud darpariaeth gyfatebol i'r ddarpariaeth a geir yng nghymalau 15 i 18 ac Atodlen 6 o'r Bil at ddibenion y prawf a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1(i). Mae Llywodraeth y DU yn credu bod diben canolog y Comisiwn yn ymwneud â chadarnhau cytuniad rhyngwladol o dan y prosesau a nodir yn Neddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Mae rheoleiddio masnach ryngwladol yn fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 10(1) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Llywodraeth yr Alban yn rhannu'r farn hon ynghylch gwelliannau Llywodraeth y DU i'r Bil ac mae hi wedi penderfynu peidio â gosod Memorandwm atodol ar gyfer y gwelliannau hyn. Er nad yw'r prawf yn Rheol Sefydlog 29.1(i) wedi'i fodloni, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis gosod memorandwm atodol sy'n ceisio cydsyniad ar gyfer pob darpariaeth yn Rhan 3 ar y sail y gellir o leiaf dadlau eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae cylch gwaith y Comisiwn i roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar safonau sy'n ymwneud â materion fel iechyd,

iechyd anifeiliaid a phlanhigion, lles anifeiliaid a'r amgylchedd fel y mae'r safonau hynny'n berthnasol i Gymru.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil Masnach y DU**

21. Er nad yw'r prawf yn Rheol Sefydlog 29.1(i) wedi'i fodloni, gellir dadlau bod y diwygiadau'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig oherwydd cylch gwaith y Comisiwn yw cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar safonau sy'n ymwneud â materion fel iechyd, iechyd planhigion ac anifeiliaid, lles anifeiliaid a'r amgylchedd i'r graddau y mae'r safonau hynny'n gymwys i Gymru.

22. Fodd bynnag, gan fod rôl y Comisiwn wedi'i chyfyngu i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar gytundebau masnach rydd yn ystod cam cadarnhau'r cytuniad, mae hyn ynddo'i hun yn annhebygol iawn o gael effaith negyddol ar gymhwysedd y Senedd. Byddai unrhyw effaith bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn deillio o ganlyniad y negodiadau eu hunain ac nid y cyngor.

23. Nid oes bwriad i'r Comisiwn gynghori Llywodraeth Cymru ac nid yw'n rhwystro Gweinidogion Cymru rhag cymryd cyngor ar wahân ar negodiadau masnach posibl y dyfodol i effeithio ar gymhwysedd y Senedd.

24. Ar y sail hon, byddem yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol.

**Gwelliannau nad ydynt yn welliannau gan y Llywodraeth**

25. Yn ogystal â mewnosod Rhan 3 newydd i'r Bil, mae nifer o welliannau nad ydynt yn welliannau gan y llywodraeth wedi'u pasio yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi y gellir eu gwrthdroi pan fydd y Bil yn dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin ar gyfer ystyried gwelliannau. Mae'r diwygiadau a ganlyn wedi'u cynnwys yn y memorandwm atodol hwn ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ar bob un o'r gwelliannau hyn ar y sail eu bod yn gosod trefniadau diogelu ar allu Llywodraeth y DU i ymrwymo i gytundebau masnach rydd yn y dyfodol ac yn gosod cyfyngiadau pellach ar arfer y pŵer gwneud rheoliadau sydd yng nghymal 2.

26. Byddai'n well gan Lywodraeth Cymru i'r Bil gynnwys y Cymalau hyn yn ei ffurf derfynol ond mae'n argymell cydsynio i'r Bil p'un ai a ydynt yn cael eu cadw ai peidio.

Cymal 3 (cymeradwyaeth seneddol i gytundebau masnach)

27. Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol osod amcanion negodi drafft cyn dechrau negodiadau tuag at gytundeb masnach rydd. Mae'r diwygiadau'n cynnwys darpariaeth yng nghymal 3(4)(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio asesiad o'r effaith ar gynaliadwyedd gan gynnwys asesiad o effaith yr amcanion negodi arfaethedig ar fywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid, diogelu'r amgylchedd, hawliau dynol a chydraddoldeb, a'r amgylchedd a llafur. Mae cymal 3(5)(b) hefyd yn rhagnodi bod rhaid i'r asesiad o'r effaith ar gynaliadwyedd gynnwys cynllun i gynnal lefelau diogelu statudol y DU ar y materion a nodir yng nghymal 3(4)(b).

28. Er nad yw'r gwelliannau hyn yn bodloni'r prawf yn Rheol Sefydlog 29.1(i), mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn ofynnol cael cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, yr amgylchedd ac iechyd, ac iechyd anifeiliaid.

Cymal 6 (Cytundebau masnach ryngwladol: gwasanaethau prosesu data ar iechyd neu ofal neu ddata a ariennir yn gyhoeddus)

29. Mae cymal 6 yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 2(1) (gweithredu cytundebau masnach ryngwladol) sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig. Mae'r diwygiadau'n darparu mai dim ond os bodlonir amodau penodol y caniateir gwneud rheoliadau o dan gymal 2(1). Mae'r rhain yn cynnwys y gofynion nad oes yr un o ddarpariaethau'r cytundeb masnach ryngwladol yn tanseilio nac yn cyfyngu ar allu awdurdod priodol i ddarparu gwasanaeth iechyd y cyhoedd cynhwysfawr a ariennir yn gyhoeddus am ddim ar adeg darparu nac i reoleiddio a chynnal ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd.

30. Er na fyddai'n dod o fewn cymhwysedd y Senedd i wneud darpariaeth gyfatebol i gymal 6 at ddibenion y prawf yn Rheol Sefydlog 29.1(i), mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn ofynnol cael cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn am eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru. Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr amodau penodedig wrth arfer y pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 2(1) a all gyfyngu ar gwmpas y ddarpariaeth y gellid ei gwneud o dan y ddarpariaeth honno. Mae'r amodau sydd i'w hystyried gan Weinidogion Cymru hefyd yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n faterion datganoledig i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

Cymal 8 – Safonau y mae cytundebau masnach rhyngwladol yn effeithio arnynt

31. Mae cymal 8(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu cod ymarfer sy'n nodi sut y dylai un o Weinidogion y Goron gymryd camau i gynnal safonau a sefydlir gan unrhyw ddeddfiad sy'n cynnwys darpariaeth sy'n

ymwneud â nifer o faterion penodedig, gan gynnwys bwyd, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Mae cymal 8(3) hefyd yn darparu y caiff y cod ddarparu bod un o Weinidogion y Goron yn sicrhau, i'r graddau y bo'n bosibl, bod cytundeb masnach yn y dyfodol yn cyd-fynd â lefelau diogelwch statudol y DU o ran nifer o faterion penodedig i gynnwys bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion; lles anifeiliaid; yr amgylchedd a diogelwch bwyd.

32. Er nad yw'r gwelliannau hyn yn bodloni'r prawf yn Rheol Sefydlog 29.1, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn ofynnol cael cydsyniad ar gyfer y gwelliant hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, yr amgylchedd, iechyd ac iechyd anifeiliaid.

**Goblygiadau ariannol**

32. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na'r Senedd yn deillio o'r pwerau o dan y Bil, bydd ei effaith economaidd gyffredinol yn peri goblygiadau ariannol sylweddol i Gymru o'n perthnasoedd masnach yn y dyfodol.

**Casgliad**

33. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan fod y Bil yn cwmpasu materion datganoledig a rhai nad ydynt wedi eu datganoli. O ran cydlyniaeth, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai deddfu drwy Fil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur ar gyfer llunio polisi masnach annibynnol ar gyfer y DU yn dilyn y cyfnod pontio. Gallai trefniadau masnachu yn y dyfodol effeithio'n sylweddol ar feysydd datganoledig, felly mae'n bwysig bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y Bil Masnach.

**Jeremy Miles AS**

**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**

**Ionawr 2021**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Ionawr 2021

Annwyl David a Mick

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu fy mod wedi gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol ger bron heddiw mewn cysylltiad â'r Bil Masnach.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU ddiwygiad i'r Bil Masnach cyn Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 30 Tachwedd. Er nad oedd Llywodraeth y DU na Llywodraeth yr Alban yn credu bod angen cydsyniad deddfwriaethol arno, rwyf wedi penderfynu gwyro at fod yn orofalus a gosod y Memorandwm hwn. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi.

Bydd angen darllen y Memorandwm Atodol (Memorandwm rhif 3) ochr yn ochr wrth gwrs â'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol a'r Memorandwm Atodol (Memorandwm rhif 2) sy'n delio â darpariaethau casglu a rhannu gwybodaeth fasnach yn y Bil Masnach. I ddrysu pethau, cafodd y cymalau hyn eu hailadrodd i raddau helaeth yn y Bil Masnach (Datgelu Gwybodaeth) y rhoddodd y Senedd ei chydsyniad iddo ar 16 Rhagfyr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at bob Aelod o'r Senedd er eu gwybodaeth.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

13 Ionawr 2021

Annwyl Mick,

Diolch am waith y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wrth graffu ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol y Bil Masnach a osodais ar 4 Tachwedd.

Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad yn Atodiad A.

Byddem yn barod i ehangu ar unrhyw un o'm hymatebion yn y drafodaeth ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sydd i'w chynnal ar 12 Ionawr.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

**Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaethol Ychwanegol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Masnach y DU**

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br><br>Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro pam, cyn unrhyw bleidlais ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, na fu i Lywodraeth Cymru geisio diwygio cymal 2(6)(a) gyda Gweinidogion y DU fel nad oes modd i Weinidogion y DU wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. | **Penderfyniad - Derbyn**<br><br>Fel a nodwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod risg bychan y gallai Llywodraeth y DU ddefnyddio cymal 2(6)(a) i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (GoWA). Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'n hynod anhebygol y bydd hyn yn digwydd, gan bod pwerau cymal 2 yn gyfyngedig iawn o ran eu cwmpas.<br><br>Rydym yn cytuno'n gyfan gwbl â'r Senedd y byddai'n annerbyniol i Weinidogion y DU ddefnyddio pwerau eilaidd i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol craidd sy'n sail i'r setliad datganoli. Fodd bynnag, y cwestiwn oedd yn wynebu Llywodraeth Cymru oedd sut orau i fynd â'r mater hwn yn ei flaen. Y man cychwyn yw'r realiti bod ceisio diwygio cymal 2(6)(a) gan Weinidogion y DU yn hynod annhebygol o arwain at y newid deddfwriaethol y gofynnwyd amdano. Ychydig o reswm sydd gan Lywodraeth y DU i gyfaddawdu ar y mater hwn gan y gallai gyfeirio at y ffaith bod cymal 2 wedi ei dderbyn gan y Senedd pan roddodd gydsyniad deddwriaethol i Fil Masnach 2017-19 ar 12 Mawrth 2019, ac yn dilyn hynny ar 21 Mai 2019 yn dilyn dau Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol.<br><br>Penderfynodd Llywodraeth Cymru felly i geisio cael y newid deddfwriaethol hwn drwy ysgrifennu at Arglwydd Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi. Gwnaethpwyd cais bod diwygiad yn cael ei gyflwyno i gymal 2 a fyddai'n cael yr effaith o rwystro'r pwerau gwneud rheoliadau rhag cael eu defnyddio gan Weinidogion y DU ac i wneud diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Teimlodd y Llywodraeth y byddai mynd ar y trywydd hwn yn fwy tebygol o arwain at newid deddfwriaethol. Ni chafodd y diwygiad hwn fodd bynnag ei ddatblygu yn Nhŷ'r Arglwyddi.<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Dim. |
| **Argymhelliad 2**<br><br>Dylai'r Cwnsler Cyffredinol, cyn unrhyw bleidlais ymlaen llaw ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, gadarnhau a yw cymal 2(6)(a) y Bil wedi ei | **Penderfyniad – Derbyn**<br><br>Nid yw Cymal 2(6)(a) wedi ei ddiwygio fel nad oes modd iddo gael ei ddefnyddio gan Weinidogion y DU i wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.<br><br>Penderfynodd yr Arglwyddi beidio â chyflwyno'r diwygiad hwn, fel y'i disgrifir uchod. |

| | |
|---|---|
| ddiwygio fel nad oes modd iddo gael ei ddefnyddio gan Weinidogion y DU i wneud rheoliadau sy’n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006.* | **Goblygaidau Ariannol** – Dim. |
| **Argymhelliad 3**<br><br>Dylai’r Cwnsler Cyffredinol, cyn unrhyw bleidlais ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, gadarnhau a yw Llywodraeth y DU wedi gwneud yr ymrwymiad i’r Blwch Anfon, fydd yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn y broses o wneud penderfyniad cyn i unrhyw benderfyniad i ddefnyddio y pŵer yng nghymal 2(7) y Bil i ymestyn y cyfnod machlud. | **Penderfyniad - Derbyn**<br><br>Ar 8 Hydref 2020, ailddatganodd Is-iarll Iau Leckie, yr Arglwydd Preswyl (Chwip y Llywodraeth) ymrwymiadau blychau anfon yn benodol mewn perthynas â chymal 2 yn ôl cais y Gweinidog dros Gysylltiadau Rhyngwladol a Masnach ar y pryd mewn llythyr dyddiedig 11 Medi. Mae'r ymrwymiad penodol sy'n ymwneud â chymal 2(7) mewn print bras. Dywedodd:<br><br>*Deallwn y dylid defnyddio'r pwerau hynny'n briodol, a dyna pam mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo na fyddwn fel arfer yn defnyddio'r pwerau cydamserol i ddeddfu o fewn meysydd datganoledig heb gydsyniad y Weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol, a byth heb ymgynghori â hwy yn gyntaf, fel y dywedodd yr Arglwydd dysgedig a bonheddig, yr Arglwydd Hope.* ***Yr ydym hefyd wedi sefydlu darpariaeth fachlud bum mlynedd ar y pwerau cydamserol yng Nghymal 2, y gellir eu hymestyn am gyfnodau pellach ond dim ond gyda chytundeb dau Dŷ'r Senedd. Rydym yn cydnabod y byddai hyn hefyd yn ymestyn gallu'r Gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU i ddefnyddio'r pwerau mewn meysydd datganoledig, ac felly rydym wedi ymrwymo i'r Gweinyddiaethau datganoledig y byddwn yn ymgynghori â hwy cyn ymestyn y cyfnod machlud*****.**<br><br>**Goblygiadau Ariannol** – Dim. |

Eitem 9.1

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw, MS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad
Senedd Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Ionawr 2021

Annwyl Mick,

**Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad am eu craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr 2020.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A. I grynhoi, rwyf wedi derbyn (neu wedi derbyn yn rhannol) chwech o'r argymhellion.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn copïo'r llythyrau at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil symud ymlaen trwy broses y Senedd.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cc. Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cc. Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**Atodiad A: Ymateb i Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad Casgliadau ac Argymhellion**

**Argymhelliad 1. Dylid diwygio adran 72 o'r Bil fel na ellir gwneud y Codau o dan adrannau 6, 7 ac 8 o'r Bil oni bai bod drafft o'r Cod arfaethedig (neu, yn achos diwygiadau, drafft o'r Cod diwygiedig arfaethedig) wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd. Dylid cadw'r gofyniad yn adran 72(2)(a) o'r Bil.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn yn rhannol yr argymhelliad hwn.** Rwyf wedi cyflwyno diwygiadau Llywodraethol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac unrhyw ddiwygiadau dilynol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn oherwydd bod y maes hwn o fudd ehangach i'r cyhoedd, a gallai rhannu perchenogaeth â'r Pwyllgor fod yn ffordd gadarnhaol o gynnig rhywfaint o gefnogaeth gyffredin i'r Cod ac i ymarferwyr ym mhob rhan o'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa.

Fodd bynnag, mae'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd yn ddogfennau proffesiynol technegol a ddatblygwyd drwy gydweithio'n agos ag ymarferwyr. Nawr ac yn y dyfodol, bydd y codau hyn yn deillio o waith cyd-awduro. Mae sicrhau bod y gwaith hwnnw yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn bwrw amheuon ar y broses honno. Mae hefyd yn codi pryderon sylweddol o ran dilysrwydd y broses honno a'r gallu i ymddiried ynddi os caiff safbwyntiau ystyrlon ymarferwyr wedyn eu diystyru.

Mae'n debygol y bydd yn rhaid diweddaru'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol mewn ysgolion yn y tymor hwy ac rydym o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn cynnig y lefel briodol o hyblygrwydd er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd o fewn cyfnod amser rhesymol. Nodir yr egwyddorion allweddol ar wyneb y Bil o hyd – fel y Meysydd Dysgu a Phrofiad eu hunain a'r hyn y mae'n rhaid i gwricwlwm ei ddarparu mewn perthynas â nhw.

Nid yw'r codau yn caniatáu i ni wneud rhai pethau penodol a fyddai'n cael eu hystyried yn bethau o bwysigrwydd arbennig fel gosod neu gynyddu trethiant; darpariaeth sy'n ymwneud â gwariant sylweddol gan y Llywodraeth; pwerau i greu darpariaethau troseddol anarferol neu gosbau sifil anarferol; neu bwerau i roi pwerau mynediad, arholi neu arolygu anarferol, neu ddarparu ar gyfer casglu gwybodaeth o dan bwerau gorfodi. Nid yw'r un o'r materion hyn yn gymwys yn yr achos hwn.

**Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 i roi rhagor o eglurder ynghylch y pwerau yn adran 1 o'r Bil a sut y gallai Gweinidogion Cymru eu defnyddio.**

**Rwy'n derbyn argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid oedd amser yn caniatáu eglurhad yn ystod dadl Cyfnod 1.** Ar hyn o bryd, nid wyf yn rhagweld y bydd angen defnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 17 ac eithrio er mwyn dynodi erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid mabwysiadu cwricwlwm.

Os bydd angen, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud darpariaeth a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynnol cynnal ymgynghoriad, er enghraifft.

Mae'r dyletswyddau allweddol, fel pwy sy'n gorfod mabwysiadu a beth y mae'n rhaid ei fabwysiadu, ar wyneb y Bil.

Fodd bynnag, os bydd amgylchiadau yn newid neu os daw materion i'r amlwg, bydd y pwerau hyn i wneud rheoliadau yn galluogi Llywodraeth Cymru i wneud darpariaeth fel y bo'n briodol, er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddefnyddio'r pwerau hyn mewn perthynas â diwygio cwricwla er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol i ofynion y cwricwlwm yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3. Dylid diwygio adran 25 o'r Bil i gynnwys rhestr nad yw'n gyflawn (ond sy'n gynhwysfawr) sy'n nodi ym mha amgylchiadau y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 25(1).**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae'r adran yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru nodi rhagor o ofynion ar gyfer cwricwlwm ar gyfer disgyblion 14-16 oed.

Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn ar y dechrau am ein bod yn disgwyl i'r gofyniad yn y Bil i gwricwlwm fod yn eang ac yn gytbwys fod yn ddigonol. Fodd bynnag, os bydd tystiolaeth bod ysgolion yn cynnig cwricwlwm cyfyngol i'r grŵp oedran hwn, neu nad ydynt yn darparu cyrsiau astudio sy'n arwain at gymwysterau penodol, yna gellir defnyddio'r pŵer hwn i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Union natur y ddarpariaeth hon yw ymdrin â sefyllfaoedd annisgwyl, felly nid yw'n ymarferol cynnwys rhestr o'r amgylchiadau lle y câi'r pŵer i wneud rheoliadau ei ddefnyddio.
Bydd y rheoliadau yn destun ymgynghoriad ar yr adeg briodol. Er ein bod wedi nodi yn ein datganiad o fwriad y polisi y math o ddarpariaeth y rhagwelir y gellid ei gwneud o dan y pŵer hwn i wneud rheoliadau, nid ydym o'r farn bod angen ychwanegu rhestr anghyflawn o amgylchiadau.

**Argymhelliad 4. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 25(1) o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Nid ydym o'r farn mai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yw'r weithdrefn briodol. Fel y nodwyd gennym yn y Datganiad o Fwriad y Polisi, mae'n debygol y byddem yn defnyddio'r pŵer hwn pe byddai tystiolaeth bod ysgolion yn cynnig cwricwla cyfyngol. Byddem am weithredu'n gyflym mewn achosion o'r fath, ac fel y cyfryw, mae'r weithdrefn negyddol yn briodol yn hyn o beth.

Mae darpariaeth gyfatebol ar gyfer y cwricwlwm lleol yn adran 116A o Ddeddf Addysg 2002. Felly, byddai cymhwyso'r weithdrefn negyddol yn gyson ag arferion yn y gorffennol. Gwnaed rheoliadau o dan adran 116A o Ddeddf 2002 ac ni wnaeth cymhwyso'r weithdrefn negyddol yn yr achos hwnnw arwain at unrhyw broblemau polisi na phryderon gan randdeiliaid.

**Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 i roi mwy o eglurder ynghylch y pŵer yn adran 34(5) o'r Bil a sut y gallai Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio.**

**Rwy'n derbyn argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid oedd amser yn caniatáu eglurhad yn ystod dadl Cyfnod 1.** Rwy'n rhagweld y gellid defnyddio'r pŵer hwn i wneud darpariaeth ynghylch materion gweithdrefnol megis terfynau amser erbyn pryd y mae'n

rhaid i'r pennaeth wneud penderfyniad, neu ynghylch y weithdrefn i'w dilyn wrth wneud penderfyniad o'r fath.

Nodir yr egwyddorion allweddol ar wyneb y Bil a dim ond rhannau o'r manylion technegol a gaiff eu cynnwys yn y rheoliadau. Er enghraifft, mae ar ba sail y gallai pennaeth wneud penderfyniad i ddatgymhwyso dewis gan ddisgybl ar wyneb y Bil.

Ni fwriedir gwneud rheoliadau mewn perthynas â hyn ar y dechrau. Mae'r gweithdrefnau a nodir ar wyneb y Bil yn glir ynghylch cyfrifoldeb ysgolion yn hyn o beth. Fodd bynnag, os daw'n amlwg dros amser fod disgyblion a rhieni yn aros yn rhy hir mewn perthynas â phenderfyniad y pennaeth neu fod y gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan ysgolion yn peri anawsterau, yna byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i egluro'r broses a sicrhau dull gweithredu cyson.

**Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 i roi eglurder ynghylch pam fod angen y pŵer yn adran 40 o'r Bil yn ychwanegol at y pŵer a geir yn adran 50 o'r Bil. Wrth wneud hynny, dylai'r Gweinidog esbonio ymhellach sut y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i roi cyfarwyddyd yn adran 40.**

**Rwy'n derbyn argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid oedd amser yn caniatáu eglurhad yn ystod dadl Cyfnod 1.** Mae'r ddwy adran yn annibynnol ar ei gilydd o ran eu diben.

Mae adran 40 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i ysgol neu ysgolion er mwyn galluogi gwaith datblygu neu arbrofion. Gall y cyfarwyddyd ddatgymhwyso unrhyw un o'r gofynion gweithredu, neu bob un ohonynt, neu ddarparu ar gyfer addasu'r gofynion gweithredu hynny o ran y ffordd y maent yn cael eu cymhwyso at yr ysgolion. Pŵer i roi cyfarwyddyd ydyw o ran arbrofion, ond rhaid i'r ALl a'r corff llywodraethu gytuno arno.

Dim ond at ddibenion arbrofol neu ddatblygiadol y gellir rhoi'r cyfarwyddyd hwn.

Rydym o'r farn bod angen adran 40 ac adran 41. Pe câi adran 40 ei dileu, ni fyddai'r cyfyngiadau yn adran 41 sy'n gymwys mewn perthynas â rhoi cyfarwyddyd o'r math hwnnw yn gymwys mwyach. Rwyf o'r farn bod y cyfyngiadau hyn yn briodol o dan yr amgylchiadau a chredaf y dylid eu cadw – sy'n golygu cadw adran 40.

**Argymhelliad 7. Dylai Gweinidogion Cymru roi gwybod i Aelodau'r Senedd drwy ddatganiad ysgrifenedig ar bob achlysur pan fydd y pŵer i roi cyfarwyddyd a geir yn adran 40 o'r Bil i'w ddefnyddio.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae adran 42(3) eisoes yn nodi lle y rhoddir cyfarwyddyd o dan adran 40, rhaid ei gyhoeddi. Mae adran 42(4) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r lleoliad gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm a gaiff ei weithredu o ganlyniad.

Nid ydym o'r farn bod angen datganiad ysgrifenedig pellach. Byddai hyn yn ddiangen o ystyried natur dryloyw yr amodau a gymhwysir at roi cyfarwyddyd fel y'u nodir o dan adrannau 41 a 42.

**Argymhelliad 8. Dylid diwygio adran 47 o'r Bil:**
**▪ fel bod terfynau amser mewn perthynas ag apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol yn cael eu cynnwys ar wyneb y Bil;**

▪ **fel bod modd diwygio darpariaeth o'r fath mewn perthynas â therfynau amser drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i fanylion o'r fath gael eu nodi ar wyneb y Bil. Mae'n bosibl y bydd angen diwygio manylion o'r fath dros amser. Ni fyddai gosod y manylion hynny ar wyneb y Bil yn cynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen er mwyn gwneud hynny. Mae manylion o'r fath yn fwy addas ar gyfer rheoliadau gan eu bod yn nodi manylion technegol a all newid dros amser.

Nid oeddem wedi rhagweld y byddai angen defnyddio'r pwerau hyn ar y cychwyn: mae gan ysgolion weithdrefnau clir eisoes. Felly, ni fyddai unrhyw newidiadau i'r hyn a nodir ar wyneb y Bil yn hyn o beth wedi cael eu trafod yn fanwl â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ysgolion a chyrff llywodraethu. Os byddwn yn penderfynu ychwanegu terfynau amser, dim ond ar ôl cynnal ymgynghoriad priodol y dylid gwneud hynny.

Bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio os daw materion i'r amlwg dros amser ac wrth i arferion ddatblygu.

**Argymhelliad 9. Os bydd y Gweinidog yn gwrthod argymhelliad 8, dylid diwygio adran 47(8) o'r Bil fel bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach am y terfynau amser ar gyfer apelau o dan yr adran hon.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Fel gydag argymhelliad 8, rydym o'r farn y byddai'n briodol ymgynghori ar lefel genedlaethol i drafod a fyddai terfynau amser yn briodol, a'r lefel gysylltiedig o hyblygrwydd er mwyn cyd-fynd â gweithdrefnau presennol ysgolion. Byddai cytuno i reoliadau gorfodol mewn gwirionedd yn gwneud penderfyniad polisi ar derfynau amser heb unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad hwnnw. Nid ydym am wneud rhagbenderfyniad ar y mater a hoffem roi cymaint o gyfle â phosibl i randdeiliaid lywio'r polisi.

**Argymhelliad 10. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 50 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Gan fod gan y pŵer hwn rôl gymharol gyffredinol, rwy'n fodlon cytuno i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

**Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 i egluro'r pŵer yn adran 67 o'r Bil a sut y gallai Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio**.

**Rwy'n derbyn argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid oedd amser yn caniatáu eglurhad yn ystod dadl Cyfnod 1.** Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch addysgu a dysgu i ddysgwyr sydd o bosibl, er enghraifft, wedi'u cofrestru fel disgyblion mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, ond sydd hefyd yn cael addysg mewn lleoliad arall o'r fath.

Yn y sefyllfaoedd hyn, disgwylir i ddarparwyr gydweithio er mwyn penderfynu sut y bydd darpariaeth mewn sawl lleoliad yn rhyngweithio er mwyn i'r dysgwr gael cwricwlwm llawn. Gall rheoliadau osod dyletswyddau a byddant yn disgrifio mecanwaith y broses hon yn fanylach. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith oherwydd y nifer posibl o wahanol achosion yn hyn o beth. Bwriedir gweithio gyda gwahanol leoliadau i ddatblygu'r rheoliadau hyn er mwyn sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael cwricwlwm llawn lle y bo'n bosibl.

Diben y rheoliadau yw darparu ffordd i wahanol sefydliadau gydweithio er mwyn cyflawni'r swyddogaethau sydd eisoes wedi'u nodi yn y Bil neu reoliadau a wneir oddi tano.

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle, MS
Cadeirydd
Pwyllgor Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Ionawr 2021

Annwyl Lynne,

**Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**


Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am eu craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr 2020.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A. I grynhoi, rwyf wedi derbyn (neu wedi derbyn yn rhannol) 54 o'r argymhellion.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn copïo'r llythyrau at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil symud ymlaen trwy broses y Senedd.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cc. Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cc. Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

**Atodiad A: Ymateb i Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Casgliadau ac Argymhellion**

**Argymhelliad 1. Bod y Senedd, gan ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni fel rhan o'n gwaith craffu yng Nghyfnod 1 a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Rydym yn croesawu cytundeb y Pwyllgor i egwyddorion cyffredinol y Mesur Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

**Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd fel rhan o'n gwaith craffu yng Nghyfnod 1:**

- **sut y mae wedi sicrhau ei hun fod y Bil wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng hyblygrwydd lleol a chysondeb cenedlaethol;**
- **pa ddulliau gwirio a gwrthbwyso y bydd yn eu rhoi ar waith i fonitro a chynnal y cydbwysedd cywir, gan gynnwys sicrhau bod cwricwla ysgolion unigol yn briodol;**
- **beth arall y gall ei wneud i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn lleoliadau ym mhob rhan o Gymru yn cael cynnig addysg digon cyson (ond nid o reidrwydd addysg unffurf) ac yn ffynnu o dan y dull a ddilynir yn y cwricwlwm newydd.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Mae Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn darparu cyfres gadarn o ddisgwyliadau i ysgolion ddatblygu eu cwricwla o'u mewn. Caiff y Fframwaith ei bennu ar sail genedlaethol ac mae'n cynnwys gofynion y cwricwlwm, a gaiff eu nodi mewn deddfwriaeth, ac amrywiaeth o ganllawiau ategol. Mae hyn yn darparu sybsidiaredd ond o fewn amrywiaeth eang o gymorth manwl – mwy manwl na'r rhaglenni astudio presennol.

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi cynllun gweithredu a fydd yn nodi sut y byddwn yn monitro ac yn deall cynnydd ac yn nodi problemau mewn perthynas â'r broses weithredu. Byddwn hefyd yn sefydlu Rhwydwaith Cenedlaethol i weithio'n agos gydag amrywiaeth eang o ymarferwyr er mwyn sicrhau dealltwriaeth a dulliau gweithredu cyffredin.

**Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r effaith y mae diwygio'r cwricwlwm yn ei chael ar safonau yn ofalus ac yn dryloyw, er mwyn sicrhau ei bod yn ategu'r ymdrechion ehangach sydd ar y gweill i wella ysgolion. Dylai'r gwaith hwn ddefnyddio cyngor arbenigol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac eraill fel sail**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Mae hon yn flaenoriaeth bwysig i ni a chaiff ei hamlinellu yn y cynllun gweithredu.

**Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos unrhyw amrywiad yn y cwricwlwm a ddarperir ac unrhyw effaith y mae hynny'n ei chael ar grwpiau penodol o ddisgyblion ac ysgolion, gan fynd ati'n gynnar i ymdrin ag unrhyw arwyddion o waethygu anfantais ac anghydraddoldeb yn anfwriadol.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Byddwn yn gweithio'n agos gydag ymarferwyr a phartneriaid drwy ein camau gwerthuso a gaiff eu hamlinellu yn y cynllun gweithredu a'r Rhwydwaith Cenedlaethol er mwyn monitro ac ymdrin â rhwystrau rhag gweithredu mewn perthynas ag anghydraddoldeb a chynwysoldeb. Rwy'n bwriadu cyhoeddi'r cynllun gweithredu yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i gymryd rhan yn elfen Meddwl Creadigol y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yng nghylchoedd y**

**dyfodol, yng ngoleuni'r cysylltiadau clir rhwng yr elfen hon â dull y cwricwlwm newydd.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Nid ydym yn bwriadu cymryd rhan gan fod ETS, sef prif gontractwr rhyngwladol y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, wedi rhoi gwybod i ni mai dim ond ar y cyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon y gallwn wneud hynny. Mae'r ddwy wlad wedi penderfynu peidio â chymryd rhan.

Nid yw gweithdrefnau gweithredu, dadansoddi ac adrodd ETS yn addas ar hyn o bryd i gynnwys gofyniad sy'n cyfuno rhai meysydd, ond nid rhai eraill, fel y byddai ei angen pe byddai un wlad yn rhoi Meddwl Creadigol ar waith ar ei phen ei hun.

Yn ogystal, mae nifer o resymau eraill pam ein bod wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn yr opsiwn Meddwl Creadigol, gan gynnwys gan na fydd yr asesiad yn cynnig llawer o werth i'n cwricwlwm a'n polisi ysgolion ehangach ac felly na ellir cyfiawnhau'r adnoddau y bydd eu hangen i'w weinyddu (o ran ysgolion ac o ran contractwyr/swyddogion).

**Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi, fel mater o flaenoriaeth, yr egwyddorion a'r rhesymu sydd wedi llywio—ac a fydd yn parhau i lywio—penderfyniadau ynghylch pa agweddau ar addysgu a dysgu sy'n haeddu cael eu cynnwys ar wyneb y Bil fel elfennau gorfodol**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Byddwn yn darparu papur briffio technegol i'r pwyllgor maes o law yn nodi'r rhesymeg dros gynnwys cyfres gul o bynciau penodol yn unig ar wyneb y Bil. Caiff ehangder a dyfnder Meysydd Dysgu a Phrofiad eu sicrhau drwy'r cysyniadau allweddol pan fyddant yn dod yn orfodol yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig. Yn fwriadol, dim ond nifer bach iawn o bynciau sy'n elfennau gorfodol ar wyneb y Bil: mae'r pedair elfen sy'n ymddangos ar wyneb y Bil yn unigryw yn yr ystyr bod angen i'r Bil sôn amdanynt er mwyn ymdrin â mater penodol neu gyfres benodol o amgylchiadau. Ni fyddai ehangu hyn i gynnwys agweddau pwysig ar ddysgu fel iechyd meddwl yn ychwanegu at ofynion presennol y Cod yr Hyn sy'n Bwysig a byddai'n ysgogi ceisiadau i'r Bil gynnwys rhestr benodol o amrywiaeth eang o bynciau a thestunau hollbwysig. Byddai hyn yn tanseilio athroniaeth y cwricwlwm newydd.

**Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod y Cod yr Hyn sy'n Bwysig (neu'r Cod diwygiedig) yn ddarostyngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r uwch-weithdrefn negyddol. Dylai'r ddarpariaeth yn adran 72(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar y Cod yr Hyn sy'n Bwysig (neu'r Cod diwygiedig) aros fel y mae.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Dogfen broffesiynol dechnegol yw hon a ddatblygwyd gan gydweithio'n agos ag ymarferwyr. Nawr ac yn y dyfodol, bydd y Cod hwn yn deillio o waith cyd-awduro. Mae sicrhau bod y gwaith hwnnw yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn bwrw amheuon ar y broses honno. Mae hefyd yn codi pryderon sylweddol o ran dilysrwydd y broses honno a'r gallu i ymddiried ynddi os caiff safbwyntiau ystyrlon ymarferwyr wedyn eu diystyru.

Mae'n debygol y caiff y Cod ei ddiweddaru er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol mewn ysgolion yn y tymor hwy ac rydym o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn cynnig y lefel briodol o hyblygrwydd er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd o fewn cyfnod amser rhesymol. Nodir yr egwyddorion allweddol ar wyneb y Bil o hyd – fel y Meysydd Dysgu a Phrofiad eu

hunain a'r hyn y mae'n rhaid i gwricwlwm ei ddarparu mewn perthynas â nhw. Byddai unrhyw newidiadau i'r Cod yn cael eu cyd-awduro ag ymarferwyr, gan barhau i fanteisio ar eu barn a'u profiad proffesiynol.

Nid yw'r Cod yn caniatáu i ni wneud rhai pethau penodol a fyddai'n cael eu hystyried yn bethau o bwysigrwydd arbennig fel gosod neu gynyddu trethiant; darpariaeth sy'n ymwneud â gwariant sylweddol gan y Llywodraeth; pwerau i greu darpariaethau troseddol anarferol neu gosbau sifil anarferol; neu bwerau i roi pwerau mynediad, arholi neu arolygu anarferol, neu ddarparu ar gyfer casglu gwybodaeth o dan bwerau gorfodi. Nid yw'r un o'r materion hyn yn gymwys yn yr achos hwn.

**Argymhelliad 8. Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ac yn amlinellu sut y gellir sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gadarn ar gyfer y dyfodol, o fewn rheswm, i sicrhau nad yw rheoliadau'r dyfodol yn tanseilio egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft trwy wneud y cwricwlwm yn rhy llawn neu'n rhy ragnodol**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Bydd hyn yn hollbwysig a byddem yn ceisio sicrhau bod unrhyw bolisi sy'n sail i'r rheoliadau wedi'i brofi'n drylwyr drwy drefniadau cyd-awduro. Byddwn yn cyhoeddi manylion am hynny ar yr adeg briodol.

**Argymhelliad 9. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys cyfeiriad penodol, ar ei wyneb, at iechyd meddwl a lles a'i le yn y cwricwlwm**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn mewn egwyddor yr argymhelliad hwn.** Byddwn yn cyflwyno diwygiad er mwyn gosod dyletswydd ar bersonau rhagnodedig sy'n cyflawni swyddogaethau a dyletswyddau o dan y Bil i ystyried iechyd meddwl a lles emosiynol disgyblion. Byddai'r ddyletswydd hon yn gosod iechyd meddwl mewn sefyllfa unigryw: gan ddangos nad dim ond agwedd hanfodol ar yr hyn a addysgir mohono, ond ystyriaeth system gyfan i lywio pob penderfyniad yn ymwneud â'r cwricwlwm. Mae hyn yn mynd gam ymhellach na dim ond ei gwneud yn ofynnol i addysgu iechyd meddwl a lles, sydd eisoes yn ofynnol drwy'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig arfaethedig ac na fyddai'n ychwanegu unrhyw beth.

**Argymhelliad 10. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd pellach y bydd cyfeiriadau penodol at hanes Cymru, hanes pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, amrywiaeth a hunaniaeth yn cael eu gwneud yn y gyfres o Godau a chanllawiau sy'n sail i'r Bil**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Mae'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig a chanllawiau Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys cyfeiriadau clir a manwl at y meysydd blaenoriaeth hyn a meysydd blaenoriaeth eraill, a chaiff hyn ei adolygu. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Cenedlaethol i sicrhau y caiff y meysydd hyn eu hystyried yn llawn ac y caiff y ddealltwriaeth a feithrinnir ei rhannu.

**Argymhelliad 11. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd pellach ar sut y caiff yr eitemau dysgu amrywiol y mae rhanddeiliaid a deisebwyr wedi gofyn iddynt gael eu cynnwys fel elfennau gorfodol ar wyneb y Bil eu hatgyfnerthu gan y ddeddfwriaeth hon a'r gyfres o Godau a chanllawiau sy'n sail iddi.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn yn rhannol yr argymhelliad hwn.** Nodwyd nifer o feysydd, gan gynnwys hanes Cymru, iechyd meddwl a sgiliau achub bywyd gan randdeiliaid a deisebwyr i'r Senedd yng Nghyfnod 1. Caiff llawer ohonynt neu bydd llawer ohonynt wedi cael eu hystyried i'w cynnwys yn y gyfres o godau a chanllawiau, lle y bo'n briodol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Cenedlaethol

i ystyried y ffordd orau o gynnwys y materion pwysig hyn yn y broses ddysgu, yng nghyd-destun gweithredu'r cwricwlwm.

**Argymhelliad 12. Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall sicrhau bod lle hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant, yn ddiogel yn y tymor hir o fewn y Cwricwlwm i Gymru.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Mae Fframwaith y Cwricwlwm yn darparu ar eu cyfer a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Cenedlaethol i adolygu eu lle ac i ystyried sut y gellir eu cefnogi.

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym MDaPh y Dyniaethau, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, yn cynnwys yr angen i ddysgwyr ddeall eu hawliau ac ymgysylltu â'r cysyniad o hawliau yn fwy cyffredinol. Byddem yn disgwyl i hyn fod yn rhan orfodol o gwricwlwm pob ysgol.

Gan gefnogi hyn, mae'r Cwricwlwm arfaethedig i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, yn rhoi canllawiau clir ynglŷn â dysgu ac addysg ym maes hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau penodol at hawliau plant a CCUHP, ac fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad agos â Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Bydd yn rhaid i benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion lunio cwricwlwm sy'n cynnwys dysgu am hawliau plant a CCUHP, ei fabwysiadu a'i roi ar waith.

**Argymhelliad 13. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys, ar ei wyneb, ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O ystyried eu priod rolau mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, dylid gosod y ddyletswydd hon ar bawb a restrir yn adran 66(3) o'r Bil wrth arfer unrhyw un o'r swyddogaethau a roddir iddynt gan neu o dan y Bil.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae CCUHP wedi'i anelu at wladwriaethau ac, felly, mater i Lywodraethau yw sicrhau cydymffurfiaeth drwy eu cyfreithiau, eu camau gweinyddol a mesurau priodol eraill. Mae hon yn egwyddor bwysig, ac oni bai bod y wladwriaeth yn darparu'r gwasanaeth yn uniongyrchol, nid yw'r Confensiwn hwn wedi'i dargedu at ddarparwyr gwasanaeth rheng flaen.

Ni fyddai gosod dyletswydd gyffredinol ar bersonau neu gyrff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil i roi sylw dyledus i CCUHP, ynddo'i hun, yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Ni fyddai'n gwarantu cam na chanlyniad penodol ac, yn ymarferol, gallai gael yr effaith groes a gweithio yn erbyn nodau dyletswydd o'r fath sy'n llawn bwriadau da.

Dyletswyddau penodol ac ymarferol ar gyrff cyhoeddus fydd yn gwella canlyniadau, a dyma'r dull gweithredu rydym wedi'i fabwysiadu yn y Bil. Er enghraifft, mewn perthynas â darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â dewis disgybl a'r pŵer a roddir i benaethiaid benderfynu nad yw'r ddyletswydd i sicrhau dysgu ac addysgu yn gymwys.

Petaem yn gosod dyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP yn uniongyrchol ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil, mae risg y byddem yn tynnu sylw ymarferwyr rheng flaen oddi ar y gwaith o gefnogi dysgwyr drwy greu haenau o fiwrocratiaeth – byddai'n rhaid i athrawon, ysgolion a chyrff llywodraethu ddangos eu bod wedi ystyried y Confensiwn wrth ryngweithio â phob plentyn a pherson ifanc, ac mae'n amheus y byddai'n sicrhau canlyniadau 'gwell' amlwg i blant. Mae hawliau plant yn chwarae rhan flaenllaw yn ein

huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Credwn y dylid canolbwyntio ar gamau gweithredu ystyrlon sydd o fudd i blant a phobl ifanc.

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym MDaPh y Dyniaethau, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, yn cynnwys yr angen i ddysgwyr ddeall eu hawliau ac ymgysylltu â'r cysyniad o hawliau yn fwy cyffredinol. Byddem yn disgwyl i hyn fod yn rhan orfodol o gwricwlwm pob ysgol.

Gan gefnogi hyn, mae'r Cwricwlwm arfaethedig i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn rhoi canllawiau clir ynglŷn â dysgu ac addysg ym maes hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau penodol at hawliau plant a CCUHP, ac fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad agos â Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Bydd yn rhaid i benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion lunio cwricwlwm sy'n cynnwys dysgu am hawliau plant a CCUHP, ei fabwysiadu a'i roi ar waith.

**Argymhelliad 14. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod synergedd digonol rhwng y Bil, y cwricwlwm newydd, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a bod hyn yn cael ei atgyfnerthu yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r canllawiau statudol a wneir o dan y Bil.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Dyluniwyd y cwricwlwm newydd i sicrhau ei fod yn cyfrannu cymaint â phosibl at bob un o'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r asesiad effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'n fanwl y cyfraniadau y bydd yn ei wneud.

Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn y codau a'r canllawiau statudol.
Bydd y Cynllun Gweithredu yn nodi sut y bydd y Fframwaith yn cyfrannu at wireddu'r nodau a sut y caiff hyn ei gefnogi gan ymdrechion y llywodraeth a phartneriaid galluogi. Drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol, byddwn yn ystyried gydag ymarferwyr sut y gellir cynyddu'r synergeddau hyn i'r eithaf.

**Argymhelliad 15. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i leddfu'r pryderon am yr effaith ar addysg drochi yn y Gymraeg hyd at saith oed (cyn Blwyddyn 3), gan nodi bod y Gweinidog yn bwriadu cyflwyno gwelliant sy'n dileu'r Saesneg fel elfen orfodol ar gyfer y grŵp oedran hwn**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Byddwn yn diwygio'r Bil er mwyn i'r Saesneg fod yn orfodol rhwng 7 ac 16 oed. O dan y Bil, bydd y Gymraeg yn parhau'n elfen orfodol ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 16 oed ym mhob ysgol.

**Argymhelliad 16. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg i fynd i'r afael â'i bryderon am y Bil, y drefn o ran cyflwyno un continwwm a nodau ehangach Llywodraeth Cymru o ran strategaeth Cymraeg 2050. Dylai hyn gynnwys ystyried diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod statudol ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg o dan y cwricwlwm, neu atgyfnerthu'r canllawiau dros dro ar sut y disgwylir i ysgolion gyflawni un continwwm dysgu a chyfrannu at agenda Cymraeg 2050**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn yn rhannol yr argymhelliad hwn.** Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â chontinwwm y Gymraeg a Cymraeg 2050. Bydd hyn yn flaenoriaeth yn ein cynllun gweithredu'r cwricwlwm.

Mae fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru yn nodi disgwyliadau o ran datblygiad sgiliau Cymraeg dysgwyr a drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol caiff pob ysgol gymorth i ddylunio ei chwricwlwm ei hun er mwyn cynnwys hyn. Nid ydym yn derbyn yr angen i gyhoeddi Cod Statudol ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg. Mae'r ffaith bod y Gymraeg wedi'i dynodi fel elfen orfodol o 3 oed ar wyneb y Bil yn darparu arwydd clir o ran y flaenoriaeth rydym yn ei rhoi i'r mater hwn, ac ymrwymiad y llywodraeth i fwrw ati â'r gwaith hwn. Yr athroniaeth sy'n sail i'r Bil yw y dylid cadw'r fframwaith addysgol ond gan beidio â rhagnodi'r hyn y dylai ysgolion ei wneud.

**Argymhelliad 17. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru a phartneriaid perthnasol eraill i sicrhau bod cymwysterau priodol o ran y Gymraeg yn cael eu datblygu a'u bod ar gael i gyd-fynd â'r continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r elfen orfodol hon**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Mae cyflwyno continwwm unigol drwy'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle i ystyried y cymwysterau priodol ar gyfer y Gymraeg. Fel y rheoleiddiwr, Cymwysterau Cymru fydd yn arwain y gwaith hwnnw ond byddwn ni, wrth gwrs, yn gweithio gyda nhw a rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu cymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae ein hymateb i argymhelliad 55 yn cynnwys rhagor o fanylion am amseru proses ymgynghori Cymwysterau Cymru.

**Argymhelliad 18. Bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn gyflym i adolygu categorïau iaith ysgolion ac ystyried eu gosod ar sylfaen statudol, er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg a dealltwriaeth o'r continwwm mewn gwahanol ysgolion**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn yn rhannol a gweddill yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.** Byddwn yn lansio ymgynghoriad ar y canllawiau anstatudol drafft ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar 14 Rhagfyr a bydd yn para tan 26 Mawrth 2021. Dylid ystyried y canllawiau anstatudol drafft fel fframwaith cyffredin i ysgolion ac awdurdodau lleol gynyddu faint o gyfarwyddyd Cymraeg a ddefnyddir mewn ysgolion. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o ganllawiau er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i ysgolion unigol o ran yr hyn y mae cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol yn ei olygu ar lefel ymarferol. Gofynnir am farnau ar hyn yn yr ymgynghoriad. Yn naturiol byddwn yn ystyried pob ymateb yn ofalus ar ôl yr ymgynghoriad ac yn mireinio'r canllawiau fel y bo angen. Rydym yn cydnabod y bydd angen sicrhau bod unrhyw addasiadau i'r trefniadau arfaethedig ar gyfer categoreiddio ysgolion yn gydnaws â'r Cwricwlwm newydd wrth iddo ddatblygu ymhellach.

Rydym yn derbyn mewn egwyddor yr argymhelliad i wneud y categorïau iaith yn statudol. Byddai angen deddfwriaeth ac felly fydd hwn yn mater i'r Llywodraeth a'r Senedd nesaf.

**Argymhelliad 19. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y darperir y gwaith cynllunio, y cyllid a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi'r broses o gyflwyno'r continwwm ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg yn effeithiol o dan y cwricwlwm newydd.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Mae dysgu proffesiynol yn nodwedd allweddol o'n dull gweithredu mewn perthynas ag atgyfnerthu'r gallu addysgu cyfrwng Cymraeg a gwella sgiliau athrawon i addysgu Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm newydd, ac mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo. Rydym yn parhau i helpu ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u gallu i addysgu Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth drwy'r cynllun sabothol a chymorth a ddarperir gan y consortia rhanbarthol ac ar y cyd â rhanddeiliaid eraill.

**Argymhelliad 20. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Estyn i sicrhau bod y gwaith o fonitro ac arolygu sut mae lleoliadau addysgol yn gweithredu'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn nodwedd allweddol o raglen waith yr arolygiaeth yn y dyfodol**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Yn unol â'i chylch gwaith, byddem yn disgwyl i Estyn ystyried holl ofynion deddfwriaethol y cwricwlwm newydd yn ystod ei gwaith yn monitro ac yn arolygu lleoliadau addysgol. Byddai'r gofyniad hwn yn berthnasol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

**Argymhelliad 21. Bod Llywodraeth Cymru, er mwyn llywio gwaith pwysig ysgolion i baratoi ar gyfer cychwyn y Bil ac er mwyn galluogi Aelodau i gyflwyno ac ystyried gwelliannau, yn sicrhau bod y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drafft ar gael cyn dechrau Cyfnod 3.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae'r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb drafft yn cael ei gyd-awduro ag ymarferwyr, rhanddeiliaid ac arbenigwyr. Mae amserlen y gwaith hwn wedi newid oherwydd cyfyngiadau COVID-19 a'r amgylchedd cyfarfod rhithwir. Rydym yn awyddus bod y broses hon yn symud ymlaen ar gyflymder priodol fel bod y canlyniad yn cael ei ystyried yn llawn ac yn briodol yn ddatblygiadol. Rydym yn cynnal amrywiaeth o waith er mwyn helpu pobl i ddeall y dull gweithredu mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Bydd gwaith ar y cod a'r canllawiau statudol yn parhau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021.

**Argymhelliad 22. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (neu'r Cod diwygiedig) yn ddarostyngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r uwch-weithdrefn negyddol. Dylai'r ddarpariaeth yn adran 72(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (neu'r Cod diwygiedig) aros**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Rydym yn derbyn yr angen am y weithdrefn gadarnhaol a mae'r Bil eisoes yn darparu ar gyfer cynnal ymgynghoriad statudol ar y Cod. Rydym o'r farn bod hyn yn bwysig gan y bydd gan y cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fudd cyhoeddus ehangach na dim ond yr elfennau proffesiynol a thechnegol yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd. Fel y cyfryw, rydym o'r farn bod proses sy'n gydnaws â phrosesau'r Senedd yn briodol.

Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r canllawiau statudol yn ystod haf 2021.

**Argymhelliad 23. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Gweithgor Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddarparu, erbyn y bydd y Bil yn barod i'w weithredu, fframwaith sy'n amlinellu'r dysgu proffesiynol craidd, yr adnoddau a'r cymorth arbenigol sy'n debygol o fod eu hangen i addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol o 3-16 oed o dan y cwricwlwm newydd.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Rôl y Gweithgor Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw llywio'r broses o ddylunio'r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r canllawiau statudol newydd a helpu i wneud hynny, gan weithio'n agos gydag ymarferwyr i'w hailddrafftio. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried ac yn rhoi cyngor ar yr addysgeg, yr adnoddau a'r gofynion dysgu proffesiynol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sydd eu hangen er mwyn helpu i gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fewn y cwricwlwm newydd.

Fel rhan o'n gwaith cyd-awduro ag ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill, byddwn yn meithrin dealltwriaeth gliriach o gostau tebygol y broses weithredu. Bydd Cynllun Gweithredu'r Cwricwlwm a'r rhaglen ymchwil a gwerthuso yn nodi'r angen am adnoddau ychwanegol ac unrhyw oblygiadau o ran costau. O ystyried ein bod yn gweithio ar y dull gweithredu yn barhaus gyda'n rhanddeiliaid, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd pan gaiff y gwaith ei gwblhau yn ddiweddarach yn 2021.

**Argymhelliad 24. Bod Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, yn lansio ymgyrch chwalu mythau am yr Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a fydd yn cael ei chyflwyno o ganlyniad i'r Bil hwn. Dylai'r ymgyrch hon:**

- **herio'r camwybodaeth sydd ar led am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar hyn o bryd;**
- **ceisio rhoi sicrwydd i rieni ynghylch cynnwys a dull cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol;**
- **esbonio pam ei bod yn bwysig i bob plentyn a pherson ifanc gael Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu negeseuon cywir a chadarnhaol sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn trechu'r camwybodaeth. Bydd y broses hon yn cychwyn yn gynnar yn 2021 ac rydym yn datblygu deunydd cyfathrebu i ddarparu gwybodaeth gywir i ysgolion, rhieni a chymunedau ledled Cymru.

Bydd y negeseuon yn ffocysu ar diogelu, gan sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel a'u helpu i feithrin cydberthnasau personol iach; a phwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ddeunydd yn briodol yn ddatblygiadol.

**Argymhelliad 25. Bod Llywodraeth Cymru, er mwyn llywio gwaith pwysig ysgolion i baratoi ar gyfer cychwyn y Bil a chyflwyno gwelliannau gan Aelodau a'u trafod, yn sicrhau bod canllawiau drafft Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael cyn dechrau Cyfnod 3**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Cafodd y Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drafft eu cyd-awduro â rhanddeiliaid a phartneriaid a bydd drafft ohonynt ar gael cyn dechrau Cyfnod 3. Ein bwriad yw ymgynghori ar y canllawiau ddiwedd Gwanwyn 2021.

**Argymhelliad 26. Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ac yn egluro ymhellach yn ystod y ddadl Cyfnod 1 a fyddai'n bosibl diwygio Atodlen 1 i'r Bil fel bod cysondeb rhwng sut mae'r gwahanol gategorïau o ysgolion yn ystyried y maes llafur cytunedig wrth gynllunio a gweithredu'r elfen orfodol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng nghwricwlwm yr ysgol.**

**Rwy'n derbyn argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid oedd amser yn caniatáu eglurhad yn ystod dadl Cyfnod 1.** Mae'r diwygiad ar y gofynion i weithredu maes llafur cytunedig mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn cael ei roi ar waith, er mwyn sicrhau bod gan bob ysgol yr un ddyletswydd i "ystyried" maes llafur cytunedig wrth ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol ar gais y rhiant.

**Argymhelliad 27. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro, yn ystod y ddadl Cyfnod 1, pam nad yw'r Bil yn cynnwys hawl i ddysgwyr sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd digonol ddewis y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gânt lle mae modd dewis.**

**Rwy’n derbyn argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid oedd amser yn caniatáu eglurhad yn ystod dadl Cyfnod 1.** Hyd at 16 oed, bydd rhieni yn gwneud y dewis ar ran eu plentyn, ond ar ôl 16, y person ifanc fydd yn gyfrifol am ddewis a yw am barhau i gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ai peidio.

Rydym yn fodlon bod y dull gweithredu yn gydnaws â'r hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (Erthygl 2 Protocol 1 ac Erthygl 14 pan gânt eu darllen ar y cyd ag Erthygl 2 Protocol 1 yn bennaf). Bydd plant yn y chweched dosbarth dros 16 oed, ac mae cymdeithas yn cydnabod bod plant o'r oedran hwnnw yn gymwys i wneud eu dewisiadau eu hunain am amrywiaeth o bethau. Yn ein barn ni, ni fyddai dull gweithredu cyffredinol i bob gwlad o fewn deddfwriaeth y DU yn achosi problem yn hyn o beth (o gymharu, er enghraifft, ag asesu aeddfedrwydd plant penodol i wneud y dewis perthnasol). Mae'r anawsterau a ragwelwn yn rhan annatod ac yn deillio o benderfynu a yw plentyn penodol yn gymwys i ddewis peidio â mynychu gweithred addoli ar y cyd, sy'n sail dda dros ddadlau bod y sefyllfa hon yn sefyllfa lle y mae'n addas tynnu "llinell bendant" rhwng disgyblion chweched dosbarth a disgyblion nad ydynt yn y chweched dosbarth.

**Argymhelliad 28. Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ymhellach, mewn ymgynghoriad â Chomisiynydd Plant Cymru, y dewisiadau sydd ar gael i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wireddu hawliau plant ymhellach mewn perthynas â darpariaeth y Bil ar gyfer elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan roi diweddariad ar hyn yn ystod y ddadl Cyfnod 1.**

**Rwy’n derbyn argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid oedd amser yn caniatáu eglurhad yn ystod dadl Cyfnod 1.** Byddwn yn trafod y meysydd llafur cytunedig â Chomisiynydd Plant Cymru, er mai athrawon fydd yn gyfrifol am ddatblygu'r meysydd llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac am eu cynnwys.

**Argymhelliad 29. Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio dewisiadau i ddiwygio’r Bil i gyfeirio at draddodiadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yng “Nghymru” yn hytrach nag ym “Mhrydain Fawr”, o gofio bod hwn yn gwricwlwm pwrpasol i Gymru.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Byddwn yn diwygio'r Bil yn unol â hynny.

**Argymhelliad 30. Bod Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'i chynllun i newid teitl Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol i adlewyrchu’r elfen orfodol newydd o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm, ond y dylid ystyried mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch yr angen i fod yn glir am Bwyllgorau Ymgynghorol Sefydlog a’r hyn y maent yn bodoli i gynghori yn ei gylch**

**Rwy’n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn rhan o'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Mater i lywodraeth yn y dyfodol fydd cynnal adolygiad o'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, gan gynnwys newid yr enw.

**Argymhelliad 31. Bod Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'i chynllun i'r Bil osod gofyniad ar awdurdodau lleol i gynnwys yn eu Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig grŵp o bobl i gynrychioli’r cyfryw argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol y dylid eu cynrychioli ym marn yr awdurdod, ond y dylid ystyried mynd i'r afael â phryderon a godwyd (gan grwpiau crefyddol, grwpiau nad ydynt yn grefyddol a grwpiau cynghori) ynghylch cydbwysedd a thegwch cyfansoddiad**

**Pwyllgorau Ymgynghorol Sefydlog a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig, yn enwedig mewn perthynas â hawliau pleidleisio**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn** Mae'r Bil eisoes yn sicrhau y caiff pobl sy'n cynrychioli argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol eu cynrychioli, ym marn yr awdurdod. Fodd bynnag, yn ogystal â darpariaethau presennol y Bil, byddwn yn rhoi canllawiau i ALlau ar aelodaeth CYSAGau a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig er mwyn sicrhau tegwch a chynrychiolaeth briodol, ond gan sicrhau'r effaith leiaf ar gyfansoddiad y CYSAGau.

**Argymhelliad 32. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr perthnasol ac arbenigol yn y sector addysg i ddarparu, yn barod ar gyfer gweithredu'r Bil, fframwaith sy'n amlinellu'r dysgu proffesiynol craidd, yr adnoddau a'r cymorth arbenigol sy'n debygol o fod eu hangen i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol o dan y cwricwlwm newydd.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Mae dysgu proffesiynol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn ymwybodol o'r cwricwlwm newydd a'i fod yn ymgysylltu ag ef a bod gan ymarferwyr y sgiliau priodol mewn perthynas â'r cwricwlwm wedi'i arwain gan ddibenion. Felly, byddwn yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn ystod y cyfnod pontio a'r cyfnod gweithredu.

Rydym yn cydnabod y bydd angen cymorth ychwanegol er mwyn comisiynu dysgu proffesiynol cadarn a phwrpasol i ymarferwyr addysgu i wella eu sgiliau yn y maes dysgu hwn ac mewn meysydd dysgu newydd eraill pwysig iawn. Byddwn yn parhau i adolygu'r adnoddau addysgu a dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi addysgu ym mhob maes dysgu; rhoi cyngor ar gomisiynu adnoddau dysgu newydd; ac adolygu a datblygu'r ddarpariaeth bresennol.

Rydym hefyd wrthi'n trafod y gofynion dysgu proffesiynol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg â CCYSAGauC ac rydym yn darparu cymorth i ddatblygu fframweithiau er mwyn helpu i gyflwyno addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol o fewn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig ac i sicrhau y caiff disgyblaeth addysg grefyddol ei chyflwyno'n unol â gweithredoedd ymddiriedaeth yr ysgol a daliadau'r Eglwys.

Caiff costau eu monitro a'u hadolygu fel rhan o'r rhaglen Ymchwil a Gwerthuso.

**Argymhelliad 33. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n gyflym i sicrhau bod cwricwlwm y blynyddoedd cynnar ar gael, er mwyn cynyddu'r amser sydd gan leoliadau i baratoi ar gyfer ei weithredu. Rhaid i randdeiliaid perthnasol chwarae rhan agos yn y gwaith o'i ddatblygu.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid o'r sector nas cynhelir, gan gynnwys ymarferwyr ac athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar, i gyd-awduro fframwaith cwricwlwm ac asesu cynhwysol a fu'n destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd i ddysgwyr sy'n cael addysg mewn lleoliadau nas cynhelir. Mae hyn yn rhan graidd o'r broses ddysgu a'r broses ymgysylltu ymgynghorol.

Rydym yn bwriadu defnyddio tymor yr haf 2021 i dreialu'r trefniadau cwricwlwm ac asesu drafft, ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus i sicrhau ein bod wedi ymgysylltu'n llawn ac yn effeithiol â'r sector ac eraill cyn cyhoeddi'r fframwaith cwricwlwm ac asesu terfynol yn ystod tymor yr hydref.

**Argymhelliad 34. Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i amcangyfrif goblygiadau cost y Bil ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, a'i bod yn ei ddarparu i'r Senedd i'w chynorthwyo wrth ystyried y Bil.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Fel rhan o'n gwaith cyd-awduro ag ymarferwyr ar gwricwlwm y blynyddoedd cynnar, byddwn yn meithrin dealltwriaeth gliriach o gostau tebygol y broses weithredu. Byddwn yn parhau i weithio gyda phob ysgol a lleoliad fel rhan o'r Cynllun Gweithredu a'r rhaglen ymchwil a gwerthuso a chaiff costau eu monitro a'u hadolygu fel rhan o hyn. O ystyried ein bod yn gweithio ar y dull gweithredu yn barhaus gyda'n rhanddeiliaid, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn ddiweddarach yn 2021.

**Argymhelliad 35. Bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn gyflym gyda'i gwaith i ddatblygu canllawiau atodol i gefnogi dilyniant ac asesiad plant cyn 5 oed ac yn ystyried angen—a phwrpas—cael cam cynnydd cynharach na 5 oed ar ei chontinwwm dysgu arfaethedig.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn yn rhannol yr argymhelliad hwn.** Ar ôl cyhoeddi Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ym mis Ionawr, nodwyd angen am ganllawiau manylach i helpu ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr yn ystod y cyfnod dysgu sy'n arwain at gam cynnydd 1. Rydym wedi gweithio'n agos gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys penaethiaid, ysgolion arbennig, ymarferwyr nas cynhelir, athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar ac academyddion i gyd-awduro canllawiau ychwanegol i ddiwallu'r angen hwn.

Bydd y canllawiau Llwybrau Galluogi hyn yn rhan o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru a byddant ar gael i'w defnyddio gan bob ymarferydd sy'n gweithio gyda dysgwyr sydd, ar lefel ddatblygiadol, yn y cyfnod dysgu sy'n arwain at gam cynnydd 1, ni waeth beth fo'u hoedran cronolegol. Gallai hyn gynnwys rhai lleoliadau nas cynhelir, ysgolion, ysgolion arbennig a rhai lleoliadau UCD/EOTAS. Bydd y canllawiau wedi'u cysylltu'n glir ac yn amlwg â phedwar diben y cwricwlwm, y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn sicrhau y gall dysgwyr symud yn ddi-dor ar hyd y continwwm i mewn i'r camau cynnydd. Oherwydd datblygiad y canllawiau hyn nid ystyrir bod angen cam cynnydd cynharach. Caiff y canllawiau Llwybrau Galluogi drafft eu cyhoeddi er mwyn ymgynghori arnynt yn ystod tymor yr haf 2021 a bydd y fersiwn derfynol ar gael yn ystod tymor yr hydref.

**Argymhelliad 36. Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni dull newydd y Cwricwlwm i Gymru, yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod y broses o symud dysgwyr rhwng addysg 3-16 oed ac addysg a hyfforddiant ôl-16 mor effeithiol a di-dor â phosibl. Mae angen ystyried hyn o safbwynt y Bil hwn ac unrhyw ddiwygiad i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn y dyfodol.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Er mwyn sicrhau parhad dysgu ôl-16, mae angen addysg a hyfforddiant ôl-orfodol arnom sy'n gydnaws â'n gwerthoedd a'n hamcanion fel y'u nodir yn Cenhadaeth ein Cenedl a'r Weledigaeth ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar sy'n cefnogi'r pedwar diben sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru.

Rydym yn cydnabod bod angen trefniadau pontio llyfnach rhwng ysgolion a cholegau a rhwng llwybrau galwedigaethol a llwybrau academaidd. Caiff y mater hwn ei nodi yn y cynllun gweithredu fel mater i'r Rhwydwaith Cenedlaethol ei ystyried a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r sector addysg ôl-16 er mwyn cyflawni hyn.

Bydd y rhaglen ymchwil a gwerthuso, fel yr esbonnir ym Mhennod 11 o'r Memorandwm Esboniadol, yn ystyried i ba raddau y caiff nodau'r diwygiadau eu cyflawni, gan gynnwys y nodau allweddol y bydd cwricwlwm pob ysgol yn diwallu anghenion pob dysgwr, y bydd dysgwyr yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau, ac i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Bydd y rhaglen yn ymestyn y tu hwnt i 2030 a bydd yn ystyried y canlyniadau tymor hwy i ddysgwyr y tu hwnt i addysg statudol, i mewn i addysg bellach ac addysg uwch a chyflogaeth.

**Argymhelliad 37. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddisgyblion chweched dosbarth sy'n gwneud cais am y ddarpariaeth honno.**

**Rwy’n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Y grŵp oedran â blaenoriaeth yw 3-16, felly erbyn i'r dysgwr gyrraedd 16 oed, bydd yn cael yr addysg angenrheidiol yn ystod ei haddysg orfodol. Bydd y canllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhoi cymorth i ddarparwyr ôl-16 mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a materion eraill sy'n ymwneud ag iechyd a lles, fel rhan o'u dyletswyddau gofal a'u dyletswyddau bugeiliol ehangach. Er bod y dull gweithredu ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn wahanol, bydd y sefyllfa o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y chweched dosbarth yr un peth i fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach.

**Argymhelliad 38. Bod rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'n llwyr fod y cwricwlwm newydd yn uchelgeisiol o ran addysg a chyfleoedd bywyd dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol, trwy ddarpariaethau'r Bil a'r canllawiau statudol sydd ar ddod ar weithredu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau EOTAS.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Caiff y canllawiau statudol eu cyhoeddi'n benodol ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) a lleoliadau EOTAS ac mae'r canllawiau hyn yn cael eu datblygu mewn partneriaeth a thrwy waith cyd-awduro gan ymarferwyr a phobl eraill sydd â phrofiad o ddarpariaeth o'r fath ac arbenigedd yn y maes. Rydym yn nodi'n glir yn y canllawiau statudol hyn y dylai pob lleoliad EOTAS anelu at ddatblygu cwricwlwm arloesol a chreadigol sy'n cynnig llwybrau i bob dysgwr sy'n gadarn, yn briodol, yn gydlynol ac yn uchelgeisiol.

Cynigir yn y cwricwlwm newydd bod yn rhaid i UCDau ddarparu dysgu sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir gan y pedwar diben: sy'n addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a doniau'r dysgwyr; sy'n cynnig cynnydd priodol ac sy'n eang ac yn gytbwys. Rhaid iddo hefyd ddarparu ar gyfer addysgu a dysgu sy'n datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol sy'n hanfodol i gyfleoedd bywyd dysgwyr ac sydd hefyd yn ymdrin â dysgu am iechyd a lles ac addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Yn 2019/20, rhyddhawyd £24m i ysgolion drwy'r grant dysgu proffesiynol a dyrannwyd £180,000 ychwanegol i bob UCD yng Nghymru er mwyn sicrhau y gallant fanteisio ar y dysgu proffesiynol sy'n ofynnol er mwyn arwain trawsnewidiad dwys yn y ffordd y mae ein hymarferwyr a'n harweinwyr yn ystyried eu dysgu proffesiynol yn sgil y cwricwlwm newydd Rhoddwyd £7m arall i ysgolion ac UCDau yn 2020-2021.

**Argymhelliad 39. Bod rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau’n llwyr fod gan y cwricwlwm newydd ddull wedi'i deilwra i unigolion o ran y cwricwlwm a ddarperir i ddysgwyr mewn lleoliadau EOTAS (e.e. darpariaeth sy'n rhoi sylw i'w hanghenion dysgu ychwanegol, sy’n ystyried anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol, neu sy'n cydnabod ffactorau meddygol). Dylid cyflawni hyn trwy ddarpariaethau'r Bil a'r**

**canllawiau statudol sydd ar ddod ar weithredu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau EOTAS.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Mae'r cwricwlwm newydd yn galluogi dull gweithredu wedi'i deilwra i ddysgwyr a amlinellir yn ein canllawiau statudol i ymarferwyr. Caiff y cwricwlwm mewn lleoliadau EOTAS ei gynllunio, ei ddylunio a'i weithredu ar y cyd â'r dysgwr, y darparwr, yr ysgol a'r rhieni/gofalwyr a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion y dysgwr hwnnw. Bydd hefyd yn helpu'r dysgwr i ailintegreiddio yn ôl i addysg brif ffrwd ac yn ei alluogi i ddatblygu ymhellach i'r cam addysg nesaf neu i fyd gwaith.

Un o egwyddorion allweddol y canllawiau statudol newydd ar gyfer lleoliadau EOTAS yw bod yn rhaid i'r gwaith o gynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm hwyluso lles pob dysgwr. Dylai'r dysgu gefnogi lles meddwl, lles emosiynol, lles corfforol a lles cymdeithasol dysgwyr. Mae lles yn alluogwr dysgu hanfodol – ni fydd dysgwyr nad ydynt yn fodlon, yn ddiogel ac yn sicr yn dysgu'n effeithiol.

Rydym yn glir bod EOTAS wedi'i dylunio ar gyfer lleoliadau byrdymor er mwyn helpu dysgwyr i ddychwelyd i addysg brif ffrwd, er ein bod yn cydnabod y bydd rhai dysgwyr yn parhau mewn lleoliadau EOTAS drwy gydol eu haddysg orfodol.

**Argymhelliad 40. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'n llwyr fod y cwricwlwm a ddarperir mewn lleoliadau EOTAS yn galluogi disgyblion i ailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd, lle bo'n briodol ac yn bosibl, trwy ddarpariaethau'r Bil a'r canllawiau statudol sydd ar ddod ar weithredu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau EOTAS.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Mae'r canllawiau statudol ychwanegol yn nodi y caiff y cwriwlwm newydd ei gynllunio, ei ddylunio a'i weithredu er mwyn helpu i ailintegreiddio dysgwyr sy'n cael EOTAS i mewn i ddarpariaeth brif ffrwd neu ddarpariaeth arbenigol, a/neu i'w galluogi i wneud cynnydd tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu'r byd gwaith.

Rydym yn datblygu Canllawiau Atgyfeirio a Chomisiynu EOTAS a fydd yn rhoi cyngor ar ein disgwyliadau ynghylch ailintegreiddio. At hynny, bydd y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn seiliedig ar anghenion dysgwyr a gellir ei newid neu ei ddiweddaru dros amser er mwyn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau newidiol.

**Argymhelliad 41. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro pa fecanweithiau sy'n bodoli i rieni a dysgwyr herio'r cwricwlwm a gynigir i ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol os ydynt yn credu nad yw'n bodloni'r gofynion o dan y Bil.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Mae mecanweithiau yn bodoli eisoes i rieni a/neu ddisgyblion herio'r ddarpariaeth gwricwlaidd mewn UCDau. Mae Atodlen 1 o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi bod yn rhaid i bob ALl wneud trefniadau i ystyried ac ymateb i unrhyw gŵyn sy'n awgrymu bod yr awdurdod, neu'r athro sy'n gyfrifol am unrhyw uned cyfeirio disgyblion yng Nghymru, wedi gweithredu neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol mewn perthynas ag arfer unrhyw bŵer sydd ganddo, neu wrth gyflawni unrhyw ddyletswydd sydd arno, mewn perthynas â darparu'r cwricwlwm neu ei fod wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd o'r fath.

Os byddant yn anfodlon o hyd ar ôl atgyfeirio'r mater i'r ALl, gallant ofyn i Weinidogion Cymru arfer eu bwerau ymyrryd yn Rhan 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 os byddant o'r farn bod unrhyw sail ymyrryd a nodir yn y Ddeddf honno yn gymwys.

Ar gyfer EOTAS nad ydynt yn UCDau, byddai'r her mewn perthynas â'r ALl a wnaeth y trefniadau.

**Argymhelliad 42. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y dylid dehongli "galluedd i ddeall" at ddibenion y Bil. Gallai hyn gynnwys canllawiau ar y ffactorau y dylai penaethiaid a chyrff llywodraethu eu hystyried wrth benderfynu a oes gan ddisgybl y galluedd i ddeall.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Rydym yn bwriadu cynnwys eglurhad ar hyn yn y canllawiau statudol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i benaethiaid a chyrff llywodraethu.

**Argymhelliad 43. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r rhesymau pam na fydd eithriadau ychwanegol i ofynion y cwricwlwm o dan reoliadau a wneir o dan adran 50 o reidrwydd yn amodol ar fodloni'r gofynion cwricwlwm cyffredinol, yn wahanol i eithriadau y darperir ar eu cyfer gan adrannau eraill o'r Bil.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i ddisgyblion rhwng 14 ac 16 astudio rhywbeth o bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r holl elfennau gorfodol. Os daw Gweinidogion Cymru yn ymwybodol o unrhyw gulhau'r cynnig cwricwlwm ar gyfer y garfan hon gallent wneud rheoliadau o dan adran 25 o'r Bil. [Mae adran 25 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru nodi gofynion pellach ar gyfer cwricwlwm ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed.]

Gellir defnyddio'r pŵer yn adran 25 i fynnu bod rhywbeth yn cael ei gynnwys mewn cwricwlwm, neu i'w gwneud yn ofynnol i rywbeth beidio â chael ei gynnwys. Pe bai tystiolaeth bod rhai ysgolion yn cynnig cwricwlwm cul i'r grŵp oedran hwn, neu ddim yn darparu cyrsiau astudio sy'n arwain at rai cymwysterau, gellir defnyddio'r pŵer hwn i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Mae'r rhaglen ymchwil a gwerthuso, fel y'i crynhoir ym Mhennod 11 o'r Memorandwm Esboniadol, yn cynnwys tasgau i nodi a monitro buddiannau ac effeithiau anfwriadol y diwygiadau, ac i sicrhau y tynnir sylw Gweinidogion atynt.

**Argymhelliad 44. Bod Llywodraeth Cymru:**

- **yn rhoi sicrwydd y bydd fframwaith y cwricwlwm yn sicrhau cynnig digon eang i bobl ifanc 14 i 16 oed, gydag ystod eang o opsiynau cwrs ar gael, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol;**
- **yn monitro'r sefyllfa hon yn agos a pharhau i ystyried yr angen i wneud rheoliadau ar unwaith sy'n nodi gofynion pellach yn ôl yr angen.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion rhwng 14 ac 16 oed astudio rhywbeth o bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r holl elfennau gorfodol. Os daw Gweinidogion Cymru yn ymwybodol o unrhyw achos o gyfyngu'r ddarpariaeth gwricwlaidd i'r garfan hon, gallant wneud rheoliadau o dan adran 25 o'r Bil. Mae adran 25 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru nodi rhagor o ofynion ar gyfer cwricwlwm ar gyfer disgyblion 14-16 oed.

Gellir defnyddio'r pŵer yn adran 25 i'w gwneud yn ofynnol i rywbeth gael ei gynnwys mewn cwricwlwm neu i rywbeth beidio â chael ei gynnwys. Os bydd tystiolaeth bod rhai ysgolion yn cynnig cwricwlwm cyfyngol i'r grŵp oedran hwn, neu nad ydynt yn darparu cyrsiau astudio sy'n arwain at gymwysterau penodol, yna gellir defnyddio'r pŵer hwn i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Mae'r rhaglen ymchwil a gwerthuso, fel y'i crynhoir ym Mhennod 11 o'r Memorandwm Esboniadol, yn cynnwys tasgau i nodi a monitro buddiannau ac effeithiau anfwriadol y diwygiadau, ac i sicrhau y tynnir sylw Gweinidogion atynt.

**Argymhelliad 45. Bod Llywodraeth Cymru yn monitro’n agos sut mae’r pŵer a roddir i benaethiaid yn adran 33 yn cael ei ddefnyddio ac yn sicrhau, gan gynnwys drwy’r canllawiau statudol sy’n sail i’r cwricwlwm, na chaiff ei ddefnyddio i wrthod dewisiadau disgyblion yn ddiangen nac i atal dyheadau uchel i bob dysgwr**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Bydd hyn yn rhan o'r Adolygiad Ôl-weithredu a nodir ym Mhennod 11 o'r Memorandwm Esboniadol, a fydd yn broses ddysgu barhaus, gan gynnwys gwerthusiad o effeithiau'r cwricwlwm newydd. Nodir hefyd ym Mhennod 11 y bwriad i gynnal rhaglen ymchwil a gwerthuso, a fydd yn nodi sut y gellir casglu a chyflwyno tystiolaeth o ansawdd uchel ynghylch gweithredu'r diwygiadau a'u heffeithiau mewn ffordd ddibynadwy. Yn olaf, mae annog dyheadau uchel ymhlith pob dysgwr a dylunio cwricwla cynhwysol y gall pawb gymryd rhan ynddynt yn nodau hanfodol mewn perthynas â'r diwygiadau.

Mae'r rhaglen ymchwil a gwerthuso, fel y'i crynhoir ym Mhennod 11 o'r Memorandwm Esboniadol, yn cynnwys tasgau i nodi a monitro buddiannau ac effeithiau anfwriadol y diwygiadau, ac i sicrhau y tynnir sylw Gweinidogion atynt.

**Argymhelliad 46. Dylai Llywodraeth Cymru:**

- **yn sicrhau bod yr agwedd strategol tuag at y Cwricwlwm i Gymru a’r gwaith o’i weithredu yn cefnogi buddiannau disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anableddau yn llawn, a’u bod yn gyson â darpariaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018;**
- **yn monitro’r sefyllfa hon yn agos ac ystyried cryfhau’r cyfeiriadau at ADY ac anableddau mewn canllawiau ar weithredu’r cwricwlwm.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Mae'r system ADY a'r Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar egwyddorion cyffredin ac mae'r ddau wedi'u cynllunio i gyflwyno system addysg gynhwysol a chyfwerth. Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn cynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnwys plant o fewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir a'u cynnwys o fewn gweithgareddau ysgolion o'r fath ochr yn ochr â phlant nad oes ganddynt ADY (gweler adrannau 51 a 52 o'r Ddeddf honno). Ymhellach, bydd y broses o ddylunio'r Cwricwlwm i Gymru a'r egwyddor y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd ar hyd continwwm dysgu o 3-16 oed yn helpu i ddileu'r rhwystrau y mae cymdeithas ei hun yn eu gosod ar ddysgu y mae'n rhaid i blant ag ADY eu goresgyn er mwyn cyflawni eu potensial.

Dyluniwyd y Meysydd Dysgu a Phrofiad i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol i bob dysgwr, gan gynnwys y rheini ag ADY ac maent yn cynnig mwy o gyfleoedd i staff ddefnyddio eu gwybodaeth am sgiliau a galluoedd plentyn i nodi ffyrdd o ddarparu mynediad priodol a phenodol i'r cwricwlwm i blant ag ADY a'u rhoi ar waith. Mae canllawiau'r cwricwlwm yn cynnwys canllawiau penodol ar ADY yn y cwricwlwm ac mae swyddogion yn parhau i gydweithio ym mhob rhan o'r Gyfarwyddiaeth Addysg er mwyn helpu i sicrhau cysondeb rhwng y system ADY newydd, diwygiadau i'r cwricwlwm a'r rhaglen dysgu proffesiynol ehangach.

Mae'r rhaglen ymchwil a gwerthuso, fel y'i crynhoir ym Mhennod 11 o'r Memorandwm Esboniadol, yn cynnwys tasgau i nodi a monitro buddiannau ac effeithiau anfwriadol y diwygiadau, ac i sicrhau y tynnir sylw Gweinidogion atynt.

**Argymhelliad 47. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys, ar ei wyneb, ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl**

**ag Anableddau (UNCRPD). O ystyried eu priod rolau mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, dylid gosod y ddyletswydd hon ar bawb a restrir yn adran 66(3) o'r Bil wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Bil.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Datblygwyd y Bil i fod yn gwbl gynhwysol ac ni waeth beth yw galluoedd plentyn, mae'r hawl ganddo i addysgu a dysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru. Ceir camau diogelu pellach yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a chaiff hawliadau sy'n ymwneud ag achosion o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion eu gwrando yn y Tribiwnlys Addysg o dan y Ddeddf honno.

Mae CCUHPA, fel CCUHP, wedi'i anelu at wladwriaethau ac, felly, mater i Lywodraethau yw sicrhau cydymffurfiaeth drwy eu cyfreithiau, eu camau gweinyddol a mesurau priodol eraill. Mae hon yn egwyddor bwysig, ac oni bai bod y wladwriaeth yn darparu'r gwasanaeth yn uniongyrchol, nid yw'r Confensiwn hwn wedi'i dargedu at ddarparwyr gwasanaeth rheng flaen.

Ni fyddai gosod dyletswydd gyffredinol ar bersonau neu gyrff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil i roi sylw dyledus i CCUHP, ynddo'i hun, yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Ni fyddai'n gwarantu cam na chanlyniad penodol ac, yn ymarferol, gallai gael yr effaith groes a gweithio yn erbyn nodau dyletswydd o'r fath sy'n llawn bwriadau da. Dyletswyddau penodol ac ymarferol ar gyrff cyhoeddus fydd yn gwella canlyniadau, a dyma'r dull gweithredu rydym wedi'i fabwysiadu yn y Bil. Er enghraifft, mewn perthynas â darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â dewis disgybl a'r pŵer a roddir i benaethiaid benderfynu nad yw'r ddyletswydd i sicrhau dysgu ac addysgu yn gymwys.

Petaem yn gosod dyletswydd i roi sylw dyledus i CCUHP yn uniongyrchol ar y rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil, mae risg y byddem yn tynnu sylw ymarferwyr rheng flaen oddi ar y gwaith o gefnogi dysgwyr drwy greu haenau o fiwrocratiaeth – byddai'n rhaid i athrawon, ysgolion a chyrff llywodraethu ddangos eu bod wedi ystyried y Confensiwn wrth ryngweithio â phob plentyn a pherson ifanc, ac mae'n amheus y byddai'n sicrhau canlyniadau 'gwell' amlwg i blant.

**Argymhelliad 48. Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu'r Cod Cynnydd gyda'r bwriad o hyrwyddo'r dyheadau uchaf i bob dysgwr, gan eu cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cod Cynnydd drafft ym mis Ionawr 2019 er mwyn hyrwyddo'r dyheadau uchaf i bob dysgwr, gan eu cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn.

**Argymhelliad 49. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod y Cod Cynnydd yn ddarostyngedig i'r uwch-weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r uwch-weithdrefn negyddol. Dylai'r ddarpariaeth yn adran 72(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar y Cod Cynnydd (neu'r Cod diwygiedig) aros.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Dogfen broffesiynol dechnegol yw hon a ddatblygwyd gan gydweithio'n agos ag ymarferwyr. Nawr ac yn y dyfodol, bydd y cod hwn yn deillio o waith cyd-awduro. Mae sicrhau bod y gwaith hwnnw yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn bwrw amheuon ar y broses honno. Mae hefyd yn codi pryderon sylweddol o ran dilysrwydd y broses honno a'r gallu i ymddiried ynddi os caiff safbwyntiau ystyrlon ymarferwyr wedyn eu diystyru.

Mae'n debygol y caiff y Cod ei ddiweddaru er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol mewn ysgolion yn y tymor hwy ac rydym o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn cynnig y lefel briodol o hyblygrwydd er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd o fewn cyfnod amser rhesymol. Byddai unrhyw newidiadau i'r Cod yn cael eu cyd-awduro ag ymarferwyr, gan barhau i fanteisio ar eu barn a'u profiad proffesiynol.

Nid yw'r cod yn caniatáu i ni wneud rhai pethau penodol a fyddai'n cael eu hystyried yn bethau o bwysigrwydd arbennig fel gosod neu gynyddu trethiant; darpariaeth sy'n ymwneud â gwariant sylweddol gan y Llywodraeth; pwerau i greu darpariaethau troseddol anarferol neu gosbau sifil anarferol; neu bwerau i roi pwerau mynediad, arholi neu arolygu anarferol, neu ddarparu ar gyfer casglu gwybodaeth o dan bwerau gorfodi. Nid yw'r un o'r materion hyn yn gymwys yn yr achos hwn.

**Argymhelliad 50. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio adran 58(1) o'r Bil i ddileu "caiff" a rhoi "rhaid" yn ei le.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Byddwn yn gwneud rheoliadau er mwyn rhoi'r trefniadau asesu newydd ar waith yn effeithiol ac rydym yn fodlon diwygio'r broses hon yn ddi-au.

**Argymhelliad 51. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i sicrhau bod rheoliadau a wneir o dan adran 58 ynghylch trefniadau asesu yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Bydd yr is-ddeddfwriaeth a wneir o dan yr adran hon yn rhagnodi manylion gweithredol a thechnegol ac felly rydym o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn briodol. Hefyd mae'r rheoliadau sy'n rhagnodi trefniadau asesu ar hyn o bryd o dan Adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 yn dilyn y weithdrefn negyddol. Mae'r dull a gymerir yn y Bil hwn yn gyson â hynny.

Mae manylion y rheoliadau hynny yn dechnegol a chânt eu diweddaru'n aml er mwyn adlewyrchu ymarfer sy'n datblygu yn y maes hwn. Bydd defnyddio'r weithdrefn negyddol yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflymach i'r newidiadau hynny. Yn olaf, hoffem nodi hynny ni fydd y rheoliadau yn ymdrin â materion â goblygiadau strwythurol nac ariannol fel gosod dirwyon neu ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

**Argymhelliad 52. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad, yn barod ar gyfer gweithredu'r Bil, ar y gwaith parhaus y tu hwnt i'r Bil i ddiwygio trefniadau atebolrwydd ysgolion ac egluro sut y bydd hynny'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Yn ein diweddariad ar 'Cenhadaeth ein Cenedl', rydym yn nodi bwriad i lunio canllawiau gwella ysgolion anstatudol.

Bydd y canllawiau yn ffurfioli ac yn atgyfnerthu ein ffordd o ystyried sut y bydd y fframwaith gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn gweithio a sut y bydd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn nodi dull gweithredu cydlynol a chyson i ysgolion a'r haen ganol mewn perthynas â gwella ysgolion ac atebolrwydd, mewn un cyfres o ganllawiau cyffredin, am y tro cyntaf.

Bu swyddogion yn gweithio gyda grŵp eang o randdeiliaid i ddatblygu'r canllawiau a byddant yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd gyda'r bwriad o lunio canllawiau i'w defnyddio o fis Medi 2021.

**Argymhelliad 53. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y canllawiau asesu a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar asesiad athrawon ac adborth i ddysgwyr.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Rydym wedi cyhoeddi canllawiau cynhwysfawr fel rhan o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru,

**Argymhelliad 54. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fydd y canllawiau sydd i'w cyhoeddi ar asesu yn statudol, ac os nad ydynt yn statudol, ystyried a oes angen iddynt fod.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Bydd y canllawiau sydd i'w cyhoeddi ar asesu yn statudol.

**Argymhelliad 55. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru i barhau gyda chyflymder â'r gwaith i ddiwygio cymwysterau, gan sicrhau bod y cymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 16 oed a'r Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd cymaint â phosibl.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle newydd i ystyried rôl a natur y cymwysterau a gaiff eu hastudio gan ddisgyblion 16 oed ac mae Cymwysterau Cymru wedi chwarae ran weithredol yn y broses o ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n parhau i wneud hynny, er mwyn sicrhau cysondeb. Maent hefyd yn ceisio sicrhau cysondeb pellach rhwng ei waith adolygu sectorau a'i waith ar ddatblygu cymwysterau er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd.

Mae Cymwysterau Cymru yn ymgymryd â rhaglen ymgynghori tri cham i adolygu a diwygio'r ddarpariaeth cymwysterau er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Ystyriodd y cam cyntaf yr egwyddorion a ddylai lywio'r amrywiaeth o gymwysterau i ddisgyblion 16 oed yn y dyfodol, a daeth i ben ym mis Chwefror 2020. Bydd y cam nesaf a fydd yn ystyried y prif gymwysterau a ddylai fod ar gael i ddisgyblion 16 oed eu hastudio yn dechrau'n gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Bydd yn ystyried pa gymwysterau a gaiff eu llunio yng Nghymru sydd eu hangen ac wedyn bydd yr ymgynghoriad yn ystyried sut y cânt eu dylunio a'u hasesu. Bydd y cymwysterau newydd ar gael i'w haddysgu gyntaf yn 2025 gyda'r arholiadau cyntaf yn cael eu cynnal yn 2027.

Mae Cymwysterau Cymru hefyd yn adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig o ran ystyried asesiadau digidol ac asesiadau mwy rheolaidd a/neu barhaus.

**Argymhelliad 56. Bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn cefnogi gwaith Cymwysterau Cymru yn ofalus wrth ddiwygio cymwysterau i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac, wrth gynnal rôl Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol, yn rhoi arweiniad a chyfeiriad clir i sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau ar y trywydd iawn.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru er mwyn helpu i ddiwygio cymwysterau a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae trefniadau atebolrwydd cadarn ar waith er mwyn goruchwylio'r broses gyflwyno a rheoli risgiau allweddol.

**Argymhelliad 57. Bod Llywodraeth Cymru, yn sgil ein casgliad bod y rhwystrau posibl a nodwyd fel rhan o'n gwaith craffu Cyfnod 1 yn peri risgiau sylweddol i weithredu'r Bil yn llwyddiannus, yn cymryd y camau isod:**

- **bwrw ymlaen yn gyflym â'i bwriad i adolygu'r ddogfen 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022' a defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r ymarfer hwnnw, ac unrhyw gyngor arall gan yr OECD, i lywio proses weithredu'r Bil (gan gynnwys yr amserlenni perthnasol);**
- **nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i fodloni ei hun a rhanddeiliaid y gall pob lleoliad weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn effeithiol o'r cychwyn cyntaf.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Cyhoeddwyd 'Y daith i 2022' gennym ym mis Hydref, yn seiliedig ar drefniadau cydweithio â chonsortia rhanbarthol ac Estyn. Byddwn yn parhau i'w fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.

Fel y nodwyd yn ein diweddariad ar 'Cenhadaeth ein Cenedl', rydym yn datblygu cynllun gweithredu i nodi'r camau y bydd y system yn eu cymryd i helpu pob lleoliad i roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn effeithiol o'r cychwyn cyntaf. Fe'i cyd-ddatblygwyd gyda'r consortia rhanbarthol ac Estyn. Caiff y broses ei chefnogi gan Rwydwaith Cenedlaethol a fydd yn dod â gwneuthurwyr polisi, partneriaid galluogi ac ymarferwyr ynghyd er mwyn deall yr heriau a'r rhwystrau gweithredu sy'n wynebu ysgolion ac ymdrin â nhw'n well. Bydd y gwaith yn parhau ar sail cyd-awduro, cydweithio ac ymgysylltu. Bydd y cynllun gweithredu hefyd yn nodi trefniadau ar gyfer gwerthuso'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm. Byddwn yn anelu at gyhoeddi'r cynllun gweithredu hwn ar ddechrau 2021.

Mae pob un ohonom yn cydnabod effaith sylweddol y pandemig ar ysgolion, ond mae Estyn wedi cadarnhau bod cryn dipyn o frwdfrydedd a chefnogaeth o blaid diwygio'r cwricwlwm o hyd. Mae Estyn hefyd yn nodi bod ysgolion wedi cymryd camau pwysig o ran cynllunio a darparu dysgu ers mis Mawrth.

**Argymhelliad 58. Bod Llywodraeth Cymru, gan ystyried effaith COVID-19, yn rhoi sicrwydd cyn diwedd hynt y Bil drwy'r Senedd y bydd yn gwneud y canlynol:**

- **asesu i ba raddau y mae'r pandemig wedi effeithio ar gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol;**
- **ymrwymo i ddarparu'r cymorth ychwanegol sylweddol y credwn y bydd ei angen i wneud iawn am effaith y pandemig ar ddysgu a datblygu proffesiynol;**
- **rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae gwaith cymheiriaid a gwaith clwstwr yn cefnogi dysgu a datblygu proffesiynol, ac yn ôl pa amserlenni.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn mewn egwyddor yr argymhelliad hwn.** O ran asesu i ba raddau y mae'r pandemig wedi effeithio ar gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol, rydym yn parhau i weithio gydag arweinwyr dysgu proffesiynol y consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill er mwyn pennu cwmpas llawn pandemig a deall ei effaith ar ddysgu proffesiynol. Rydym wedi parhau i gyfarfod â'r grwpiau a sefydlwyd fel rhan o'n hymateb "Parhad Dysgu" er mwyn deall a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â Dysgu Proffesiynol parhaus. Rydym yn ymwybodol o ymdrechion parhaus gan ysgolion i barhau i gynnig gweithgareddau dysgu proffesiynol drwy gydol y pandemig. Er mai ffocws y dysgu proffesiynol hwnnw oedd y sgiliau a'r technolegau yr oedd eu hangen i ymateb i ofynion dysgu o bell a dysgu cyfunol, mae ysgolion ac ymarferwyr yn parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni fel y Rhaglen Ymholi Proffesiynol Genedlaethol. Byddwn yn parhau i roi adborth a sicrwydd ar gynnydd yn y maes hwn.

Gwnaed y buddsoddiad mwyaf mewn dysgu proffesiynol ers datganoli (gan ryddhau tua £31 miliwn yn uniongyrchol i ysgolion dros y 30 mis diwethaf). Cydnabyddir yn amlwg bod buddsoddi mewn dysgu proffesiynol yn elfen hanfodol wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd, a

bod angen amser a chyfleoedd i ysgolion ac ymarferwyr ymgysylltu. Byddwn yn parhau i adolygu'r buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol yn sgil tystiolaeth a ddaw i'r amlwg.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith cymheiriaid a'r gwaith clwstwr maes o law.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phob ysgol a lleoliad fel rhan o'r Cynllun Gweithredu a'r rhaglen ymchwil a gwerthuso. Caiff costau eu monitro a'u hadolygu fel rhan o hyn.

**Argymhelliad 59. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd am sut y mae cynlluniau ar gyfer ymgysylltu, cyd-awduro, cydweithredu a chyfathrebu sy'n ymwneud â gweithredu'r cwricwlwm newydd wedi cael eu haddasu—a sut y byddant yn parhau i gael eu haddasu—i ystyried effaith COVID-19.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Rydym wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn deall effaith a goblygiadau COVID-19. Diwygiwyd 'Y Daith i 2022' yn sgil hyn, ac mae'n glir o ran y dulliau gweithio rydym yn disgwyl eu gweld ym mhob rhan o'r system addysg wrth roi'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar waith. Nododd hefyd yn glir ein bod yn cydnabod bod effaith y pandemig yn golygu y bydd ysgolion ar wahanol gamau yn eu teithiau cwricwlaidd, ac y bydd cyflymder a ffocws gweithgareddau yn amrywio'n naturiol rhwng ysgolion.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn ystyried y cyd-destun anodd y mae'r proffesiwn yn ei wynebu yn sgil effaith COVID-19. Bydd yn gwneud hyn drwy nodi'n glir pa gymorth y gall ysgolion ei ddisgwyl gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn ystod y cyfnod gweithredu, a phryd y gallant ddisgwyl ei gael.

Yn yr un modd, byddwn yn sicrhau bod y broses o ddylunio'r Rhwydwaith Cenedlaethol – a fydd yn ymdrin â rhwystrau gweithredu drwy gyd-awduro – yn ystyried effaith y pandemig. Byddwn yn sicrhau nad yw'n ofynnol i ysgolion ymgysylltu ar unwaith, ond y cânt gefnogaeth lawn i wneud hynny pan fyddant mewn gwell sefyllfa i ymgysylltu a'n bod yn gweithredu mewn ffordd glir ac yn pennu blaenoriaethau er mwyn sicrhau y gall ysgolion ymgysylltu mor effeithiol â phosibl pan fyddant yn gallu gwneud hynny.

**Argymhelliad 60. Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i sicrhau, fel rhan o'r gwaith o baratoi at y ddeddfwriaeth hon a'i chyflwyno, y ceisir arbenigedd allanol i lywio cwricwla ac adnoddau addysgol ysgolion. Dylid datblygu'r deunyddiau a'r adnoddau hyn yn genedlaethol yn y ddwy iaith ond dylent fod yn addas i'w haddasu'n lleol, yn unol â'r egwyddor sybsidiaredd sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Rhan o waith y Rhwydwaith Cenedlaethol fydd llywio a dylanwadu ar yr adnoddau a'r deunyddiau ategol sydd eu hangen i helpu ysgolion ac ymarferwyr. Fel y dywed y Pwyllgor, bydd angen i hyn gydnabod a chefnogi'r egwyddor sybsidiaredd ond gan gynnig cymorth priodol i ysgolion ar yr un pryd. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig ymgysylltu ag amrywiaeth o arbenigwyr allanol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn.

Mae seilwaith newydd i sicrhau bod adnoddau addysgol o ansawdd uchel ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd hyn yn cynnwys nodi adnoddau i fodloni'r gofynion ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Bydd ymarferwyr addysg yn greiddiol i'r dull gweithredu Cymru gyfan hwn a fydd yn cynnwys llunwyr cynnwys a chyhoeddwyr o bob sector.

**Argymhelliad 61. Bod Llywodraeth Cymru, cyn dechrau Cyfnod 3, yn cynnal asesiad o ddichonoldeb yr amserlenni a gynlluniwyd ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, rydym yn pwysleisio nad ydym yn credu y dylai amserlen y Bil newid nac yn dod i'r casgliad bod angen oedi i'r amserlenni gweithredu, ond bod ystyried yr hyn sy'n ymarferol yn ddoeth yn sgil effaith pandemig COVID-19.**

**Rwy’n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn mewn egwyddor yr argymhelliad hwn.** Drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol, byddwn yn gweithio'n agos gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddeall y rhwystrau i weithredu ac effaith bosibl y rhain ac i gyd-awduro cymorth i sicrhau yr ymdrinnir â nhw. Rydym wedi monitro'r sefyllfa'n agos ac ar hyn o bryd mae'r amserlenni cyffredinol yn parhau i fod yn realistig.

**Argymhelliad 62. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu’r ffordd y gweithredir y Bil a'i ddarpariaethau.**

**Rwy’n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Drwy gynllun gweithredu'r cwricwlwm, byddwn yn nodi ein cynlluniau ar gyfer gwerthuso cynnydd a llwyddiant y diwygiadau dros y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Defnyddir y Rhwydwaith Cenedlaethol fel cyfrwng i ddeall cynnydd y diwygiadau a'r broses o'u gweithredu. Nid oes angen gofyniad deddfwriaethol gan y bydd y broses yn defnyddio trefniadau cyd-awduro ag ymarferwyr yn hytrach na gwaith gan Weinidogion Cymru yn unig.

**Argymhelliad 63. Y dylai Llywodraeth Cymru, cyn cyhoeddi Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 2, a chyda golwg ar amcangyfrif costau mwy cynrychioliadol a chywir, wneud rhagor o waith ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai hwn fanteisio ar wybodaeth gan ysgolion na chawsant eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd i'r un graddau ag Ysgolion Braenaru.**

**Rwy’n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Datgelodd ein gwaith gydag Ysgolion Arloesi i asesu costau yn glir bod amcangyfrif y costau i ysgolion yn gofyn am ddyfnder dealltwriaeth gan bob ysgol o'r diwygiadau a'u goblygiadau, ystyried anghenion dysgu proffesiynol ymarferwyr, ac amcangyfrif o'r newidiadau y bydd angen iddynt fod gwneud. Ni fydd yn bosibl ymgymryd â'r dasg hon a'i chwblhau'n ystyrlon cyn Cyfnod 3, a heb roi baich sylweddol ar ysgolion.

Bydd y rhaglen ymchwil a gwerthuso, a nodir ym Mhennod 11, ac a esbonnir yn fanylach mewn ymateb i argymhellion 1 a 9, yn asesu'r costau sy'n dod i'r amlwg ac anghenion cymorth eraill ymhlith sampl gynrychioliadol o ysgolion, wrth i'r sector ehangach ddod yn fwy hyderus ynghylch y gofynion a'u goblygiadau o ran dysgu proffesiynol ac o ran adnoddau eraill.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn ddiweddarach yn 2021.

**Argymhelliad 64. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddiweddaru â’r wybodaeth ar gostau a ddarperir gan randdeiliaid allweddol a gafodd eu hatal rhag gwneud eu gwaith oherwydd pandemig COVID-19, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu’n llawn yn y Memorandwm Esboniadol a gaiff ei gyhoeddi ar ôl Cyfnod 2.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Yn dilyn y wybodaeth ddiweddaraf a roddwyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 5 Tachwedd ac i'r Pwyllgor Cyllid ar 20 Tachwedd, byddwn yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu'r wybodaeth honno.

**Argymhelliad 65. Y dylai Llywodraeth Cymru nodi yn eglur y bydd yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn llwyddiannus yn cael eu darparu, i leddfu'r pryderon y bydd cyfyngiadau presennol ar gyllid ysgolion, newidiadau eraill i'w gweithredu fel trawsnewid ADY, ac effaith COVID-19 yn golygu na fydd ysgolion yn gallu ariannu'r diwygiad uchelgeisiol hwn.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn.** Pennwyd y goblygiadau cyllido ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru y tu hwnt i 2020-21 fel rhan o Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd. Cafodd yr adnoddau ariannol sydd ar gael er mwyn helpu i weithredu'r Bil eu cyhoeddi fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22 ar 21 Rhagfyr.

Er bod Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU wedi cynnig rhywfaint o eglurder mewn perthynas â chyllid Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r trawsnewidiad parhaus yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr UE a'r gwaith o adfer yn dilyn pandemig COVID-19, bydd her ddigynsail yn ein hwynebu wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid cyflenwi i lywio gofynion cyllido ar gyfer y dyfodol ac i sicrhau y caiff y Cwricwlwm newydd i Gymru ei roi ar waith yn effeithiol.

**Argymhelliad 66. Dylai Llywodraeth Cymru:**

- **ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu'r pryderon a godwyd yn ein gwaith craffu Cyfnod 1 ar raddfa'r dysgu proffesiynol sydd ei angen i weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn llwyddiannus;**
- **darparu costau amcangyfrifedig diwygiedig yng ngoleuni'r diweddariad hwnnw;**
- **ymrwymo i ddarparu'r cyllid sydd ei angen i ddarparu'r lefel hon o ddysgu proffesiynol.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn mewn egwyddor yr argymhelliad hwn.** Dros y 3 mlynedd diwethaf, dyfarnwyd £31 miliwn i gonsortia rhanbarthol er mwyn rhoi Rhaglen Datblygu genedlaethol Cwricwlwm i Gymru ar waith yn llawn er mwyn paratoi pob ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Rhagwelir y bydd cyllid o **£15m** y flwyddyn yn parhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol, a disgwylir iddo gael ei ddefnyddio er mwyn helpu i wrthbwyso'r gost i ysgolion. Rhagwelir y daw'r cyllid dysgu proffesiynol ychwanegol i ysgolion i ben yn 2025-26, gan y bydd y cwricwlwm newydd wedi'i ymsefydlu erbyn hynny.

Rydym yn cydnabod bod dysgu proffesiynol hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn ymwybodol o'r cwricwlwm newydd a'i fod yn ymgysylltu ag ef a bod gan ymarferwyr y sgiliau priodol mewn perthynas â'r cwricwlwm wedi'i arwain gan ddibenion.

Rydym yn cydnabod y bydd dysgu proffesiynol yn hanfodol wrth gefnogi'r sector nas cynhelir cyn i'r cwricwlwm ddod yn ofynnol yn hydref 2022. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid o'r sector nas cynhelir i bennu'r ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu pecyn dysgu proffesiynol priodol, a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cefnogi.

Bydd y trafodaethau a'r ymgysylltiad parhaus ag ysgolion a lleoliadau yn parhau trwy'r Cynllun Gweithredu'r Cwricwlwm, Rhwydwaith Cenedlaethol a bydd y rhaglen Ymchwil a

Gwerthuso yn ystyried digonolrwydd parhaus y ddarpariaeth dysgu proffesiynol. Rydym yn ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn 2021.

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd, MS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Ionawr 2021

Annwyl Llyr,

**Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am eu craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr 2020.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A. I grynhoi, rwyf wedi derbyn (neu wedi derbyn yn rhannol) naw o'r argymhellion.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn copïo'r llythyrau at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil symud ymlaen trwy broses y Senedd.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cc. Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cc. Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

**Atodiad A: Ymateb i Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid Casgliadau ac Argymhellion**

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn diffinio ac yn gwerthuso llwyddiant y Cwricwlwm newydd ac yn amlinellu hyn mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Mae ein rhaglen Ymchwil a Gwerthuso yn cael ei datblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm, gyda chyfranogiad agos rhanddeiliaid ac ymarferwyr. Ers cyhoeddi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi bod yn paratoi manyleb ar gyfer ymarfer cyntaf y rhaglen – astudiaeth gwmpasu – a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Cytuno ar ddiffiniadau o barodrwydd, cynnydd a llwyddiant, beth sy'n gysylltiedig â nhw, a sut y cânt eu hasesu.
- Asesiad o barodrwydd, er mwyn deall pa mor bell y mae angen i bob un o haenau'r system deithio, y cymorth y bydd ei angen ar leoliadau er mwyn bod yn gwbl barod, a sut y gallwn ni a'r haen ganol ddarparu'r cymorth hwnnw.
- Cynllun ymchwil cadarn er mwyn monitro parodrwydd, cynnydd a llwyddiant yn barhaus, dros gyfnodau amser byrdymor, tymor canolig a hirdymor.
- Archwiliad data er mwyn deall pa wybodaeth sydd gennym, a pha wybodaeth y bydd ei hangen arnom, i werthuso llwyddiant yn erbyn amrywiaeth o ddangosyddion (y nodir rhai ohonynt yn y cynllun gweithredu).
- Cyfres o linellau sylfaen a sefyllfaoedd gwrthffeithiol i'n galluogi i nodi tystiolaeth o effaith y diwygiadau.

Byddwn yn bwrw ati i ddiffinio a gwerthuso cynnydd a llwyddiant mewn ffordd gydweithredol, gan gynnwys safbwyntiau a chyfraniad ein haen ganol a rhanddeiliaid academaidd, y mae eu rôl wrth arolygu, herio, cynnal ymchwil a rhoi cymorth i leoliadau yn gwneud cyfraniad allweddol at ein gallu i ddeall cynnydd gweithredu ac anghenion cymorth.

Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr astudiaeth gwmpasu, gan gynnwys yr asesiad o barodrwydd a chynlluniau manwl ar gyfer gwaith ymchwil a gwerthuso parhaus cyn diwedd 2021.

Bydd y canlyniadau hyn yn llywio'r broses o gomisiynu contractwr ymchwil i roi 5 mlynedd gyntaf y rhaglen Monitro a Gwerthuso ar waith wedi'i ymrwymo yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio, gan ddechrau yn 2022.

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith pellach i asesu'r costau i ysgolion ac yn ymgysylltu ag ysgolion heblaw Ysgolion Braenaru ynghylch y costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai'r wybodaeth a gesglir gael ei chyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Datgelodd ein gwaith gydag Ysgolion Braenaru i asesu costau yn glir y bydd angen parhau i amcangyfrif y costau i ysgolion. Mae angen dealltwriaeth fanwl o'r diwygiadau a'u goblygiadau, mae angen ystyried anghenion dysgu proffesiynol ymarferwyr, ac mae angen amcangyfrif amrywiaeth eang o newidiadau y bydd angen eu gwneud.

Bydd y rhaglen Ymchwil a Gwerthuso, a nodir ym Mhennod 11, ac a esbonnir yn fanylach mewn ymateb i argymhellion 1 a 9, yn parhau i asesu'r costau sy'n dod i'r amlwg ac

anghenion cymorth eraill ymhlith cynrychiolaeth ehangach o ysgolion. Bydd cywirdeb yr amcangyfrifon hyn yn gwella wrth i'r sector ddod yn fwy hyderus ynghylch y gofynion a'u goblygiadau o ran dysgu proffesiynol ac o ran adnoddau eraill.

Bydd y broses o gyd-awduro'r canllawiau manwl, sydd wedi dechrau ac sy'n parhau, yn darparu cryn dipyn o fanylion o ran sut y gellid rhoi'r diwygiadau ar waith a'r costau. Byddwn yn darparu diweddariad i'r Senedd ar gostau yn 2021.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â’r sail ar gyfer yr ystod o +/- 50 y cant o ran costau ysgolion**

**Rwy’n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn crynhoi'r gwaith ymchwil ag ysgolion a'r penderfyniad i ddefnyddio +/- 50%

Mae tudalennau 66 a 67 (paragraffau 8.48 i 8.50) yn nodi'r dulliau dadansoddi yn fanylach ac yn nodi rhesymeg dros y penderfyniad, gan esbonio'n gyntaf y sefyllfa mewn perthynas â chostau ymgorfforedig, ac wedyn y sefyllfa mewn perthynas â'r diwrnodau y byddai angen athrawon cyflenwi ar eu cyfer (costau uniongyrchol).

Darperir y ffigurau ar gyfer y canlynol:
- cyfanswm y diwrnodau yn Nhabl 10 ar dudalen 107, gyda disgrifiad o'r tabl ym mharagraff 8.232 ar y dudalen flaenorol;
- y diwrnodau cyflenwi sydd eu hangen (costau uniongyrchol) yn nhabl 11 ar dudalen 109, gyda disgrifiad o'r tabl ym mharagraff 8.234 ar y dudalen flaenorol;
- costau cyfle (ymgorfforedig) ar dabl 13 ar dudalen 111, gydag esboniad ar dudalen 111-112.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i ddiffinio ac amcangyfrif y costau ar gyfer 'addysg heblaw yn yr ysgol' a chostau trefniadau asesu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn yn rhannol yr argymhelliad hwn.** Mae'r cwricwlwm newydd yn galluogi dull gweithredu wedi'i deilwra i ddysgwyr a amlinellir yn ein canllawiau statudol i ymarferwyr. Caiff y cwricwlwm mewn lleoliadau EOTAS ei gynllunio, ei ddylunio a'i weithredu ar y cyd â'r dysgwr, y darparwr, yr ysgol a'r rhieni/gofalwyr a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion y dysgwr hwnnw.

Fel rhan o'n gwaith cyd-awduro parhaus gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill, byddwn yn meithrin dealltwriaeth gliriach o gostau tebygol y broses weithredu.

Bydd Cynllun Gweithredu'r Cwricwlwm a'r rhaglen ymchwil a gwerthuso yn nodi'r angen am adnoddau ychwanegol ac unrhyw oblygiadau o ran costau.   Bydd y rhaglen ymchwil a gwerthuso yn cynnwys darpariaeth EOTAS. Bydd yn parhau i ystyried y cymorth sydd ei angen ar y sector ac effeithiau'r diwygiadau i'r sector hwn wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Wrth wneud hyn, bydd y rhaglen yn diffinio ac yn amcangyfrif costau wrth i'r sector ddod yn fwy cyfarwydd â goblygiadau'r gofynion newydd a'r pellter y mae angen iddo deithio i'w bodloni.

O ystyried ein bod yn gweithio ar y dull gweithredu yn barhaus gyda'n rhanddeiliaid, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn 2021.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion y fformiwla ar sail athrawon a ddefnyddir i ariannu ysgolion yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y ffyrdd eraill y mae ysgolion yn cael cyllid er mwyn cynorthwyo tryloywder**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae'r cyhoeddiad blynyddol, y cyfeirir ato'n aml fel y "Llyfr Gwyrdd", yn darparu gwybodaeth gefndir a ddefnyddir i gyfrifo'r setliadau refeniw a chyfalaf i awdurdodau unedol a heddluoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar yr Asesiad Gwario Safonol ar gyfer addysg. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn nodi sut y caiff swm y setliad ei gronni a'i gyfrifo, a'r fformiwlâu a ddefnyddir ar gyfer y dyraniadau tybiannol yn y setliad llywodraeth leol heb ei neilltuo ar gyfer addysg. Y meysydd gwasanaeth perthnasol ar gyfer ysgolion yw addysgu ysgolion Meithrin a Chynradd a gwasanaethau eraill, addysgu ysgolion Uwchradd a gwasanaethau eraill ac Addysg Arbennig. Mae'r fformiwlâu hyn yn seiliedig ar gyfuniad o niferoedd disgyblion, gwledigrwydd a ffactorau amddifadedd.

Darperir dolen i'r Llyfr Gwyrdd i gyfeirio ato – https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/setliad-refeniw-llywodraeth-leol-cymru-2020-i-2021_0.pdf

Yn ogystal, cyhoeddir pob grant i awdurdodau lleol ynghyd â'r setliad Llywodraeth Leol bob blwyddyn yn nhabl saith y tablau setliadau -

https://llyw.cymru/setliad-refeniw-chyfalaf-llywodraeth-leol-terfynol-2020-i-2021

Wedyn, bydd gan awdurdodau lleol eu fformiwlâu dyrannu eu hunain ar gyfer ysgolion unigol. Mae cyllid cyffredinol awdurdodau lleol yn cynnwys cyfuniad o setliad heb ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru, grantiau penodol, treth gyngor a ffioedd a thaliadau. Gallant ddefnyddio'r holl ffynonellau hyn i gyllido ysgolion.

Cyhoeddwyd yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru a gynhaliwyd yn ddiweddar ym mis Hydref ac mae'n cynnwys trosolwg manwl, llawn gwybodaeth am y ddarpariaeth bresennol i blant yng Nghymru, gan gynnwys o ble y daw'r arian, pwy sy'n gwario'r arian, sut y mae wedi newid dros amser a beth y mae disgyblion yn ei gael o ran adnoddau gwirioneddol ar gyfer eu haddysg.

Mae'r adolygiad o gyllido ysgolion yn asesu'r gwahanol lefelau o gyllid sydd eu hangen, o dan wahanol amgylchiadau, i lywio polisïau ar gyllido ysgolion nawr ac yn y dyfodol er mwyn cefnogi ein diwygiadau addysg.

**Argymhelliad 6 Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r manylion am yr holl gostau suddedig sy'n ymwneud â'r Bil yn yr un rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Bydd yr holl gostau suddedig sy'n ymwneud â'r Bil yn yr un rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am ei thrafodaethau â rhanddeiliaid ynghylch y costau posibl i'r system addysg ôl-16 a chyhoeddi unrhyw fanylion am y goblygiadau ariannol.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Darparodd Llywodraeth Cymru y manylion yn y llythyr i'r Pwyllgor Cyllid ar 20 Tachwedd:

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr o'r sector addysg bellach (AB) ym mis Awst 2020 a rannodd safbwyntiau ar yr effaith bosibl ar y system addysg ôl-16. Gellir eu trefnu fel a ganlyn:

- goblygiadau ariannol i ddysgu a datblygiad proffesiynol yn y sector ôl-16;
- yr angen posibl am oriau addysgu ychwanegol mewn rhai pynciau os na cheir meysydd penodol o wybodaeth o'r cwricwlwm gorfodol newydd;
- yr angen i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y sector AB. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen cwblhau gweithgareddau pontio hefyd er mwyn sicrhau y caiff dysgwyr eu paratoi'n effeithiol i ddilyn cyrsiau ôl-16 ar gyfer pynciau penodol.

Mae Colegau Cymru yn cydnabod nad yw'r materion hyn o reidrwydd yn rhan o gwmpas ariannol y Bil sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm gorfodol ond maent o'r farn y bydd angen ystyried y costau hyn er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn llwyddo i gyflawni ei nodau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydgysylltu â Colegau Cymru er mwyn sicrhau eu bod wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer yr haen gyntaf o ddysgwyr yn 2027, gan fwydo i mewn i'r cynllun gweithredu ar gyfer Dysgu Proffesiynol Ôl-16 a'r Fframwaith Dysgu Proffesiynol i staff yn y sector ôl-16 fel y bo'n briodol. Caiff costau ariannol eu bodloni o gyllidebau sydd wedi'u neilltuo i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, gan adeiladu ar y swm o £124,000 a ddyrannwyd rhwng 2018-19 a 2020-21 i'r sector AB i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Caiff y gwariant hwn ei gynnwys yn llinellau 'Prosiect Diwygio'r Cwricwlwm' tablau 2 a 3 (tudalennau 78 a 79) o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Caiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn cyn Cyfnod 3.

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ynghylch sut y bydd yn adolygu'r costau a ddarperir gan randdeiliaid (ac yn rhoi gwybod i'r Senedd am y costau hynny) a'r amserlenni gweithredu.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn**. Ym mis Gorffennaf, gwahoddwyd nifer o randdeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol i Lywodraeth Cymru i lywio'r costau a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Roeddent yn cynnwys CLlLC, CCAC, Consortia Rhanbarthol, darparwyr AGA, Estyn, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, CCYSAGauC, yr Eglwys yng Nghymru a Colegau Cymru.

Nododd CCYSAGauC na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'i sefydliad. Nododd Estyn y bydd yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd o'i dyraniad cyllid craidd.

Fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 5 Tachwedd, mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi'r costau posibl i gyrff dyfarnu, yn deillio o'r newid mewn cymwysterau a sut y byddant o bosibl yn effeithio ar ganolfannau arholiadau. Mae'r sefyllfa bresennol o ran arholiadau a achoswyd gan y pandemig yn golygu bod yr ymarfer hwn yn anodd iawn o hyd. Mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad pellach ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn y Flwyddyn Newydd 2021. Wrth i'w waith ar gymwysterau fynd rhagddo, bydd cynigion yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân, a chaiff unrhyw

gostau i gyrff dyfarnu, ysgolion a rhannau eraill o'r sector sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau newydd, eu hystyried yn fanwl a'u cyhoeddi ar yr adeg briodol.

Rydym wedi cytuno ar gyllid i'r Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig i'w galluogi i ddatblygu canllawiau i gefnogi'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Daw'r cyllid hwnnw o gyllidebau sy'n bodoli eisoes. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn anelu at helpu ysgolion i ddatblygu cwricwlwm sy'n bodloni gofynion ehangach y fframwaith, ond gan fodloni eu gofynion fel ysgolion â chymeriad crefyddol hefyd. Mae'r Eglwys yng Nghymru a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn honni y byddai'r gofynion iddynt gyflwyno addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytunedig ac addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol yn golygu costau ac adnoddau ychwanegol i'w hysgolion. Mae gwaith ar y mater hwn yn parhau er mwyn sicrhau bod y gofynion i ysgolion â nodweddion crefyddol gyflwyno pob un o'r ddau faes llafur gofynnol yn briodol. Caiff unrhyw gostau ariannol eu talu o gyllidebau sydd wedi'u neilltuo i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Caiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiweddaru mewn perthynas â'r materion uchod cyn Cyfnod 3.

Bydd y rhaglen Ymchwil a Gwerthuso (a fydd yn cynnwys yr adolygiad ôl-weithredu) yn cynnwys tystiolaeth am y rhan a chwaraewyd gan bob rhanddeiliad wrth gyfrannu at y diwygiadau ac ymateb iddynt. Drwy wneud hyn, bydd y rhaglen yn casglu ac yn nodi gwybodaeth am gostau sy'n dod i'r amlwg i randdeiliaid, gan wella cywirdeb yr amcangyfrifon costau dros amser. Bydd hyn yn seiliedig yn rhannol ar y gwersi cyffredin a ddysgir drwy gyd-awduro'r canllawiau, gan gynnig manylion am yr hyn y mae angen iddo ddigwydd a sut. Byddwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn 2021.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn deall effaith a goblygiadau COVID-19. Diwygiwyd 'Y Daith i 2022' yn sgil hyn, ac mae'n glir o ran y dulliau gweithio rydym yn disgwyl eu gweld ym mhob rhan o'r system addysg wrth roi'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar waith. Nododd hefyd yn glir ein bod yn cydnabod bod effaith y pandemig yn golygu y bydd ysgolion ar wahanol gamau yn eu teithiau cwricwlaidd, ac y bydd cyflymder a ffocws gweithgareddau yn amrywio'n naturiol rhwng ysgolion.

Bydd y Cynllun Gweithredu’r Cwricwlwm yn ystyried y cyd-destun anodd y mae'r proffesiwn yn ei wynebu yn sgil effaith COVID-19. Bydd yn gwneud hyn drwy nodi'n glir pa gymorth y gall ysgolion ei ddisgwyl gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn ystod y cyfnod gweithredu, a phryd y gallant ddisgwyl ei gael.

Yn yr un modd, byddwn yn sicrhau bod y broses o ddylunio'r Rhwydwaith Cenedlaethol – a fydd yn ymdrin â rhwystrau gweithredu drwy gyd-awduro – yn ystyried effaith y pandemig. Byddwn yn sicrhau nad yw'n ofynnol i ysgolion ymgysylltu ar unwaith, ond y cânt gefnogaeth lawn i wneud hynny pan fyddant mewn gwell sefyllfa i ymgysylltu a'n bod yn gweithredu mewn ffordd glir ac yn pennu blaenoriaethau er mwyn sicrhau y gall ysgolion ymgysylltu mor effeithiol â phosibl pan fyddant yn gallu gwneud hynny.

**Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Memorandwm Esboniadol o ran ei chynigion ar gyfer gwerthuso'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys sut a phryd y mae'n bwriadu gwneud hyn.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac yn derbyn mewn egwyddor yr argymhelliad hwn.** Fel y nodwyd mewn ymateb i argymhelliad 1, mae'r rhaglen Ymchwil a Gwerthuso yn cael ei datblygu ar y cyd, ac ni fyddai'n bodloni gofynion canllawiau Llyfr Magenta Trysorlys EM i ni gadarnhau cynlluniau Ymchwil a Gwerthuso cyn

cwblhau astudiaeth gwmpasu. Mae amserlen ddangosol ar gyfer y rhaglen Ymchwil a Gwerthuso ar gael yn adran 11.7 o'r Memorandwm Esboniadol a bydd yn cael ei chynnwys yn Cynllun Gweithredu'r Cwricwlwm, gyda manylion llawn y gweithgareddau a'r allbynnau ymchwil i'w nodi yn 2021/22.

Caiff y Memorandwm Esboniadol ei ddiweddaru cyn Cyfnod 3 yn seiliedig ar y cynnydd hyd yn hyn wrth ddatblygu'r cynllun Ymchwil a Gwerthuso.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Ionawr 2021

Annwyl Mick

**Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr ar ran y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ('y Rheoliadau').

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am gadarnhad bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad ffurfiol o oblygiadau'r Rheoliadau o ran hawliau dynol. Hoffwn eich sicrhau y cynhaliwyd asesiad trylwyr iawn o'r darpariaethau a geir yn y Rheoliadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â Hawliau Dynol/Hawliau'r Confensiwn.

O ran y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Rheoliadau, rwy'n parhau i gredu ei fod yn rhoi barn deg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Rheoliadau.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

21 Rhagfyr 2020

Annwyl Julie

**Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Buom yn craffu ar **Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020** yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020, ac adrodd arnynt ar yr un diwrnod.

Yn ein **hadroddiad**nodwyd nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio'n benodol at y ffaith bod y rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau dynol a sut y maent o'r farn bod y darpariaethau'n gyfiawnadwy ac yn gymesur yng nghyd-destun yr hawliau hynny. Yn eich ymateb i'n cais i chi gyfiawnhau hyn, dywedasoch eich bod:

> "yn ystyried bod y Rheoliadau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol."

Fodd bynnag, nid yw'r ymateb hwn yn ateb ein cwestiwn a datganiad barn yn unig ydyw heb ddadansoddiad o sut y daethoch i'r farn hon. Y dadansoddiad hwn yr ydym yn gofyn amdano ac o ganlyniad, sut rydych yn barnu bod cyfiawnhad dros y darpariaethau a'u bod yn gymesur yng nghyd-destun hawliau dynol. Nodwn na wnaethoch fynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod y ddadl ar y Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Rhagfyr 2020.

Wrth ofyn am y wybodaeth hon, dylem ei gwneud yn glir nad ydym yn ceisio rhoi sylwadau ar amcanion polisi'r Rheoliadau. Fodd bynnag, mae gennym rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod is-ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â hawliau dynol. Yn yr achos hwn, rydym am sicrhau bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried hawliau dynol yn ofalus, gan gynnwys hawliau landlordiaid Erthygl 1 o Brotocol 1.

Felly, byddwn yn croesawu eglurhad eich bod wedi cynnal asesiad ffurfiol o oblygiadau hawliau dynol y Rheoliadau, esboniad ynghylch pam na chafodd ei gynnwys yn y

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Memorandwm Esboniadol a chyhoeddi canlyniad yr asesiad hwnnw cyn gynted â phosibl.

Codwyd pryderon tebyg yn ein hadroddiadau ar **Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020** a **Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020** â chyfnewid gohebiaeth ddilynol ym mhob achos.

Rydym yn pryderu am yr hyn sy’n ymddangos fel amharodrwydd Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am sut y gellir cyfiawnhau darpariaethau mewn Rheoliadau sy'n ymwneud â thenantiaethau a sut maent yn gymesur yng nghyd-destun hawliau dynol. Credwn fod hyn yn hanfodol nid yn unig o ran deddfu da (ac er budd pawb y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt) ond hefyd o ran ymrwymiad i lywodraeth agored a thryloyw.

Felly, rydym yn ceisio sicrwydd y bydd Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â Rheoliadau o'r fath, yn y dyfodol, yn cynnwys y wybodaeth hon, gan osgoi'r angen i'r Pwyllgor ofyn amdani bob tro.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
—
Welsh Parliament
**External Affairs and Additional Legislation Committee**

Mick Antoniw MS

Chair of the Legislation, Justice, and Constitution Committee

14 January 2021

Dear Mick,

European Union (Future Relationship) Act 2020

The Counsel General and Minister for European Transition ("the Counsel General") appeared before the External Affairs and Additional Legislation Committee on Monday 11 January 2021.

During the course of the session, we sought further information about the use of powers available to UK Ministers to legislate in areas of devolved competence, under the European Union (Future Relationship) Act 2020.

The Counsel General responded in the following terms:

> Our clear understanding is that there's no immediate need for any secondary legislation, so there isn't any immediate secondary legislation planned. That's partly by virtue of the operation of section 29 in the Act, which is a—what's the best way of putting this—an omnibus provision, I suppose would be the benign way of describing it, which effectively requires all domestic law to be interpreted in compliance or in conformity, rather, with the provisions of the agreement. That's highly unsatisfactory, obviously, for reasons that we will all be conscious of. But the one benefit of it is that it removes the immediate need for a whole raft of secondary legislation.
>
> The UK Government has made a commitment in the delegated powers memorandum for the Act to mirror the provision that appears in other arrangements to not normally legislate without the agreement of the Welsh Government in Wales. Obviously, we have similar commitments in other parts of our constitutional and Brexit arrangements. We have seen that work in parts, but not in other parts, obviously. And I think in terms of the role of the Senedd, we'll probably envisage using something like the Standing Order 30 mechanism to notify the Senedd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565


**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565

> where Welsh Ministers are consenting to the UK Government legislating, but that's very much a kind of evolving picture at the moment about how the Senedd can best be engaged in that, it seems to me.

Additionally, the Counsel General said that he would welcome a view from Senedd committees on how best to proceed with scrutiny arrangements.

We wanted to draw this to your attention, given the likely interest that the Legislation, Justice, and Constitution Committee would have in this matter.

Yours sincerely,



David Rees MS
Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon